WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

18 Hydref 2012
www.wao.gov.uk

# Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan



Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Emma Giles, Mark Jeffs, Mark Jones, Phil Pugh, Matthew Mortlock a David Rees. Arweiniwyd yr astudiaeth gan Mike Usher, Cyfarwyddwr Grŵp, a oedd yn atebol i Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol.

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae yntau'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2012

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhiad i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

**Cyflwynwyd yr adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Hydref 2012**



50% recycled paper
50% o bapur a ailgylchwyd

# Cynwys


## Crynodeb 8

Argymhellion 16

## 1 Er nad oedd yn glir ar ddechrau ein gwaith, rydym wedi pennu i Lywodraeth Cymru roi £7.15 miliwn mewn taliadau i AWEMA, gyda £3.01 miliwn arall wedi'i ymrwymo mewn egwyddor 18

Mae sylw yn y cyfryngau a sylwadau cyhoeddus ynghylch AWEMA wedi cynnwys cyfeiriadau aneglur a chamarweiniol at arian cyhoeddus AWEMA 18

Rhwng 25 Gorffennaf 2000 ac 20 Rhagfyr 2011, gwnaeth Llywodraeth Cymru £7.15 miliwn mewn taliadau i AWEMA, gyda'r gwariant blynyddol uchaf yn 2006-07 sef £1.24 miliwn 19

Mae arian Llywodraeth Cymru wedi cyflawni dibenion gwahanol ond, ers 2010-11 yn arbennig, mae wedi cefnogi costau gweithredu craidd AWEMA a phrosiectau Rhaglen Gydgyfeirio'r UE 21

Er iddo gael ei dalu i AWEMA i ddechrau, cafodd cryn dipyn o arian Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a phrosiectau wedi'u hariannu gan WEFO ei drosglwyddo i dalu costau a hawliwyd gan bartneriaid prosiect AWEMA 22

Cyn cyhoeddi bod ei harian yn dod i ben ar 9 Chwefror 2012, roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymrwymedig, mewn egwyddor, i roi £3.01 miliwn arall i AWEMA ar gyfer gweithgareddau tan 30 Mehefin 2014 22

Er bod AWEMA wedi gobeithio arallgyfeirio ei ffrydiau incwm, roedd bob amser wedi dibynnu'n sylweddol ar yr arian roedd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill 24

2 Bu’r ffordd y oedd Llywodraeth Cymru yn rheoli ac yn cydgysylltu ei harian grant i AWEMA rhwng mis Gorffennaf 2000 a mis Rhagfyr 2011 yn aml yn wan, ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ddylanwad gwleidyddol amhriodol ar benderfyniadau ariannu 28

Mae’r cymorth ariannol a roddwyd i AWEMA gan Lywodraeth Cymru wedi adlewyrchu amcanion polisi penodol, ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ddylanwad gwleidyddol amhriodol ar benderfyniadau ariannu 29

Roedd sefydlu AWEMA a’i datblygiad cynnar yn adlewyrchu pwyslais polisi ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a dyhead Llywodraeth Cymru i gyflawni ei gweithgarwch ymgysylltu allanol o ran cydraddoldeb hiliol drwy un corff 29

Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ddylanwad gwleidyddol amhriodol ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch ariannu AWEMA, er nad yw sail gyfan rhai o benderfyniadau ariannu Llywodraeth Cymru yn glir 30

Ar sawl achlysur, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod ceisiadau gan AWEMA am gymorth ariannol neu wedi cynnig llai o arian iddi na’r hyn a geisiwyd a bu cynigion eraill nad ydynt, am resymau amrywiol, wedi datblygu ymhellach 31

Bu’r ffordd yr oedd uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru, WEFO ac adrannau eraill yn rheoli ac yn cydgysylltu arian grant i AWEMA yn aml yn wan ac mae ymatebion i bryderon penodol ynghylch AWEMA wedi bod yn rhy gul eu ffocws 35

Mae perfformiad gwael a diffyg sefydlogrwydd yn yr uned cydraddoldebau wedi cyfrannu’n sylweddol at wendidau cyffredinol wrth reoli ei harian i AWEMA 35

Nid oedd WEFO wedi mynegi unrhyw bryderon penodol am gynnydd prosiectau AWEMA a ariannwyd gan yr UE yn erbyn eu hamcanion ond nid oedd ei threfniadau ar gyfer arfarnu a monitro’r prosiectau hyn yn ddigon trylwyr 56

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn adrannau eraill wedi bod yn fodlon, ar y cyfan, ar y gwaith a gefnogwyd gan yr arian a roddwyd ganddynt i AWEMA, er i ni nodi rhai gwendidau o ran trefniadau monitro 67

Pan oedd pryderon penodol ynglŷn ag AWEMA yn cael eu dwyn i sylw Llywodraeth Cymru, mae ei hymateb wedi bod yn rhy gul ei ffocws 73

# Cynnwys


## 3 Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarn i'r pryderon a gododd ynghylch AWEMA ym mis Rhagfyr 2011, ond bu'r gwaith o ymdrin â'r canlyniadau yn llafurus ac nid yw'r effaith ar arian cyhoeddus yn glir eto 75

Ar 29 Tachwedd 2011, cafodd un o swyddogion WEFO ei hysbysu am nifer o honiadau, gan gynnwys rhai materion ariannol, gan Brif Weithredwr AWEMA ond rhoddodd Prif Weithredwr AWEMA sicrwydd nad oedd unrhyw achosion o afreoleidd-dra ariannol mewn perthynas â phrosiectau a ariannwyd gan WEFO 75

Ni roddwyd gwybod am y materion a godwyd gan Brif Weithredwr AWEMA ar 29 Tachwedd 2011 yn fwy cyffredinol o fewn Llywodraeth Cymru nes i Gyfarwyddwr Cyllid a Phrif Weithredwr AWEMA gysylltu â WEFO ac uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ar wahân ar 19 Rhagfyr 2011 76

Gweithredodd Llywodraeth Cymru yn gadarn drwy gadw taliadau i AWEMA yn ôl mewn ymateb i'r honiadau a gafodd ar 19 Rhagfyr 2011 a chomisiynu adolygiad gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, er nad oedd modd atal taliadau WEFO o £529,000 77

Er nad yw canlyniad y broses ddiddymu yn hysbys eto, mae'n glir na fydd Llywodraeth Cymru yn adennill y rhan fwyaf o'r £545,966 y mae bellach yn credu sy'n ddyledus gan AWEMA 81

Mae WEFO wedi sefydlu trefniadau olynol ar gyfer prosiectau Rhaglen Gydgyfeirio AWEMA ac er mwyn sicrhau y gallai partneriaid AWEMA barhau i'w cyflawni dewisodd WEFO eu diogelu rhag colledion sy'n deillio o ansolfedd AWEMA 85

Mae WEFO ac uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru wedi cymryd amrywiaeth o gamau o ran diwydrwydd dyladwy eu harian i sefydliadau eraill 87

## Atodiadau


Atodiad 1 – Dulliau archwilio 90

Atodiad 2 – Taliadau uniongyrchol Llywodraeth Cymru i AWEMA a’u diben 94

Atodiad 3 – Astudiaethau achos yn crynhoi ymateb Llywodraeth Cymru i bryderon penodol a godwyd gan bartïon allanol ynghylch AWEMA cyn mis Rhagfyr 2011 118

Atodiad 4 – Arian cyhoeddus arall i AWEMA 138

Atodiad 5 – Llinell amser o gyfrifoldebau Gweinidogol perthnasol Llywodraeth Cymru 144

# Crynodeb

## Cyflwyniad

1 Ar fore 19 Rhagfyr 2011, cysylltodd Cyfarwyddwr Cyllid Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)[1] â swyddogion Llywodraeth Cymru i dynnu eu sylw at honiadau amrywiol ynghylch materion llywodraethu, rheoli ariannol, staffio ac adnoddau dynol a thor-cyfraith posibl. Yn ogystal â thynnu sylw Llywodraeth Cymru at y materion hyn, cododd y Cyfarwyddwr Cyllid (Mr Saquib Zia) bryderon ynghylch y ffordd yr ymdriniodd AWEMA â'r materion hyn mewn cyfarfod cyffredinol eithriadol ar 16 Rhagfyr 2011. Cyn y cyfarfod hwnnw, roedd ymddiriedolwyr AWEMA wedi comisiynu adroddiad ymchwiliad gan Dr Paul Dunn ar honiadau a wnaed yn erbyn Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) a Chyfarwyddwr Gweithrediadau AWEMA (Ms Tegwen Malik – merch Mr Malik). Cysylltodd Mr Malik hefyd â WEFO ac uned cydraddoldebau[2] Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r honiadau ar fore 19 Rhagfyr 2011, ar ôl dwyn rhai o'r materion hyn at sylw un o swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ar 29 Tachwedd 2011.

2 Pan gafodd y pryderon hyn eu codi, roedd AWEMA wedi derbyn ymrwymiadau o arian cyhoeddus oddi wrth y canlynol:

a *WEFO* – hyd at £5.1 miliwn i helpu AWEMA a'i sefydliadau partner i gyflawni tri phrosiect Rhaglen Gydgyfeirio UE parhaus[3] (Atodiad 2). Roedd yr ymrwymiad hwn o arian yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Medi 2008 a mis Mehefin 2014 ond roedd dyddiadau dechrau a/neu orffen gwahanol ar gyfer pob prosiect yn ystod y cyfnod hwn.

b *Uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru* – hyd at £326,321 dros y cyfnod 2010-2013 ar ffurf 'arian craidd' ond gan hefyd gefnogi arian cyfatebol AWEMA ar gyfer y tri phrosiect wedi'u hariannu gan WEFO (Atodiad 3).

c *Y Gronfa Loteri Fawr* – £517,647 dros y cyfnod 2011-2015 i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i bobl hŷn (Atodiad 4)[4].

3 Mewn ymateb i'r honiadau, comisiynodd Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr ymchwiliad ar y cyd gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol. Canolbwyntiodd yr ymchwiliad ar ddigonolrwydd systemau rheolaeth ariannol a llywodraethu AWEMA o ran 'sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei

1 Cafodd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) ei sefydlu ym mis Gorffennaf 1999, gan ddatblygu o 'Bwyllgor Ymgynghori a Chyfranogi Cynulliad Cenedlaethol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan' gyda chymorth Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru. Ym mis Tachwedd 2000, cafodd AWEMA ei chorffori'n gwmni cyfyngedig. Ym mis Mawrth 2005, dyfarnodd y Comisiwn Elusennau statws elusennol i AWEMA.

2 Er cysondeb, cyfeiriwn drwy'r adroddiad hwn i gyd at uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r uned sy'n gyfrifol am y polisi cydraddoldeb wedi bodoli o dan enwau gwahanol ers mis Mai 1999 yn dilyn ymarferion ailstrwythuro amrywiol. Mae'r uned wedi cael yr enwau canlynol: Uned Polisi Cydraddoldeb (rhwng mis Mai 1999 a dechrau mis Chwefror 2006); uned cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol (rhwng dechrau mis Chwefror 2006 a diwedd mis Rhagfyr 2007); Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (rhwng mis Ionawr 2008 a mis Ebrill 2009); a'r Is-adran Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant (ers mis Ebrill 2009).

3 Black and Minority Ethnic Employment for All, Young Black and Minority Ethnic People Aiming High, a Minorities are Wales' Resources.

4 Mae'r ffigurau yr ydym wedi eu rhoi yma yn ymwneud â chyfanswm gwerth yr ymrwymiadau arian grant parhaus, gan gynnwys taliadau a wnaed eisoes.

## Ffigur 1 - Adroddiad ar y cyd ar AWEMA gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr

Nododd adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, a gyhoeddwyd ar 9 Chwefror 2012, yr hyn a ddisgrifiwyd yn fethiannau sylweddol a sylfaenol yn fframwaith rheolaeth a llywodraethu AWEMA. I grynhoi, nododd yr adroddiad fod y gwendidau hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- trefniadau llywodraethu mewn perthynas â gweithredu Bwrdd a rheolwyr AWEMA;
- rheolaethau a phrosesau ariannol;
- absenoldeb polisïau a gweithdrefnau allweddol; a
- strwythur sefydliadol nad oedd yn cefnogi AWEMA yn ddigonol.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol: 'Ni allwn roi unrhyw sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu a gwneud defnydd priodol o'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru, WEFO a'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i roi i AWEMA. Roedd y methiannau hyn i'w gweld ym mhob rhan o'r sefydliad, a hynny'n awgrymu mai prin yw'r sylw y mae'r Ymddiriedolwyr, gan gynnwys y Prif Weithredwr, wedi'i roi i safonau cydnabyddedig bywyd cyhoeddus a'u hystod lawn o gyfrifoldebau statudol o dan ddeddfwriaeth elusennau a chwmnïau.'

*Ffynhonnell: Adroddiad ar y cyd gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr, Adolygiad o Effeithiolrwydd y Llywodraethu a'r Rheoli Ariannol yng Nghymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), 9 Chwefror 2012.*

ddefnyddio yn unol â'r telerau a'r amodau a bennwyd ac y gellir rhoi cyfrif priodol ohono'. Nododd adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, a gyhoeddwyd ar 9 Chwefror 2012, yr hyn a ddisgrifiodd yn 'methiannau sylweddol a sylfaenol yn fframwaith rheoli a llywodraethu AWEMA' (Ffigur 1).

4 Ar sail canfyddiadau a chasgliadau'r adroddiad, ar 9 Chwefror 2012, cyhoeddodd Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, fod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i ariannu AWEMA. Penderfynodd y Gronfa Loteri Fawr wneud yr un peth[5]. Fodd bynnag, nododd y Gweinidog yn glir hefyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiogelu'r sawl a oedd yn cymryd rhan ym mhrosiectau Rhaglen Gydgyfeirio UE AWEMA cyhyd â phosibl.

5 Cyn ac ar ôl adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol roedd cryn ddiddordeb cyhoeddus yn y ffordd yr ymdriniodd Llywodraeth Cymru â'i chydberthynas ag AWEMA. Cafodd y canlynol le blaenllaw yn sylw'r cyfryngau ac mewn sylwadau cyhoeddus:

a cwestiynau ynghylch dylanwad posibl y cysylltiadau rhwng AWEMA a'r Blaid Lafur;

b pryderon a godwyd, yn 2010, gan y cyn-Aelod Cynulliad (Dr Dai Lloyd) gyda'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldeb ar y pryd (Carl Sargeant AC) ynglŷn â'r ffordd yr oedd AWEMA yn darparu gwasanaethau ar lawr gwlad yn ardal Abertawe;

c honiadau o fethiannau llywodraethu gan ddau o gyn-ymddiriedolwyr AWEMA yn 2007; ac

ch ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad gan 'IMANI Consultancy Services' o brosiectau a ariannwyd gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru, ynghylch arian AWEMA yn y dyfodol a threfniadau monitro'r uned cydraddoldebau.

5 Ar 6 Ionawr 2012, hysbysodd Llywodraeth Cymru AWEMA yn ffurfiol ei bod yn rhoi'r gorau i'w hariannu tra bo ymchwiliad gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cael ei gwblhau a'i ystyried. Roedd y Gronfa Loteri Fawr hefyd wedi rhoi'r gorau i'w hariannu.

## Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru

6 Wrth gyhoeddi adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, dynododd y Gweinidog ei bod hithau a'r Prif Weinidog, ynghyd â'r Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd, o'r farn bod angen cynnal adolygiad annibynnol llawn a thrylwyr o hanes arian Llywodraeth Cymru i AWEMA. Ar 8 Chwefror 2012, roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cael cais ffurfiol gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn gofyn iddo gynnal adolygiad o'r fath.

7 Ar 9 Chwefror 2012, hysbysodd yr Archwilydd Cyffredinol yr Ysgrifennydd Parhaol ei fod wedi penderfynu cynnal archwiliad gwerth am arian annibynnol o'r materion hyn gan ddefnyddio ei bwerau statudol. Wrth wneud hyn, ystyriodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd geisiadau a gafodd am ymchwiliad Swyddfa Archwilio Cymru gan Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a dau Aelod Cynulliad arall. Fodd bynnag, datgelodd yr Archwilydd Cyffredinol i'w dîm adolygu faterion a oedd yn gymwys i'r cyfnod cyn iddo gael ei benodi'n Archwilydd Cyffredinol – mewn perthynas â'i rôl flaenorol fel aelod o fwrdd y Gronfa Loteri Fawr a Chadeirydd Pwyllgor y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru – a allai gael eu hystyried yn wrthdaro buddiannau posibl. Er mwyn osgoi unrhyw heriau y gellid amharu ar ei annibyniaeth neu ei wrthrychedd, awdurdododd yr Archwilydd Cyffredinol Anthony Barrett, yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, i weithredu ar ei ran mewn perthynas â'r archwiliad hwn.

8 Mae ein hadolygiad wedi ystyried a yw Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), wedi rheoli ei chydberthynas ag AWEMA yn briodol i ddiogelu arian cyhoeddus a gwneud defnydd da ohono[6]. Rydym wedi ystyried hanes llawn y gydberthynas honno o greu AWEMA yn 1999 i'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru wrth iddi benderfynu rhoi'r gorau i ariannu AWEMA.

9 Fel y nodwyd gennym pan ddechreuwyd ar ein gwaith, nid ydym wedi ystyried trefniadau mewnol AWEMA o ran llywodraethu, materion staffio neu reoli ariannol. Y Comisiwn Elusennau, sydd wedi bod yn cynnal ei ymchwiliad ei hun, sy'n gyfrifol am archwilio ymhellach drefniadau llywodraethu AWEMA, yn enwedig gweithredoedd a phenderfyniadau ymddiriedolwyr wrth reoli'r elusen. Nid ydym ychwaith wedi ceisio cynnal ein gwerthusiad ein hunain o'r hyn a ddarparwyd gan AWEMA gyda chymorth arian Llywodraeth Cymru. Yn hytrach, rydym wedi canolbwyntio ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei chyfrifoldeb i'w bodloni ei hun fod yr arian grant a roddodd i AWEMA wedi cynnig gwerth da am arian, gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i unrhyw bryderon penodol sydd wedi dod i'w sylw.

10 Fel yn achos adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, rydym hefyd wedi gochel rhag trafod materion sy'n cael eu harchwilio gan Heddlu De Cymru. Nid ydym wedi ceisio dyblygu gwaith a fu'n sail i adroddiad ar y cyd y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ym mis Chwefror 2012 na gwaith sydd bellach wedi cael ei ddatblygu gan Dîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO.

6 Mae Atodiad 1 yn disgrifio ein dulliau archwilio a'r sail dystiolaeth sy'n ategu ein canfyddiadau a'n casgliadau. Rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar y gydberthynas ariannu rhwng uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ac AWEMA (sy'n cwmpasu cyfnod llawn ein dadansoddiad), a rhwng WEFO ac AWEMA (a oedd yn cynnwys y swm mwyaf o arian a roddwyd). Fodd bynnag, rydym wedi ystyried y ffordd y mae adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru wedi rheoli arian grant i AWEMA. Rydym hefyd wedi ystyried sut mae gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru wedi rhyngweithio â'i gilydd wrth reoli eu harian grant i AWEMA ac wrth ymateb i bryderon penodol.

## Taliadau Llywodraeth Cymru ac arianwyr cyhoeddus eraill i AWEMA

**11** Er nad oedd yn glir ar ddechrau ein gwaith, rydym wedi pennu i Lywodraeth Cymru roi £25 miliwn mewn taliadau i AWEMA, rhwng 25 Gorffennaf 2000 ac 20 Rhagfyr 2011, sef cyfanswm o £7.15 miliwn (Atodiad 2). Heblaw am £351,000[7], mae'r holl arian hwn wedi ymwneud â grantiau a gymeradwywyd gan:

- **a** uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru - £1.13 miliwn wedi'i dalu;
- **b** rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru - £1.09 miliwn wedi'i dalu; a
- **c** Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru - £4.58 miliwn wedi'i dalu[8].

**12** Amcangyfrifwn fod arian Llywodraeth Cymru wedi cynnwys o leiaf 90 y cant o gyfanswm incwm AWEMA gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill hefyd yn dod oddi wrth gyrff cyhoeddus eraill (Atodiad 4). Gan ystyried taliadau a wnaed eisoes o'r arian grant a ddisgrifiwyd ym mharagraff 2a-b, roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymrwymedig, mewn egwyddor, i roi £3.01 miliwn arall i AWEMA ar gyfer gweithgareddau tan 30 Mehefin 2014. Hynny yw cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ar 9 Chwefror 2012, ei bod yn rhoi'r gorau i ariannu AWEMA.

## Casgliadau ynghylch y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli ei chydberthynas ag AWEMA

Bu'r ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn rheoli ac yn cydgysylltu ei harian grant i AWEMA rhwng mis Gorffennaf 2000 a mis Rhagfyr 2011 yn aml yn wan, ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ddylanwad gwleidyddol amhriodol ar benderfyniadau ariannu

**13** Er i'r cymorth ariannol a roddwyd i AWEMA gan Lywodraeth Cymru adlewyrchu amcanion polisi penodol[9], nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ddylanwad Gweinidogol amhriodol – ar hyd llinellau pleidiol neu linellau eraill – ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru o ran ariannu AWEMA (paragraffau 2.3 i 2.15). Lle y bu Gweinidogion ynghlwm wrth benderfyniadau ariannu, mae'r camau a gymerwyd wedi bod yn gyson â'r cyngor ffurfiol a roddwyd gan swyddogion. Hyn yw'r achos lle y rhoddwyd arian, lle y cafodd gynigion gan AWEMA eu gwrthod a lle y bu'r arian a roddwyd yn llai na'r hyn y gwnaeth AWEMA gynnig amdano. Serch hynny, mae'r hyn oll a fu'n sail i rai o benderfyniadau ariannu Llywodraeth Cymru yn aneglur o hyd ac rydym wedi dod i'r casgliad bod y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn rheoli ac yn cydgysylltu ei harian grant i AWEMA rhwng mis Gorffennaf 2000 a mis Rhagfyr 2011 wedi bod yn wan.

**14** Mae Atodiad 3 yn manylu ar wyth enghraifft o astudiaethau achos sydd a wnelo ag ymateb Llywodraeth Cymru i bryderon penodol ynglŷn â llywodraethu a rheolaeth ariannol AWEMA neu gwestiynau ynglŷn ag ariannu AWEMA a'r ffordd yr oedd yn cyflawni ei gwaith. Ym mhob achos, mae'n amlwg i Lywodraeth Cymru

---

7 Mae'r £351,000 sy'n weddill yn cynnwys arian sy'n ymwneud â chostau sefydlu cychwynnol AWEMA ac yna, gwaith ar dai, gofalwyr, gofal plant a datblygu economaidd.

8 Er iddo gael ei dalu i AWEMA i ddechrau, cafodd cryn dipyn o arian Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a phrosiectau wedi'u hariannu gan WEFO ei drosglwyddo i dalu costau a hawliwyd gan bartneriaid prosiect AWEMA.

9 Yn arbennig, roedd sefydlu AWEMA a'i datblygiad cynnar yn adlewyrchu pwyslais polisi ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a dyhead Llywodraeth Cymru i gyflawni ei gweithgarwch ymgysylltu allanol o ran cydraddoldeb hiliol drwy un corff.

gymryd y pryderon a godwyd gyda hi o ddifrif. Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad bod ymateb Llywodraeth Cymru i'r pryderon hyn wedi bod yn rhy gul ei ffocws, ar y cyfan[10]. O ran cul ei ffocws rydym yn golygu bod ymateb Llywodraeth Cymru:

**a** wedi cael ei lywio gan amharodrwydd swyddogion i ymhél â materion lle:

– roeddent yn credu bod y materion a godwyd y tu hwnt i gylch gwaith Llywodraeth Cymru;

– roeddent yn gochel rhag canfyddiad eu bod yn dangos ochr yn yr hyn a allai gael ei ystyried yn anghydfodau personol rhwng unigolion neu sefydliadau penodol;

– byddai cymryd camau mwy pendant wedi ennyn beirniadaeth bersonol neu gyhoeddus o bosibl (dywedodd sawl un o'r swyddogion y cyfarfuom â hwy eu bod yn gochel rhag cael eu cyhuddo o wahaniaethu yn erbyn AWEMA mewn unrhyw ffordd).

**b** wedi cael ei nodweddu gan ddiffyg cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng adrannau er mwyn helpu i lywio penderfyniadau ynglŷn â holl ariannu Llywodraeth Cymru i AWEMA (er na fu hynny'n wir ym mhob achos);

**c** wedi ymdrin â phryderon penodol yn unigol heb ystyried hanes llawn ei chydberthynas ariannu, ac unwaith eto bu ymgais wan i rannu gwybodaeth o fewn adrannau a rhwng adrannau yn gwaethygu hynny;

**ch** wedi bod yn annigonol, drwy gynllun, i amlygu neu fynd at wraidd rhai materion a fu'n achos pryder;

**d** wedi methu ag ymchwilio i'r materion hyn, naill ai ar yr adeg y codwyd y pryderon neu wedi hynny, yn ddigon trylwyr.

**15** Mae'r materion a godwyd gennym ynglŷn â'r ymateb i'r pryderon hyn hefyd wedi'u hadlewyrchu mewn rhai agweddau ar broses ehangach Llywodraeth Cymru o arfarnu a monitro ei harian grant i AWEMA.

**16** Mae perfformiad gwael a diffyg sefydlogrwydd yn uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu'n sylweddol at wendidau cyffredinol wrth reoli ei harian i AWEMA[11]. Ym mis Rhagfyr 2003, comisiynodd yr uned cydraddoldebau 'IMANI Consultancy Services' i gynnal gwerthusiad annibynnol o effaith arian yr uned i AWEMA (paragraffau 2.16 i 2.25). Erbyn hynny, codwyd pryderon ehangach amrywiol ynghylch systemau llywodraethu a rheoli ariannol AWEMA[12] ond ni chafodd yr adolygiad ei gwblhau tan fis Ionawr 2005 ac nid ymdriniodd â'r pryderon ehangach hyn er i Lywodraeth Cymru roi'r argraff y byddai'n gwneud hynny (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 3). Cwestiynodd yr adroddiad berfformiad AWEMA a thynnodd sylw hefyd at wendidau a nodwyd yn flaenorol o ran y ffordd y rheolai'r uned cydraddoldebau ei harian grant.

**17** Awgrymwyd wrthym y gallai adroddiad IMANI fod wedi'i gymedroli gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ffaith bod awdur yr adroddiad wedi ymuno ag uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ar secondiad cyn i'r adolygiad gael ei gwblhau yn anochel yn bwrw amheuaeth

10 Mae'r casgliadau y daethom iddynt ynglŷn â'r digwyddiadau hyn, sy'n rhychwantu'r cyfnod o fis Ebrill 2001 hyd at fis Rhagfyr 2011, yn ymwneud â'r ffordd yr ymatebodd Llywodraeth Cymru iddynt. Nid ydym wedi gwneud sylwadau ar y graddau yr oedd y pryderon hyn yn rhai teg. Yn yr wyth astudiaeth achos hyn nid ydym wedi ystyried y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r honiadau gan Gyfarwyddwr Cyllid AWEMA ym mis Rhagfyr 2011.

11 Ers ei chreu yn 1999, mae'r uned cydraddoldebau wedi wynebu llawer o broblemau o ran perfformiad gwael a throsiant staff uchel ac mae wedi cael ei had-drefnu sawl gwaith ac wedi wynebu sawl newid o ran llinellau adrodd Gweinidogol. Bu i hyn oblygiadau o ran parhad perthynas arian grant yr uned ag AWEMA ac nid oes fawr ddim tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw drefniadau trosglwyddo ffurfiol ar waith rhwng Gweinidogion neu swyddogion er mwyn sicrhau y câi gwybodaeth am y berthynas hon, neu unrhyw gydberthnasau eraill, â'r sefydliadau a oedd yn cael eu hariannu gan yr uned cydraddoldebau ei throsglwyddo. Fodd bynnag, mae uwch swyddogion wedi pwysleisio wrthym fod yr uned cydraddoldebau bellach ar sail gadarnach a'i bod wedi cyflawni darnau strategol bwysig amrywiol o waith (paragraffau 2.77 i 2.86).

12 O fewn strwythurau AWEMA, daeth yn glir i Lywodraeth Cymru ar gam cynnar fod anawsterau rhwng y bobl dan sylw, gyda phryderon amrywiol yn cael eu dwyn at sylw Llywodraeth Cymru ar y pryd ynghylch trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol AWEMA. Roedd swyddogion o Adran Gyllid Llywodraeth Cymru wedi cwblhau adolygiad o drefniadau atebolrwydd ariannol a llywodraethu AWEMA ddiwedd 2002/dechrau 2003 (Atodiad 3, Astudiaethau Achos 1 a 2).

ar raddau dylanwad Llywodraeth Cymru. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i Lywodraeth Cymru amharu ar ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad. Fodd bynnag, nid oedd crynodeb gweithredol yr adroddiad terfynol yn cynnwys argymhelliad a gafwyd ym mhrif gorff yr adroddiad na ddylai prosiectau newydd gael eu hariannu nes bod AWEMA yn gallu dangos ei bod yn rheoli prosiectau a pherfformiad mewn modd systematig. Er hynny aeth yr adroddiad yn ei flaen i nodi y dylid parhau i ariannu prosiectau a fodolai eisoes lle roedd yr arian hwnnw wedi'i neilltuo.

18 Ar ôl i adroddiad IMANI gael ei gwblhau, pwysleisiodd cyngor a roddwyd i'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldeb ar y pryd (Jane Hutt) a'r Prif Weinidog ar y pryd (Rhodri Morgan) ym mis Ionawr 2005 fethiannau'r uned cydraddoldebau ei hun, canlyniadau cadarnhaol rhywfaint o waith prosiect arall AWEMA, a risg i enw da Llywodraeth Cymru pe bai'r uned yn rhoi'r gorau i ariannu AWEMA (paragraffau 2.26 i 2.34). Roedd y cyngor i'r Gweinidogion yn ceisio cael sêl bendith i swyddogion drafod ag AWEMA y posibilrwydd y byddai'r uned yn rhoi'r gorau i ariannu prosiectau ac yn ei le roi arian craidd am gyfnod o dair blynedd. Mae union amgylchiadau trafodaethau'r uned cydraddoldebau ag AWEMA a'i phenderfyniad i barhau â'r arian ar ôl mis Mawrth 2005 - cyn ac ar ôl i'r Gweinidog gymeradwyo'r cyngor hwn ar ddechrau mis Chwefror 2005 - yn parhau i fod yn aneglur. Nid ymddengys i ganfyddiadau adolygiad IMANI gael eu rhannu â Chyfarwyddiaeth Cymunedau Llywodraeth Cymru, er iddi barhau i ariannu AWEMA fel rhan o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Hefyd, nid ymddengys i ganfyddiadau'r adolygiad lywio arfarniad WEFO o brosiect Curiad Calon Cymru AWEMA[13].

19 Rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2010, ymdriniodd yr Uned cydraddoldebau â materion amrywiol i fodloni ei hun ynghylch rhaglen waith AWEMA a'i defnydd o arian grant blaenorol ond ni wnaeth waith dilynol manwl gywir ar bryderon ynghylch trefniadau llywodraethu AWEMA. Yn fwy penodol:

a Ym mis Chwefror 2005 a mis Chwefror 2006, dywedodd AWEMA wrth yr uned cydraddoldebau am arian grant nas gwariwyd o 2000-01 a 2005-06 yn y drefn honno. Fodd bynnag, araf fu'r uned i ddatrys y cyntaf o'r materion hyn a chafodd penderfyniadau Llywodraeth Cymru i adael i AWEMA gadw'r arian hwn eu dylanwadu gan ddiffygion yn llwybr archwilio'r uned cydraddoldebau ei hun (paragraffau 2.35 i 2.46). Wrth ymdrin â'r materion hyn, paratôdd yr uned cydraddoldebau yr hyn a oedd, yn ein barn ni, yn ymateb anghywir ac anghyflawn i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad gan y cyn-Aelod Cynulliad Dr Dai Lloyd ynghylch arian AWEMA (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 4).

b Ymdriniodd yr uned cydraddoldebau â rhai pryderon ynghylch rhaglen waith AWEMA rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2008 ac ataliodd rai taliadau ond methodd ag ystyried yn briodol honiadau a wnaed gan Gadeirydd Dros Dro ac Is-Gadeirydd Dros Dro AWEMA ar y pryd ym mis Gorffennaf 2007 (paragraffau 2.47 i 2.50 ac Atodiad 3, Astudiaeth Achos 6).

c Ymestynnodd yr uned cydraddoldebau ei harian i AWEMA drwy gydol 2008-09 a 2009-10 tra'i bod yn cynllunio newidiadau ehangach i'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb ond ni wnaeth waith dilynol digonol ar bryderon pellach ynghylch trefniadau llywodraethu AWEMA, gan

13 Ariannwyd y prosiect hwn gan WEFO fel rhan o Raglen EQUAL Cronfa Gymdeithasol Ewrop (2000-2006). Rhwng 2005-06 a 2008-09, rhoddodd WEFO £2.33 miliwn drwy AWEMA i gefnogi'r prosiect (Atodiad 1).

gynnwys pa mor aml y cynhaliwyd cyfarfodydd Bwrdd AWEMA (paragraffau 2.51 i 2.64).

**ch** Roedd gwendidau sylweddol yn y broses a arweiniodd at ddyfarnu grant Cronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb AWEMA o fis Ebrill 2010 i fis Mawrth 2013. Wrth iddi fynd ati i reoli'r arian grant hwnnw wedyn, methodd yr uned cydraddoldebau â gwneud gwaith dilynol digonol ar rai pryderon pellach ynghylch systemau cyflawni AWEMA. Prin fu'r cyswllt hefyd rhwng yr uned cydraddoldebau â WEFO yn ystod y cyfnod hwn er gwaethaf y cysylltiad clir rhwng arian yr uned a phrosiectau AWEMA a ariannwyd gan WEFO (paragraffau 2.65 i 2.76 ac Atodiad 3, Astudiaeth Achos 7).

**20** Canfuwyd nad oedd WEFO wedi mynegi unrhyw bryderon penodol am gynnydd prosiectau AWEMA a ariannwyd gan yr UE yn erbyn eu hamcanion ond nad oedd trefniadau WEFO ar gyfer arfarnu a monitro'r prosiectau hyn yn ddigon trylwyr (paragraffau 2.87 i 2.125). Er na wnaeth effeithio ar y canlyniad terfynol o reidrwydd, ni wnaeth y broses o arfarnu'r prosiectau hyn ystyried yn llawn, lle y bo'n berthnasol, brofiad adrannau eraill Llywodraeth Cymru na WEFO ei hun.

**21** Er bod WEFO mewn cysylltiad rheolaidd ag AWEMA ynglŷn â'r tri phrosiect o dan y Rhaglen Gydgyfeirio, ni sicrhaodd WEFO gydymffurfiaeth lawn nac amserol ag amodau penodol a bennodd ar gyfer y prosiectau ac roedd ei chyfarfodydd monitro ffurfiol ag AWEMA yn cael eu cynnal yn llai aml na'r hyn a ddylai fod wedi digwydd yn ddelfrydol. Ar ddechrau mis Rhagfyr 2011, yn dilyn pryderon a godwyd gyda WEFO gan Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 8), cwblhaodd Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO adolygiad o brosiect 'Minorities are Wales' Resources' AWEMA. O ganlyniad i wendidau yn y broses adolygu, ni nododd yr adolygiad hwn faterion mewn perthynas â chofnodion ariannol, gwariant anghymwys a dwyn ynghyd ddata ar fuddiolwyr sydd, bellach, wedi dod i'r amlwg drwy'r gwaith a wnaed gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a'r Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau ei hun[14].

**22** Ar y cyfan, mae swyddogion yn adrannau eraill Llywodraeth Cymru wedi bod yn fodlon ar y gwaith a gafodd gymorth gan yr arian a roddwyd i AWEMA[15]. Fodd bynnag, rydym wedi nodi rhai gwendidau yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi monitro'r arian hwn (paragraffau 2.126 i 2.150).

**23** O ran yr arian a gafodd AWEMA gan raglen Cymunedau yn Gyntaf rhwng 2002-03 a 2006-07, rydym wedi dod i'r casgliad i Gyfarwyddiaeth Cymunedau Llywodraeth Cymru herio cynlluniau ar gyfer partneriaeth Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig[16] yn briodol cyn cytuno ar arian ond nodwyd gwendidau yn y ffordd yr oedd yn monitro cyllid y bartneriaeth yr oedd AWEMA yn ei reoli ar ran y partneriaid prosiect. Hefyd, roedd gwaith monitro perfformiad y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn canolbwyntio ar yr hyn a wnaed gan weithwyr datblygu gan esgeuluso gwaith ymchwil y bartneriaeth y bu AWEMA yn ei arwain.

---

14 Mae gwaith craffu pellach gan y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau o hawliadau terfynol a blaenorol AWEMA wedi nodi swm o £169,782 mewn gwariant prosiect anghymwys ar gyfer tri phrosiect a arweiniwyd gan AWEMA o dan y Rhaglen Gydgyfeirio er na wnaeth y gwaith hwn nodi unrhyw dystiolaeth o or-hawlio systemig. Nododd y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau hefyd: 'the processes in place to track and record the outputs across the programmes are insufficient and we were unable to completely reconcile the organisation's [AWEMA's] records to the outputs declared in their claims'. Fodd bynnag, daeth y tîm i'r casgliad hefyd, ar draws y tri phrosiect, fod AWEMA wedi tanhawlio o ran nifer y cyfranogwyr.

15 Cyflawnodd AWEMA un o'i phrif amcanion drwy ddechrau'r broses o sicrhau arian Ewropeaidd, ond nododd Llywodraeth Cymru fod ei gwaith monitro ei hun o'r arian i gefnogi gwaith Pwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA rhwng 2001-02 a 2004-05 - gan gynnwys cyflogi swyddog datblygu economaidd gan AWEMA - wedi bod yn ddiffygiol a'i bod yn anodd felly ddangos gwerth am arian.

16 Roedd partneriaeth Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynnwys AWEMA, Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Groenddu Cymru, Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru ac Ymddiriedolaeth Scarman.

24 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn fanwl â gwaith AWEMA ar faterion tai, gofalwyr a gofal plant ac yn fodlon arno. Fodd bynnag, wrth gomisiynu'r gwaith hwn ni wnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru rannu pryderon perthnasol am AWEMA â'i gilydd.

## Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarn i'r pryderon a gododd ynghylch AWEMA ym mis Rhagfyr 2011, ond bu'r gwaith o ymdrin â'r canlyniadau yn llafurus ac nid yw'r effaith ar arian cyhoeddus yn glir eto

25 Ar 29 Tachwedd 2011, cafodd un o swyddogion WEFO ei hysbysu am nifer o honiadau, gan gynnwys rhai materion ariannol, gan Brif Weithredwr AWEMA ond rhoddodd Prif Weithredwr AWEMA sicrwydd nad oedd unrhyw achosion o afreoleidd-dra ariannol mewn perthynas â'r prosiectau a ariannwyd gan WEFO[17]. Ni roddwyd gwybod am yr honiadau hyn yn fwy cyffredinol o fewn Llywodraeth Cymru nes i Gyfarwyddwr Cyllid a Phrif Weithredwr AWEMA gysylltu â WEFO ac uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ar wahân ar 19 Rhagfyr 2011 (paragraffau 3.2 i 3.7).

26 Gweithredodd Llywodraeth Cymru yn gadarn wrth atal taliadau i AWEMA mewn ymateb i'r wybodaeth a gafodd gan Gyfarwyddwr Cyllid a Phrif Weithredwr AWEMA ar 19 Rhagfyr 2011. Fodd bynnag, roedd taliadau gwerth £529,000 gan WEFO eisoes yn yr arfaeth ac nid oedd modd eu hatal. Pe bai'r materion a godwyd gan Brif Weithredwr AWEMA ar 29 Tachwedd 2011 wedi cael eu hystyried yn fwy prydlon gan Lywodraeth Cymru, rydym o'r farn ei bod yn bosibl na fyddai'r taliadau hyn wedi cael eu hawdurdodi. Fodd bynnag, byddai atal y taliadau hyn wedi cael goblygiadau andwyol iawn i gyllid AWEMA a chyllid partneriaid prosiect AWEMA (paragraffau 3.8 i 3.12).

27 Roedd comisiynu adolygiad gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol hefyd yn rhesymol o dan yr amgylchiadau ond gallai Llywodraeth Cymru fod wedi rheoli disgwyliadau yn well o ran cwmpas ei gwaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi dwyn ynghyd swyddogion allweddol mewn ffordd effeithiol i reoli ei hymateb i'r sefyllfa yn AWEMA er ei bod, i raddau, yn gweithredu mewn amgylchedd nas gwelwyd o'r blaen a bu'n rhaid defnyddio adnoddau staff o gyfeiriadau eraill (paragraffau 3.13 i 3.25).

28 Er nad yw canlyniad y broses ddiddymu yn hysbys eto, mae'n glir na fydd Llywodraeth Cymru yn adennill y rhan fwyaf o'r ddyled o £545,966 y mae bellach yn credu sy'n ddyledus gan AWEMA. Y rheswm dros hyn yw bod hawliadau Llywodraeth Cymru ymhell uwchlaw'r symiau sydd ar gael i ad-dalu credydwyr ac, hyd yn oed wedyn, bydd credydwyr a gaiff flaenoriaeth o ran asedau AWEMA. Nid yw'r credydwyr hyn â blaenoriaeth yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Nid yw AWEMA yn cytuno â swm y ddyled, yn benodol mewn perthynas ag arian gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru. Mae AWEMA hefyd wedi cyflwyno gwrth-hawliadau am daliadau gan yr uned cydraddoldebau sy'n werth cyfanswm o £70,065 (paragraffau 3.26 i 3.39).

29 Mae WEFO bellach wedi gwneud trefniadau olynol ar gyfer tri phrosiect Rhaglen Gydgyfeirio UE AWEMA. Er mwyn sicrhau bod partneriaid AWEMA yn gallu parhau i gyflawni eu prosiectau, penderfynodd WEFO eu diogelu rhag colledion yn deillio o ansolfedd AWEMA. Bydd cyfraniad grant WEFO tuag at brosiectau olynol hefyd yn uwch nag a fyddai wedi bod o dan y trefniadau blaenorol. Y rheswm dros hynny yw bod canran yr holl gostau prosiect i'w talu drwy ei harian grant yn uwch nag yr oedd yn flaenorol ar gyfer pob prosiect (paragraffau 3.40 i 3.48).

17 Mae Dr Rita Austin wedi cadarnhau i ni iddi ond cytuno i dderbyn enwebiad i fod yn Gadeirydd AWEMA ym mis Rhagfyr 2011 ar yr amod y byddai Mr Malik yn dwyn sylw WEFO at yr honiadau yn ei erbyn.

**30** Mewn ymateb i'r sefyllfa yn AWEMA, mae WEFO ac uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru wedi cymryd amrywiaeth o gamau o ran diwydrwydd dyladwy eu harian i sefydliadau eraill (paragraffau 3.49 i 3.53). O ran WEFO, mae hyn wedi cynnwys adolygiad o'i defnydd o flaendaliadau. Dangosodd y gwaith hwnnw fod rhai sefydliadau yn y trydydd sector yn cael eu talu ymlaen llaw er nad oedd unrhyw angen ariannol amlwg am flaendaliad[18]. Ar y cyd â Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru, datblygodd yr uned cydraddoldebau hefyd ddull o asesu p'un a yw'r sefydliadau y mae'n eu hariannu yn glynu wrth egwyddorion llywodraethu da sefydledig.

## Argymhellion

Mae hanes y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli ei chydberthynas ag AWEMA yn codi cwestiwn mwy cyffredinol ynghylch sut y gall Llywodraeth Cymru arfer diwydrwydd dyladwy orau er mwyn bodloni ei hun fod pob un o'r sefydliadau a ariennir ganddi yn gweithredu yn unol ag egwyddorion llywodraethu da, tra'n peidio ag amharu ar y ffordd y caiff y sefydliadau hynny eu rhedeg. Nid oes a wnelo hyn â dangos gweithgarwch monitro rheolaidd yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod gweithgarwch monitro yn cael ei dargedu'n briodol, ei fod yn gymesur a'i fod yn arwain at weithredu cadarn mewn ymateb i unrhyw faterion sy'n achos pryder. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod â'r Gronfa Loteri Fawr a'r Comisiwn Elusennau drefniadau am ymateb cydgysylltiedig i bryderon a all godi mewn perthynas â sefydliadau eraill.

Mae llawer o'r gwendidau a nodwyd gennym yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli a chydgysylltu ei harian grant i AWEMA yn gyson â materion a nodwyd yn ein gwaith archwilio blaenorol a wnaeth edrych ar gydberthnasau arian grant eraill. Yn ein hadroddiad, *Rheoli Grantiau yng Nghymru*, a gafodd ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2011, crynhowyd y prif ganfyddiadau o'r corff eang hwnnw o waith a nodwyd sut yr oedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn cyflwyno rhai gwelliannau i'w systemau rheoli grantiau. Yn benodol, cydnabu'r adroddiad fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno trefniadau newydd i gefnogi'r gwaith o reoli ei busnes sydd â'r nod o alluogi mwy o waith trawsadrannol a'i bod wedi sefydlu 'Prosiect Rheoli Grantiau' a 'Canolfan Ragoriaeth Grantiau' i gefnogi gwelliannau. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ei adroddiad interim ei hun ar reoli grantiau ym mis Awst 2012.

**1** Gan ystyried y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn ac yng nghyd-destun ei Phrosiect Rheoli Grantiau parhaus ei hun, gwaith y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau a'i hymateb i adroddiad interim diweddar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar reoli grantiau, **rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:**

**a** **Pennu a chyfleu i reolwyr grantiau a derbynwyr grantiau brotocolau clir ar gyfer gwaith diwydrwydd dyladwy i'w cynnwys yn ei phrosesau ar gyfer dyfarnu arian grant a monitro gwaith cyflawni, sy'n gymesur â faint o arian sydd dan sylw a'r math o gorff sy'n cael yr arian. Dylai'r gwaith diwydrwydd dyladwy hwnnw wneud y canlynol:**

- **ystyried yr holl risgiau sy'n ymwneud â hyfywedd ariannol cyffredinol sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu (a ddylai, yn ei dro, lywio unrhyw benderfyniadau ynghylch yr angen am flaendaliadau);**
- **ceisio sicrwydd o ran cydymffurfiaeth sefydliadau ag egwyddorion**

18 Yn annibynnol ar y sefyllfa gydag AWEMA, mae Canolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at anghysondeb yn y ffordd y cafodd blaendaliadau eu trin ac mae wedi datblygu templed i sefydliadau yn y trydydd sector ei gwblhau er mwyn dangos yr angen am flaendaliad.

**llywodraethu da gan gynnwys, lle y bo'n gymesur, brofi'r trefniadau hynny;**

- **cyfrannu at broses asesu risg glir er mwyn ategu penderfyniadau ynghylch natur ac amlder trefniadau monitro Llywodraeth Cymru ar ôl dyfarnu arian.**

b **Ystyried ymhellach ddatblygu system rheoli cydberthnasau â chwsmeriaid fel y sail i sicrhau y rhennir gwybodaeth ar draws Llywodraeth Cymru am ei hamrywiol gydberthnasau ariannu â sefydliadau allanol.**

c **Sicrhau ei bod yn ofynnol i reolwyr grantiau, wrth ystyried cynigion gan ddarpar dderbynwyr grantiau ac wrth iddynt reoli'r arian hwnnw'n gyffredinol, ddeall cydberthynas ariannol gyffredinol Llywodraeth Cymru â'r sefydliadau hynny.**

ch **Pennu protocolau clir ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldebau rhwng uwch swyddogion a rhwng Gweinidogion, gan sicrhau bod y trefniadau olynol hynny yn cyfleu cydberthnasau ariannu adrannau perthnasol a Llywodraeth Cymru yn ehangach â sefydliadau allanol ac, yn arbennig, hanes unrhyw bryderon penodol ynghylch y sefydliadau hynny.**

d **Sicrhau bod rheolwyr grantiau yn deall y dylai unrhyw gyswllt sylweddol â derbynwyr grantiau ynghylch eu harian gael ei gofnodi'n ffurfiol ar ffeil.**

2 Ar ôl nodi newidiadau mewn rhai prosesau mewn ymateb i'r sefyllfa gydag AWEMA, **argymhellwn y dylai AWEMA hefyd:**

a **Sicrhau bod pob swyddog prosiect yn llwyr ymwybodol o ddiben a phwysigrwydd eu gwaith monitro a'u cyfrifoldebau wrth gefnogi prosiectau a sicrhau bod prosiectau yn mynd rhagddynt yn foddhaol ac yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Yn ein barn ni, gellid cyflawni'r fath welliant drwy hyfforddiant gloywi gorfodol o bryd i'w gilydd.**

b **Sicrhau bod pob prosiect cyfredol wedi'i fonitro'n rheolaidd a'i ddogfennu, yn unol â gofynion WEFO.**

c **Adolygu'r holl amodau arbennig a gofnodir fel rhai 'agored', ac unwaith y caiff eu statws gwirioneddol ei gadarnhau, sicrhau bod swyddogion prosiect yn cymryd unrhyw gamau dilynol angenrheidiol yn ddi-oed.**

3 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cydnabod, wrth ymateb i'r sefyllfa gydag ansolfedd AWEMA eu bod, i raddau, yn gweithredu mewn amgylchiadau nas gwelwyd o'r blaen. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflawni ymarfer gwersi a ddysgwyd a llunio canllawiau mewnol i gefnogi unrhyw ymateb yn y dyfodol i sefyllfa debyg.**

4 Mae WEFO bellach wedi sefydlu trefniadau olynol ar gyfer pob un o dri phrosiect AWEMA o dan Raglen Gydgyfeirio'r UE. **Argymhellwn, tra pery'r prosiectau hyn, fod WEFO yn cynnal cyfarfodydd monitro chwarterol â phrif noddwyr y prosiectau, a'i bod yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â phartneriaid eraill y prosiectau er mwyn helpu i nodi ac unioni'n ddi-oed unrhyw faterion sy'n achos pryder a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiectau hyn yn gyffredinol.**

# Rhan 1 – Er nad oedd yn glir ar ddechrau ein gwaith, rydym wedi pennu i Lywodraeth Cymru roi £7.15 miliwn mewn taliadau i AWEMA, gyda £3.01 miliwn arall wedi'i ymrwymo mewn egwyddor

**1.1** Mae'r rhan hon o'n hadroddiad, a ategir gan Atodiad 2, yn disgrifio hanes llawn a chyfanswm gwerth taliadau Llywodraeth Cymru i AWEMA ac ymrwymiadau ariannu hyd at 2014-15[19]. Mae hefyd yn ystyried cyfraniad arian Llywodraeth Cymru, ynghyd â ffynonellau eraill o arian cyhoeddus (Atodiad 4), at gyfanswm incwm AWEMA a disgrifia rai o'r cynlluniau a nodwyd gan AWEMA i arallgyfeirio ei ffrydiau incwm.

**1.2** Gwnaed taliadau olaf Llywodraeth Cymru i AWEMA ar 20 Rhagfyr 2011. Mae paragraffau 3.8 i 3.12 yn egluro pam nad oedd yn bosibl i'r taliadau a oedd eisoes yn yr arfaeth ar 19 Rhagfyr 2011, pan gafwyd yr honiadau gan Gyfarwyddwr Cyllid AWEMA, gael eu hatal. Cysylltodd Prif Weithredwr AWEMA hefyd â WEFO ac uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r honiadau hyn ar 19 Rhagfyr 2011, ar ôl dwyn rhai o'r materion hyn at sylw un o swyddogion WEFO ar 29 Tachwedd 2011 (paragraffau 3.2 i 3.7).

## Mae sylw yn y cyfryngau a sylwadau cyhoeddus ynghylch AWEMA wedi cynnwys cyfeiriadau aneglur a chamarweiniol at arian cyhoeddus AWEMA

**1.3** Ar ddechrau ein gwaith, nid oedd gwerth llawn arian Llywodraeth Cymru i AWEMA yn glir. Mae cryn dipyn o'r sylw diweddar yn y cyfryngau a sylwadau cyhoeddus mwy cyffredinol ynghylch AWEMA a'i harian cyhoeddus wedi cyfeirio at ffigur o £8.4 miliwn. Fodd bynnag, nid yw'r ffordd yr adroddwyd ac y gwnaed sylwadau ar y ffigur hwn wedi bod yn eglur a chyson o ran yr argraff a roddwyd o'r canlynol:

- **a** p'un a oedd y swm hwn yn ymwneud â chyfanswm yr arian cyhoeddus a gafodd AWEMA, neu hyd yn oed yn ariannol;
- **b** p'un ai'r swm o arian yr oedd AWEMA wedi'i gael yn barod oedd hwn neu, yn rhannol o leiaf, yn ddyledus iddo o hyd; neu
- **c** â pha ffrydiau o arian cyhoeddus yr oedd y ffigur hwn yn gysylltiedig; p'un a oedd gan Lywodraeth Cymru (gan gynnwys arian yr UE), arian loteri, neu ffynonellau eraill.

19 Ar 9 Chwefror 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ fod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i ariannu AWEMA yn syth.

**1.4** Felly, ein tasgau cyntaf oedd gofyn i Lywodraeth Cymru am ddadansoddiad llawn o'i thaliadau blaenorol i AWEMA, pennu diben y rhain a chadarnhau ymrwymiadau ariannu parhaus Llywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2011 (Atodiad 1). Gwnaethom hefyd geisio cadarnhau â chyrff cyhoeddus eraill eu hymrwymiadau ariannu hanesyddol a chyfredol i AWEMA (Atodiad 4). Dengys y dadansoddiad cyffredinol hwn fod cyfeiriadau at £8.4 miliwn yn aneglur ac yn gamarweiniol. Ymddengys fod y ffigur o £8.4 miliwn yn seiliedig ar werth gydol oes amcangyfrifedig gwreiddiol, yn cynnwys arian cyfatebol i dri prosiect Rhaglen Gydgyfeirio yr EU ag arweinir gan AWEMA[20] (Atodiad 1).

## Rhwng 25 Gorffennaf 2000 ac 20 Rhagfyr 2011, gwnaeth Llywodraeth Cymru £7.15 miliwn mewn taliadau i AWEMA, gyda'r gwariant blynyddol uchaf yn 2006-07 sef £1.24 miliwn

**1.5** Er bod AWEMA yn bodoli mewn enw o fis Gorffennaf 1999, dengys cofnodion Llywodraeth Cymru mai ar 25 Gorffennaf 2000 y gwnaeth ei thaliad uniongyrchol cyntaf i AWEMA. Y taliad hwnnw, sef £8,333, oedd y taliad cyntaf o dri rhandaliad am yr un swm rhwng mis Gorffennaf 2000 a mis Ionawr 2001 o grant 'Cymorth i Wasanaethau Canolraddol Gwirfoddol' Llywodraeth Cymru. Ymddengys mai bwriad yr arian hwn oedd helpu i dalu rhai costau cychwynnol a pharhau'n gyffredinol â rhywfaint o'r gwaith cynnar a wnaed o dan faner AWEMA. Roedd y cyfnod ariannu hwn yn gorgyffwrdd â chorffori AWEMA yn gwmni yn ei rinwedd ei hun ym mis Tachwedd 2000.

**1.6** Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi talu cyfanswm o £7.15 miliwn i AWEMA, yn cynnwys arian Ewropeaidd. Heblaw am £351,000[21], mae'r holl arian hwn wedi ymwneud â grantiau a gymeradwywyd gan:

- **a** uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru[22] – £1.13 miliwn wedi'i dalu;
- **b** rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru - £1.09 miliwn wedi'i dalu;
- **c** Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru - £4.58 miliwn wedi'i dalu.

**1.7** Mae'r arian a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i AWEMA bob blwyddyn wedi amrywio'n sylweddol dros amser (Ffigur 2). Heblaw am 2004-05, cynyddodd cyfanswm gwerth taliadau Llywodraeth Cymru yn raddol o 2000-01 ymlaen, i uchafbwynt o £1.2 miliwn yn 2006-07. Yna, gostyngodd taliadau Llywodraeth Cymru yn sylweddol yn 2008-09[23]. Adlewyrchodd hyn y ffaith bod arian Cymunedau yn Gyntaf AWEMA wedi dod i ben yn 2007-08 ac, yn ystod 2008-09, daeth arian Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) AWEMA o dan raglen EQUAL i ben[24]. Ym mis Ionawr 2009, cymeradwyodd WEFO arian pellach ar gyfer yr hyn a fyddai'n un o dri phrosiect wedi'u harwain gan AWEMA o dan Raglen Gydgyfeirio UE. Gwnaeth WEFO ei thaliad cyntaf ar gyfer y prosiect newydd hwn ym mis Ebrill 2009.

20 Y tri phrosiect hyn oedd: Black and Ethnic Minority Employment for All; Young Black and Minority Ethnic People Aiming High; a Minorities are Wales' Resources (Atodiad 2).

21 Mae'r £351,000 sy'n weddill yn cynnwys arian sy'n gysylltiedig â chostau sefydlu cychwynnol AWEMA a gwaith dilynol ar faterion tai, gofalwyr, gofal plant a datblygu economaidd (Atodiad 2).


22 Er cysondeb, cyfeiriwn drwy gydol yr adroddiad hwn at uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r uned sy'n gyfrifol am y polisi cydraddoldeb wedi bodoli o dan bedwar enw gwahanol ers mis Mai 1999 yn dilyn ymarferion ailstrwythuro amrywiol. Mae'r uned wedi cael yr enwau canlynol: Uned Polisi Cydraddoldeb (rhwng mis Mai 1999 a dechrau mis Chwefror 2006); uned cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol (rhwng dechrau mis Chwefror 2006 a diwedd mis Rhagfyr 2007); Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (rhwng mis Ionawr 2008 a mis Ebrill 2009); a'r Is-adran Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant (ers mis Ebrill 2009).

23 Tystiolaeth o ostyngiad cyffredinol yn incwm AWEMA oedd un o'r rhesymau pam, ym mis Gorffennaf 2008, y gwrthododd Cyngor Celfyddydau Cymru gais am £24,769 gan AWEMA i helpu i drefnu cyfres o weithdai barddoni mewn pedair ysgol yng Nghaerdydd a phedair ysgol yn Abertawe (Atodiad 4).

24 Roedd yr arian hwn ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru AWEMA (Atodiad 2).

**1.8** Mae uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian ym mhob blwyddyn ariannol gan gynnwys ac ers 2000-01. O 2001-02 ymlaen, mae gwerth blynyddol yr arian hwn wedi parhau'n gymharol gyson sef rhwng £100,000 a £113,000 y flwyddyn, er bod diben yr arian wedi newid dros amser.

**Ffigur 2 - Crynodeb lefel uchel o daliadau uniongyrchol Llywodraeth Cymru i AWEMA, 2000-01 i 2011-12**




Noder

Rhydd Atodiad 2 ddadansoddiad llawn o daliadau Llywodraeth Cymru ar sail arian parod i AWEMA ym mhob blwyddyn ariannol a'u diben Dengys datganiadau ariannol AWEMA gyfansymiau gwahanol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan fod y trafodion hyn wedi'u cofnodi, at ddibenion cyfrifyddu, ar sail incwm a gwariant. At hynny, nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys taliadau i AWEMA gan arianwyr cyhoeddus eraill a oedd yn rheoli trefniadau ariannu ar ran Llywodraeth Cymru o bosibl (Atodiad 4).

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gofnodion ariannol Llywodraeth Cymru.*

## Mae arian Llywodraeth Cymru wedi cyflawni dibenion gwahanol ond, ers 2010-11 yn arbennig, mae wedi cefnogi costau gweithredu craidd AWEMA a phrosiectau Rhaglen Gydgyfeirio'r UE

1.9 Mae arian Llywodraeth Cymru i AWEMA wedi bod yn gysylltiedig â'r portffolios polisi arweiniol canlynol: cydraddoldebau; addysg a sgiliau; polisi economaidd/datblygu economaidd (gan gynnwys WEFO); tai; polisi gofal cymdeithasol; a chymunedau.

1.10 Yn nodedig, yn 2002-03, rhoddodd pum adran wahanol o Lywodraeth Cymru arian i AWEMA (Atodiad 2). Er nad ydym wedi ceisio gwerthuso ansawdd nac effaith gwaith AWEMA ein hunain, mae'r gweithgareddau a gefnogwyd gan arian Lywodraeth Cymru wedi cynnwys:

- a Llunio canllawiau arfer da ac ymchwil ar faterion yn effeithio ar gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru (p'un a wnaed hynny gan staff wedi'u cyflogi gan AWEMA neu asiantaethau ymchwil eraill).
- b Cynnal digwyddiadau penodol, er enghraifft i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod neu i gefnogi ymgynghoriad ar bolisïau Llywodraeth Cymru.
- c Darparu gweithgareddau/gwasanaethau penodol yn targedu cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig - er enghraifft, clybiau gwaith cartref, dosbarthiadau iaith neu hyfforddiant arall yn seiliedig ar sgiliau.
- ch Cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaethau penodol Llywodraeth Cymru. Yn arbennig, cyflogi Swyddog Strategaeth Tai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a wnaeth helpu i gyflwyno Cynllun Gweithredu cyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer Tai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.
- d Cyfrannu at wahanol ymgynghoriadau polisi, adolygiadau neu ymchwiliadau pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol.
- dd Yn ystod blynyddoedd cynnar AWEMA, hwyluso amryw bwyllgorau pwnc AWEMA, a oedd yn fodd i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â chynrychiolwyr cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- e Cyflogi gweithwyr datblygu i gynnwys cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig fel rhan o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

1.11 Ers dechrau 2010-11 yn arbennig, prif ddiben arian Llywodraeth Cymru i AWEMA fu cefnogi prosiectau Rhaglen Gydgyfeirio UE wedi'u hariannu gan WEFO. Gyda sêl bendith Llywodraeth Cymru, defnyddiwyd rhywfaint o arian craidd yr uned cydraddoldebau i gefnogi costau gweithredu AWEMA a helpu i gyflawni amcanion prosiect a oedd yn gydnaws â'r prosiectau wedi'u hariannu gan WEFO. Cafodd rhywfaint o arian blaenorol AWEMA oddi wrth yr uned cydraddoldebau, yr hen Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ei ddefnyddio hefyd i gefnogi cyllid arian parod neu arian cyfatebol mewn da ar gyfer ei phrosiectau wedi'u hariannu gan WEFO.

## Er iddo gael ei dalu i AWEMA i ddechrau, cafodd cryn dipyn o arian Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a phrosiectau wedi'u hariannu gan WEFO ei drosglwyddo i dalu costau a hawliwyd gan bartneriaid prosiect AWEMA

1.12 Fel rhan o'i gwaith prosiect mwyaf sylweddol, a gefnogwyd gan arian WEFO, roedd AWEMA yn gweithredu fel partner arweiniol, gan weithio gydag amrywiaeth o sefydliadau eraill (Atodiad 2). Fel rhan o'r trefniadau hyn, AWEMA oedd yn gyfrifol am reoli arian y prosiectau yn gyffredinol, gan gynnwys cyflwyno hawliadau ar ran partneriaid prosiect a throsglwyddo taliadau Llywodraeth Cymru[25]. Yn yr un modd, roedd AWEMA yn cael arian gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf - ar gyfer 'Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig' - oherwydd, yn ogystal â'i rhan hi yn y gwaith o gyflawni'r prosiect, roedd yn gweinyddu'r arian cyffredinol ar ran partneriaid prosiect eraill.

1.13 Ar gyfer y prosiectau a ariannwyd gan WEFO, nid oedd AWEMA yn ad-dalu costau partneriaid yn llawn ac roedd yn adennill tâl rheoli/gweinyddu prosiect fel cyfraniad tuag at rai o'i chostau ei hun. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth fod WEFO wedi cael gwybod a chytuno ar drefniant o'r fath. Fodd bynnag, deallwn fod y trefniant wedi cael ei drafod gan AWEMA a'r partneriaid prosiect ac y byddai WEFO, beth bynnag, wedi ystyried bod hyn yn fater i'r partneriaid ei ddatrys. Rydym wedi cael adborth gan rai o bartneriaid prosiect AWEMA sy'n awgrymu nad oeddent yn gwbl fodlon ar y trefniant hwn nac yn glir ynghylch sut i'w roi ar waith.

1.14 Nid oes gennym ddigon o ddata i gadarnhau'r symiau a drosglwyddwyd gan AWEMA i'w phartneriaid o'r arian a roddwyd gan WEFO neu fel rhan o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, dengys data a roddwyd i ni gan WEFO fod £0.93 miliwn (54 y cant) o'r £1.71 miliwn o gyllid grant a hawliwyd ar gyfer tri phrosiect Rhaglen Gydgyfeirio'r UE tan ddiwedd mis Awst 2011 yn ymwneud â chostau a hawliwyd gan AWEMA ar ran ei phartneriaid prosiect. Yn yr un modd, ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru (rhaglen EQUAL), dengys data WEFO fod £1.23 miliwn (53 y cant) o'r grant o £2.33 miliwn a hawliwyd yn ymwneud â chostau a hawliwyd gan AWEMA ar ran partneriaid prosiect. Yn 2003-04, roedd a wnelo £141,140 (65 y cant) o'r £217,177 o arian Cymunedau yn Gyntaf a dalwyd i AWEMA â hawliadau gan bartneriaid prosiect.

## Cyn cyhoeddi bod ei harian yn dod i ben ar 9 Chwefror 2012, roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymrwymedig, mewn egwyddor, i roi £3.01 miliwn arall i AWEMA ar gyfer gweithgareddau tan 30 Mehefin 2014

1.15 Ar ôl gwneud ei thaliad olaf i AWEMA ar 20 Rhagfyr 2011, ataliodd Llywodraeth Cymru unrhyw daliadau pellach tra'i bod yn ymchwilio i'r materion a ddygwyd i'w sylw gan Gyfarwyddwr Cyllid a Phrif Weithredwr AWEMA y diwrnod blaenorol. Ar yr adeg honno, ac yn unol â thelerau ac amodau

25 Ar gyfer Rhaglen Gydgyfeirio'r UE, roedd WEFO wedi bod yn awyddus i nodi nifer lai o brosiectau mwy i'w rheoli. Fodd bynnag, oherwydd pryderon y byddai hyn yn atal sefydliadau llai rhag cymryd rhan yn y rhaglen, anogodd WEFO brosiectau cydweithredol hefyd. Mae'r trefniant prif arweinydd yn lleihau costau trafodol WEFO wrth reoli'r rhaglen, gan olygu nad oes rhaid iddi ymdrin yn uniongyrchol â phob partner prosiect unigol, ond trosglwyddo peth o'r gost drafodol hon i'r noddwr arweiniol. Roedd y model noddwr arweiniol hwn hefyd yn gyffredin i brosiectau o dan raglen EQUAL.

grant, roedd ymrwymiadau ariannu parhaus Llywodraeth Cymru i AWEMA ar gyfer gweithgareddau tan 30 Mehefin 2014 yn cyfateb i £3.01 miliwn arall (Ffigur 3).
Ar 9 Chwefror 2012, cyhoeddodd Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, fod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i ariannu AWEMA yn syth.

**Ffigur 3 - Ymrwymiadau ariannu Llywodraeth Cymru i AWEMA ar 20 Rhagfyr 2011[1]**

| | Cyfanswm y cynnig grant (£000oedd) | Talwyd ar 20 Rhagfyr 2011 (£000oedd) | Heb ei dalu ar 20 Rhagfyr 2011 (£000oedd) |
|---|---|---|---|
| WEFO – Black and Minority Ethnic Employment for All[2] | 2,095 | 1,405 | 690 |
| WEFO – Young Black and Minority Ethnic People Aiming High[3] | 1,450 | 459 | 991 |
| WEFO – Minorities are Wales' Resources[4] | 1,514 | 389 | 1,125 |
| Uned cydraddoldebau – Grant Craidd y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb (2010-11 i 2012-13)[5] | 326 | 133 | 194 |
| Uned cydraddoldebau – Digwyddiadau'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb i Ddathlu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, 2011-12[6] | 7 | 0 | 7 |
| **Cyfanswm** | **5,392** | **2,386** | **3,007** |

Nodiadau

1 Mae paragraffau 3.26 i 3.39 yn trafod yr hawliad a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru am ad-dalu rhywfaint o arian WEFO a dalwyd eisoes a'r holl arian craidd gan yr uned cydraddoldebau. Mae AWEMA yn anghytuno â hawliad Llywodraeth Cymru am ad-dalu arian craidd yr uned cydraddoldebau ac mae'n ceisio taliad pellach gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf 2011 i ddiwedd mis Chwefror 2012.

2 Roedd disgwyl i'r prosiect hwn orffen ar 31 Rhagfyr 2012. Mae'r cynnig grant a nodir yn seiliedig ar y cynnig diwygiedig yn sgil ailbroffilio'r prosiect ym mis Ionawr 2011 (Atodiad 2).

3 Roedd disgwyl i'r prosiect hwn orffen ar 30 Mehefin 2013.

4 Roedd disgwyl i'r prosiect hwn orffen ar 30 Mehefin 2014.

5 Mae Llywodraeth Cymru wedi talu allan ei dyraniad llawn o £105,575 ar gyfer 2010-11 a'r rhandaliad chwarterol cyntaf o £27,186 ar gyfer 2011-12. Yn ogystal â'r tri rhandaliad pellach a oedd yn ddyledus ar gyfer 2011-12, roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig £112,004 arall ar gyfer 2012-13.

6 Asesodd yr uned cydraddoldebau gynigion gan sefydliadau ar gyfer digwyddiadau cysylltiedig yn erbyn meini prawf a bennwyd, gan sgorio pob cynnig. Cadarnhaodd yr uned cydraddoldebau ei chynnig grant i AWEMA – sef £6,830 – ar 8 Rhagfyr 2012 a chafodd y cytundeb grant wedi'i lofnodi yn ôl gan AWEMA ar 22 Rhagfyr 2012. Roedd cynnig AWEMA wedi dynodi y byddai'r arian hwn yn cael ei rannu â phum sefydliad partner arall a oedd, ar y cyd ag AWEMA, yn cynnal un o blith chwe digwyddiad ac iddynt thema. Am na wnaeth yr uned cydraddoldebau dalu'r grant hwn nid ydym wedi ei gynnwys yn ein dadansoddiad yn Atodiad 2.

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gofnodion Llywodraeth Cymru.*

## Er bod AWEMA wedi gobeithio arallgyfeirio ei ffrydiau incwm, roedd bob amser wedi dibynnu'n sylweddol ar yr arian roedd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill

### Amcangyfrifwn fod arian Llywodraeth Cymru wedi cyfrif am o leiaf 90 y cant o gyfanswm incwm AWEMA gyda'r rhan fwyaf o weddill ei harian yn dod oddi wrth gyrff cyhoeddus eraill

**1.16** Nid ydym wedi cynnal ein harchwiliad ein hunain o gyllid AWEMA. Fodd bynnag, drwy adolygu datganiadau ariannol archwiliedig AWEMA, rydym wedi gallu nodi ffynonellau ariannu amrywiol gan gyrff cyhoeddus yn ogystal â thaliadau a wnaed i AWEMA gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi gallu cadarnhau rhai, ond nid pob un, o'r taliadau hyn gyda'r cyrff ariannu perthnasol. Roedd y taliadau rydym wedi eu nodi yn creu cyfanswm o tua £577,000 rhwng mis Hydref 2000 a mis Rhagfyr 2011 (Atodiad 4). Dim ond un mater o bryder a godwyd gan yr adborth a gafwyd gan sefydliadau a oedd yn gwneud y taliadau hyn a hynny mewn perthynas â'u bodlonrwydd â defnydd AWEMA o'r arian hwn. Y Gronfa Loteri Fawr oedd y sefydliad hwn sy'n ceisio, fel rhan o broses ddiddymu AWEMA, adennill £5,000 a dalwyd i AWEMA yn 2011-12 o dan ei chynllun 'Awards for All'[26].

**1.17** Cafwyd y ffynhonnell fwyaf o arian, heblaw am Lywodraeth Cymru, gan grant Connecting Communities y Swyddfa Gartref. Rhoddodd y Swyddfa Gartref tua £346,000 i AWEMA rhwng 2000-01 a 2003-04[27]. O ganlyniad i'r ymrwymiad ariannol a wnaed gan y Swyddfa Gartref, cafodd AWEMA sylfaen fwy cadarn i gofrestru fel cwmni yn ei rinwedd ei hun ym mis Tachwedd 2000, ac yn dilyn hynny symudodd y sefydliad allan o swyddfeydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ym mis Chwefror 2001. Er nad oedd yn rhan o gynnig gwreiddiol AWEMA, deallwn i'r Swyddfa Gartref gytuno'n ddiweddarach y gallai'r arian hwn helpu i gyflogi Cyfarwyddwr AWEMA[28].

**1.18** Yn seiliedig ar wybodaeth yn natganiadau ariannol archwiliedig AWEMA rhwng mis Tachwedd 2000 a mis Mawrth 2010[29], amcangyfrifwn i daliadau gan Lywodraeth Cymru gynnwys o leiaf 90 y cant o gyfanswm incwm AWEMA yn y cyfnod hwnnw. Daeth y rhan fwyaf o'r incwm sy'n weddill o ffynonellau eraill o arian cyhoeddus hefyd ac mae wedi cynnwys rhai taliadau i AWEMA gan sefydliadau eraill a oedd, yn wreiddiol, yn arian Llywodraeth Cymru.

26 Ni dderbyniodd y Gronfa Loteri Fawr adroddiad diwedd-prosiect pan i'r pryderon am AWEMA ddod i'r golwg ym mis Rhagfyr 2011. Tra bod y Gronfa Loteri Fawr wedi derbyn rhywfaint o dystiolaeth am wariant perthnasol, mae wedi dod i'r casgliad bod y dystliolaeth yma'n anghyflawn.

27 Yn seiliedig ar wybodaeth o ddatganiadau ariannol AWEMA.

28 Ym mis Mehefin 2001, cafodd Mr Naz Malik ei benodi'n ffurfiol yn 'Gyfarwyddwr' gan AWEMA, ar ôl iddo dreulio cyfnod byr fel y Cyfarwyddwr Dros Dro (o fis Ebrill 2001). Yn seiliedig ar y cofnodion hynny sy'n perthyn i Lywodraeth Cymru rydym wedi eu hadolygu, newidiodd disgrifiad Mr Malik o'i rôl o Gyfarwyddwr i Brif Weithredwr tua'r adeg y rhoddodd y Swyddfa Gartref y gorau i ariannu AWEMA (30 Medi 2003). Er cysondeb, cyfeiriwn drwy gydol ein hadroddiad at rôl 'Prif Weithredwr AWEMA'.

29 Nid oes unrhyw ddatganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer 2010-11 na 2011-12.

## Roedd archwilwyr allanol AWEMA wedi mynegi pryderon cyson ynghylch dibyniaeth AWEMA ar ymrwymiadau arian grant byrdymor yn aml a materion llif arian parod cysylltiedig

**1.19** Mae dibyniaeth AWEMA ar ei harian cyhoeddus yn nodweddiadol o lawer o sefydliadau yn y trydydd sector. Yn eu barnau archwilio ar gyfrifon cyhoeddedig AWEMA tan 2009-10 (ni luniwyd cyfrifon ar gyfer 2010-11 na 2011-12), soniodd yr archwilwyr allanol yn fynych am yr ‘ansicrwydd sylfaenol’ a oedd yn effeithio ar gyllid AWEMA. Roedd y cyfeiriadau hyn at ansicrwydd sylfaenol yn adlewyrchu: pryderon parhaus yr archwilwyr ynghylch graddau a hyd ymrwymiadau ariannu grant y dyfodol; llifau arian parod prosiectau a dibyniaeth ddilynol AWEMA ar dderbyn arian yn brydlon; a’r lefel gymharol isel o gronfeydd wrth gefn a oedd gan AWEMA. Mae’r archwilwyr wedi dweud wrthym nad oedd unrhyw gyfeiriad at ansicrwydd sylfaenol yn eu hadroddiadau ar gyfrifon 2007-08 a 2009-10 oherwydd, ym mhob achos, roedd sicrwydd o incwm ychwanegol o ran prosiectau AWEMA wedi’u hariannu gan WEFO ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

**1.20** Ers cofrestru fel elusen ym mis Mawrth 2005, mae adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr wedi rhoi pwyslais cyson ar yr angen i AWEMA adeiladu cronfeydd wrth gefn er mwyn ei gwneud yn fwy diogel yn ariannol. Fodd bynnag, roedd adroddiadau 2005-06 i 2009-10 hefyd yn pwysleisio ei bod yn gyfreithiol ofynnol i’r ymddiriedolwyr ddefnyddio’r incwm a gafwyd gan arianwyr at y dibenion ac o fewn y cyfnod a fwriadwyd. Ar gyfer 2005-06 a 2006-07, tynnodd yr adroddiadau sylw at ddyhead yr ymddiriedolwyr i adeiladu cronfeydd wrth gefn a oedd yn cyfateb i chwe mis o gostau gweithredu craidd. Ond ar gyfer 2007-08 i 2009-10, roedd yr adroddiadau yn cyfeirio at yr angen i adeiladu cronfeydd wrth gefn a oedd yn cyfateb i 12 mis o gostau gweithredu.

**1.21** Fel ar ddiwedd 2009-10, roedd datganiadau ariannol AWEMA yn nodi cronfeydd wrth gefn cyffredinol o £88,451, yr oedd £18,093 yn gronfeydd wrth gefn dynodedig. Amcangyfrifwyd bod costau gweithredu craidd AWEMA ar gyfer 2010-11 tua £230,000. Cyfeiriwyd yn amrywiol at y modd yr adeiladwyd y cronfeydd wrth gefn yn yr adroddiadau fel gweithgareddau creu incwm/codi arian eraill, ond hefyd daliadau rheoli a gweinyddu ar brosiectau a ariannwyd yn gyhoeddus. Yn 2006-07, 2007-08 a 2009-10, mae adroddiad yr ymddiriedolwyr yn cyfeirio at AWEMA yn ceisio, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, ddefnyddio arbedion effeithlonrwydd hyd at uchafswm o 5 y cant o arian er mwyn helpu i adeiladu cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o unrhyw drafodaethau rhwng AWEMA a swyddogion Llywodraeth Cymru i’r perwyl hwnnw.

**1.22** Mae materion llif arian parod wedi bod yn nodwedd ar gamau gwahanol o’r cyfathrebu rhwng AWEMA a Llywodraeth Cymru, lle mae AWEMA wedi ceisio taliadau cyflymach, mwy rheolaidd, neu daliadau ymlaen llaw, gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi nodi rhai achosion lle’r oedd Llywodraeth Cymru, yn enwedig yn ystod blynyddoedd cynnar yr arian gan yr uned cydraddoldebau, yn araf yn adolygu dogfennaeth prosiect berthnasol ac yn prosesu hawliadau, gan arwain at oedi mewn taliadau. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau lle, oherwydd methiannau AWEMA ei hun i gyflwyno hawliadau yn amserol neu gydymffurfio’n brydlon â gofynion monitro Llywodraeth Cymru, bu oedi o ran taliadau.

## Roedd AWEMA wedi nodi cynlluniau uchelgeisiol i arallgyfeirio ei ffrydiau incwm ond ni wnaeth elfennau allweddol, yn nodedig sefydlu cyfleusterau canolfan gymunedol amlddiwylliannol fel dull o greu incwm, ddwyn ffrwyth byth

**1.23** Nododd cynllun busnes AWEMA ar gyfer 2010-2015 ei bwriad i: arallgyfeirio ymhellach ffynonellau incwm grant ar gyfer gwaith prosiect; darparu gwasanaethau ar sail fasnachol ym meysydd cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol i gyrff cyhoeddus a phreifat; creu refeniw o'r defnydd o eiddo AWEMA; a datblygu strwythur ffi aelodaeth. Fel rhan o brosiect Curiad Calon Cymru wedi'i ariannu gan WEFO, roedd AWEMA wedi trafod dichonoldeb datblygu cyfleusterau canolfan gymunedol amlddiwylliannol yng Nghaerdydd ac Abertawe. Fodd bynnag, roedd cynllun busnes AWEMA ar gyfer 2010-2015 yn canolbwyntio ar gynigion i sefydlu canolfan yn Abertawe ac, o bosibl, yng Ngogledd Cymru.

**1.24** Mae adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr ar gyfer 2008-09 yn cyfeirio at gynnig am arian cyfalaf ac arian refeniw i'r Gronfa Loteri Fawr ar gyfer £1.3 miliwn i sefydlu canolfan amlddiwylliannol i fenywod yng Nghaerdydd y bu'n rhaid ei dynnu'n ôl am fod yr eiddo a nodwyd wedi cael ei werthu i barti arall. Dengys gwybodaeth a roddwyd i ni gan y Gronfa Loteri Fawr fod y cynnig a gafodd ar gyfer £981,596 (costau cyfalaf yn bennaf), tuag at gyfanswm cost prosiect o £1.47 miliwn. Ym mis Mehefin 2009, gwrthododd y Gronfa Loteri Fawr gynnig AWEMA ar sail y ffaith na chafwyd caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, roedd y Gronfa Loteri Fawr hefyd yn ymwybodol nad oedd yr eiddo a fwriadwyd ar gael mwyach.

**1.25** Ym mis Ebrill 2010, cafodd y Gronfa Loteri Fawr gais ar-lein am £450,000 (gan gynnwys costau refeniw o £50,000) tuag at gostau ailwampio swyddfeydd y YMCA yn Abertawe i'w defnyddio fel swyddfa a chanolfan gymunedol amlddiwylliannol ar y cyd. Roedd AWEMA wedi adleoli i swyddfeydd y YMCA yn Abertawe ar ddechrau 2009. Rhoddwyd canlyniad 'annhebygol' i'r cais ar-lein ac ni chyrhaeddodd AWEMA y cam gwneud cais llawn. Rhwng mis Mai 2009 a mis Chwefror 2010, roedd Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) mewn trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch cymorth arian cyfalaf posibl gan gronfa Ardal Adfywio Abertawe. Cyflwynodd AWEMA gynnig amlinellol ym mis Tachwedd 2009, gan brisio cam cyntaf ei phrosiect arfaethedig ychydig o dan £300,000, yr oedd yn ceisio ychydig o dan £180,000 gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynodd AWEMA Ddogfen Cychwyn Prosiect lawnach ym mis Rhagfyr 2009 ond cododd Llywodraeth Cymru nifer o gwestiynau yn ei chylch, cyn cyfarfod pellach â staff AWEMA ar ddiwedd mis Ionawr 2010.

**1.26** Roedd prif bryderon Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- **a** yr angen am eglurhad pellach ynghylch allbynnau a gwerth ychwanegol yr arian a'r effaith ar AWEMA a YMCA Abertawe yn sgil eu cynigion gwahanol ar gyfer yr adeilad[30];
- **b** tystiolaeth o ddiffyg cymorth gan sefydliadau lleol eraill, gan gynnwys Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe;
- **c** pryderon ynghylch p'un a oedd canlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb, a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2006, yn dal i fod yn ddilys;

30 Roedd YMCA Abertawe, ar y cyd â'r Tîm Ardal Adfywio Strategol, yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu cyfleuster gofal plant - mae'r prosiect hwn bellach wedi cael ei gyflwyno gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

ch amheuon ynghylch argaeledd arian cyfatebol.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn rhan o'r trafodaethau hyn wedi dynodi, y tu hwnt i ddechrau mis Chwefror 2010, na fu unrhyw gyswllt pellach ag AWEMA ynghylch ei chynnig. Ar yr adeg honno, roedd y swyddogion wedi cynghori Mr Malik na fyddent mewn sefyllfa i gynnig cymorth ariannol gan nad oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd i ymdrin â'r pryderon a restrwyd uchod.

1.27 Ym mis Ionawr 2009, cafodd AWEMA ymrwymiad ariannol o £25,000 tuag at gost prosiect canolfan gymunedol Caerdydd gan Sefydliad Waterloo[31] (ar ôl iddo geisio £50,000). Yna, ar ôl iddi symud i Abertawe, gofynnodd AWEMA am ganiatâd i ailddyrannu'r arian hwn i gefnogi ei rhaglen adnewyddu cyfalaf yn ei swyddfeydd newydd. Ym mis Gorffennaf 2009, gwnaeth Sefydliad Waterloo gynnig grant diwygiedig o £15,000 o arian anghyfyngedig ond gyda'r bwriad o hyd o gefnogi'r broses o ddatblygu safle AWEMA yn Abertawe fel canolfan gymunedol amlddiwylliannol ac, ym mis Awst 2010, dywedodd AWEMA wrth Sefydliad Waterloo fod yr arian hwn wedi cael ei ddefnyddio'n bennaf i dalu costau cyfreithiol er mwyn gwneud trefniadau prydlesu terfynol i ddefnyddio llawr uchaf swyddfeydd yr YMCA yn Abertawe.

31 Mae Sefydliad Waterloo yn sefydliad cyflwyno grantiau annibynnol a gafodd ei greu yn 2007 ac a leolir yng Nghaerdydd, sy'n rhoi grantiau i sefydliadau yn y DU a thramor. Ym mis Hydref 2007, cyflwynodd AWEMA gais i Sefydliad Waterloo am £50,000 dros dair blynedd i gyfrannu at ei chostau gweithredu craidd. Gwrthododd Sefydliad Waterloo y cais.

# Rhan 2 – Bu'r ffordd y oedd Llywodraeth Cymru yn rheoli ac yn cydgysylltu ei harian grant i AWEMA rhwng mis Gorffennaf 2000 a mis Rhagfyr 2011 yn aml yn wan, ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ddylanwad gwleidyddol amhriodol ar benderfyniadau ariannu

**2.1** Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn ystyried y ffordd y gwnaeth Llywodraeth Cymru reoli ei harian grant i AWEMA cyn cael gwybod, gan Gyfarwyddwr Cyllid AWEMA, hyd at fis Rhagfyr 2011. Ystyriwn:

- **a** Y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei chyfrifoldeb i fodloni ei hun fod arian grant[32] i AWEMA yn darparu gwerth da am arian. Fodd bynnag, nid ydym wedi cynnal ein gwerthusiad ein hunain o waith AWEMA.
- **b** Y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb pan ddygwyd i'w sylw bryderon penodol ynghylch systemau llywodraethu a rheoli ariannol AWEMA neu gwestiynau am ariannu AWEMA a'r gwaith a gyflawnwyd ganddi[33]. Mae rhan 3 o'n hadroddiad yn ymdrin ar wahân ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r honiadau a ddygwyd i'w sylw gan Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid AWEMA ar ddiwedd 2011.

**2.2** Rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar y gydberthynas ariannu rhwng uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ac AWEMA (sy'n cwmpasu cyfnod llawn ein dadansoddiad), a rhwng WEFO ac AWEMA (a oedd yn cynnwys y swm mwyaf o arian a roddwyd). Fodd bynnag, rydym wedi ystyried y ffordd y mae adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru wedi rheoli arian grant i AWEMA. Rydym hefyd wedi ystyried sut mae gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru wedi rhyngweithio â'i gilydd wrth reoli eu harian grant i AWEMA ac wrth ymateb i bryderon penodol. Mae llawer o'r gwendidau a nodwyd gennym yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli a chydgysylltu ei harian grant i AWEMA yn gyson â materion a nodwyd yn ein gwaith archwilio blaenorol a ystyriodd gydberthnasau arian grant eraill[34].

---

32 Mae Atodiad 2 yn disgrifio diben arian Llywodraeth Cymru ac yn rhoi peth gwybodaeth ffeithiol ychwanegol am y ffordd y cafodd yr arian hwn ei gymeradwyo a phryd y digwyddodd hynny.

33 Mae Atodiad 3 yn cynnwys amrywiaeth o astudiaethau achos a nodwyd ac a ystyriwyd gennym fel rhan o'n gwaith. Rydym wedi cyfeirio at yr astudiaethau achos hyn, a'n casgliadau ynghylch y ffordd yr ymdriniodd Llywodraeth Cymru â'r digwyddiadau cysylltiedig, ar gamau perthnasol drwy gydol y rhan hon o'n hadroddiad ac yn gryno ym mharagraffau 2.151 i 2.153.

34 Crynhowyd y prif ganfyddiadau o'r gwaith helaeth hwnnw yn ein hadroddiad ym mis Tachwedd 2011, *Rheoli Grantiau yng Nghymru.* Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru eisioes wedi bod yn cyflwyno rhai gwelliannau i'w rheolaeth grantiau.

## Mae'r cymorth ariannol a roddwyd i AWEMA gan Lywodraeth Cymru wedi adlewyrchu amcanion polisi penodol, ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ddylanwad gwleidyddol amhriodol ar benderfyniadau ariannu

**Roedd sefydlu AWEMA a'i datblygiad cynnar yn adlewyrchu pwyslais polisi ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a dyhead Llywodraeth Cymru i gyflawni ei gweithgarwch ymgysylltu allanol o ran cydraddoldeb hiliol drwy un corff**

2.3 Mae Gweinidogion a swyddogion presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru a oedd ynghlwm wrth y gydberthynas gynnar ag AWEMA wedi pwysleisio i ni yr amgylchedd polisi ehangach ar y pryd. Yn sgil y fframwaith cyfreithiol a gefnogodd y broses o sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999, rhoddwyd dyletswydd arno i ddatblygu'r egwyddor o 'gyfle cyfartal' i bawb[35]. Sefydlodd y Cynulliad Cenedlaethol Bwyllgor Cyfle Cyfartal i'w gadeirio, i ddechrau, gan y Gweinidog oedd yn gyfrifol am faterion cydraddoldeb. Ar y pryd, ystyriwyd nad oedd unrhyw beth arall yn cyfateb i'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol mewn unrhyw ddeddfwriaeth ddatganoledig arall.

2.4 Ymddengys bod yr agenda cydraddoldeb hiliol wedi chwarae rhan amlwg iawn, yn rhannol oherwydd pryderon ynghylch diffyg cynrychiolaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ymhlith Aelodau'r Cynulliad a etholwyd yn 1999. Gwnaeth y cyn-Brif Weinidog (Rhodri Morgan) y pwynt i ni mai un o brif nodau creu'r Cynulliad Cenedlaethol oedd arfer rheolaeth ddemocrataidd dros brosesau gwneud penderfyniadau yng Nghymru gan ennyn mwy o hunanhyder yng Nghymru a datblygu'r genedl. Pwysleisiodd Mr Morgan ei bod yn bwysig iawn bod cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses.

2.5 Yn ogystal, gosododd Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus, wrth gyflawni eu gweithgareddau, i'r angen i ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol. Dilynodd hyn adroddiad mis Chwefror 1999 ar yr ymchwiliad i farwolaeth Stephen Lawrence yn 1999 - 'Adroddiad Macpherson' - a wnaeth haeru bod tystiolaeth o hiliaeth sefydliadol yng Ngwasanaeth yr Heddlu Metropolitanaidd a gwasanaeth yr heddlu yn fwy cyffredinol.

2.6 Cyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 1999, roedd y Swyddfa Gymreig eisoes wedi penodi 'Arweinydd Prosiect Cydraddoldeb Hiliol' i feithrin ei ddealltwriaeth o faterion cydraddoldeb hiliol a'i ymateb iddynt. Yn dilyn etholiadau mis Mai 1999, sefydlodd Llywodraeth Cymru 'Uned Polisi Cydraddoldeb' ar wahân a gwelwyd rôl yr arweinydd prosiect yn datblygu ac yn ehangu i bennaeth yr uned honno.

2.7 Er bod amrywiaeth o sefydliadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn gweithio ar lawr gwlad, ymddengys fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gyflawni ei gweithgarwch ymgysylltu allanol o ran cydraddoldeb hiliol drwy un corff yn gweithredu ar sail gynrychioliadol. Roedd sefydlu AWEMA, a ddatblygodd o 'Bwyllgor Ymgynghori a Chyfranogi Cynulliad Cenedlaethol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan' gyda chymorth Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru, yn gyfle o'r fath. Cafodd y dull hwn o weithredu

35 Adrannau 48 a 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

ei adlewyrchu hefyd yng nghefnogaeth Llywodraeth Cymru i sefydliadau 'mantell' a oedd yn cynrychioli agweddau eraill ar gydraddoldeb: Anabledd Cymru; Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru; a Fforwm Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru. Mae'n amlwg, ym mlynyddoedd cynnar y Cynulliad Cenedlaethol, fod uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo AWEMA i adrannau eraill fel dull o ymgysylltu ar faterion polisi yn ymwneud â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Ym mis Medi 2000, gwnaeth pennaeth yr uned cydraddoldebau ar y pryd hefyd roi cefnogaeth gyffredinol i gynnig AWEMA am arian gan y Swyddfa Gymreig (Atodiad 4).

**2.8** Nid ymddengys fod y cymorth cynnar a roddodd Lywodraeth Cymru i AWEMA wedi'i dderbyn yn gyffredinol. Mae rhywfaint o'r adborth rydym wedi ei gael wedi cynnwys y sylw, er nad oedd yn unigryw i'r maes cydraddoldeb hiliol, fod elfen, ym mlynyddoedd cynnar y Cynulliad Cenedlaethol, o anghytuno mewnol a chystadleuaeth rhwng sefydliadau am statws ac arian.

**2.9** O fewn strwythurau AWEMA, daeth yn glir i Lywodraeth Cymru ar gam cynnar fod anawsterau rhwng y bobl dan sylw, gyda phryderon amrywiol yn cael eu dwyn at sylw Llywodraeth Cymru ar y pryd ynghylch trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol AWEMA. Roedd yr anawsterau hyn yn cynnwys hollt chwerw ym Mhwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA yn 2001 (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 1). Nid yw'n amlwg beth a wnaeth Llywodraeth Cymru i fodloni ei hun, yng ngoleuni'r honiadau hyn, fod AWEMA yn sefydliad addas i dderbyn arian cyhoeddus.

**2.10** Yna cafodd Llywodraeth Cymru honiadau pellach ynghylch AWEMA yn ystod 2002. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, ym mis Rhagfyr 2002, cynhaliodd swyddogion o Adran Gyllid Llywodraeth Cymru adolygiad o AWEMA. Ystyriodd yr adolygiad faterion atebolrwydd ariannol a system llywodraethu gorfforaethol AWEMA a chyflwynodd Llywodraeth Cymru y canfyddiadau i AWEMA ym mis Ebrill 2003. Er i'r adroddiad nodi nifer o feysydd i'w gwella, ystyriwyd bod modd gwneud hyn yn hawdd a'u bod yn nodweddiadol o sefydliad bach. Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad na wnaeth Llywodraeth Cymru ddigon i brofi bod trefniadau llywodraethu AWEMA yn gweithio'n ymarferol. Ac ni wnaeth Llywodraeth Cymru unrhyw waith dilynol ychwaith i'w bodloni ei hun fod y camau a gymerwyd gan AWEMA i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad yn ddigonol.

**Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ddylanwad gwleidyddol amhriodol ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch ariannu AWEMA, er nad yw sail gyfan rhai o benderfyniadau ariannu Llywodraeth Cymru yn glir**

**2.11** Mae rhywfaint o'r sylw diweddar yn y cyfryngau a sylwadau cyhoeddus wedi cwestiynu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi parhau i ariannu AWEMA yn sgil y pryderon a godwyd, ar wahanol gyfnodau, ynghylch perfformiad a systemau llywodraethu a rheoli ariannol AWEMA. Bu dyfalu hefyd i AWEMA gael ei thrin yn ffafriol yn benodol oherwydd ymwneud Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) ac aelodau o'i deulu â'r Blaid Lafur. Roedd un o feibion Mr Malik wedi sefyll ar restr ranbarthol y Blaid Lafur ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru yn etholiadau'r

Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2011[36] ac roedd hefyd wedi'i gyflogi'n flaenorol gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Tachwedd 2000 a mis Medi 2001[37], ar secondiad o Gyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe[38].

**2.12** Rydym wedi nodi gwendidau amrywiol yn y ffordd y rheolodd Llywodraeth Cymru arian grant i AWEMA a'i hymateb i bryderon penodol ynghylch AWEMA. Hefyd, mae sail gyfan rhai o benderfyniadau ariannu Llywodraeth Cymru yn aneglur. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ddylanwad Gweinidogol amhriodol - ar hyd llinellau pleidiol neu linellau eraill - ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru o ran ariannu AWEMA. Lle mae Gweinidogion wedi bod ynghlwm wrth wneud penderfyniadau ariannu, mae'r camau a gymerwyd wedi bod yn gyson â'r cyngor ffurfiol a roddwyd gan swyddogion, lle cafodd arian ei roi a lle cafodd cynigion gan AWEMA eu gwrthod neu lle bu'r arian a roddwyd yn llai na chynnig AWEMA (paragraffau 2.13 i 2.15). Fel sy'n briodol, nid yw Gweinidogion wedi chwarae rhan uniongyrchol yn y gwaith o wneud penderfyniadau ariannu ynghylch prosiectau AWEMA a ariannwyd gan WEFO. Mae'r prosiectau a ariannwyd gan WEFO wedi rhoi cyfrif am ychydig o dan ddwy ran o dair o gyfanswm gwerth taliadau Llywodraeth Cymru i AWEMA.

## Ar sawl achlysur, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod ceisiadau gan AWEMA am gymorth ariannol neu wedi cynnig llai o arian iddi na'r hyn a geisiwyd a bu cynigion eraill nad ydynt, am resymau amrywiol, wedi datblygu ymhellach

**2.13** Yn ogystal â chadarnhau taliadau Llywodraeth Cymru i AWEMA a'u diben, rydym wedi ceisio nodi achlysuron lle mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod ceisiadau gan AWEMA am gymorth ariannol. Er na restrir pob un isod, rydym wedi nodi sawl enghraifft o'r fath:

**a** Ym mis Tachwedd 2001, cysylltodd Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) â'r Gweinidog a oedd, bryd hynny, yn gyfrifol am gydraddoldeb (Edwina Hart) i ystyried y posibilrwydd o gael cymorth ariannol cyfalaf ar gyfer eiddo newydd. Nid ydym wedi gweld llythyr gwreiddiol AWEMA i gadarnhau a oedd y cais am arian yn cynnwys unrhyw gynigion penodol. Fodd bynnag, ymatebodd y Gweinidog ym mis Rhagfyr 2001, gan nodi na allai Llywodraeth Cymru gynnig y fath gymorth.

**b** Ym mis Mehefin 2004, gwrthododd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldeb ar y pryd (Edwina Hart) gais gan AWEMA a ystyriodd y posibilrwydd o roi cymorth ariannol ychwanegol i gyfateb i gynnig AWEMA am arian Ewropeaidd gan raglen EQUAL ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru (Atodiad 2). Fodd bynnag, yn 2005 ac mewn blynyddoedd dilynol, gwnaeth uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru gytuno y gallai ei harian craidd gael ei ddefnyddio i gefnogi cyfraniad arian cyfatebol AWEMA i'r prosiect.

---

36 Yn 1998, roedd Mr Malik wedi cynnig ei hun yn ddarpar ymgeisydd i gynrychioli'r Blaid Lafur yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol 1999.

37 Roedd y gyflogaeth hon, ar ddechrau'r cyfnod, yn cynnwys chwe wythnos fel ysgrifennydd dyddiadur i'r Gweinidog Cyllid a Chymunedau ar y pryd (Edwina Hart) cyn iddo symud i rolau eraill yn Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y Gweinidog yn gyfrifol am gydraddoldeb a pholisi tai. Nid ydym wedi gweld tystiolaeth o unrhyw ddatganiadau o wrthdaro buddiannau posibl mewn perthynas â chyflogi mab Mr Malik. Fodd bynnag, roedd ei amser fel ysgrifennydd dyddiadur i'r Gweinidog cyn i Mr Malik gael ei benodi'n ffurfiol gydag AWEMA ac nid oedd yn cyd-daro â chymeradwyo unrhyw arian i AWEMA gan y Gweinidog.

38 Bu Mr Malik yn Gadeirydd Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe cyn iddo gael ei benodi gan AWEMA. Fel Cadeirydd y Cyngor Cydraddoldeb Hiliol, roedd Mr Malik eisoes wedi bod ynghlwm wrth rywfaint o waith cynnar AWEMA, gan gynnwys bod yn aelod o Bwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA.

**c** Er iddi lwyddo yn ei thri chais i WEFO am brosiectau a ariannwyd fel rhan o Raglen Gydgyfeirio'r UE, cafodd dau gynnig prosiect ar wahân o dan raglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol Dwyrain Cymru eu gwrthod gan WEFO ar y cam mynegi diddordeb am nad oedd digon o arian cyfatebol ar gael, materion gwerth am arian a dyblygu gweithgarwch a oedd eisoes yn mynd rhagddo neu wedi'i gynllunio yn y rhanbarth (Atodiad 2).

**ch** Ym mis Hydref 2011, cyflwynodd AWEMA gais i Gangen Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru fel rhan o gylch ymgeisio am arian craidd gan y Grant Sefydliadau Plant a Theuluoedd. Gwnaeth AWEMA gais am £711,718 dros y ddwy flwyddyn ariannol ddilynol, er bod y ddogfen gais yn nodi y byddai tua hanner yr arian hwn wedi'i ddyrannu i bedwar sefydliad partner arall. Ar 21 Rhagfyr 2011, yn dilyn proses werthuso a wnaeth sgorio'r holl gynigion a gafwyd, hysbysodd Llywodraeth Cymru AWEMA na fu ei chynnig yn llwyddiannus. Mae'r Gangen Plant a Theuluoedd wedi cadarnhau wrthym, wrth asesu cynnig AWEMA, na wnaeth gadarnhau datganiadau'r uned cydraddoldebau a WEFO yn y ddogfen gynnig ynghylch yr arian yr oedd AWEMA yn ei gael ganddynt[39].

**d** Er iddi fod yn llwyddiannus mewn blynyddoedd eraill, ni fu AWEMA yn llwyddiannus wrth ymgeisio am grantiau bach gan yr uned cydraddoldebau tuag at ddigwyddiadau i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn 2010 a 2012 (ceisiodd AWEMA swm o £2,500 ar y ddau achlysur). Cynhaliwyd y broses asesu gychwynnol ar gyfer cynigion yn ymwneud â Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2012 cyn 19 Rhagfyr 2011. Fodd bynnag, cafodd yr holl gynigion aflwyddiannus eu hailasesu gan yr uned cydraddoldebau ym mis Ionawr 2012 ar ôl nodi pryderon ynghylch yr ymarfer asesu cychwynnol ac am fod peth arian ychwanegol ar gael. Ni chafodd gynnig AWEMA sgôr ddigon uchel yn yr ail gylch hwn ychwaith.

**2.14** Hefyd, gwnaeth AWEMA gynigion am arian gan Lywodraeth Cymru nas gwrthodwyd yn ffurfiol ond na wnaethant, am resymau eraill, ddatblygu ymhellach.

**a** Yn ogystal â'i chais llwyddiannus am arian ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru, cyflwynodd AWEMA dri chynnig arall am arian Ewropeaidd yn 2004 ond tynnodd y rhain yn ôl ym mis Hydref 2005 (Atodiad 2).

**b** Fel y disgrifiwyd eisoes (paragraffau 1.25 i 1.26), ni wnaeth cais AWEMA i Dîm Ardal Adfywio Abertawe Llywodraeth Cymru yn 2009-10 am arian er mwyn helpu i adnewyddu ei swyddfeydd yn Abertawe ddatblygu i'r cam arfarnu llawn. Fodd bynnag, roedd digon o faterion yn codi o'r cais i swyddogion ei wrthod.

39 Mae'r Gangen Plant a Theuluoedd wedi dweud wrthym, hyd yn oed pan oedd sefydliadau yn llwyddiannus o ran eu ceisiadau, na wnaeth geisio unrhyw fewnbwn, lle y bo'n berthnasol, gan rannau eraill o Lywodraeth Cymru a oedd eisoes yn ariannu'r sefydliadau hynny.

c Yn 2006, gwnaeth AWEMA gais am arian gan raglen Communities@One, a gafodd ei gweinyddu gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Wrth fynegi ei anfodlonrwydd ef ac anfodlonrwydd ymddiriedolwyr AWEMA ar y ffordd yr oedd Canolfan Cydweithredol Crymu wedi ymdrin â'r cais, awgrymodd Mr Malik fod prosesau'r ganolfan yn sefydliadol hiliol. Gwadodd y cyhuddiad hwn yn chwyrn gan Brif Weithredwr Canolfan Cydweithredol Cymru ar y pryd. Tynnodd AWEMA ei chais am arian yn ôl i bob pwrpas (Ffigur 4).

2.15 Hyd yn oed pan fo Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo arian i AWEMA, mae'r symiau dan sylw, ar sawl achlysur, wedi bod yn llai na chynnig AWEMA, neu'r hyn yr ymddengys ei bod yn gobeithio ei gael (Atodiad 2). Er enghraifft:

a Roedd ymrwymiad cychwynnol Llywodraeth Cymru o £325,768 o arian Cymunedau yn Gyntaf dros 18 mis ar gyfer prosiect Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig gryn dipyn yn llai na'r cynnig gwreiddiol am £1,449,158 dros dair blynedd. Roedd cyfanswm yr arian a ymrwymwyd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr 2003 a mis Mawrth 2007 yn cyfateb i £1.09 miliwn.

b Yn ystod y broses arfarnu, cafodd prosiectau Rhaglen Gydgyfeirio UE AWEMA eu lleihau'n sylweddol gan WEFO.

c Tua hanner y swm y gofynnwyd amdano a roddwyd i AWEMA i gynorthwyo ei Phwyllgor Datblygu Economaidd.

ch Roedd yr ymrwymiad ariannu gan y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb ar gyfer 2010-11 i 2012-13 yn gyson â'r arian a roddwyd gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol ond yn llai na chynnig AWEMA. Yn yr un modd, pan gytunodd yr uned cydraddoldebau ar drefniant ariannu newydd gydag AWEMA ar gyfer 2005-06, ymddengys fod yr arian a roddwyd yn llai na'r hyn yr oedd AWEMA yn gobeithio ei gael.

**Ffigur 4 - Cynnig AWEMA am arian gan raglen Communities@One, a arweiniodd at honiad gan Brif Weithredwr AWEMA o hiliaeth sefydliadol**

Roedd Communities@One yn rhaglen a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Nod y rhaglen oedd annog grwpiau cymunedol yn ardaloedd rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Cymru i fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Penodwyd Canolfan Cydweithredol Cymru i helpu i weinyddu a chynorthwyo Communities@One ar ran Cyfarwyddiaeth Cymunedau Llywodraeth Cymru.

Ym mis Mehefin 2006, cyflwynodd AWEMA gynnig i Ganolfan Cydweithredol Cymru a amlinellodd gynlluniau i brynu cyfarpar a chyflogi staff er mwyn helpu i gyflwyno gweithgareddau amrywiol gan gynnwys hyfforddiant a gweithdai yn ymwneud â thechnoleg ddigidol, megis gwneud ffilmiau, yn ardal Abertawe. Roedd AWEMA yn ceisio swm o £216,483 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2006 a mis Mawrth 2008. Yn unol â'i phroses arferol o arfarnu prosiectau, gofynnodd Canolfan Cydweithredol Cymru i AWEMA egluro agweddau amrywiol ar ei chynnig yn cynnwys pa ran y byddai'r sefydliadau partner a enwyd gan AWEMA yn ei chwarae yn y prosiect.

Ym mis Medi 2006, ac mewn gohebiaeth bellach dros y ddeufis dilynol, mynegodd Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) ei anfodlonrwydd â phrosesau Canolfan Cydweithredol Cymru ar gyfer asesu cynnig AWEMA. Yn arbennig, soniodd Mr Malik am yr hyn a oedd, yn ei farn ef, yn geisiadau am wybodaeth a roddwyd eisoes. Hefyd, haerodd fod cynnig AWEMA yn destun oedi oherwydd dylanwad un o aelodau panel asesu Canolfan Cydweithredol Cymru. Credwn mai'r unigolyn dan sylw oedd Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Scarman ar y pryd. Ar yr adeg honno, roedd Ymddiriedolaeth Scarman yn un o bartneriaid AWEMA ar brosiect Curiad Calon Cymru ac fel rhan o Dîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a ariannwyd gan Gymunedau yn Gyntaf. Ar y ddau brosiect hyn, rydym yn ymwybodol y codwyd rhai materion ynghylch y rhan a chwaraewyd gan sefydliadau partner AWEMA yn y broses gwneud penderfyniadau.

Pwysleisiodd Canolfan Cydweithredol Cymru ei bod yn cefnogi egwyddor cynnig AWEMA. Fodd bynnag, ymddangosai fod Mr Malik o'r farn nad oedd Canolfan Cydweithredol Cymru o ddifrif am gefnogi cynnig AWEMA. Dynododd hefyd fod ymddiriedolwyr AWEMA o'r un farn ac nad oeddent yn hapus â'r amser a gymerwyd i ymdrin â'r ceisiadau am wybodaeth ategol bellach. Awgrymodd Mr Malik fod prosesau Canolfan Cydweithredol Cymru yn sefydliadol hiliol. Gwadwyd yr honiad hwn yn gryf gan Brif Weithredwr Canolfan Cydweithredol Cymru ar y pryd. Yna, yn ei hanfod, tynnodd AWEMA ei chynnig am arian yn ôl.

Cafodd peth gohebiaeth rhwng Canolfan Cydweithredol Cymru ac AWEMA ei rhannu â Chyfarwyddiaeth Cymunedau Llywodraeth Cymru. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gamau uniongyrchol a gymerwyd gan y Gyfarwyddiaeth Cymunedau mewn ymateb i'r materion nac unrhyw ohebiaeth rhwng y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a'r uned cydraddoldebau neu WEFO. Petai'r cynnig wedi mynd ymhellach credwn y byddai'n rhaid bod wedi ystyried materion eraill o ran unrhyw ddyblygu posibl â'r arian a roddwyd gan WEFO ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru AWEMA. Dylai unrhyw ddeialog pellach â WEFO hefyd fod wedi tynnu sylw at y ffaith bod cwmni yr oedd AWEMA yn bwriadu gweithio gydag ef ar brosiect Communities@One yn un o ddau gwmni lle'r oedd WEFO wedi nodi pryderon am drefniadau caffael AWEMA (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 5).

Noder

Ddiwedd 2007, cyflwynodd AWEMA ymateb, yn seiliedig ar farn y 'Grŵp Cynghori ar Hil', i gais am dystiolaeth fel rhan o ymchwiliad i ariannu'r sector gwirfoddol gan Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol. Yn yr ymateb, nododd AWEMA enghraifft lle: 'grants through Communities at One were lost to an organisation within the field of race equality, where personal vendettas and vindictiveness of Panel Members had obviously been allowed'.

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddogfennau a ddarparwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru.*



## Bu’r ffordd yr oedd uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru, WEFO ac adrannau eraill yn rheoli ac yn cydgysylltu arian grant i AWEMA yn aml yn wan ac mae ymatebion i bryderon penodol ynghylch AWEMA wedi bod yn rhy gul eu ffocws

### Mae perfformiad gwael a diffyg sefydlogrwydd yn yr uned cydraddoldebau wedi cyfrannu’n sylweddol at wendidau cyffredinol wrth reoli ei harian i AWEMA

Ym mis Rhagfyr 2003, comisiynodd yr uned cydraddoldebau ‘IMANI Consultancy Services’ i gynnal gwerthusiad annibynnol o effaith arian yr uned i AWEMA ond ni chafodd yr adolygiad ei gwblhau tan fis Ionawr 2005 ac nid aeth i’r afael â phryderon ehangach ynghylch systemau llywodraethu a rheoli ariannol AWEMA

**2.16** Ym mis Medi 2003, cyfarfu’r Gweinidog a oedd bryd hynny’n gyfrifol am gydraddoldeb (Edwina Hart) â Phrif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) a nododd ei bod yn bwriadu comisiynu adolygiad gwerth am arian o’r arian prosiect a gafodd AWEMA gan yr uned cydraddoldebau[40]. Hynny yw, yr arian a roddwyd ar gyfer:

- **a** prosiect ‘Nodi a Datblygu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig’ - a ariannwyd yn 2000-01;
- **b** y prosiect ‘Hawl i Bleidleisio’ - y bu AWEMA yn ei reoli ers dechrau 2000-01 ond a reolwyd gynt gan Race Equality First Caerdydd;
- **c** y prosiect ‘Hyrwyddo Cydraddoldeb/ Meithrin Gallu’ - a ariannwyd ers dechrau 2001-02 (Atodiad 2).

**2.17** Wrth gynnig yr adolygiad hwn, mae’n amlwg bod gan y Gweinidog rai pryderon ynghylch camreoli posibl yn AWEMA (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 3). Roedd hefyd yn dilyn honiadau eraill ynghylch systemau llywodraethu a rheoli ariannol AWEMA a gafodd Llywodraeth Cymru yn 2002 ac a arweiniodd at adolygiad o AWEMA gan Adran Gyllid Llywodraeth Cymru (paragraff 2.10 ac Atodiad 3, Astudiaeth Achos 2).

**2.18** Ar 13 Tachwedd 2003, anfonodd yr uned cydraddoldebau gylch gorchwyl arfaethedig at y Gweinidog ar gyfer yr adolygiad o’r tri phrosiect a ariannwyd gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru. Drwy rannu’r cylch gorchwyl â’r Gweinidog, cydnabu’r uned cydraddoldebau fod ei dull o fonitro ac arfarnu gweithgareddau AWEMA wedi bod yn wael ac nad oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod AWEMA yn chwarae rhan effeithiol, yn ogystal â phryderon ynghylch arferion gweithredol a phrosesau rheoli AWEMA. Cyfeiriodd yr uned cydraddoldebau hefyd at dystiolaeth a ddeilliodd o’i hymgynghoriad ar ail gynllun cydraddoldeb hiliol Llywodraeth Cymru lle nodwyd ei fod yn amlygu peth dicter ynghylch rôl AWEMA. Nodwyd hefyd fod yr ymgynghoriad yn sôn am yr angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy lluosrywiaethol o ariannu cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac ymgysylltu â hwy. Ar ôl iddynt dderbyn y cylch gorchwyl arfaethedig, ysgrifennodd Mr Malik a Chadeirydd AWEMA ar y pryd (Dr Rita Austin) at Lywodraeth Cymru yn mynegi eu pryderon ynghylch cwmpas yr adolygiad.

40 Dengys cofnodion Llywodraeth Cymru fod y Gweinidog hefyd wedi bwriadu comisiynu adolygiad tebyg o’r sefydliadau ‘mantell’ eraill a oedd yn cael arian gan yr uned cydraddoldebau ar y pryd (paragraff 2.7). Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y fath adolygiadau wedi’u cwblhau. Ym mis Medi 2004, dywedodd yr uned cydraddoldebau wrth y Gweinidog fod adolygiad o Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru wedi’i ohirio oherwydd prinder staff. Cafodd wybod hefyd fod Anabledd Cymru wrthi’n paratoi cynigion newydd am arian yn y dyfodol ac nad oedd yn ceisio estyniad i’w drefniant ariannu presennol.

**2.19** Ym mis Rhagfyr 2003, comisiynodd Llywodraeth Cymru ei hadolygiad o brosiectau AWEMA a ariannwyd gan yr uned cydraddoldebau gan IMANI Consultancy Services, am £8,000[41]. Ystyriwyd bod yr adolygiad yn flaenoriaeth uchel, i lywio penderfyniadau ynghylch trefniadau ariannu ar gyfer 2004-05[42]. Daeth yn fwy pwysig hefyd yn sgil pryderon newydd ynghylch systemau llywodraethu a rheoli ariannol AWEMA yn dilyn erthygl yn y Western Mail a rhaglen Dragon's Eye y BBC ym mis Tachwedd 2003. Ddechrau 2004, tynnodd aelod o fwrdd AWEMA sylw Llywodraeth Cymru hefyd at bryderon pellach ynghylch system lywodraethu AWEMA, yn benodol ymarferoldeb ei threfniadau bwrdd a chodiadau cyflog staff.

**2.20** Rhoddodd Llywodraeth Cymru yr argraff y byddai adolygiad IMANI yn ystyried y fath bryderon. Mewn gwirionedd, roedd ffocws adroddiad yr adolygiad yn gymharol gul o ran y dystiolaeth oedd ar gael ar gyfer allbynnau a chanlyniadau arian grant yr uned cydraddoldebau[43]. Yn sgil y pryderon am systemau llywodraethu a rheoli ariannol a oedd yn cael eu codi ar yr adeg y cafodd adolygiad IMANI ei gomisiynu, rydym hefyd o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi colli cyfle i brofi drosti'i hun y camau a gymerwyd gan AWEMA mewn ymateb i adroddiad adolygiad yr Adran Gyllid o fis Ebrill 2003 (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 3).

**2.21** Dywedodd yr uned cydraddoldebau wrth y Gweinidog y byddai grŵp rheoli prosiect yn cael ei sefydlu i oruchwylio proses adolygu IMANI. Rydym wedi gweld tystiolaeth o swyddogion o'r uned cydraddoldebau yn gofyn am gyngor gan gydweithwyr â chyfrifoldebau ehangach am waith ymchwil, gwerthuso a chaffael. Ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o drefniadau sy'n gyfystyr â chreu grŵp rheoli prosiect. Yn wir, prin iawn fu'r dystiolaeth o unrhyw waith rheoli mewn perthynas â'r hyn a oedd yn gontract cymharol gwerth isel ond proffil uchel.

**2.22** Bu oedi mawr cyn i'r adolygiad gael ei gwblhau, ym mis Ionawr 2005, ac yn ystod y cyfnod hwnnw cafwyd problemau eraill o ran arwain a staffio'r uned cydraddoldebau (paragraffau 2.81 i 2.82). Yn y cyfamser, cytunodd y Gweinidogion a oedd yn gyfrifol am gydraddoldeb (Edwina Hart yn gyntaf ac wedyn, ym mis Ionawr 2005, Jane Hutt) ar estyniadau byrdymor i arian prosiect Hawl i Bleidleisio a Meithrin Gallu AWEMA tan ddiwedd 2004-05. Mae'n amlwg, o safbwynt Llywodraeth Cymru, nad oedd yr adroddiad drafft cychwynnol o'r ansawdd disgwyliedig a bod swyddogion yn awyddus i sicrhau bod ei ganfyddiadau a'i gasgliadau yn seiliedig ar dystiolaeth dda o ystyried ei sensitifrwydd posibl. O ganlyniad, rhoddodd swyddog ymchwil o Lywodraeth Cymru gymorth a her i awdur yr adroddiad. Fodd bynnag, mae cofnodion Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod y canfyddiadau yn hysbys mor gynnar â mis Mehefin 2004 o leiaf.

41 Dengys cofnodion Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r contract ag IMANI Consultancy Services, ei bod, ym mis Chwefror 2003, wedi penderfynu gwario £1,000 arall ar beth ymchwil i'r farchnad er mwyn cysylltu â'r cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a gynrychiolwyd gan AWEMA. Nid yw canlyniadau'r ymchwil honno i'r farchnad yn chwarae rhan amlwg yn adroddiad adolygiad IMANI. Mae awdur adroddiad adolygiad IMANI wedi dweud wrthym y credwyd i'r teimladau negyddol cryf mewn rhai mannau gael effaith niweidiol ar y canlyniadau. Fodd bynnag, mewn gohebiaeth e-bost â Chyfarwyddwr Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cymru ar y pryd ym mis Medi 2004, roedd awdur yr adroddiad hefyd wedi nodi ei bryder fod canfyddiadau'r arolwg a dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a oedd yn ymddangos yn gysylltiedig - nas cynhwyswyd yn yr adroddiad terfynol ac nad ydym wedi eu gweld - yn rhoi'r argraff bod a wnelo'r adolygiad ag 'AWEMA fel sefydliad'. Mewn ymateb, pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio mai mater i awdur yr adroddiad benderfynu arno oedd cynnwys terfynol yr adroddiad.

42 Ar 13 Tachwedd 2003, dywedodd swyddogion wrth y Gweinidog y byddai'r adolygiad yn dechrau yn ddiweddarach y mis hwnnw gan ddisgwyl adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2004. Ar y pryd, dim ond tan ddiwedd 2003-04 yr oedd ymrwymiad ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau Hawl i Bleidleisio a Meithrin Gallu AWEMA yn para.

43 Soniodd AWEMA am gwmpas y gwaith o'r cychwyn ac, ym mis Tachwedd 2004, wrth sôn am yr adroddiad drafft. Yn benodol, holodd AWEMA ynglŷn â'r ffocws cul ar arian gan yr uned cydraddoldebau. Ym mis Medi 2004, roedd Mr Malik hefyd wedi nodi mewn gohebiaeth â Chyfarwyddwr Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cymru ar y pryd fod barn ar led yn fwy cyffredinol bod yr adolygiad yn ymwneud â gwaith AWEMA yn ei gyfanrwydd a'i sefyllfa gyffredinol fel sefydliad.



## Cwestiynodd adroddiad IMANI berfformiad AWEMA a thynnodd sylw at wendidau a nodwyd yn flaenorol o ran y ffordd y gwnaeth yr uned cydraddoldebau reoli ei harian grant, ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o amharu gan Lywodraeth Cymru nac AWEMA yng nghanfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad

**2.23** Awgrymwyd wrthym fod adroddiad adolygiad terfynol IMANI wedi'i gymedroli'n fwriadol. Ymunodd awdur yr adroddiad ag uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ar secondiad o Gyngor Dinas Birmingham cyn i'r adolygiad gael ei gwblhau[44]. Prin y cyfeirir at y trefniant hwn yn y ffeiliau rydym wedi'u hadolygu ond mae, yn anochel, yn taflu amheuaeth ar y graddau y dylanwadodd Llywodraeth Cymru ar ganfyddiadau'r adroddiad. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o unrhyw amharu â'r adroddiad, heblaw am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella ansawdd y cynnyrch terfynol (paragraff 2.22). Mae awdur yr adroddiad wedi ei gwneud yn glir wrthym na chafodd ei roi dan bwysau o ran ei ganfyddiadau na'i gasgliadau. Fodd bynnag, nododd awdur yr adroddiad ei fod yn ymwybodol o gefndir o gymorth mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru i AWEMA a bod dyhead cryf i wneud i bethau weithio.

**2.24** Ar 15 Hydref 2004, anfonodd yr uned cydraddoldebau yr adroddiad drafft i AWEMA am sylwadau. Ymatebodd AWEMA ar 11 Tachwedd 2004 gyda sylwadau am gywirdeb ffeithiol a chwmpas a chydbwysedd cyffredinol yr adroddiad. Nid oedd adborth AWEMA yn cynnwys unrhyw sylwadau ar argymhellion cyffredinol yr adroddiad. Ni chytunodd AWEMA ar yr adroddiad terfynol yn ffurfiol.

**2.25** Mae Ffigur 5 yn amlinellu canfyddiadau adroddiad IMANI a'i argymhellion allweddol o ran arian yn y dyfodol. Cwestiynodd yr adroddiad terfynol berfformiad AWEMA ar draws y tri phrosiect a ariannwyd gan yr uned cydraddoldebau. Fodd bynnag, roedd yr un mor feirniadol ynghylch trefniadau'r uned cydraddoldebau ei hun ar gyfer rheoli ei harian grant. Mae'n werth nodi nad oedd crynodeb gweithredol yr adroddiad terfynol yn cynnwys argymhelliad a gafwyd ym mhrif gorff yr adroddiad na ddylai prosiectau newydd gael eu hariannu nes bod AWEMA yn gallu dangos ei bod yn rheoli prosiectau a pherfformiad mewn modd systematig. Fodd bynnag, roedd fersiwn drafft nas dyddiwyd o'r adroddiad yn ffeiliau Llywodraeth Cymru yn cynnwys y datganiad hwn yn y crynodeb gweithredol. Roedd y ddau fersiwn o'r adroddiad yn nodi y dylid parhau i ariannu prosiectau a fodolai eisoes, lle'r oedd yr arian hwnnw wedi'i neilltuo. Mewn gwirionedd, nid oedd yr uned cydraddoldebau wedi gwneud ymrwymiad ffurfiol i roi unrhyw arian y tu hwnt i'r estyniadau byrdymor ar gyfer arian Hawl i Bleidleisio a Meithrin Gallu yn ystod 2004-05.

44 Dywedodd awdur yr adroddiad wrthym fod ei secondiad wedi para o tua mis Ebrill 2004 i fis Rhagfyr 2005, er bod yr anfoneb am daliad gan Gyngor Dinas Birmingham ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd rhwng 31 Mai 2004 ac 17 Ionawr 2005. Deallwn fod y secondiad wedi gorffen yn ddisymwth (pan ddylai fod wedi para blwyddyn). Ym mis Ionawr 2005, ceisiodd Cyfarwyddwr Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cymru sicrwydd bod unrhyw waith a wnaed ar yr adroddiad tra'r oedd wedi'i gyflogi gan Lywodraeth Cymru wedi digwydd yn amser yr awdur ei hun.

**Ffigur 5 - Canfyddiadau ac argymhellion adolygiad 'IMANI Consultancy Services' ym mis Ionawr 2005 o dri o brosiectau AWEMA a ariannwyd gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru**

Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2003, comisiynodd uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru 'IMANI Consultancy Services' i werthuso perfformiad AWEMA wrth gyflawni tri phrosiect a gafodd arian grant ganddi:

- prosiect 'Nodi a Datblygu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig' - a ariannwyd yn 2000-01;
- y prosiect 'Hawl i Bleidleisio' - y bu AWEMA yn ei reoli ers dechrau 2000-01 ond a reolwyd gynt gan Race Equality First Caerdydd;
- y prosiect 'Hyrwyddo Cydraddoldeb/Meithrin Gallu' - a ariannwyd ers dechrau 2001-02 (Atodiad 2).

Prosiect Nodi a Datblygu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Prif amcanion y prosiect hwn oedd datblygu cronfa ddata o sgiliau, profiadau a swyddogaethau sefydliadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru. Nododd yr adolygiad fod AWEMA wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2001 fod y fath gronfa ddata wedi cael ei datblygu a oedd yn cynnwys manylion 160 o enwau cyswllt a oedd wedi mynegi diddordeb mewn eistedd ar is-bwyllgorau amrywiol AWEMA. Fodd bynnag, ni welodd yr adolygiad unrhyw dystiolaeth o unrhyw gronfa ddata a oedd yn cyflawni nodau gwreiddiol y prosiect. Roedd AWEMA, ers hynny, wedi datblygu cronfa ddata rhestr bostio fwy cyffredinol ond nid oedd yn nodi'n benodol bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig na sefydliadau o'r fath ac nid oedd ychwaith yn cynnwys gwybodaeth am sgiliau, profiadau na swyddogaethau.

Ar adeg yr adolygiad, awgrymodd staff AWEMA nad oedd y prosiect wedi cael ei ddatblygu'n llawn am fod diffyg adnoddau, ond ni welodd yr adolygiad unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am hyn yn flaenorol ac, ar y sail honno, cwestiynodd sut y cafodd yr arian a roddwyd ei wario.

Prosiect Hawl i Bleidleisio

Cydnabu'r adolygiad mai un o'r anawsterau wrth werthuso llwyddiant y prosiect hwn oedd diffyg data meintiol cadarn ar gyfraddau cofrestru pleidleiswyr. Cydnabu'r adolygiad sefydlu Pwyllgor Prosiect Hawl i Bleidleisio AWEMA, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r pedair prif blaid wleidyddol. Nododd hefyd fod y prosiect wedi cefnogi ymgyrch cofrestru pleidleiswyr ledled Cymru a bod AWEMA wedi arwain y blaen wrth gomisiynu ymchwil gan Brifysgol Abertawe ar Leiafrifoedd Ethnig Pobl Dduon ac Asiaidd a Chyfranogiad Gwleidyddol yng Nghymru. Roedd AWEMA hefyd wedi bod yn trafod â Llywodraeth Cymru ddatblygiad cynllun cysgodi Aelodau Cynulliad.

Fodd bynnag, daeth yr adolygiad i'r casgliad hefyd mai prin oedd y dystiolaeth i'r prosiect gymryd llawer o'r camau a nodwyd mewn dogfen cychwyn prosiect yr ymddengys iddi gael ei pharatoi tua dechrau 2001-02.

Prosiect Meithrin Gallu

Roedd AWEMA wedi nodi y byddai'r arian prosiect hwn yn helpu i gyflogi swyddog cyhoeddusrwydd a chyfathrebu a swyddog meithrin gallu. Yn ôl adroddiad yr adolygiad, llunio a dosbarthu cylchlythyr 'AWEMA Times' oedd prif gyfrifoldeb y swyddog cyhoeddusrwydd a chyfathrebu. Fodd bynnag, daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oedd modd pennu ei effaith gyffredinol.

Prin oedd y dystiolaeth a nodwyd gan adroddiad yr adolygiad o'r swyddog meithrin gallu yn rhoi cymorth uniongyrchol i sefydliadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig eraill (gan ond nodi dwy enghraifft benodol[1]). Roedd yn ymddangos bod peth o waith y swyddog meithrin gallu yn ymwneud â meithrin gallu a chefnogi gwaith pwyllgorau pwnc iechyd ac addysg AWEMA yn gyffredinol. Dengys adroddiad yr adolygiad i AWEMA bwysleisio bod y gwaith yn ymwneud â'i harian gan Learndirect Wales (Atodiad 4) hefyd yn berthnasol i amcanion y prosiect meithrin gallu[2].



Casgliadau Cyffredinol ac Argymhellion

Cyfeiriodd yr adolygiad at dystiolaeth na wnaeth AWEMA, ar draws y tri phrosiect, reoli'r prosiectau yn unol â thelerau ac amodau llawn yr arian. Fodd bynnag, roedd yr adolygiad yr un mor feirniadol o rôl uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru o ystyried na allai ddangos iddi gydymffurfio â'i chanllawiau ei hun ar reoli ei harian grant a gweithdrefnau ariannol Llywodraeth Cymru. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y gwendidau hyn ar ran yr uned cydraddoldebau yn debygol o fod wedi'u hadlewyrchu yn y ffordd y rheolodd yr uned ei harian grant i sefydliadau eraill.

Ynghyd â rhai argymhellion penodol am reoli arian grant yn y dyfodol yn briodol - ar ran AWEMA ac uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru - nododd crynodeb gweithredol yr adroddiad terfynol ar yr adolygiad: 'improvements in performance and system monitoring would provide the supportive framework for AWEMA to move forward as a representative and consultative body'. Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylid parhau i roi arian a ymrwymwyd o dan fwrdd prosiect wedi'i arwain gan yr uned cydraddoldebau.

Ailadroddwyd yr argymhellion hyn ym mhrif gorff yr adroddiad, ond gyda'r datganiad canlynol sydd wedi'i gynnwys mewn peth sylw diweddar yn y wasg: 'The overall recommendation is that no further funding is provided to AWEMA for new projects until AWEMA is able to verify that it has taken a systematic approach to project and performance management'. Serch hynny, nododd yr adroddiad hefyd: 'AWEMA are appropriately placed to make a considerable impact on the role and influence of the black and minority ethnic communities in Wales and with the Assembly's support and guidance, should be encouraged to do so'.

Nodiadau

1 Un o'r ddau sefydliad y nodwyd iddo gael cymorth gan y swyddog meithrin gallu oedd Cymdeithas Menywod a Phobl Ifanc Somali Caerdydd. Mae datganiadau ariannol AWEMA yn awgrymu, yn 2004-05, iddi gael £6,100 gan y sefydliad hwn mewn perthynas ag arian a roddwyd iddo gan Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r datganiadau ariannol yn dynodi i'r arian hwn helpu i ddatblygu clwb gwaith cartref.

2 Deallwn i'r gwaith o gyflwyno prosiect Learndirect Wales hefyd gael ei gefnogi gan ddau aelod o staff a ariannwyd ar wahân (Atodiad 4).

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiad IMANI Consultancy Services ym mis Ionawr 2005, AWEMA: Review and Evaluation Report of Equality Policy Unit Funded Projects.*

## Er i'r cyngor a roddwyd i Weinidogion bwysleisio methiannau'r uned cydraddoldebau ei hun, canlyniadau cadarnhaol rhywfaint o waith prosiect arall AWEMA, a risg i'w henw da petai'r uned yn rhoi'r gorau i'w hariannu, mae amgylchiadau penodol penderfyniad yr uned cydraddoldebau i atal taliadau pellach ar ôl mis Mawrth 2005 yn dal i fod yn aneglur

**2.26** Nid yw ein cyfweliadau â Gweinidogion, swyddogion Llywodraeth Cymru na chynrychiolwyr AWEMA, yn rhai presennol a blaenorol, wedi taflu llawer o oleuni ar y trafodaethau a gafwyd rhwng yr uned cydraddoldebau ac AWEMA ynghylch arian pellach mewn ymateb i adolygiad IMANI. Mae cofnodion ffeiliau Llywodraeth Cymru hefyd yn brin o fanylion. Er enghraifft, mae cofnodion o ohebiaeth e-bost rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru, a llythyrau at swyddogion Llywodraeth Cymru oddi wrth AWEMA, yn cyfeirio at gyfres o gyfarfodydd rhwng mis Rhagfyr 2004 a mis Chwefror 2005 i drafod trefniadau ariannu'r uned cydraddoldebau yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw nodiadau cyfarfod wedi'u cofnodi.

**2.27** Ym mis Rhagfyr 2004, cwestiynodd un o'r swyddogion a oedd yn rhan o'r cyfarfodydd hynny rinweddau'r uned cydraddoldebau yn llunio cytundeb lefel gwasanaeth ag AWEMA neu unrhyw sefydliad arall. Y dewis amgen a gafodd ei awgrymu oedd i AWEMA, a chyrff cydraddoldeb eraill, gystadlu am arian prosiect ac i Lywodraeth Cymru fonitro ac adolygu hynny'n gadarn wedyn. Dynododd y swyddog na ddylai ofnau ynghylch yr ymateb i unrhyw benderfyniad am roi'r gorau i ariannu AWEMA effeithio ar benderfyniadau. Mae llythyr oddi wrth Brif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) a Chadeirydd AWEMA ar y pryd (Dr Rita Austin) at Gyfarwyddwr Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cymru ar y pryd ar 1 Rhagfyr 2004 yn awgrymu bod AWEMA wedi gobeithio sicrhau arian craidd o £130,000 y flwyddyn yn ogystal ag arian i barhau â'r prosiect Hawl i Bleidleisio a'r prosiect Meithrin Gallu.

**2.28** Ar 25 Ionawr 2005, dosbarthodd yr uned cydraddoldebau adroddiad adolygiad IMANI fel rhan o gyflwyniad i'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol bryd hynny am gydraddoldeb (Jane Hutt) a'r Prif Weinidog ar y pryd (Rhodri Morgan). Ni chyfeiriodd y cyflwyniad yn benodol at argymhellion yn adroddiad IMANI ynghylch arian yn y dyfodol i AWEMA ac roedd yn cefnogi'r egwyddor o sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer arian craidd. Tynnodd y cyflwyniad sylw at fethiannau'r uned cydraddoldebau ei hun, fel y pwysleisiwyd gan adroddiad IMANI, a chanlyniadau cadarnhaol rhywfaint o waith AWEMA a ariannwyd gan adrannau eraill Llywodraeth Cymru. Tanlinellodd hefyd risg i enw da Llywodraeth Cymru pe bai'r uned cydraddoldebau yn rhoi'r gorau i ariannu AWEMA (Ffigur 6).

**2.29** Nid yw lefel y craffu ar y cyflwyniad gan y ddau Weinidog yn glir. Fodd bynnag, mae'r cofnodion rydym wedi eu gweld yn dynodi i'r ddau Weinidog gymeradwyo'r cyflwyniad a'i argymhellion ar ddechrau mis Chwefror 2005.

**2.30** Yna cafwyd cytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr uned cydraddoldebau ac AWEMA, ond nid yw cofnodion Llywodraeth Cymru yn cynnwys fawr ddim gwybodaeth am sut a phryd y cafodd y cytundeb terfynol ei lunio. Er enghraifft, nid ydym wedi gweld copi o'r cytundeb grant a lofnodwyd ar gyfer 2005-06. Awgryma dogfennau electronig a ddarparwyd gan aelod o staff o'r uned cydraddoldebau fod gohebiaeth rhwng yr uned cydraddoldebau ac AWEMA ym mis Mai 2005 ynghylch taliad cychwynnol o £25,000. Talwyd y swm hwn i AWEMA ar 8 Gorffennaf 2005. Mae'r cofnodion electronig hyn hefyd yn awgrymu, ym mis Awst 2005, fod yr

## Ffigur 6 - Crynodeb o'r cyngor a roddwyd i Weinidogion ym mis Ionawr 2005 ynghylch ariannu AWEMA yn y dyfodol gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ar ôl cwblhau adolygiad IMANI Consultancy Services

Ar 25 Ionawr 2005, dosbarthodd uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru adroddiad adolygiad IMANI Consultancy Services o brosiectau AWEMA a ariannwyd gan yr uned cydraddoldebau mewn cyflwyniad i'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol bryd hynny am gydraddoldeb (Jane Hutt) a'r Prif Weinidog ar y pryd (Rhodri Morgan). Roedd y cyflwyniad yn cefnogi'r egwyddor o sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth ag AWEMA ar gyfer arian craidd dros gyfnod o dair blynedd - 1 Ebrill 2005 i 31 Mawrth 2008 - a fyddai'n seiliedig ar allbynnau targed/canlyniadau penodol ac yn destun cyfarfodydd monitro chwarterol ac adolygiadau blynyddol boddhaol. Cynigiwyd y gallai AWEMA barhau i ymgeisio am arian arall gan Lywodraeth Cymru petai modd dangos yn glir na fyddai'r fath arian yn dyblygu diben gwaith a gefnogwyd gan yr arian craidd.

Er nad oedd yn cyfeirio'n benodol at argymhellion adolygiad IMANI ynghylch ariannu AWEMA yn y dyfodol, roedd y cyflwyniad yn cydnabod y pryderon a nodwyd ynghylch perfformiad prosiectau AWEMA a ariannwyd gan yr uned cydraddoldebau. Fodd bynnag, gwnaeth hefyd grynhoi safbwyntiau swyddogion ynghylch gwaith a wnaed gan AWEMA gyda chymorth ariannol gan adrannau eraill Llywodraeth Cymru[1]. Cyfeiriodd y crynodeb hwn yn negyddol at yr arian a roddwyd gan yr Is-adran Polisi Economaidd i helpu AWEMA i gyflogi swyddog datblygu economaidd a gwaith Pwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA. Ond cafwyd adborth cadarnhaol ynghylch yr arian a roddwyd gan yr Adran Dai, yr Uned Polisi Gofal Cymdeithasol a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (Atodiad 2). Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn y cyflwyniad yn gyson â thystiolaeth arall rydym wedi ei hadolygu mewn perthynas â'r ffrydiau ariannu hyn (paragraffau 2.126 i 2.150).

Mynegodd y cyflwyniad bryder ynghylch yr effaith bosibl ar enw da Llywodraeth Cymru ymhlith cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig petai'n rhoi'r gorau i ariannu AWEMA ac yn arbennig petai hyn yn tanseilio bodolaeth AWEMA. Codwyd y pryder hwn yng nghyd-destun y ffaith bod Llywodraeth Cymru ar fin dechrau ar ei hail Gynllun Cydraddoldeb Hiliol[2]. Yn gysylltiedig â'r risg i enw da, roedd y cyflwyniad hefyd yn adlewyrchu pryderon ynghylch unrhyw anghydfod posibl a allai ddeillio o'r ffaith nad oedd AWEMA ac IMANI Consultancy Services wedi dod i gytundeb ynghylch cynnwys yr adroddiad ac am na allai AWEMA fod wedi tynnu sylw'n gyfiawn at y gwendidau ym mhroses yr uned cydraddoldebau ei hun o reoli arian grant, fel y nodwyd yn adroddiad IMANI.

Ar sail y diffyg cytundeb rhwng AWEMA ac IMANI Consultancy Services, roedd y cyflwyniad Gweinidogol yn argymell y dylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ond gan nodi mai adroddiad annibynnol ydoedd ac nid dogfen gan Lywodraeth Cymru[3].

Nodiadau

1 Roedd AWEMA wedi herio ffocws cul yr arian gan yr uned cydraddoldebau pan gafodd adolygiad IMANI ei gyhoeddi gyntaf ac unwaith eto ym mis Tachwedd 2004 wrth roi sylwadau ar yr adroddiad drafft.

2 Roedd Llywodraeth Cymru wedi wynebu beirniadaeth allanol yn flaenorol, gan gynnwys o du AWEMA, o ran ansawdd a chydymffurfiaeth gyfreithiol ei chynllun drafft gwreiddiol.

3 Er bod pryderon ynghylch brandio'r adroddiad, gellid bod wedi cwestiynu annibyniaeth yr adroddiad o ystyried amgylchiadau secondiad awdur yr adroddiad i Lywodraeth Cymru yn gynharach yn 2004-05 (paragraff 2.23). Mae catalog ar-lein Llywodraeth Cymru yn dynodi i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar ei gwefan rywbryd yn 2005, ond nid oes mwyach unrhyw gofnod o'r adroddiad ar y wefan. Mewn ymateb i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad gan Peter Black AC ym mis Mawrth 2006, cadarnhaodd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldeb ar y pryd (Jane Hutt) fod yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddi yn 2005. Mae hefyd yn glir i gopi o'r adroddiad gael ei roi yn Llyfrgell Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol.

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfas Archwilio Cymru o gofnodion Llywodraeth Cymru.*

uned cydraddoldebau wedi bod yn paratoi cyflwyniad i'r Gweinidog ar delerau'r arian a'i bod wedi mynd ati i baratoi dogfen 'amodau grant' ddrafft i'w hanfon i AWEMA ym mis Medi 2005. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i'r cyflwyniad ynghylch y telerau ariannu gael ei rannu â'r Gweinidog.

**2.31** Roedd a wnelo telerau'r copi o'r cytundeb rydym wedi ei weld ag arian blynyddol ond adnewyddadwy yn dibynnu ar berfformiad. Yn gyson â chyflwyniad Gweinidogol mis Ionawr 2005, deallwn fod ymrwymiad mewn egwyddor i roi arian dros dair blwyddyn ariannol a bod AWEMA wedi mapio rhaglen waith bosibl ar y sail honno. Cynigiwyd swm o £100,000 ar gyfer 2005-06. Roedd hyn yn cyfateb i'r arian blynyddol cyfun a roddwyd yn flaenorol ar gyfer y prosiectau Hawl i Bleidleisio a Meithrin Gallu ond ymddengys ei fod yn llai na'r hyn yr oedd AWEMA wedi gobeithio amdano (paragraff 2.27). Nid oes unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r math o drefniadau llywodraethu ffurfiol i oruchwylio arian AWEMA â'r hyn a gynigiwyd yn adolygiad IMANI Consultancy Services (Ffigur 5). Nid ydym ychwaith wedi gweld unrhyw dystiolaeth i'r uned cydraddoldebau ei gwneud yn ofynnol i AWEMA ddangos y camau a gymerwyd mewn ymateb i argymhellion yn adroddiad IMANI ynghylch hyfforddiant rheoli prosiect a llunio adroddiadau[45].

**2.32** Roedd peth o'r gweithgarwch a gafodd gymorth ariannol gan yr uned cydraddoldebau ar ôl mis Ebrill 2005 yn cynnwys gwaith ymgynghori a mewnbwn i ymchwiliadau pwyllgor eraill y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, ymddengys, erbyn hyn, nad oedd Llywodraeth Cymru bellach yn ystyried bod AWEMA yn brif gyfrwng ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y modd a arweiniodd at greu AWEMA. Erbyn hyn, nid oedd pwyllgorau pwnc AWEMA yn weithredol ac nid oedd AWEMA bellach yn cynhyrchu cylchlythyr 'AWEMA Times', a gafodd ei ariannu gan y Swyddfa Gartref. Yn lle hynny, roedd un o'r amcanion a oedd yn gysylltiedig ag arian yr uned cydraddoldebau o fis Ebrill 2005 ymlaen yn ymwneud â datblygu gwefan AWEMA.

**2.33** Mae'n syndod na chafodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart) ei chynnwys yn yr ohebiaeth ar y cyflwyniad am adroddiad IMANI o ystyried mai hi a wnaeth gomisiynu'r adolygiad ac mai dim ond ym mis Ionawr 2005 y trosglwyddodd y cyfrifoldeb am gydraddoldeb. Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau wrthym nad yw'n cofio gweld y cyflwyniad ac y byddai, efallai, wedi disgwyl hynny, o ystyried iddi hefyd fod yn gyfrifol am yr arian i AWEMA gan raglen Cymunedau yn Gyntaf.

**2.34** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am arian Cymunedau yn Gyntaf hefyd wedi cadarnhau wrthym nad ydynt yn cofio bod adolygiad IMANI wedi'i rannu â hwy o gwbl. Yn yr un modd, nid ymddengys i ganfyddiadau'r adolygiad lywio arfarniad WEFO o brosiect arfaethedig Curiad Calon Cymru AWEMA. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith i Brif Weithredwr WEFO ar y pryd gael copi o'r cyflwyniad a oedd yn ategu adroddiad adolygiad IMANI. Roedd y cyflwyniad wedi cyfeirio at y ffaith bod nifer o geisiadau am arian AWEMA yn dal i gael eu hadolygu gan WEFO.

45 Roedd yr argymhellion eraill yn yr adroddiad ynglŷn ag AWEMA yn ymwneud yn bennaf â threfniadau awgrymedig ar gyfer cytuno ar unrhyw amcanion yn y dyfodol o ran arian Llywodraeth Cymru, eu hadolygu a chyflwyno adroddiadau yn eu herbyn. Mae Mr Malik wedi pwysleisio i ni ei fod yn ystyried y penderfyniad i sicrhau statws elusennol ym mis Mawrth 2005 yn rhan o ymdrechion ehangach AWEMA i atgyfnerthu ei threfniadau llywodraethu a rheoli cyffredinol.

## Rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2010, ymdriniodd yr uned cydraddoldebau â materion amrywiol i fodloni ei hun ynghylch rhaglen waith AWEMA a'i defnydd o arian grant blaenorol ond ni wnaeth waith dilynol manwl gywir ar bryderon ynghylch trefniadau llywodraethu AWEMA

*Ym mis Chwefror 2005 a mis Chwefror 2006, dywedodd AWEMA wrth yr uned cydraddoldebau am arian grant nas gwariwyd o 2000-01 a 2004-05 yn y drefn honno, er i'r uned fod yn araf i ddatrys y cyntaf o'r materion hyn ac i benderfyniadau i adael i AWEMA gadw'r arian hwn gael eu dylanwadu gan ddiffygion yn llwybr archwilio'r uned ei hun*

**2.35** Ym mis Chwefror 2005, dywedodd Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) wrth uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru am swm o tua £40,000 y'i trosglwyddodd i 'gyfrif wrth gefn' pan ddaeth yn Brif Weithredwr Dros Dro ym mis Ebrill 2001. Eglurodd Mr Malik fod y swm wrth gefn hwn yn ymwneud â thaliadau gan Lywodraeth Cymru i AWEMA yn 2000-01 tra bod AWEMA dan stiwardiaeth Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru (yn 2000-01) a bod pob ymdrech i nodi diben y taliadau hyn wedi bod yn ofer. Ceisiodd Mr Malik gytundeb i gadw'r arian hwn fel arian cyfatebol ar gyfer gwaith AWEMA a ariannwyd gan Ewrop. Mae Mr Malik wedi haeru iddo godi'r mater hwn gyda'r uned cydraddoldebau ar sawl achlysur dros y blynyddoedd blaenorol. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i'r uned gael ei hysbysu am y tanwariant yn 2000-01 cyn mis Chwefror 2005. Ar y llaw arall, rydym wedi gweld tystiolaeth o ohebiaeth flaenorol ynglŷn â thanwariant yn erbyn arian grant Llywodraeth Cymru o 2001-02 a 2002-03.

**2.36** Ymddengys, yn dilyn cyflwyniad i'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldeb ar y pryd (Jane Hutt) 2005 a'r Prif Weinidog ar y pryd (Rhodri Morgan) ym mis Mawrth a gyfeiriodd at danwariant o £50,069, i'r uned cydraddoldebau ddweud wrth AWEMA ym mis Ebrill 2005 y gallai swm o £39,548 gael ei gadw fel arian cyfatebol. Mae hefyd yn ymddangos bod yr uned cydraddoldebau wedi ysgrifennu at AWEMA ym mis Awst 2005 gan ddynodi y byddai'n lleihau taliad chwarterol arfaethedig ar gyfer 2005-06 er mwyn adennill y swm o £10,520 a oedd yn weddill[46].

**2.37** Ym mis Tachwedd 2005, cysylltodd Mr Malik â swyddogion yn yr uned cydraddoldebau i ofyn pam bod y tanwariant a nodwyd ganddo o tua £40,000 wedi'i ystyried yn £50,069. Ym mis Rhagfyr 2005, dynododd swyddogion wrth Mr Malik, er iddo ddatgan £40,000 ym mis Chwefror 2005, fod taenlen a ddarparwyd ganddo ar y pryd yn rhestru chwe thaliad a oedd yn creu cyfanswm o £50,069[47]:

**a** tri thaliad gwahanol a oedd yn cynnwys y swm llawn o £25,000 mewn arian grant Cymorth i Wasanaethau Canolraddol Gwirfoddol yn 2000-01;

**b** yr ail randaliad, a'r rhandaliad olaf, ym mis Chwefror 2001, o £12,075 ar gyfer prosiect Nodi a Datblygu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig[48];

**c** y taliad cyntaf o £12,344 i AWEMA ym mis Hydref 2000 ar gyfer y prosiect Hawl i Bleidleisio;

**ch** taliad o £650, ym mis Hydref 2001, yn ymwneud â Phwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA (Atodiad 2).

---

46 Mae ein disgrifiad o'r digwyddiadau a ddisgrifiwyd yn y paragraff hwn yn seiliedig yn gyfan gwbl ar gofnodion a ddarparwyd gan aelod o staff yn yr uned cydraddoldebau ac nad oedd tystiolaeth yn eu cylch yn ffeiliau cofnodedig Llywodraeth Cymru. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bendant i'r ddau Weinidog dderbyn y cyflwyniad ynglŷn â'r tanwariant yn 2000-01 a'i gymeradwyo. Wrth ystyried y mater hwn yn 2006, cyfeiriodd Swyddfa Gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru at y cyflwyniad i'r Gweinidog ym mis Mawrth 2005 ond nododd fod bwlch wedyn tan fis Tachwedd 2005 pan godododd anghydfod ynglŷn â'r £10,520 a oedd yn weddill.

47 Nid ydym wedi gweld y daenlen wreiddiol a ddarparwyd gan AWEMA ond mae cofnodion ffeiliau eraill Llywodraeth Cymru yn cadarnhau manylion y taliadau hyn. Nid oedd y pum taliad hyn yn cyfrif am swm llawn taliadau Llywodraeth Cymru i AWEMA yn 2000-01, sef cyfanswm o £94,157 (Atodiad 2).

48 Roedd adroddiad adolygiad IMANI Consultancy Services (Ffigur 5) wedi codi cwestiynau ynglŷn â sut roedd arian y prosiect hwn wedi cael ei wario o ystyried nad oedd amcan gwreiddiol y prosiect wedi'i gyflawni yn ôl y golwg.

**2.38** Ym mis Chwefror 2006, cadarnhaodd Rheolwr Cyllid AWEMA ar y pryd (Mr Saquib Zia) wrth Lywodraeth Cymru fod yr arian ar gyfer y prosiect Hawl i Bleidleisio a datblygu economaidd wedi cael ei wario mewn gwirionedd. Nododd Mr Zia hefyd fod y £37,075 a oedd yn weddill eisoes wedi cael ei ymrwymo'n arian cyfatebol ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru.

**2.39** Yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2006, mynegodd swyddogion o Adran Gyllid a Swyddfa Gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru bryder mai dim ond newydd ddod i'r amlwg yr oedd y tanwariant. Ystyriwyd y gellid felly ddadlau bod AWEMA wedi torri telerau ac amodau grant cytûn. Fodd bynnag, byddem wedi disgwyl i'r pryderon hyn gael eu codi pan gafodd yr uned cydraddoldebau wybod am y tanwariant gyntaf ym mis Chwefror 2005[49]. Yn ogystal, nid ymddengys i ymchwiliadau Llywodraeth Cymru i'r tanwariant o 2000-01 gadarnhau bod y swm o £25,000 gan y grant Cymorth i Wasanaethau Canolraddol Gwirfoddol gael ei roi, mewn gwirionedd, gan yr uned cydraddoldebau.

**2.40** Yn dilyn cyngor pellach gan dîm Swyddfa Gydymffurfiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru, cadarnhaodd yr uned cydraddoldebau wrth AWEMA ym mis Mehefin 2006 na fyddai'n ceisio adennill y swm o £10,520 y bu dadlau yn ei gylch. Gwnaed y penderfyniad hwnnw ar sail y ffaith bod AWEMA wedi cadarnhau bod y swm hwn wedi cael ei wario ar brosiectau a ariannwyd gan yr uned cydraddoldebau. Serch hynny, mae'r cyngor cefndirol a roddwyd gan y Swyddfa Gydymffurfiaeth a'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn dynodi nad oedd yr uned cydraddoldebau mewn sefyllfa gref i adennill yr arian hwn o ystyried bod y llwybr archwilio mewn perthynas â'r arian grant hwn yn ddiffygiol.

**2.41** Ym mis Chwefror 2006, tynnodd Mr Zia sylw'r uned cydraddoldebau at danwariant pellach o £21,787 yn erbyn y swm o £100,000 a roddwyd ganddi ar gyfer prosiectau Hawl i Bleidleisio a Meithrin Gallu yn 2004-05. Unwaith eto, mynegodd swyddogion o uned cydraddoldebau ac Is-adran Gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru bryder ynghylch y ffaith na roddwyd gwybod am y tanwariant hwn yn gynt. Disgrifiodd Mr Zia y tanwariant hwn fel enghraifft o arbedion effeithlonrwydd. Roedd AWEMA am gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r arian hwn gael ei gadw ac unwaith eto fe'i hymrwymwyd ar ffurf arian cyfatebol ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru.

**2.42** Ym mis Mai 2006, dynododd Mr Malik mewn llythyr i'r uned cydraddoldebau ei rwystredigaeth ar y pryd ynghylch yr amser yr oedd yn ei gymryd i wneud penderfyniad am gadw'r tanwariant o 2004-05[50]. Mewn ymateb, pwysleisiodd yr uned cydraddoldebau y dylai AWEMA, yn unol â thelerau ac amodau grant, fod wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y daeth yn amlwg y byddai tanwariant a bod yr uned wedi gorfod cael cyngor ar sut i barhau.

**2.43** Yna, daeth penderfyniad yr uned cydraddoldebau ynghylch y tanwariant o 2004-05 yn ddibynnol ar ganlyniad ymchwiliad WEFO i bryderon am brosiect Curiad Calon Cymru a ddaeth i'w sylw yn ystod hanner cyntaf 2006 (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 5). Ym mis Awst 2006, rhoddodd WEFO sicrwydd i'r uned cydraddoldebau a chadarnhaodd nad oedd unrhyw ddyblygu wrth ddyrannu £21,787 fel arian cyfatebol. Ar 16 Awst 2006, cadarnhaodd yr uned cydraddoldebau ei chynnig grant i AWEMA ar gyfer y flwyddyn honno a'i bod yn derbyn y gellid cadw'r swm blaenorol o £21,787 a'i

49 Awgryma copi a welwyd gennym o'r cyflwyniad i'r Gweinidog ym mis Mawrth 2005 fod yr Adran Gyllid a'r Swyddfa Gydymffurfiaeth wedi cael copïau.

50 Roedd angen i AWEMA gadarnhau'r sefyllfa o ran y tanwariant hwn er mwyn paratoi ei gyfrifon ar gyfer 2004-05 yn derfynol ac roedd yn wynebu dirwy gan Dŷ'r Cwmnïau am gyflwyno'r cyfrifon yn hwyr.

ymrwymo'n arian cyfatebol. Cadarnhaodd yr uned cydraddoldebau hefyd ei bod yn fodlon i'w harian parhaus gefnogi cyfraniad arian cyfatebol AWEMA i brosiect Curiad Calon Cymru[51].

**2.44** Yn gyffredinol, nid yw'r digwyddiadau hyn yn adlewyrchu'n dda ar AWEMA. Fodd bynnag, maent hefyd yn adlewyrchu'n wael ar Lywodraeth Cymru am y rhesymau canlynol:

- **a** ni wnaeth nodi'n briodol ffynhonnell rhywfaint o'r tanwario a gafodd ei ddatgan o 2000-01;
- **b** yr amser a gymerwyd i ddod i gasgliad ar y materion hyn, yn enwedig y tanwariant a gafodd ei ddatgan ym mis Chwefror 2005;
- **c** y diffygion ym mhrosesau monitro a chofnodi blaenorol yr uned cydraddoldebau a wnaeth wanhau sefyllfa Llywodraeth Cymru o ran ceisio adennill unrhyw arian posibl.

**2.45** Ar 6 Mawrth 2006, tra bod Llywodraeth Cymru yn penderfynu sut i ymdrin â'r tanwariant a gafodd ei ddatgan gan AWEMA, cyflwynodd y cyn-Aelod Cynulliad, Dr Dai Lloyd, Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad i'r Gweinidog a oedd bryd hynny yn gyfrifol am gydraddoldeb (Jane Hutt) yn gofyn am ddadansoddiad blynyddol o arian Llywodraeth Cymru i AWEMA ers 1999. Rydym wedi nodi bod yr ymateb a roddwyd gan y Gweinidog, a baratowyd gan yr uned cydraddoldebau, yn anghywir ac yn anghyflawn (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 4). Dynododd yr ymateb fod cyfanswm o £792,245 wedi'i roi ond pan ofynnwyd y cwestiwn roedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwerth £1.75 miliwn o daliadau i AWEMA.

**2.46** Ymatebodd y Gweinidog i gwestiwn Dr Lloyd ar 16 Mawrth 2006. Erbyn hynny roedd WEFO wedi talu swm pellach o £265,161 i AWEMA ar 10 Mawrth 2006. Fodd bynnag, nid oedd yr ymateb a roddwyd yn cynnwys yr holl arian a gafodd AWEMA gan WEFO a rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, lle'r oedd AWEMA yn cael arian ar ran ei hun a phartneriaid prosiect eraill (paragraff 1.12). Credwn fod yr ymateb anghywir hwn yn nodweddiadol o fethiant mwy cyffredinol gan adrannau i gydgysylltu a chyfathrebu â'i gilydd a rheoli'n effeithiol berthynas ariannu gyffredinol Llywodraeth Cymru ag AWEMA dros y blynyddoedd blaenorol. Mae anghywirdebau yng nghofnodion yr uned cydraddoldebau o'i harian ei hun yn anodd ei egluro o ystyried bod yr uned, wrth baratoi'r ymateb, hefyd yn ystyried y tanwariant a gafodd ei ddatgan gan AWEMA o'r arian a gafodd yn 2000-01 a 2004-05[52].

*Ymdriniodd yr uned cydraddoldebau â rhai pryderon ynghylch rhaglen waith AWEMA rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2008 ac ataliodd rai taliadau ond methodd ag ystyried yn briodol honiadau a wnaed gan Gadeirydd Dros Dro ac Is-Gadeirydd Dros Dro AWEMA ar y pryd ym mis Gorffennaf 2007*

**2.47** Ar ôl ymgynghori â swyddogion eraill Llywodraeth Cymru a oedd yn arbenigo mewn ymchwil gymdeithasol, nododd yr uned cydraddoldebau bryderon ynghylch eglurder ac ansawdd rhai o'r allbynnau a gafodd eu honni yn adroddiad cynnydd diwedd blwyddyn AWEMA ar gyfer 2005-06. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n dynodi bod yr uned cydraddoldebau wedi mynd i'r afael â'r rhain yn uniongyrchol gydag AWEMA. Fodd bynnag, wrth drafod ag AWEMA y cynllun gwaith ar gyfer 2006-07, ceisiodd

---

51 Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Jane Hutt) gytuno y câi AWEMA gadw'r tanwariant o 2004-05. Cyfeiriodd cyflwyniad ym mis Gorffennaf 2006 gan WEFO i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ar y pryd, y cafodd swyddfa Ms Hutt gopi ohono, at y tanwariant ond rhoddodd yr argraff bedant bod cais AWEMA i gadw'r tanwariant fel arian cyfatebol, a neilltuo rhywfaint o'i arian craidd cyfredol fel arian cyfatebol, wedi'i wrthod.

52 Er enghraifft, nid oedd y ffigur o £38,333 a ddyfynnwyd ar gyfer 2004-05 yn cynnwys y £100,000 a roddodd yr uned cydraddoldebau i AWEMA y flwyddyn honno.

yr uned cydraddoldebau eglurder ynghylch y gwahaniaeth rhwng gweithgareddau a bennwyd gan ei chynllun gwaith a phrosiect Curiad Calon Cymru AWEMA. Hefyd, ceisiodd yr uned cydraddoldebau farn adrannau eraill Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gallai cynlluniau AWEMA fod yn gysylltiedig â'u hagweddau ar eu gwaith eu hunain, er nad yw'n glir i ni yn union beth oedd canlyniad y deialog hwnnw.

**2.48** Cafodd gwaith ar benodiadau cyhoeddus ymhlith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 2005-06, ei ohirio tan 2006-07. Hyd yn oed wedyn, ni chafodd y gwaith hwn ei gynnal yn ôl y bwriad. Y rheswm cychwynnol dros hyn oedd yr oedi a achoswyd gan uned penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ddiwedd 2006, roedd gan yr uned cydraddoldebau hefyd rai pryderon ynghylch adnoddau ymchwil AWEMA a materion diogelu data o ran ei chynigion. Hefyd, dynododd yr uned cydraddoldebau ei bod yn ffafrio gwaith ar benodiadau cyhoeddus a fyddai'n fwy trawsbynciol ar draws yr elfennau cydraddoldeb gwahanol a chynigiodd y gallai AWEMA barhau i gwblhau adolygiad arfaethedig o lenyddiaeth a threfnu seminar i hyrwyddo penodiadau cyhoeddus. Cadarnhaodd yr uned cydraddoldebau na fyddai'n ceisio adennill unrhyw arian a roddwyd ganddi petai'r gwaith hwn yn cael ei wneud. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i gadarnhau i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ac ymddengys, ym mis Mai 2007, i'r uned cydraddoldebau benderfynu peidio â mynd ar drywydd y mater ymhellach.

**2.49** Roedd gan yr uned cydraddoldebau bryderon ynghylch y ffordd yr oedd cynllun gwaith AWEMA ar gyfer 2007-08 yn datblygu ac ataliodd arian iddi am gyfnod dros dro. Roedd hyn yn cyd-daro â honiadau ynghylch methiannau llywodraethu o fewn AWEMA a gafodd yr uned cydraddoldebau gan Gadeirydd Dros Dro ac Is-Gadeirydd Dros Dro AWEMA ym mis Gorffennaf 2007. Nid ydym wedi gweld unrhyw gofnodion sy'n cadarnhau yn union sut y cafodd y pryderon ynghylch y cynllun gwaith ar gyfer 2007-08 eu datrys ac rydym wedi dod i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru wedi methu â rhoi ystyriaeth briodol i'r honiadau penodol ynghylch trefniadau llywodraethu AWEMA (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 6). Yn y pen draw, cafodd AWEMA ei dyraniad llawn o £102,500 ar gyfer 2007-08.

**2.50** Nid yw cofnodion ffeiliau Llywodraeth Cymru a adolygwyd gennym yn cynnwys tystiolaeth fanwl am yr holl allbynnau a gofnodwyd sy'n gysylltiedig â chynllun gwaith AWEMA rhwng 2005 a 2008. Yn ei hanfod, roedd natur y cytundeb ariannu craidd yn golygu bod yr arian gan yr uned cydraddoldebau yn ategu holl waith AWEMA i raddau, hyd yn oed os na chafodd hyn ei nodi'n benodol yn y cynllun gwaith blynyddol ac adroddiadau cynnydd AWEMA. Mae tystiolaeth o gyswllt rheolaidd rhwng yr uned cydraddoldebau ac AWEMA yn ystod y cyfnod hwn, a'r uned cydraddoldebau yn ceisio mynd i'r afael â phryderon ynghylch systemau cyflawni AWEMA. Fodd bynnag, nid ymddengys i hyn gael ei gefnogi gan gyfarfodydd monitro ffurfiol a gynhaliwyd ar y raddfa a ddisgrifiwyd yn y cytundeb grant gwreiddiol. Roedd y cytundeb grant yn darparu ar gyfer adroddiadau cynnydd a gwariant chwarterol, i'w dilyn gan gyfarfodydd adolygu gwasanaethau chwarterol. Os cafodd y trefniadau monitro hyn eu gwneud, nis cofnodwyd[53].

53 Er nad yw'n benodol i'r gydberthynas ariannu ag AWEMA neu'r uned cydraddoldebau yn fwy cyffredinol, ym mis Gorffennaf 2008 cwblhaodd Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru 'Adolygiad Amgylchedd Rheolaeth' o'r Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu, yr oedd yr uned cydraddoldebau yn rhan ohoni. Ystyriodd y gwaith hwnnw drefniadau rheolaeth a oedd yn ymwneud ag ymrwymiadau gwariant, gan gynnwys gwariant grantiau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai prin yr oedd y rheolaethau cysylltiedig yn rhoi sicrwydd ynghylch ymrwymiadau gwariant yr adran.

*Ymestynnodd yr uned cydraddoldebau ei harian i AWEMA drwy gydol 2008-09 a 2009-10 tra'i bod yn cynllunio newidiadau ehangach i'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb ond ni wnaeth waith dilynol digonol ar bryderon pellach ynghylch trefniadau llywodraethu AWEMA*

**2.51** Ym mis Medi 2007, cafodd Llywodraeth Cymru adroddiad adolygiad a gomisiynwyd yn fewnol o'i threfniadau ar gyfer gweinyddu'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb (a oedd yn cefnogi'r trefniant ariannu craidd gydag AWEMA). Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, a gwaith ymgynghori allanol pellach, sefydlodd Llywodraeth Cymru Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb newydd gyda'r bwriad o wneud y gronfa yn agored i gystadleuaeth ehangach.

**2.52** Tra bod cynlluniau ar gyfer y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb yn cael eu hystyried, cadarnhaodd y Gweinidog a oedd bryd hynny yn gyfrifol am gydraddoldeb (Dr Brian Gibbons), ym mis Chwefror 2008, ei fod yn fodlon parhau i roi arian craidd i AWEMA, a sefydliadau eraill a gefnogwyd gan y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb, drwy gydol 2008-09. Roedd ei ymrwymiad yn amodol ar gytuno ar gynlluniau gwaith a'u cyflawni'n foddhaol a gofynnodd y Gweinidog am sicrwydd penodol bod yr uned cydraddoldebau yn fodlon ar drefniadau llywodraethu ac adrodd AWEMA.

**2.53** Mewn ymateb, tynnodd yr uned cydraddoldebau sylw'r Gweinidog at gyngor a roddodd ym mis Medi 2007 yn dilyn yr honiadau a gafwyd gan gyn-Gadeirydd Dros Dro ac Is-Gadeirydd Dros Dro AWEMA. Nododd yr uned cydraddoldebau fod angen iddi ddatrys materion eraill o hyd yn ymwneud â threfniadau adrodd AWEMA a'i chydymffurfiaeth â gofynion ariannu, yn dilyn pryderon a godwyd ynghylch cynllun gweithredu AWEMA yn ystod 2007 (paragraff 2.49 ac Atodiad 3, Astudiaeth Achos 6). Fodd bynnag, nododd yr uned cydraddoldebau, o ystyried ei bod yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar ddyfodol y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb, fod ymrwymiad tybiannol wedi cael ei roi i sefydliadau a oedd yn cael arian craidd y byddai trefniant interim yn 2008-09. Wrth gadarnhau ei chynnig grant yn 2008-09, gofynnodd yr uned cydraddoldebau i AWEMA gyflwyno datganiad ysgrifenedig yn disgrifio ei threfniadau llywodraethu. Cyflwynodd AWEMA ran o'i hadroddiad ymddiriedolwyr blynyddol a oedd yn foddhaol ym marn yr uned cydraddoldebau.

**2.54** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym fod cyfarfodydd rheolaidd wedi cael eu cynnal ag AWEMA yn ystod 2008-09, ar ôl cael adroddiadau cynnydd chwarterol. Nid ydym wedi gweld cofnod o gyfarfodydd mor aml â hynny ond gwelsom dystiolaeth o gyfarfod ym mis Hydref 2008. Pan gynhaliwyd y cyfarfod hwnnw, roedd yr uned cydraddoldebau wedi nodi rhai pryderon ynghylch pa mor gyflym y cyflawnwyd rhywfaint o waith AWEMA, yn arbennig y trefniadau ar gyfer rhai gweithdai rhanbarthol i drafod Confensiwn Cymru Gyfan[54] a Chytundeb Cymru'n Un[55]. Fodd bynnag, wrth adolygu'r hyn a gyflawnwyd gan AWEMA yn erbyn ei chynllun gwaith ar ddiwedd 2008-09, dynododd swyddogion o'r uned cydraddoldebau eu bod yn fodlon ar gynnydd. Yn ystod 2008-09, roedd yr uned cydraddoldebau hefyd wedi cymeradwyo cynnig gan AWEMA am £2,500 tuag at ddigwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ym mis Mawrth 2009[56].

---

54 Yn 2007, sefydlodd Llywodraeth Cymru Gonfensiwn Cymru Gyfan i asesu barn y cyhoedd am y pwerau deddfu sylfaenol y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol eu cael. Mae sylw diweddar yn y cyfryngau a sylwadau diweddar ynghylch AWEMA wedi cynnwys cyfeiriadau at y rhan y mae wedi'i chwarae yn ymgyrch 'Ie dros Gymru' a thaliad o £500 a wnaeth i'r ymgyrch ym mis Ionawr 2011 cyn refferendwm mis Mawrth 2011 ar bwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol. Nid ydym wedi ceisio dod i gasgliad ynghylch cyfreithlondeb ymwneud AWEMA â'r ymgyrch Ie dros Gymru. Rydym wedi cyfeirio at ohebiaeth y Comisiwn Elusennau a gawsom ar y mater hwn gan grŵp ymgyrchu Cymru Wir, a oedd o blaid pleidlais na yn y refferendwm. Roedd y mater hwn hefyd wedi'i gyfeirio at y Comisiwn Etholiadol ym mis Chwefror 2012 a daeth y Comisiwn Etholiadol i'r casgliad, am nifer o resymau, na fyddai wedi bod yn gymesur iddo ystyried y mater ymhellach.

55 Cytundeb Cymru'n Un oedd cytundeb clymbleidiol y Blaid Lafur a Phlaid Cymru ym mis Mehefin 2007, yn dilyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2007.

56 Gwnaeth Llywodraeth Cymru brosesu taliad yr arian grant hwn ym mis Rhagfyr 2008 a mis Ionawr 2009. Adenillodd y gordaliad ym mis Mehefin 2009 (Atodiad 2).

**2.55** Roedd Llywodraeth Cymru wedi gobeithio cwblhau'r prif gylch ymgeisio ar gyfer y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb newydd mewn da bryd i unrhyw ymrwymiadau ariannu diwygiedig gychwyn ar ddechrau 2009-10. Fodd bynnag, o ganlyniad i oedi wrth baratoi trefniadau ar gyfer y gronfa gohiriwyd hyn gan Lywodraeth Cymru tan 2010-11. Ym mis Chwefror 2009, ystyriodd y Gweinidog gyflwyniad gan yr uned cydraddoldebau yn manylu ar gynlluniau i barhau â'r arian ar gyfer 2009-10 ar yr un lefel i'r holl sefydliadau hynny a oedd eisoes yn cael arian craidd. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru gynnig grant i AWEMA ym mis Ebrill 2009 ar ôl i AWEMA gyflwyno achos busnes mewn perthynas â'i gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2009-10. Roedd y gweithgareddau a gynigiwyd yn yr achos busnes yn ymwneud yn bennaf â datblygu a chyflawni prosiectau Rhaglen Gydgyfeirio UE AWEMA[57]. Roedd yr achos busnes hefyd yn ceisio cysoni'r allbynnau disgwyliedig o waith AWEMA â pholisïau a strategaethau presennol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

**2.56** Ym mis Mai 2009, gofynnodd pennaeth yr uned cydraddoldebau ar y pryd wrth gydweithwyr pam na chynhaliwyd adolygiad ac iddo dystiolaeth o achos busnes AWEMA. Ymddengys mai'r rheswm a gafodd ei roi oedd y ffaith nad oedd yr achos busnes yn destun arfarniad ffurfiol am fod arian parhaus wedi cael ei ymrwymo eisoes. Ar ddechrau 2009-10, cafwyd hefyd ohebiaeth amrywiol rhwng yr uned cydraddoldebau, AWEMA a WEFO. Diben yr ohebiaeth hon oedd cadarnhau bod yr uned cydraddoldebau yn fodlon i arian grant craidd AWEMA gefnogi cyfraniad arian cyfatebol AWEMA at brosiectau Rhaglen Gydgyfeirio'r UE, yn benodol, ar yr adeg honno, prosiect Black and Minority Ethnic Employment for All.

**2.57** Ar 8 Gorffennaf 2009, cysylltodd Swyddfa Breifat y Gweinidog â'r uned cydraddoldebau i nodi pryder nad oedd Bwrdd AWEMA wedi cyfarfod ers dros 12 mis a bod hynny wedi golygu na fu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ystod y cyfnod hwnnw. Cododd yr uned cydraddoldebau y mater hwn mewn cyfarfod monitro gydag AWEMA ar 28 Gorffennaf 2009[58]. Cadarnhaodd yr uned cydraddoldebau gydag AWEMA fod ei bwrdd wedi cyfarfod ym mis Chwefror 2009 a'i bod yn fwriad i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gael ei gynnal ar 14 Awst 2009. Cafodd y Gweinidog ddiweddariad i'r perwyl hwnnw ar 4 Awst 2009 ond dynododd yr uned cydraddoldebau hefyd y byddai'n rhoi mwy o wybodaeth am ba mor aml y cynhaliwyd cyfarfodydd bwrdd. Dywedwyd wrth y Gweinidog bod canllawiau'r Comisiwn Elusennau yn awgrymu mai'r sefydliad a ddylai benderfynu pa mor aml y cynhelid cyfarfodydd bwrdd ond y dylent ddigwydd unwaith y flwyddyn o leiaf ac os nad oedd ymddiriedolwyr yn cyfarfod yn ddigon aml eu bod mewn perygl o dorri eu dyletswydd gofal.

**2.58** Mae ymateb yr uned cydraddoldebau i'r Gweinidog yn nodi iddi gael gwybod nad oedd amlder cyfarfodydd bwrdd wedi'i amlinellu yng nghyfansoddiad AWEMA ac nad oedd yn ymddangos mewn unrhyw bolisi arall. Dywedwyd wrthi hefyd fod cyfarfodydd Bwrdd AWEMA fel arfer yn digwydd bob chwarter ond nad oedd hyn yn bosibl bob amser ac y byddai'r Prif Weithredwr fel arall yn dosbarthu adroddiad ysgrifenedig. Mae ymateb yr uned cydraddoldebau i'r Gweinidog yn nodi bod materion eraill a drafodwyd yn y cyfarfod ag AWEMA ar 28 Gorffennaf sy'n berthnasol i rai o'r pryderon a godwyd yn fwy diweddar. Ymhlith y rhain mae gwahanu cyfrifoldebau, o ran rôl reoli Mr Malik, a'i rôl fel ymddiriedolwr, a threfniadau ar gyfer llofnodi sieciau.

57 Fodd bynnag, roedd enghreifftiau o waith y cynigiodd AWEMA ei ddatblygu a oedd y tu hwnt i gwmpas y tri phrosiect Rhaglen Gydgyfeirio. Roedd y gwaith hwnnw yn cynnwys ymgysylltiad arfaethedig AWEMA â Masnach Deg Cymru, a arweiniodd at gyd-gynhadledd ym mis Tachwedd 2009

58 Yn bresennol yn y cyfarfod, ar ran AWEMA, roedd Cyfarwyddwr AWEMA (Mr Naz Malik), y Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Ms Tegwen Malik) a'r Rheolwr Cyllid ar y pryd (Mr Saquib Zia).

**2.59** Cyn cyfarfod bwrdd AWEMA ym mis Chwefror 2009, cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf 2008 a chyfarfodydd o'r bwrdd ym mis Mai 2008 a mis Ionawr 2008. Mae disgrifiad yr uned cydraddoldebau o'i chyfarfod ag AWEMA ar 28 Gorffennaf 2009 yn nodi bod swyddogion wedi cael gwybod y byddai cyfarfod nesaf Bwrdd AWEMA rywbryd ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 14 Awst 2009. Ni chafodd cyfarfod nesaf Bwrdd AWEMA a gofnodwyd ei gynnal tan fis Ionawr 2010. Mae dogfen lywodraethu AWEMA yn nodi y dylai ymddiriedolwyr AWEMA gyfarfod bedair gwaith y flwyddyn o leiaf ac y dylai Cyngor Aelodau AWEMA gyfarfod ddwywaith y flwyddyn o leiaf. Ymddengys mai dim ond unwaith y flwyddyn ar ffurf y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn o'r Cyngor ehangach, ers 2008 o leiaf.

**2.60** Roedd adroddiad Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru ar AWEMA ym mis Chwefror 2012 hefyd yn nodi diffyg cydymffurfiaeth AWEMA â'i dogfen lywodraethu ei hun o ran amlder cyfarfodydd bwrdd. Disgrifiodd yr adroddiad wendidau eraill yn nhrefniadau cyffredinol y cyfarfodydd hyn ac, ar sail eu canfyddiadau, ni allai'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol roi unrhyw sicrwydd bod Bwrdd AWEMA yn goruchwylio systemau llywodraethu a rheoli cyffredinol y sefydliadau i'r graddau angenrheidiol.

**2.61** Ceisiodd Swyddfa Breifat y Gweinidog ymateb am amlder cyfarfodydd Bwrdd AWEMA ym mis Medi, mis Hydref a mis Tachwedd 2009 a holodd am lefelau presenoldeb yn y cyfarfodydd hynny hefyd. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i'r uned cydraddoldebau wneud gwaith dilynol ar y mater hwn, ei adrodd yn ôl i'r Gweinidog neu ei olynydd[59], na'i drafod â WEFO.

**2.62** Yn dilyn cyfarfod Bwrdd AWEMA ym mis Ionawr 2010, hysbysodd Cadeirydd AWEMA ar y pryd (yr Athro George Karani) Mr Malik ei fod am roi'r gorau i'w rôl fel Cadeirydd a hynny ar unwaith. Dywedwyd wrthym gan yr Athro Karani, na fu'n bresennol yng nghyfarfod Bwrdd AWEMA ym mis Ionawr 2010, ei fod wedi gwneud y penderfyniad hwn am sawl rheswm. Yn eu plith roedd y ffaith ei fod yn fwyfwy anghyfforddus â'r egwyddor o AWEMA yn cyflogi aelodau eraill o deulu Mr Malik. Roedd yr Athro Karani hefyd wedi bod yn anfodlon ar agweddau eraill ar ymddygiad Mr Malik gan gynnwys, ym mis Mehefin 2009, y ffordd yr ymdriniwyd â gohebiaeth gan yr Aelod Cynulliad dros Orllewin Abertawe ar y pryd (Andrew Davies)[60]. Fodd bynnag, ni chododd yr Athro Karani unrhyw bryderon gyda Llywodraeth Cymru ac mae wedi dweud wrthym, ers iddo adael ei swydd fel Cadeirydd, nad yw wedi bod mewn unrhyw gysylltiad â Mr Malik.

**2.63** Mae cofnodion Bwrdd AWEMA yn cadarnhau y gofynnwyd i Mr Ron Davies (y cyn-Aelod Cynulliad ac un o ymddiriedolwyr AWEMA) gadeirio'r cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd 2010 ac ymddengys, yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Rhagfyr 2010, i Mr Ahmud Raouf Furreed gael ei ethol yn Gadeirydd. Fodd bynnag, nid yw Mr Furreed yn cofio'n

59 Ym mis Rhagfyr 2010, trosglwyddodd Dr Gibbons y cyfrifoldeb Gweinidogol am gydraddoldeb i Carl Sargeant AC (Atodiad 5).

60 Roedd Mr Davies hefyd yn Weinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd. Ar 10 Mehefin 2009, ysgrifennodd Mr Davies at yr Athro Karani i godi mater cyfansoddiadol a oedd yn ymwneud â'r rhan a chwaraewyd gan Mr Malik mewn rhai materion yn ymwneud â 'Castle Communities First Partnership' yn Abertawe. Ar 16 Mehefin 2009, ymatebodd Mr Malik i'r Gweinidog, gan nodi ei fod yn gwneud hynny am mai 'materion gweithredol' oedd y rhain. Mae'r Athro Karani wedi dweud wrthym mai dim ond peth amser yn ddiweddarach y cafodd wybod am y llythyr gan y Gweinidog. Ar y llaw arall haerodd Mr Malik iddo rannu ei ymateb ar ffurf drafft â'r Athro Karani. Cafodd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldeb ar y pryd (Dr Gibbons) a'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio ar y pryd (Leighton Andrews) hefyd gopi o lythyr gwreiddiol Mr Davies. Mae Mr Davies wedi dweud wrthym na chafodd ymateb gan y naill Weinidog na'r llall. Daethom o hyd i gopi o ymateb Mr Malik i Mr Davies yng nghofnodion uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru.

glir pryd yn union y daeth yn Gadeirydd ond iddo gredu mai ym mis Mawrth 2011 neu tua'r adeg honno y daeth yn Gadeirydd. Ni wnaeth Mr Furreed fynychu unrhyw un o gyfarfodydd AWEMA fel Cadeirydd cyn rhoi'r gorau i'r rôl ym mis Hydref 2011. Yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Rhagfyr 2010, roedd Bwrdd AWEMA wedi cyfarfod ym mis Ionawr 2011 a bu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol arall ym mis Gorffennaf 2011.

**2.64** Yn dilyn y cyfarfod ar 28 Gorffennaf 2009, ymddengys mai drwy ohebiaeth a thros y ffôn y bu'r uned cydraddoldebau mewn cysylltiad ag AWEMA am weddill 2009-10. Roedd hyn yn cynnwys cyswllt amrywiol â Mr Malik ynghylch proses ymgeisio'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb ar gyfer 2010-2013, cais aflwyddiannus AWEMA am £2,500 tuag at ddigwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2010 a'i chynigion llwyddiannus[61] am grantiau bach (gwerth £6,535) i gefnogi dau ddigwyddiad untro arall. Roedd yr holl gylchoedd ymgeisio hyn yn destun cystadleuaeth agored (Atodiad 2).

## Roedd gwendidau mawr yn y prosesau a arweiniodd at ddyfarnu grant Cronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb AWEMA ar gyfer mis Ebrill 2010 i fis Mawrth 2013 ac ers hynny mae'r uned cydraddoldebau wedi methu ag ymdrin yn ddigonol â phryderon pellach ynghylch perfformiad AWEMA

*Dyfarnwyd grant Cronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb AWEMA yn dilyn proses cystadleuaeth agored, er nad yw sail penderfyniadau ariannu'r uned cydraddoldebau yn glir ac nid oedd y broses yn cydymffurfio â gofynion amseru 'Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector' Llywodraeth Cymru*

**2.65** Roedd cais AWEMA am arian craidd pellach gan yr uned cydraddoldebau o'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod 2010-2013 yn llwyddiannus (Atodiad 2). Prif ddiben yr arian hwn oedd ategu costau gweithredu craidd AWEMA a'i helpu i gyflawni gwaith prosiect a ariannwyd gan WEFO. Cyflwynodd AWEMA gynnig am £417,472 dros y cyfnod tair blynedd ond cafodd £326,321.

**2.66** Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei phenderfyniadau ynghylch dyrannu arian o Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb 2010-2013 ym mis Chwefror 2010 ond ar y pryd roedd y broses gyffredinol o weinyddu'r cylch ymgeisio hwn yn destun cwyn o dan 'Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector' Llywodraeth Cymru[62]. Problem allweddol oedd bod y broses yn torri'r gofyniad ynghylch 'rhoi gwybod am gymeradwyaeth grant bob blwyddyn ariannol erbyn 31 Rhagfyr y flwyddyn flaenorol, oni chafodd rhybudd eisoes ei roi am derfyn amser gwahanol'. Yn yr achos hwn, roedd y broses ar gyfer asesu cynigion a hysbysu sefydliadau o'r canlyniad wedi cyd-daro â chyfnod pan newidiodd y

61 Yn wreiddiol, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwrthod cynigion AWEMA ar gyfer y ddau ddigwyddiad untro. Fodd bynnag, yna ailystyriodd Llywodraeth Cymru y rhain a chynigion eraill a wnaeth fethu â bodloni ei meini prawf o drwch blewyn, ac ar ôl i AWEMA gyflwyno cynigion diwygiedig, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei chynnig grant.

62 Ymchwiliwyd i'r gŵyn a chyflwynwyd adroddiad arni gan Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

cyfrifoldeb Gweinidogol am gydraddoldeb - o Dr Brian Gibbons i Carl Sargeant AC - a chyda bwlch byr tra bod rôl pennaeth yr uned cydraddoldebau hefyd yn newid dwylo. Fodd bynnag, dywedodd swyddog a oedd ynghlwm wrth y broses o ddyfarnu'r arian hwn wrthym hefyd nad oedd yn ymwybodol o'r gofyniad o ran amser a nodwyd yn y cod ymarfer.

**2.67** Ym mis Tachwedd 2010, cyflwynodd Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru ganfyddiadau adolygiad o drefniadau rheoli grant yr uned cydraddoldebau. Yn ôl adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, o ran gweinyddu cylch ymgeisio Cronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb 2010-2013, roedd y ceisiadau a brofwyd wedi'u cwblhau'n llawn ac yn cynnwys digon o wybodaeth ategol i gefnogi'r broses. Fodd bynnag, cyfeiriodd yr adroddiad at ddiffyg tystiolaeth ddogfennol i ddangos sut y cafodd yr ymgeiswyr llwyddiannus eu dewis. Er enghraifft, nid oedd unrhyw dystiolaeth o unrhyw system sgorio/graddio[63] nac unrhyw gyfranogiad annibynnol yn y broses. Nododd yr adroddiad hefyd na chafodd unrhyw beth ei nodi i egluro sut y cafodd penderfyniadau eu gwneud lle cafodd sefydliadau lai o arian na'r hyn y gwnaethant gais amdano (fel yn achos AWEMA). Fodd bynnag, roedd AWEMA wedi cael gwybod gan yr uned cydraddoldebau, lle bu sefydliadau a oedd wedi cael yr arian trosiannol yn flaenorol yn 2009-10 yn llwyddiannus o ran eu cynigion, eu bod yn cael eu harian blaenorol yn ogystal â chynnydd blynyddol o 3 y cant. Mae hyn yn gyson â'r arian a gynigiwyd i AWEMA.

**2.68** Cydnabu adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol fod yr uned cydraddoldebau eisoes wedi ymateb yn rhagweithiol i argymhellion a wnaed gan Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Yn benodol, cyfeiriodd yr adroddiad at y ffaith bod yr uned cydraddoldebau wedi rhoi gwell trefniadau ar waith i ddyfarnu grantiau ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2011 a Chronfa Meithrin Gallu ar y Cyd Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[64]. Bu AWEMA yn llwyddiannus yn y ddau gylch ymgeisio hyn, gan dderbyn £2,500 a £5,000 yn 2010-11 yn y drefn honno (Atodiad 2).

*Yn ystod 2010-11 methodd yr uned cydraddoldebau ag ymdrin yn ddigonol â rhai pryderon pellach ynghylch systemau cyflawni AWEMA a phrin fu'r cyswllt rhwng yr uned â WEFO rhwng mis Ebrill 2010 a mis Rhagfyr 2011 yn ystod y cyfnod hwn er gwaethaf y cysylltiad clir rhwng arian yr uned a phrosiectau AWEMA a ariannwyd gan WEFO*

**2.69** Ar ôl i'r uned cydraddoldebau gadarnhau ei chynnig o grant ar gyfer 2010-2013, holodd Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) ynglŷn â'r rhesymau dros gynnig llai o arian na chais AWEMA gan nodi y byddai hyn yn debygol o effeithio ar gynlluniau AWEMA i gyflawni prosiectau yn y dyfodol yn y gogledd. Pwysleisiodd swyddogion o'r uned cydraddoldebau ar o leiaf ddau achlysur gwahanol mai mater i AWEMA oedd hyn ac nad oedd rhagor o arian ar gael. Ar y pryd, roedd AWEMA yn aros i WEFO gymeradwyo dau o'i thri phrosiect o dan Raglen Gydgyfeirio'r UE. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ym mis Mai 2010, bu gohebu rhwng yr uned cydraddoldebau a WEFO ynglŷn â'r

63 Dywedodd un o'r swyddogion a oedd ynghlwm wrth asesu'r cynigion wrthym fod cynnig AWEMA o ansawdd llawer gwell na rhai o'r cynigion eraill a gafwyd gan sefydliadau a oedd yn gweithio ym maes cydraddoldeb hiliol.

64 Daeth adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ym mis Tachwedd 2010 i'r casgliad ei bod yn dal yn rhy gynnar i lunio barn ar effeithiolrwydd gwelliannau arfaethedig eraill i drefniadau monitro grant yr uned cydraddoldebau na chydymffurfiaeth â hwy.

defnydd o arian yr uned cydraddoldebau i gefnogi cyfraniad arian cyfatebol AWEMA tuag at ei brosiectau a ariannwyd gan WEFO. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o drafodaethau rhwng yr uned cydraddoldebau a WEFO ynglŷn ag unrhyw sgil-effeithiau ar brosiectau AWEMA a ariannwyd gan WEFO pe bai llai o arian na'r swm a geisiwyd yn cael ei gynnig[65].

**2.70** Ym mis Gorffennaf 2010, dechreuodd yr uned cydraddoldebau baratoi ar gyfer cyfarfod rhwng y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Carl Sargeant) a'r cyn-Aelod Cynulliad, Dr Dai Lloyd. Cynhaliwyd y cyfarfod hwnnw ar 28 Medi 2010. Roedd Dr Lloyd wedi codi pryderon ynglŷn â'r ffordd yr oedd AWEMA yn darparu gwasanaethau ar lawr gwlad yn ardal Abertawe, a ddeilliodd o faterion a godwyd gan Gyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe gydag ef. Nid ymddengys bod yr uned cydraddoldebau wedi gweithredu ar y camau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod rhwng y Gweinidog a Dr Lloyd. Roedd y camau hynny y cytunwyd arnynt wedi cynnwys cynnal cyfarfod monitro dilynol ag AWEMA a chyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau i'r Gweinidog a Dr Lloyd (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 7). Dywedodd Mr Malik wrthym nad yw'n cofio'r mater hwn yn cael ei godi gydag AWEMA ar y pryd.

**2.71** Roedd y deunyddiau briffio cefndirol ar gyfer cyfarfod y Gweinidog â Dr Lloyd yn cynnwys crynodeb o gynlluniau'r ddau brosiect o dan Raglen Gydgyfeirio'r UE – Minorities are Wales' Resources ac Young Black and Minority Ethnic People Aiming High – gymerawywyd gan WEFO ym mis Medi 2010. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth ddogfennol arall mewn perthynas ag unrhyw ddeialog rhwng yr uned cydraddoldebau a WEFO ynglŷn â'r materion yr oedd Dr Lloyd yn eu codi, naill ai cyn neu ar ôl y cyfarfod â'r Gweinidog.

**2.72** Ni chyfeiriodd y deunyddiau briffio yn benodol at brosiect Black and Minority Ethnic Employment for All AWEMA a ariannwyd gan WEFO. Roedd y prosiect hwnnw wedi bod yn rhedeg ers dechrau 2009 ac felly roedd yn fwy perthnasol i'r materion yr oedd Dr Lloyd yn eu codi ar y pryd. Ni chyfeiriodd y deunyddiau briffio ychwaith at unrhyw bryderon blaenorol ynglŷn â threfniadau darparu a llywodraethu AWEMA. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad yw'n cofio cael ei hysbysu am unrhyw broblemau hanesyddol mewn perthynas ag AWEMA, nac unrhyw rai o'r sefydliadau eraill a ariannwyd gan yr uned cydraddoldebau, pan ddaeth yn gyfrifol am y portffolio cydraddoldebau. Pwysleisiodd hefyd i ni fod y materion a godwyd gan Dr Lloyd yn ymwneud â darparu gwasanaethau ar lawr gwlad ac nid rheolaeth ariannol.

**2.73** Codwyd y materion gan Dr Lloyd ar adeg pan oedd yr uned cydraddoldebau wedi nodi rhai pryderon ei hun ynglŷn â'r ffordd yr oedd AWEMA yn cyflwyno gwybodaeth am berfformiad yn ei hadroddiad cynnydd chwarterol, ond ymddengys i'r mater hwn gael ei ddatrys erbyn diwedd y trydydd chwarter. Fel y digwyddodd drwy'r rhan fwyaf o 2009-10, ymddengys bod trefniadau monitro'r uned cydraddoldebau yn 2010-11 wedi'u cyflawni drwy ohebiaeth â Mr Malik a sgyrsiau dros y ffôn. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth ddogfennol o unrhyw gyfarfodydd rhwng yr uned cydraddoldebau ac AWEMA yn ystod 2010-11.

65 Yn ystod ail hanner 2011, tynnodd pryderon a godwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru sylw WEFO at y cynnydd araf a wnaed yng Ngogledd Cymru wrth recriwtio unigolion i gymryd rhan yn nau o dri phrosiect Rhaglen Gydgyfeirio UE AWEMA (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 5).

**2.74** Ar 29 Mehefin 2011, yn sgil newid mewn personél, ymwelodd swyddogion o'r uned cydraddoldebau ag AWEMA a gofynnwyd am rai newidiadau i'r ffurflenni monitro a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Bwriad y newidiadau hynny oedd sicrhau mwy o eglurder ynglŷn â rhai o'r canlyniadau a nodwyd. Roedd yr uned cydraddoldebau yn disgwyl derbyn ffurflen fonitro ar gyfer chwarter cyntaf 2011-12 ym mis Gorffennaf 2011, ynghyd â chais am flaendaliad ar gyfer yr ail chwarter. Nododd yr uned cydraddoldebau yn ei llythyrau cynnig grant mai cyfrifoldeb y sawl a oedd yn derbyn grant oedd cyflwyno adroddiadau amserol ac nad gwaith yr uned cydraddoldebau oedd mynd ar ofyn amdanynt. Roedd cyflwyno adroddiadau cynnydd boddhaol er mwyn i daliadau chwarterol yr uned cydraddoldebau gael eu rhyddhau cyn gynted â phosibl yn fanteisiol i AWEMA.

**2.75** Er i'r uned cydraddoldebau gysylltu ag AWEMA eto, ni chyflwynodd Mr Malik ffurflen fonitro tan 29 Tachwedd 2011 (ffurflen gyfun ar gyfer dau chwarter cyntaf 2011-12). Yna cyflwynodd adroddiad ar gyfer y trydydd chwarter ar 8 Rhagfyr 2011 ynghyd â chais am flaendaliad ar gyfer y chwarter olaf. Roedd yr uned cydraddoldebau wrthi'n ystyried yr adroddiadau hyn pan ataliodd ei harian mewn ymateb i'r honiadau a ddygwyd i'w sylw gan Gyfarwyddwr Cyllid a Phrif Weithredwr AWEMA ar 19 Rhagfyr 2011. Mae'r uned cydraddoldebau wedi dweud wrthym, pe bai Llywodraeth Cymru wedi penderfynu parhau â'i chytundebu ariannu ag AWEMA yn hytrach na'u terfynu, y byddai serch hynny wedi dymuno datrys rhai materion a ddeilliai o'r adroddiadau cynnydd. Roedd yr uned cydraddoldebau hefyd wedi bod yn aros i gael 'tystysgrif gwariant' AWEMA ar gyfer 2010-11, y dylai fod wedi'i chyflwyno erbyn 30 Medi 2011[66]. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyllid AWEMA dystysgrif gwariant 2010-11 i'r uned cydraddoldebau ar 6 Rhagfyr 2011.

**2.76** Roedd y swyddogion a oedd wedi dod yn gyfrifol am fonitro arian yr uned cydraddoldebau i AWEMA yn amlwg yn ymwybodol o'r cysylltiad â phrosiectau AWEMA a ariannwyd gan WEFO. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i'r uned cydraddoldebau a WEFO gysylltu â gilydd i drafod AWEMA yn ystod 2011-12 tan 19 Rhagfyr 2011[67].

## Ers iddi gael ei chreu yn 1999, mae'r uned cydraddoldebau wedi wynebu llu o broblemau mewn perthynas â pherfformiad gwael a diffyg sefydlogrwydd o ran ei staffio, ei strwythurau a'i llinellau adrodd i Weinidogion, er bod uwch swyddogion wedi pwysleisio bod yr uned mewn sefyllfa gadarnach bellach a'i bod wedi cyflawni sawl darn o waith strategol bwysig

**2.77** Dros y 13 mlynedd, mae rheolwyr uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru wedi newid sawl gwaith. Bu pum pennaeth gwahanol ar yr uned cydraddoldebau ac mae'r cyfrifoldeb am yr uned ar lefel oruchwylio uwch wedi newid hyd yn oed yn amlach. Mae pum Gweinidog gwahanol wedi bod yn gyfrifol am y portffolio cydraddoldebau dros y 13 mlynedd, er i'r portffolio newid dwylo ar saith gwahanol achlysur (Atodiad 5). Bu'r uned drwy sawl ymarfer ailstrwythuro hefyd, sydd wedi dwyn cyfrifoldebau eraill yn eu sgil.

66 Ym mis Tachwedd 2010, yn ei adolygiad o drefniadau rheoli grant cyffredinol yr uned cydraddoldebau, roedd Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i'r uned gyflwyno proses i sicrhau bod tystysgrifau gwariant terfynol yn cael eu gwneud yn ofynnol er mwyn dilysu gwariant a chadarnhau bod arian grant wedi cael ei ddefnyddio at y diben a nodwyd. Ni wnaeth AWEMA gyflwyno tystysgrif gwariant terfynol ar gyfer 2009-10 tan 21 Ebrill 2011, yn dilyn cais penodol gan yr uned cydraddoldebau ar ôl iddi nodi nad oedd ganddi dystysgrif yn ei chofnodion ar gyfer y cyfnod hwnnw.

67 Ym mis Mai 2011, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb Gweinidogol am y portffolio cydraddoldebau, unwaith eto, i Jane Hutt (hefyd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ). Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i'r uned cydraddoldebau godi unrhyw faterion ynghylch AWEMA gyda'r Gweinidog cyn 19 Rhagfyr 2011. Yn gynharach ym mis Rhagfyr 2011, yn dilyn cyflwyniad i'r Gweinidog, gwnaeth yr uned cydraddoldebau gynnig grant ar wahân i AWEMA o £6,830 er mwyn cefnogi cyfres o ddigwyddiadau a oedd yn dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth (Ffigur 3). Dylai'r digwyddiadau hyn fod wedi cael eu cynnal gan AWEMA a sefydliadau partner eraill ond, o ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth Cymru i atal ac yna roi'r gorau i ariannu AWEMA, ni thalwyd unrhyw grant.

**2.78** Bu pryderon penodol ynglŷn â pherfformiad a staffio'r uned cydraddoldebau tua adeg y newidiadau yn arweinyddiaeth yr uned cydraddoldebau ar ddechrau 2003 ac ar ôl hynny[68]. Mewn adroddiad ar yr uned ym mis Medi 2003, nododd Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru fod cryn le i wella yn yr amgylchedd rheoli. Nododd y Gwasanaethau Archwilio Mewnol fod yr uned yn wael o ran cadw cofnodion, nad oedd cofrestr risg iddi, bod diffyg profiad o reoli prosiectau, dim cyfarwyddiadau desg, prinder staff, pryderon ers amser ynglŷn â threfniadau caffael yr uned a gorddibyniaeth ar swyddog gweinyddol dros dro.

**2.79** Er i'r problemau a oedd yn effeithio ar yr uned cydraddoldebau ymddangos yn ddifrifol iawn, nid oeddent yn unigryw. Ym mis Gorffennaf 2002, roedd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi ysgrifennu at benaethiaid adran yn Llywodraeth Cymru yn nodi pryderon ynglŷn â dirywiad mewn safonau o ran cymhwyso rheolaethau, fel y'i nodwyd gan waith y Gwasanaethu Archwilio Mewnol. Roedd y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi priodoli'r dirywiad ymddangosiadol mewn safonau, o leiaf yn rhannol, y mewnlifiad mawr o staff newydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd blaenorol a symudiadau staff rhwng adrannau. O ganlyniad, dim ond am gyfnod byr roedd llawer o staff wedi bod yn eu swyddi ac felly nid oeddent yn brofiadol. Nodwyd pwysau cynyddol a therfynau amser afrealistig weithiau ar gyfer gwaith fel rhesymau eraill a gyfrannodd at hyn ond fe'i gwnaed yn glir gan yr Ysgrifennydd Parhaol fod methiannau i gydymffurfio â rheolau sylfaenol gweithdrefnol yn annerbyniol, waeth beth fo'r pwysau gwaith.

**2.80** Mae'r materion a nodwyd gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ym mis Medi 2003 yn atgyfnerthu casgliad adolygiad IMANI Consultancy Services ym mis Ionawr 2005 ei bod yn debygol bod y gwendidau yn y ffordd yr oedd yr uned cydraddoldebau yn rheoli ei harian i AWEMA yn cael eu hadlewyrchu yn nhrefniadau arian grant eraill yr uned (Ffigur 5). Roedd y canfyddiadau hyn hefyd wedi'u hadlewyrchu yn niffygion y llwybr archwilio ar gyfer arian AWEMA gan yr uned cydraddoldebau, a fu'n tanseilio gallu Llywodraeth Cymru i adfachu tanwariant blaenorol gan AWEMA yn 2005-06 a 2006-07 (paragraffau 2.35 i 2.46).

**2.81** Ym mis Chwefror 2005, cyhoeddodd y Gwasanaethau Archwilio Mewnol lythyr rheoli arall ar faterion rheoli o fewn yr uned cydraddoldebau. Nododd y llythyr nad oedd y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi gallu cwblhau adolygiad dilynol arfaethedig yn 2004 am fod pennaeth yr uned cydraddoldebau yn absennol o'r gwaith. Daeth y llythyr i'r casgliad, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, fod problemau sylweddol o hyd a oedd yn achos pryder o ran prinder staff, dibyniaeth ar staff dros dro, bylchau cyffredinol mewn gwaith papur a strwythur rheoli darniog, gyda hyfforddiant, goruchwylio, rheoli ansawdd, monitro gwaith baich ac adroddiadau rheoli yn cael eu hesgeuluso. Nid oedd cynllun is-adrannol clir, na chofrestr risg na chynllun parhad busnes o hyd. Nododd y Gwasanaethau Archwilio Mewnol fod angen datrys y sefyllfa o ran staffio cyn bod posibilrwydd realistig o welliant. Roedd un o'r problemau yn ymwneud ag absenoldeb pennaeth yr uned cydraddoldebau ar y pryd o'r gwaith.

68 Cafodd achosion personol yn ymwneud â chyflogaeth a thriniaeth pennaeth cyntaf ac ail bennaeth yr uned cydraddoldebau gan Lywodraeth Cymru sylw yn y cyfryngau yn ystod 2004.

2.82 Mae'r swyddogion y siaradwyd â hwy sydd wedi gweithio yn yr uned cydraddoldebau yn ystod y cyfnod ers 2005 wedi sôn am y trosiant staff lefel uchel yn yr uned a'r gwahanol newidiadau mewn llinellau adrodd ar lefel reoli uwch ac ar lefel Weinidogol. Bu i hyn oblygiadau o ran parhad perthynas arian grant yr uned ag AWEMA ac nid oes fawr o dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw drefniadau trosglwyddo ffurfiol ar waith rhwng Gweinidogion neu swyddogion er mwyn sicrhau y câi gwybodaeth am y berthynas hon, neu unrhyw gydberthnasau eraill, â'r sefydliadau a oedd yn cael eu hariannu gan yr uned cydraddoldebau ei throsglwyddo.

2.83 Mae rhai o'r uwch swyddogion yr ydym wedi cyfarfod â hwy wedi pwysleisio, ers 2005 a thrwy gydol y cyfnod o newid staff ac arweinyddiaeth, fod tystiolaeth o welliant araf ond graddol ym mherfformiad yr uned cydraddoldebau. Mae'r cynnydd hwnnw wedi cynnwys ymgais raddol i atgyfnerthu trefniadau rheoli grantiau cyffredinol yr uned o'r hyn a fu'n sylfaen isel iawn yn ôl pob golwg. Yn hynny o beth, nodwn fod adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ym mis Tachwedd 2010 ar drefniadau rheoli grantiau'r uned wedi rhoi asesiad o 'sicrwydd sylweddol'. Cydnabu'r adroddiad y gwelliannau yr oedd yr uned eisoes wedi bod yn eu gwneud mewn ymateb i bryderon ynglŷn â gweinyddu'r broses ymgeisio ar gyfer Cronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb 2010-2013 (paragraffau 2.65 i 2.68)

2.84 Fodd bynnag, mor ddiweddar â dechrau 2010, roedd gan Lywodraeth Cymru rai pryderon o hyd ynglŷn â gallu a chymhwysedd o fewn yr uned cydraddoldebau. Mae'r uned (a elwir yn Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant er tua mis Ebrill 2009) wedi cael ei hailstrwythuro eto ac mae uwch swyddogion yn ffyddiog ei bod mewn sefyllfa gadarnach erbyn hyn[69].

2.85 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi pwysleisio i ni fod yr uned cydraddoldebau, cyn ac ers dechrau 2010, wedi cyflawni sawl darn o waith strategol bwysig. Mae'r enghreifftiau a nodwyd gan swyddogion yn cynnwys: gwaith a gynhaliwyd gan 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen Prif Ffrydio Cydraddoldeb'; adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer sipsiwn a theithwyr ac ym mis Mehefin 2012, cyhoeddi fframwaith ar gyfer cynllun gweithredu a chyflawni 'Teithio at Ddyfodol Gwell'; y Fframwaith Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol (y cynhelir ymgynghoriad arno ar hyn o bryd); cynlluniau cydraddoldeb olynol gan arwain at Gynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cymru ar gyfer 31 Mawrth 2009 hyd at 31 Mawrth 2012; a 'Chynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion 2012-2016' trawsadrannol Llywodraeth Cymru.

2.86 O fewn y 12 mis diwethaf, mae'r uned cydraddoldebau wedi sefydlu 'Fforwm Hil newydd i Gymru', a fydd yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o wahanol sefydliadau sydd â diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol. Cyfarfu'r fforwm hwn am y tro cyntaf ar 22 Chwefror 2012 a'i ddiben yw rhoi'r cymorth a'r cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru i'w helpu i ddeall yn well faterion a rhwystrau allweddol o ran integreiddio cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Sefydlwyd y fforwm hefyd i roi cyngor i Weinidogion Cymru o ran eu

69 Yn ddiweddar, penododd Llywodraeth Cymru, ar sail dros dro, Bennaeth newydd i'r Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Roedd yr unigolyn hwn wedi bod mewn swydd, ar secondiad o Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, ers mis Gorffennaf 2011. Nid ydym, o fewn cwmpas ein gwaith, wedi ceisio gwerthuso perfformiad mwy cyffredinol yr uned cydraddoldebau.

dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chyfrannu at ymagwedd strategol genedlaethol tuag at gydraddoldeb hiliol. Roedd AWEMA yn mynd i fod yn aelod o'r fforwm ond, ar 14 Chwefror 2012, hysbyswyd AWEMA gan yr uned cydraddoldebau bod ei haelodaeth yn cael ei hatal dros dro.

**Nid oedd WEFO wedi mynegi unrhyw bryderon penodol am gynnydd prosiectau AWEMA a ariannwyd gan yr UE yn erbyn eu hamcanion ond nid oedd ei threfniadau ar gyfer arfarnu a monitro'r prosiectau hyn yn ddigon trylwyr**

### Er nad yw hynny wedi effeithio ar y canlyniad terfynol, nid yw arfarniad WEFO o brosiectau AWEMA a ariannwyd gan yr UE wedi bod yn ddigon trylwyr

*Ni wnaeth arfarniad WEFO o brosiect Curiad Calon Cymru ystyried profiad adrannau eraill Llywodraeth Cymru a bu gwendidau mewn agweddau ar y broses gymeradwyo ffurfiol*

**2.87** Rhydd Atodiad 2 ragor o fanylion am brosiect Curiad Calon Cymru AWEMA a ariannwyd gan WEFO fel rhan o Raglen EQUAL y DU gyfan rhwng 2005-06 a 2008-09. Roedd prosiectau a gymeradwywyd o dan Raglen EQUAL wedi'u rhannu'n dri cham, a elwid yn Gam Gweithredu 1, 2 a 3. Fel arfer:

- **a** roedd Cam Gweithredu 1 yn ceisio cymorth i ddatblygu partneriaethau datblygu a'u cais am grant;
- **b** roedd Cam Gweithredu 2 yn ceisio cyflawni nodau a chanlyniadau prosiect, ac felly hwn oedd y maes lle'r oedd angen y cymorth ariannol mwyaf;
- **c** roedd Cam Gweithredu 3 yn ceisio arfarnu canlyniadau a chyflawniadau prosiect a'u lledaenu a'u 'prif ffrydio'.

**2.88** Yng Nghymru, roedd Rhaglen EQUAL yn cael ei goruchwylio gan Bwyllgor Rheoli EQUAL Cymru (WEMC), a oedd yn cynnwys 13 o swyddogion o 10 sefydliad. Roedd cylch gorchwyl WEMC yn darparu bod modd i gynigion gael eu cyflwyno i WEMC i'w mabwysiadu drwy 'weithdrefn ysgrifenedig', yn hytrach nag mewn cyfarfodydd ffurfiol. O dan y weithdrefn hon, ystyrid bod WEMC wedi cytuno ar gynnig oni bai bod unrhyw aelodau o WEMC yn nodi unrhyw wrthwynebiadau'n ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith. Nid oedd yn ofynnol i aelodau WEMC hysbysu WEFO eu bod yn cymeradwyo cynnig, oherwydd ystyrid bod diffyg ymateb yn gyfystyr â chymeradwyaeth.

**2.89** Mewn cyfarfod ar 24 Medi 2004, cymeradwyodd WEMC gynnig Cam Gweithredu 1 Curiad Calon Cymru AWEMA, ynghyd â 16 o gynigion eraill. Ar 16 Mai 2005, ystyriodd WEMC geisiadau Cam Gweithredu 2. Mae cofnodion y cyfarfod hwnnw yn nodi: 'There was one application not yet submitted. WEFO have agreed to extend the deadline for Curiad Calon Cymru until 1st June 2005, due to core funding issues'. Felly cyfeiriwyd y prosiect i'w gymeradwyo drwy'r weithdrefn ysgrifenedig. Credwn fod y 'materion ariannu craidd' yn ymwneud â'r ffaith nad oedd AWEMA, bryd hynny, wedi cael cadarnhad ffurfiol y byddai ei harian grant gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru yn parhau ar gyfer 2005-06 a thu hwnt (paragraff 2.30).

**2.90** Yn hwyr y prynhawn ar 13 Mehefin 2005, anfonodd swyddogion WEFO gais Cam Gweithredu 2 AWEMA drwy e-bost at aelodau WEMC, yn gofyn iddynt ymateb o fewn pedwar diwrnod gwaith yn unig (erbyn 5pm ar 17 Mehefin 2005). Ni allai swyddogion WEFO a gyfwelwyd gennym gofio'r rheswm

am y terfyn amser byrrach hwn ac nid ydym wedi gweld unrhyw gofnodion ar ffeil sy'n ei hesbonio. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau ysgrifenedig i'r cynnig, a dim ond dau ymateb ysgrifenedig o unrhyw fath gan aelodau WEMC (y ddau yn ei gymeradwyo).

**2.91** Nid ymddengys bod unrhyw un o aelodau WEMC wedi amau'r terfyn amser byrrach ar gyfer ymatebion ac nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod gan aelodau o WEMC wrthwynebiadau ond na allent ymateb o fewn y terfyn amser hwn. Felly, nid oes unrhyw awgrym y byddai terfyn amser hwy ar gyfer ymatebion wedi arwain at ganlyniad gwahanol. Eto i gyd, yn ein barn ni, roedd yr agwedd benodol hon ar y broses gymeradwyo – yn seiliedig ar sylw cadarnhaol gan ddau aelod yn unig – yn wan, yn enwedig gan ei bod yn cymeradwyo grant Cam Gweithredu 2 a oedd yn golygu bod WEFO yn ymrwymo i roi arian grant gwerth £2.1 miliwn.

**2.92** Wrth geisio cymeradwyaeth am gynnig AWEMA, rhoddodd WEFO ddogfen 'Gwiriadau Cymeradwyo Cam Gweithredu 2 EQUAL ' i WEMC. Roedd y ddogfen hon yn asesu meysydd o'r cynnig a ragnodwyd, gan ddyrannu graddau risg yn erbyn y meini prawf canlynol:

- **a** 1 – risg isel, gyda photensial mawr ar gyfer arfer da;
- **b** 2 – risg isel, gyda rhywfaint o botensial ar gyfer arfer da;
- **c** 3 – risg ganolig, lle mae angen mynd i'r afael â phwyntiau a'u monitro;
- **ch** 4 – risg uchel, lle mae angen ailgyflwyno cais.

**2.93** Ar draws saith maes gwahanol, cafodd cynnig AWEMA un sgôr o 1, pedwar sgôr o 2, un sgôr o 3 ac un sgôr o 4. Cafodd y cynnig gyfanswm gradd o 3. Fodd bynnag, nododd cais e-bost WEFO am gymeradwyaeth ysgrifenedig: 'the application has now been processed and achieved a score of 1 which puts it into the low risk category'. Er i'r aelodau gael y ddogfen werthuso lawn y cyfeiriwyd ati, roedd yr e-bost eglurhaol hwn yn anghywir ac yn gamarweiniol o bosibl. Nid ymddengys fod aelodau WEMC wedi holi ynglŷn â'r anghysondeb rhwng cyfanswm y sgôr a roddwyd yn yr adroddiad gwerthuso a'r hyn a nodwyd yn e-bost eglurhaol WEFO.

**2.94** At hynny, nid oes unrhyw dystiolaeth i werthusiad WEFO o'r cynnig ystyried profiad adrannau eraill Llywodraeth Cymru a oedd wedi bod yn ariannu AWEMA. Yn benodol, nid ymddengys bod canfyddiadau adolygiad IMANI Consultancy Services o brosiectau a ariannwyd gan yr uned cydraddoldebau ym mis Ionawr 2005 wedi llywio gwerthusiad WEFO (Ffigur 5).

**2.95** Ar ôl i WEMC roi cymeradwyaeth, cwblhaodd Tîm Arfarnu Ariannol WEFO ei arfarniad ariannol o AWEMA a'i gynnig am brosiect ar 3 Tachwedd 2005. Nododd yr arfarniad ariannol risgiau ariannol sylweddol, yn bennaf y ffaith nad oedd y prosiect wedi sicrhau arian cyfatebol. Roedd yr adroddiad yn rhagddyddio cynnig grant ffurfiol WEFO i AWEMA ar gyfer Cam Gweithredu 2 ar 12 Rhagfyr 2005 a gofynnodd WEFO i AWEMA ddangos, erbyn diwedd mis Mehefin 2006, ei bod wedi sicrhau'r arian cyfatebol a oedd ar gael ar gyfer ail flwyddyn Cam Gweithredu 2 (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 5)[70].

70 Mae WEFO wedi esbonio roedd cymeradwyaeth WEMC yn amodol ar gwblhau adolygiad Arfarnu Tîm Ariannol a bod y broses roedd yn ei dilyn ar gyfer prosiectau rhaglenni EQUAL, gyda'r gwerthusiad ariannol yn dilyn yn hytrach na'n hysbysu cymeradwyaeth gan y WEMC yn gyson â'r dull ar draws y DU . Yn ein barn ni, byddai y WEMC yn ddelfrydol wedi cael y cyfle i ystyried canlyniadau ariannol WEFO ei hun.

**2.96** Cymeradwywyd arian Cam Gweithredu 3 AWEMA gan swyddogion WEFO ym mis Mai 2007. Mae swyddogion WEFO wedi esbonio i ni fod y broses o gymeradwyo Cam Gweithredu 2 gan WEMC yn gyfystyr â chymeradwyo mewn egwyddor Gam Gweithredu 3, o gofio i'r gyllideb ar gyfer Cam Gweithredu 3 gael ei nodi yng ngheisiadau Cam Gweithredu 2. Felly, nid aeth WEFO ati i gynnwys WEMC yn y gwaith o ystyried cynlluniau penodol ar gyfer Cam Gweithredu 3 a'u cymeradwyo'n ffurfiol.

*Ni wnaeth arfarniad WEFO o brosiectau AWEMA o dan y Rhaglen Gydgyfeirio ystyried yn llawn ei phrofiad ei hun o brosiect Curiad Calon Cymru na gallu AWEMA i reoli a chyflawni prosiectau ar yr un pryd*

**2.97** Yn 2006, nododd WEFO, yn rhannol oherwydd adborth allanol a'i gwaith arolygu prosiectau ei hun, nifer o bryderon ynglŷn â'r ffordd yr oedd AWEMA yn rheoli prosiect Curiad Calon Cymru. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â'r canlynol: prosesau caffael; methiant i dalu sefydliadau partner; gwariant anghymwys; arian cyfatebol; a rheoli prosiect. Roedd y materion a nodwyd yn ddigon pwysig i swyddog datblygu prosiectau WEFO ofyn am 'ymchwiliad arbennig' gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2006. Ond, yn y pen draw penderfynodd Llywodraeth Cymru a WEFO ar nifer o gamau gweithredu eraill i ymateb i'r pryderon (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 5).

**2.98** Asesodd swyddogion WEFO y cynigion a gyflwynwyd gan AWEMA ar gyfer ei phrosiect cyntaf o dan y Rhaglen Gydgyfeirio, sef , 'Black and Minority Ethnic Employment for All', rhwng mis Tachwedd 2008 a mis Ionawr 2009. Wrth wneud hynny, rhoddodd swyddogion WEFO ychydig o ystyriaeth i record AWEMA o ran prosiect Curiad Calon Cymru:

**a** Nododd adroddiad gan y Tîm Arfarnu Ariannol[71] (Rhagfyr 2008): 'AWEMA and other co-sponsors have a good record of delivering grant funded projects (EQUAL project in 2005/08) and there is a negligible risk this project will fail due to cash flow difficulties'.

**b** Nododd Adroddiad Penderfyniad ar Ariannu[72] (Ionawr 2009) hefyd: 'The sponsor has a known track record in this field and has managed a complex ESF EQUAL funded development partnership consisting of over 20 organisations'. At hynny, nododd yr adroddiad fod AWEMA wedi cael ei 'harchwilio'n llwyddiannus' yn ystod cyfnod rhaglen 2000-2006. Roedd y cyfeiriad hwn yn ymwneud â gwaith WEFO mewn ymateb i'r pryderon a godwyd ynglŷn â phrosiect Curiad Calon Cymru yn 2006. Fodd bynnag, awgrymodd hefyd fod AWEMA wedi cael ei harchwilio gan gyn-dîm archwilio 'Erthygl 10' WEFO yn y gorffennol[73]. Ni allai WEFO roi unrhyw dystiolaeth i ni a oedd yn dangos i archwiliad Erthygl 10 o brosiect Curiad Calon Cymru gael ei gynnal cyn yr adroddiad Penderfyniad ar Ariannu ar gyfer y prosiect Black and Minority Ethnic Employment for All. Wedyn cynhaliwyd archwiliad gan Dîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2009 (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 5).

---

71 Pan ofynnir iddo wneud hynny gan staff prosiect, ac yn seiliedig ar ganllawiau WEFO ar amgylchiadau prosiectau unigol, bydd Tîm Arfarnu Ariannol WEFO yn cynnal asesiad o hyfywedd ariannol noddwr y prosiect.

72 Yr adroddiad Penderfyniad ar Ariannu yw'r asesiad ffurfiol o'r cynnig prosiect yn erbyn 12 o feini prawf dethol gan Swyddog Datblygu Prosiect WEFO

73 Mae'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan dîm Erthygl 10 bellach y tu hwnt i gwmpas WEFO ac yn gyfrifoldeb Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru.



**2.99** Rydym yn cydnabod bod yr adroddiad gwerthuso a gomisiynwyd gan AWEMA ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru wedi rhoi argraff gadarnhaol yn gyffredinol o'r hyn a gyflawnodd y gwaith. At hynny, nid ydym yn ymwybodol bod gan WEFO unrhyw bryderon penodol ynglŷn â chyflawni amcanion y prosiect, boed hynny mewn perthynas â gweithgarwch a gynhaliwyd gan WEFO neu ei phartneriaid yn y prosiect. Fodd bynnag, nid yw'r naill ddogfen na'r llall gan WEFO yn cyfeirio at y pryderon a nodwyd ynglŷn â'r ffordd yr oedd prosiect Curiad Calon Cymru yn cael ei reoli. Er bod WEFO yn credu yr ymdriniwyd â'r pryderon hyn ac felly nad oedd angen eu hystyried wrth arfarnu'r prosiect Black and Minority Ethnic Employment for All, yn ein barn, roedd angen eu hystyried. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n dangos, fel rhan o'i hymwneud ag AWEMA, i WEFO fonitro cynnydd AWEMA yn ffurfiol mewn ymateb i'r gyfres o gamau gwella a ddeilliodd o'i hymyrraeth yn 2006.

**2.100** Cafodd datganiadau tebyg am record AWEMA o ran Curiad Calon Cymru eu hadlewyrchu yn arfarniad WEFO o'r prosiectau diweddarach, Minorities are Wales' Resources ac Young Black and Minority Ethnic People Aiming High. Fodd bynnag, wrth arfarnu'r ddau brosiect hyn, cyn eu cymeradwyo ym mis Medi 2010, ystyriodd WEFO gynnydd AWEMA o ran prosiect Black and Minority Ethnic Employment for All. Roedd WEFO yn fodlon ar y cynnydd bryd hynny. Digwyddodd hyn tua'r un adeg ag y nododd uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru bryderon ynglŷn â gor-gyfrif yn adroddiadau cynnydd AWEMA (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 7). Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod uned cydraddoldebau wedi codi'r mater hwn gyda WEFO.

**2.101** Arweiniodd arfarniad WEFO o'r tri phrosiect o dan y Rhaglen Gydgyfeirio at ostyngiad sylweddol yn hyd a chost arfaethedig pob prosiect hefyd (Atodiad 2). Ar gyfer y tri phrosiect, lleihawyd cyfanswm costau'r prosiectau o £38.2 miliwn ar y cam mynegi diddordeb i £8.4 miliwn ar adeg cymeradwyo. O fewn cyfanswm y costau prosiect hynny lleihawyd yr angen am arian grant gan WEFO o £20.4 miliwn i £5.2 miliwn. Ym mhob un o'r tri achos, penderfynodd WEFO nad oedd yr arian cyfatebol yn ddigon sicr iddi gymeradwyo'r prosiectau chwe blynedd a gynigiwyd yn wreiddiol. Ar ddechrau 2008, roedd AWEMA hefyd wedi cyflwyno dau gais arall am brosiectau i'w hariannu gan yr UE. Nid aeth y naill brosiect na'r llall y tu hwnt i'r cam mynegi diddordeb. Mae WEFO wedi nodi mai'r rheswm dros hyn oedd na allai AWEMA ddangos ei bod yn gallu cael digon o arian cyfatebol (Atodiad 2).

**2.102** Ym mis Mai 2010, cyfarfu swyddogion WEFO (gan gynnwys Prif Weithredwr WEFO ac aelodau eraill o'i huwch dîm rheoli) ag AWEMA i ddatrys nifer o faterion ariannol a nodwyd gan staff WEFO wrth arfarnu cynlluniau busnes Minorities are Wales Resources ac Young Black and Minority Ethnic People Aiming High. Roedd staff prosiect WEFO wedi nodi nifer o gostau a oedd yn cael eu cyfrif ddwywaith ymhob un o'r tri phrosiect a arweiniwyd gan AWEMA. Nodwyd hefyd fod rhywfaint o amser staff wedi cael ei ddyrannu ym mhob un o'r tri phrosiect, fel ei fod yn cyfateb i fwy na 100 y cant o'r amser gwaith a oedd ar gael. Nododd WEFO hefyd fod costau Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) a'r Cyfarwyddwr Cyllid (Mr Saquib Zia) ar gyfer y ddau brosiect yn cyfateb i fwy na 40 y cant o gyfanswm eu hamser gwaith. Ym marn WEFO ni ddylai fod angen i Mr Malik na Zia dreulio mwy nag 20 y cant o'u hamser gwaith ar y ddau brosiect[74]. Fodd bynnag,

74 Ym mis Ionawr 2011, yn dilyn y trafodaethau hyn, aeth WEFO ati i ailbroffilio cyllid prosiect Black and Minority Ethnic Employment for All (Atodiad 2).

nid oedd dogfennau arfarnu WEFO ar gyfer y prosiectau Minorities are Wales Resources ac Young Black and Minority Ethnic People Aiming High yn cwestiynu p'un a oedd AWEMA yn meddu ar allu a chymhwysedd sefydliadol i gyflawni'r tri phrosiect ar yr un pryd a sicrhau arian cyfatebol ar eu cyfer.

**2.103** Er mwyn dangos prawf o'i record, roedd cynlluniau busnes pob un o'r tri phrosiect o dan y Rhaglen Gydgyfeirio wedi nodi bod AWEMA wedi llwyddo i gyflawni ei gwaith a ariannwyd gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ar amser ac o fewn y gyllideb. Nid welwyd unrhyw dystiolaeth bod WEFO wedi cysylltu â'r uned cydraddoldebau i brofi a oedd yr haeriad hwn yn wir. Fodd bynnag, cysylltodd mewn perthynas â'r defnydd o arian yr uned cydraddoldebau fel arian cyfatebol ar gyfer y prosiectau o dan y Rhaglen Gydgyfeirio (paragraff 2.69).

**2.104** Wrth geisio annog prosiectau cydweithredol, roed WEFO wedi edrych ar draws y Rhaglen Gydgyfeirio i geisio dwyn ynghyd sefydliadau a oedd wedi mynegi diddordeb mewn cyflawni prosiectau a allai ategu ei gilydd. Er enghraifft, gofynnwyd i swyddogion yn Adran Addysg Llywodraeth Cymru gysylltu ag AWEMA i ystyried synergeddau posibl rhwng prosiect 'Young Black and Minority Ethnic People Aiming High' AWEMA (Atodiad 2) a Phrosiect Dysgu a Chyflawni Lleiafrifoedd Ethnig (MELAP) a reolwyd gan Lywodraeth Cymru[75]. Mae'r swyddogion hynny wedi nodi i'r posibilrwydd y gallai AWEMA ddod yn bartner cyflawni o fewn cwmpas MEPAP gael ei ystyried. Fodd bynnag, o safbwynt Llywodraeth Cymru, roedd MELAP eisoes yn brosiect pwysig yn ei rinwedd ei hun, gwerth tua £6 miliwn i gyd ac yn gweithredu ar draws naw ardal awdurdod lleol. Hefyd, roedd yn well gan AWEMA barhau'n noddwr arweiniol yn rheoli'r cyllid ar gyfer ei phrosiect ei hun[76].

**2.105** Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe, a oedd yn arwain y gwaith o ddatblygu MELAP ar ran y naw awdurdod lleol dan sylw, wedi ein hysbysu bod ei swyddogion wedi sôn wrth swyddogion o Adran Addysg Llywodraeth Cymru yn breifat am eu hamharodrwydd i gydweithredu ag AWEMA. Roedd gan swyddogion bryderon ynglŷn â dibynadwyedd AWEMA, ei gorddibyniaeth ar aelodau teulu i gyflawni gweithgareddau a'i harbenigedd. Mynegodd y swyddogion bryderon hefyd am ffocws ymddangosiadol AWEMA ar grwpiau penodol o leiafrifoedd ethnig yn Abertawe ar draul eraill yn ogystal â thensiynau rhwng AWEMA a sefydliadau cymunedol eraill. Yn fwy cyffredinol, mynegodd y swyddogion bryder ynglŷn â'r defnydd o arian cyhoeddus i sefydlu gwasanaethau ar wahân a chyfochrog i aelodau o gymunedau lleiafrifoedd ethnig y tu allan i wasanaethau prif ffrwd. Nid ymddengys i'r pryderon hyn gael eu trosglwyddo i WEFO gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru ac nid ydynt yn ymddangos yn nogfennau arfarnu allweddol WEFO.

75 Nod MELAP yw ehangu ac ychwanegu gwerth at Wasanaethau Cyflawniad a Chynhwysiant Lleiafrifoedd Ethnig awdurdodau lleol presennol sy'n helpu plant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig i gyflawni eu llawn botensial mewn addysg brif ffrwd. Dechreuodd y prosiect ym mis Awst 2010 a disgwylir iddo orffen yn ystod hydref 2013.

76 Ar ôl i WEFO gymeradwyo prosiect AWEMA ym mis Medi 2010, cafwyd cyfres o gyfarfodydd yn cynnwys, ar adegau amrywiol, AWEMA, swyddogion awdurdodau lleol, WEFO a swyddogion eraill Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am MELAP i drafod gweithgareddau'r ddau brosiect ac ymdrin â'r risg o ddyblygu. Cadarnhaodd y cyfarfodydd hyn na fyddai prosiect AWEMA yn cyflawni unrhyw weithgareddau ysgol na gweithgareddau a oedd yn helpu pobl ifanc gyda'u gwaith cartref.

Er bod WEFO mewn cysylltiad rheolaidd ag AWEMA ynglŷn â'r tri phrosiect o dan y Rhaglen Gydgyfeirio, ni sicrhaodd WEFO gydymffurfiaeth gyflawn nac amserol â'r amodau penodol a bennodd ar gyfer y prosiectau ac roedd ei chyfarfodydd monitro ffurfiol ag AWEMA yn cael eu cynnal yn llai aml na'r hyn a ddylai fod wedi digwydd yn ddelfrydol

**2.106** Mae canllawiau WEFO yn nodi y dylai ei swyddogion, yn ddelfrydol, gynnal cyfarfodydd cychwynnol â noddwyr y prosiect o fewn tri mis i gymeradwyo prosiect, wedi'u dilyn gan gyfarfodydd cynnydd naill ai'n chwarterol neu bob chwe mis, yn dibynnu ar gynnydd y prosiect a natur unrhyw faterion a oedd yn dal i achosi pryder. Cynhaliodd WEFO y cyfarfodydd cychwynnol a monitro ffurfiol ag AWEMA mewn perthynas â'r tri phrosiect o dan y Rhaglen Gydgyfeirio.

- **a** Ym mis Tachwedd 2009, cynhaliodd WEFO ymweliad cychwynnol â'r prosiect Black and Minority Ethnic Employment for All, ar ôl i'r prosiect gael ei gymeradwyo 10 mis yn gynharach ym mis Ionawr 2009.

- **b** Ym mis Mai 2011, cymerodd WEFO y cam rhesymegol o gynnal cyfarfod ynghyd â AWEMA i gynnwys pob un o'r tri prosiect. Gweithredodd y cyfarfod hwn fel cyfarfod cychwynnol ar gyfer y prosiectau Minorities are Wales' Recources a Young Black and Minority Ethnic People Aiming High, ac fel cyfarfod cynnydd ar gyfer y prosiect Black Minority and Ethnic Employment for All. Cymeradwyodd WEFO y prosiectau Wales' Resources a Young Black and Minority Ethnic People Aiming High yn niwedd mis Medi 2010.

**2.107** Pwysleisiodd swyddogion WEFO i ni eu bod hefyd wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd ag AWEMA yng nghyswllt arfarnu'r ddau brosiect a gymeradwywyd ym mis Medi 2010 a thrwy drafodaethau a arweiniodd at broffil ariannol diwygiedig i'r prosiect Black and Minority Ethnic Employment for All ym mis Ionawr 2011 (Atodiad 2). Serch hynny, yn ein barn ni, nid oedd y cyswllt hwn ag AWEMA yn rhoi'r sylfaen ar gyfer ystyried yn llawn y materion eraill a nodir gan WEFO yn ei chanllawiau ei hun ar gyfer cyfarfodydd cynnydd prosiect. Fel y nodwyd eisoes (paragraffau 2.69 i 2.76), nid oes fawr o dystiolaeth ychwaith o gyfathrebu rhwng WEFO a'r uned cydraddoldebau i lywio'r trefniadau monitro hyn, er gwaethaf y cysylltiad rhwng y ddwy ffynhonnell o arian.

**2.108** Lle mae WEFO yn nodi bod angen gwybodaeth neu sicrwydd pellach ynglŷn â materion nad ydynt yn ddigon sylweddol i ohirio penderfyniad i gymeradwyo prosiect, mae'n pennu 'amodau arbennig' yn y ei llythyr cynnig grant. Mae'n beth cyffredin bod amodau arbennig yn cael eu pennu ar gyfer prosiectau ac mae WEFO bellach yn datblygu canllawiau newydd ar eu defnyddio. Bu'r ffordd y mae WEFO wedi cofnodi cydymffurfiaeth AWEMA â'r amodau arbennig a bennodd ar gyfer tri phrosiect AWEMA o dan y Rhaglen Gydgyfeirio yn wan, gyda llawer o'r amodau arbennig yn parhau i fod ar agor ar system fonitro electronig WEFO, ymhell ar ôl i gamau gael eu cymryd yn eu cylch ac y dylent fod wedi cael eu cau.

**2.109** Un maes lle'r oedd risg gynhenid i brosiectau AWEMA o dan y Rhaglen Gydgyfeirio oedd dyrannu arian cyfatebol ar gyfer y tri phrosiect. Y risg i'r prosiectau oedd y gallai AWEMA, yn anfwriadol neu'n fwriadol, ddyrannu'r un arian cyfatebol i fwy nag un o'r tri phrosiect. O'r cychwyn felly gofynnodd WEFO am dystiolaeth o lwybr archwilio digonol ar gyfer

arian cyfatebol y prosiectau, a elwid yn 'gyfrif dyrannu arian cyfatebol'. Er i ni weld tystiolaeth fynych bod AWEMA wedi cytuno i roi ei llwybr archwilio o arian cyfatebol y prosiectau, ni welsom unrhyw dystiolaeth i AWEMA wneud hynny mewn gwirionedd. Nodwyd y diffyg cyfrif dyrannu arian cyfatebol hefyd, ar adegau, gan Dîm Arolygu a Gwirio Prosiectau ac archwilwyr allanol AWEMA.

## Ni wnaeth trefniadau 'Arolygu a Gwirio Prosiectau' WEFO nodi rhai problemau sylweddol o ran prosiectau AWEMA o dan y Rhaglen Gydgyfeirio sydd wedi dod i'r golwg drwy waith ychwanegol gan WEFO a Gwasanaethau Archwilio Mewnol WEFO ers mis Rhagfyr 2011

*Bu pryderon ynglŷn ag ansawdd a thrylwyredd trefniadau Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO, er i WEFO wneud newidiadau yn 2010 er mwyn mynd i'r afael ag amrywiol argymhellion archwilio*

**2.110** O dan reoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd mae'n ofynnol i WEFO fel yr 'Awdurdod Rheoli' ar gyfer arian Ewropeaidd Cymru, arolygu prosiectau a dilysu eu gweinyddiaeth, eu cofnodion ariannol a'u cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau penodol eraill y prosiect. Ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio, mae WEFO wedi bod yn cyflawni'r rhwymedigaeth hon drwy waith ei Dîm Arolygu a Gwirio Prosiectau (a elwid gynt yn Dîm Arolygu Erthygl 4).

**2.111** Daeth pryderon ynglŷn ag ansawdd a thrylwyredd prosesau Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO i'r golwg yn 2009 a 2010 yn sgil adolygiadau gan archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd a Thîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru[77]:

**a** Ym mis Tachwedd 2009, nododd adolygiad gan archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd nifer o ddiffygion allweddol o fewn prosesau a chamau gweithredu Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO. O ganlyniad i'r diffygion hyn a diffygion eraill rhoddodd yr archwilwyr farn 'amodol' yn gyffredinol ar system reoli WEFO[78].

**b** Yn fuan wedi hynny – yn rhannol mewn ymateb i adolygiad archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Tachwedd 2009 – cynhaliodd Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru ei adolygiad ei hun o'r Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau. Nododd yr adroddiad ym mis Ebrill 2010 feysydd o arfer da ond dim ond casgliad o sicrwydd cyfyngedig a roddwyd – mae'n gweithio'n rhannol, mae angen gwelliannau sylweddol.

**c** Ymatebodd WEFO yn ddi-oed i ganfyddiadau'r ddau adolygiad ac roedd hefyd wedi cyflwyno trefniadau Arolygu a Gwirio Prosiectau diwygiedig erbyn mis Mai 2010. Ym mis Mehefin 2010, daeth adolygiad dilynol gan y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd i gasgliad o 'sicrwydd sylweddol', gan gadarnhau bod y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau wedi gweithredu ar argymhellion o'r adolygiad ym mis Ebrill 2010 ac mai dim ond mân newidiadau yr oedd angen eu gwneud[79]. Yna, ym mis Mehefin 2010, diwygiodd archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd eu hadroddiad i adlewyrchu trefniadau cadarnach WEFO a rhoi barn archwilio 'ddiamod' ddiwygiedig.

---

77 Atgyfnerthwyd y pryderon hyn gan sawl aelod o staff WEFO, yn rhai presennol a blaenorol, a gyfwelwyd gennym.

78 Roedd canfyddiadau archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd yn rhan o adolygiad ehangach o gynllun, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd system reoli WEFO ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio a Rhaglen Cystadleurwydd Rhanbarthol a Chyflogaeth Cronfa Gymdeithas Ewrop Dwyrain Cymru a gwariant a ddatganwyd rhwng mis Gorffennaf 2007 a mis Awst 2009. Rhoddodd yr archwilwyr farn gyffredinol amodol ar y system reoli oherwydd diffygion perthnasol yn erbyn wyth gofyniad allweddol.

79 Fel rhan o'i raglen waith arfaethedig, mae Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad arall o Dîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO.

**2.112** Rydym o'r farn bod y broses a ddilynwyd gan y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau – hyd at fis Mai 2009 – i ddatrys problemau a nodwyd ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru a phrosiect Black and Minority Ethnic Employment for All AWEMA[80] yn ddiffygiol. Gwnaeth yr adolygiadau nodi nifer o bryderon o ran cymhwyster a symiau na ellid eu caniatáu o bosibl yn ei hawliadau ariannol a'u codi gydag AWEMA. Fodd bynnag, trosglwyddwyd pryderon ynglŷn â chymhwyster i'r swyddogion prosiect perthnasol ac ystyrid bod y weithred hon ynddi'i hun yn ddigon i'r tîm ddod i gasgliad 'boddhaol', gan dybio y byddai'r swyddogion prosiect yn eu datrys.

**2.113** Yn ein barn ni, ni ddylai'r Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau fod wedi bod yn dod i gasgliad bod materion a godwyd yn ei waith wedi cael eu datrys yn foddhaol heb gael sicrwydd ynglŷn â hynny ei hun, pa un ai gan y sefydliadau cyfrifol neu swyddogion prosiect WEFO. Ni ddylai hyn fod wedi gohirio gwaith paratoi adroddiadau, a dylai casgliadau 'ddim yn foddhaol' fod wedi'u rhoi pe bai angen ochr yn ochr ag argymhellion ar gyfer camau unioni a gwelliannau. Yn 2009, nododd y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau y diffyg hwn yn y ffordd roedd yn gweithredu a newidiodd ei brosesau i sicrhau yr ymdrinnid â chanfyddiadau ei arolygiadau yn fwy effeithiol.

*Ni nododd adolygiad o brosiect Minorities are Wales' Resources AWEMA ym mis Rhagfyr 2011 broblemau sylweddol o ran cofnodion ariannol, rhai achosion o wariant anghymwys a choladu data ar fuddiolwyr sydd wedi dod i'r golwg erbyn hyn, ond nid yw WEFO wedi nodi unrhyw dystiolaeth o or-hawlio systematig*

**2.114** Ar ddechrau mis Rhagfyr 2011, adolygodd y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau brosiect Minorities are Wales' Resources AWEMA. Cynhaliwyd yr adolygiad mewn ymateb i bryderon a godwyd gyda WEFO gan Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru ynglŷn â'r ffordd yr oedd y prosiect hwn, a phrosiect Young Black and Minority Ethnic Aiming High y bu'n rhan ohono, yn cael eu rheoli a'u llywodraethu (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 8).

**2.115** Nid yw cylch gorchwyl gwaith y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau yn cynnwys ystyried hyfywedd ariannol cyffredinol sefydliad. Pe bai'r mathau o faterion a ystyrir gan y Tîm Arfarnu Ariannol yn ystod y broses arfarnu prosiect wedi cael eu hystyried mae'n bosibl y byddai WEFO wedi bod yn fwy tebygol o nodi rhai o'r problemau o ran rheolaeth ariannol gyffredinol AWEMA sydd wedi dod i'r golwg erbyn hyn. Fodd bynnag, o fewn cwmpas gwaith y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau, oherwydd gwendidau yn y broses adolygu ym mis Rhagfyr 2011, ni nododd WEFO broblemau sylweddol penodol sydd wedi dod i'r golwg ers hynny drwy waith ychwanegol a gynhaliwyd yn 2012 gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a chan y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau. Roedd y materion hyn yn ymwneud â'r canlynol:

80 Adolygodd y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau brosiect Rhaglen EQUAL Curiad Calon Cymru AWEMA ym mis Mai 2006 ac unwaith eto ym mis Awst 2008. Adolygodd brosiect Black and Minority Ethnic Employment for All ym mis Mai 2009.

**a** cofnodion ariannol – cadarnhaodd yr adolygiad fod proses ar waith i godeiddio trafodion i mewn i lyfrau cyfrifon AWEMA ond ni nododd fod cofnodion y llyfr cyfrifon ymhell o fod yn gyfredol);

**b** gwariant anghymwys – nododd yr adolygiad rai achosion o wariant anghymwys ond nid y graddau sydd bellach wedi dod i'r golwg yn y prosiect Minorities are Wales' Resources a'r ddau brosiect arall a arweiniwyd gan AWEMA (Ffigur 7)[81];

**c** coladu a chofnodi data ar fuddiolwyr – mae WEFO bellach wedi dod i'r casgliad bod AWEMA wedi tanhawlio o ran nifer y cyfranogwyr yn ei phrosiectau ond mae hefyd wedi nodi rhai pryderon ynglŷn â'r prosesau ar waith i olrhain a chofnodi allbynnau prosiectau.

**2.116** Cafodd hawliadau terfynol AWEMA i WEFO eu paratoi gan ddau gyfrifydd a benodwyd gan Fwrdd AWEMA ar ddiwedd mis Ionawr 2012 i baratoi a chysoni cofnodion ariannol AWEMA, yn ôl-weithredol, o fis Mawrth 2011. Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses hon, cafodd aelod o Dîm Taliadau WEFO y dasg o oruchwylio'r gwaith a rhoi cyngor. Yna archwiliwyd yr hawliadau terfynol gan Dîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO ac ystyriwyd cofnodion ariannol AWEMA o fis Ebrill 2010[82]. Roedd cwmpas y gwaith hwn gan y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau yn fwy cynhwysfawr nag arfer, yn rhannol, am ei fod yn cymryd lle'r gwaith archwilio allanol arferol ar hawliadau terfynol.

**2.117** Nododd adroddiad terfynol y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau, a gwblhawyd ar 3 Mai 2012, £169,782 o wariant anghymwys ar brosiectau. O ystyried yr arian cyfatebol a gyfrannwyd, mae'r gwariant anghymwys hwn ar brosiectau a nodwyd yn arwain at wrthod caniatáu £104,091 o'r grant sydd eisoes wedi'i dalu gan WEFO i AWEMA (Ffigur 7). Nododd yr adroddiad fod AWEMA wedi bod yn gweithredu am chwe mis cyn cyflwyno ei hawliad terfynol ond un ac am dri mis ers ei thaliad diwethaf gan WEFO. Felly daeth yr adroddiad i'r casgliad amlwg, o ystyried balans cyfrif banc AWEMA, fod AWEMA wedi bod yn defnyddio blaendaliadau WEFO i ariannu ei chostau gweithredu craidd.

**2.118** Ni wnaeth adroddiad y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau nodi unrhyw dystiolaeth o orhawlio systematig. Nododd yr adroddiad nad oedd rhai eitemau sylweddol o wariant cymwys wedi'u cynnwys yn yr hawliadau a gyflwynwyd gan AWEMA cyn hynny ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Awst 2011. Daeth y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau i'r casgliad hefyd fod AWEMA wedi tanhawlio o ran cyfanswm y cyfranogwyr yn y tri phrosiect. Fodd bynnag, mynegodd yr adroddiad y pryder bod: 'the processes in place to track and record the outputs across the programmes are insufficient and we were unable to completely reconcile the organisation's records to the outputs declared in their claims'[83].

81 Ystyriodd y gwaith yn adroddiad y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau ym mis Mai 2010 yr holl drafodion ers mis Ebrill 2010 ar gyfer y tri phrosiect. Felly nid yw'n syndod, ar gyfer prosiect Minorities are Wales' Resources, i'r adroddiad ym mis Mai 2012 nodi ychydig o wariant anghymwys ychwanegol o gymharu â chanfyddiadau'r adolygiad ym mis Rhagfyr 2011. Fodd bynnag, ni nododd y profion o samplau o adolygiad mis Rhagfyr 2011 rai o'r problemau mwyaf ynglŷn â'r gwariant anghymwys y mae WEFO wedi'i nodi erbyn hyn o ran prosiect Minorities are Wales' Resources a'r ddau brosiect arall.

82 Ebrill 2010 oedd y man cychwyn ar gyfer hawliadau yn ymwneud â phrosiectau Young Black and Minority Ethnic People Aiming High a Minorities are Wales' Resources.

83 Nid ydym wedi adolygu cofnodion cyfranogi AWEMA ei hun a bu rhai pryderon yn 2010 ynghylch yr hyn yr oedd AWEMA yn ei gyflawni ar lawr gwlad a'r ffordd yr oedd yn adrodd ar wybodaeth debyg am berfformiad i uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 7).

## Ffigur 7 - Gwariant nas caniatawyd ar brosiectau o dan y Rhaglen Gydgyfeirio a nodwyd gan Dîm Arolygu a Gwirio Prosiectau ym mis Mai 2012

| Categorïau o gostau | Cyfanswm (£'oedd) |
|---|---|
| Arian Swyddi'r Dyfodol[1] | 86,469 |
| Taflenni amser ar goll | 12,296 |
| Codiadau cyflog nas cymeradwywyd[2] | 63,692 |
| Arian mân[3] | 5,650 |
| Gwirfoddolwyr | 987 |
| Aelodaeth o gampfa | 687 |
| **Cyfanswm y gwariant anghymwys** | **169,782** |
| **Cyfanswm y grant a dalwyd ar wariant anghymwys ac sy'n ddyledus i WEFO[4, 5]** | **104,091** |

Nodiadau

1 Nododd y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau fod nifer o aelodau o staff wedi'u cynnwys yn yr hawliadau ar gyfer y tri phrosiect a oedd wedi'u hariannu'n rhannol gan Gronfa Swyddi'r Dyfodol. Mae adroddiad y tîm yn nodi bod AWEMA 'included the total cost of the salary for these staff and did not reflect the Future Jobs Fund contribution towards the cost in the project's match funding'. Roedd y cymhorthdal a dderbyniwyd ar gyfer staff ar y prosiect ond nas datganwyd yn werth £83,468. Darparwyd yr arian hwnnw i AWEMA fel rhan o raglen Cronfa Swyddi'r Dyfodol drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Atodiad 4).

2 Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar amrywiol gywiriadau gan y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau i'r cyfraddau cyflog a hawliwyd am wahanol aelodau o staff, gan gynnwys Prif Weithredwr AWEMA, y Rheolwr Cyllid, y Rheolwr Gweithrediadau ac aelodau eraill o staff prosiect. Gwnaed y cywiriadau hyn oherwydd codiadau cyflog/dyrchafiadau nas cymeradwywyd ymlaen llaw gan Fwrdd AWEMA a/neu oherwydd bod y cyflogau yn uwch na'r hyn a argymhellir yng nghanllawiau WEFO. Nid oedd WEFO wedi cadarnhau cyflog awgrymedig ar gyfer prif weithredwyr sefydliadau yn y trydydd sector ond cywirodd y swm serch hynny. Mae adroddiad y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau yn cydnabod bod Bwrdd AWEMA wedi cytuno'n flaenorol ar y cyfraddau cyflog yr oedd AWEMA yn eu defnyddio.

3 Roedd gwariant arian mân a hawliwyd y tybiwyd ei fod yn anghymwys yn cynnwys eitemau megis llaeth, dŵr a phapurau newydd i swyddfa AWEMA. Noda adroddiad y Prosiect Arolygu a Gwirio Prosiectau 'whilst there may be some eligible expenditure included in these costs, the majority is not considered eligible for the scope of these projects and so have been declared ineligible'.

4 Mae'r taliad grant sy'n ddyledus i WEFO yn llai na chyfanswm y gwariant anghymwys ar brosiectau a nodwyd am ei fod yn adlewyrchu'r 'gyfradd ymyrraeth' a gymhwyswyd at bob prosiect gan WEFO, sef canran cyfanswm gwariant y prosiect i'w thalu gan arian grant WEFO (yn hytrach nag arian cyfatebol).

5 Pan rannwyd y canfyddiadau hyn gyda Phrif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid AWEMA gennym, cwestiynodd y naill a'r llall sail y ffigurau ar wariant anghymwys. Nodwn, oherwydd amgylchiadau ymadawiad Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid AWEMA, na chafodd y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO gyfle i ofyn am eglurhad pellach ganddynt ynghylch y materion hyn. Mae'r gwariant anghymwys a nodwyd gan WEFO yn rhan o'r ddyled gyffredinol y mae Llywodraeth Cymru yn credu sy'n ddyledus iddi gan AWEMA. Fodd bynnag, nid yw canlyniad proses ddiddymu AWEMA yn hysbysu eto (paragraffau 3.26 i 3.39).

*Ffynhonnell: Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO, Adolygiad o Hawliadau AWEMA am arian Cronfeydd Strwythurol, 3 Mai 2012.*

**2.119** Mae swyddogion WEFO wedi cadarnhau bod y gwariant anghymwys a nodwyd yn ymwneud â hawliadau blaenorol yn bennaf yn hytrach na'r hawliad terfynol. Cydnabuwyd hefyd y dylai trefniadau arolygu, archwilio a monitro prosiect fod wedi nodi'r gwariant hwn yn gynt ac wedi gwrthod ei ganiatáu. Er i'r gwariant anghymwys hwn gael ei nodi, a'r gwendidau ymddangosiadol yn ei rheolaethau blaenorol, nid yw WEFO wedi cynnal unrhyw brofion pellach ar hawliadau AWEMA ar gyfer prosiect Black and Minority Ethnic Employment for All hyd at fis Ebrill 2010.

**2.120** Yn unol â gofynion WEFO, roedd archwilydd allanol AWEMA wedi cynnal archwiliad blynyddol o bob un o'r tri phrosiect o dan y Rhaglen Gydgyfeirio a phrosiect Curiad Calon Cymru ac wedi cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i WEFO bob blwyddyn. Roedd yr adroddiadau archwilio hynny wedi cwmpasu'r cyfnod hyd at fis Mawrth 2011. Penderfynodd WEFO nad oedd angen yr archwilwyr ar gyfer y cyfnod terfynol hyd at yr adeg y daeth AWEMA i ben o ystyried graddau a chwmpas y gwaith a oedd eisoes yn cael ei wneud gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a chan Dîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO ers mis Rhagfyr 2011.

**2.121** Er i adroddiadau archwilio blynyddol archwilydd allanol AWEMA nodi, ar adegau, wariant anghymwys roedd y symiau dan sylw yn gymharol fach. O ystyried y lefel uchel o wariant anghymwys sy'n hysbys erbyn hyn, byddai'n rhesymol credu y dylai'r archwilydd allanol fod wedi nodi mwy o wallau a mwy o amodi ac wedi tynnu sylw WEFO atynt, a thrwy hynny ei gwneud yn ymwybodol o ddiffygion AWEMA.

Ym mis Rhagfyr 2011, roedd y gwaith o gyflawni dau o dri phrosiect AWEMA o dan y Rhaglen Gydgyfeirio dipyn ar ei hôl hi o gymharu â'r proffil, er nad oedd y sefyllfa a nodwyd yn adlewyrchu'r holl weithgarwch gan bartneriaid AWEMA ac, yn gyffredinol, roedd WEFO yn fodlon ar y cynnydd

**2.122** Dengys data WEFO, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan AWEMA, fod y gwaith o gyflawni prosiect Young Black and Minority Ethnic People Aiming High a phrosiect Minorities are Wales' Resources dipyn ar ôl ei hôl hi ym mis Rhagfyr 2011 (Atodiad 2). Roedd y prosiectau dipyn ar ei hôl hi o ran gwario yn unol â'r gwariant a ragwelwyd ac, fel canlyniad tebygol, gyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau disgwyliedig erbyn hynny. Pwysleisiodd WEFO fod y prosiectau wedi dangos, yn ystod y 16 mis cyntaf, eu bod yn llwyddo i ddenu cyfranogwyr, ond yn arafach na'r proffil. O gymharu â phrosiectau eraill yn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru, nid oedd y sefyllfa o ran prosiectau AWEMA yn unigryw o bell ffordd. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod rhai problemau penodol o ran cynnydd y ddau brosiect i recriwtio cyfranogwyr yn y gogledd (Atodiad 2, Astudiaeth Achos 8).

**2.123** Er iddo beidio â gwario yn unol â'i broffil gwariant, nodwyd bod prosiect Black and Minority Ethnic Employment for All yn perfformio yn ôl y disgwyl neu'n well mewn perthynas â thri o'i bum dangosydd perfformiad. Mae WEFO wedi nodi ei bod yn ystyried mai nifer y cyfranogwyr a oedd yn dechrau gweithio oedd y dangosydd pwysicaf ar gyfer y prosiect hwn. Yn hynny o beth, roedd AWEMA wedi nodi 265 o gyfranogwyr o gymharu â'r 221 a ddisgwylid erbyn hynny.

**2.124** At hynny, nid yw'r data a nodwyd gan AWEMA ar gyfer y tri phrosiect yn ystyried gwariant a hawliwyd yn llawn nac unrhyw wybodaeth am berfformiad wedi'i diweddaru a ddarparwyd gan bartneriaid prosiect AWEMA ers canol mis Medi 2011. Mae'r hawliadau hyn bellach yn rhan o'r trefniadau olynol ar gyfer y tri phrosiect (paragraffau 3.40 i 3.48). Eto i gyd, awgryma rhywfaint o'r adborth a gawsom nad oedd AWEMA mor rhagweithiol ag y gallai fod wedi bod, ac, am resymau eraill, nad oedd wedi manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â sefydliadau eraill er mwyn helpu i gyflawni ei phrosiectau, er enghraifft, drwy gyfeirio buddiolwyr posibl at y gwasanaethau yr oedd AWEMA yn eu darparu[84,85].

**2.125** Mae WEFO wedi dweud wrthym y bydd yn canolbwyntio ar weithgarwch a hawliwyd gan y prosiectau olynol mewn unrhyw waith monitro a gwerthuso pellach. O ran prosiect Black and Minority Ethnic Employment for All, roedd cynllun busnes AWEMA wedi nodi bwriad i gynnal gwerthusiad canol tymor ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i AWEMA ymgymryd â gwaith o'r fath a chyflwyno adroddiad i WEFO.

### Mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn adrannau eraill wedi bod yn fodlon, ar y cyfan, ar y gwaith a gefnogwyd gan yr arian a roddwyd ganddynt i AWEMA, er i ni nodi rhai gwendidau o ran trefniadau monitro

#### Roedd Cyfarwyddiaeth Cymunedau Llywodraeth Cymru yn fodlon ar gynnydd partneriaeth 'Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig' Cymunedau yn Gyntaf, ond ni roddodd ddigon o sylw i rai agweddau ar ei harian

*Cydnabu'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau fod angen iddi roi cymorth arbenigol i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ond heriodd y cynnig oddi wrth bartneriaeth y Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn briodol cyn cytuno i'w ariannu*

**2.126** Cydnabu Cyfarwyddiaeth Cymunedau Llywodraeth Cymru fod angen iddi roi cymorth ychwanegol i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan fod y rhaglen yn cael ei rheoli gan nifer gymharol fach o'i staff ei hun nad oedd ganddynt lawer o arbenigedd mewn datblygu cymunedol. Ariannodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau ddwy brif ffynhonnell o gymorth, sef:

- **a** Rhwydwaith Cymorth Cymunedau yn Gyntaf – cynghrair o sawl corff datblygu cymunedol;
- **b** Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig – trefniant partneriaeth a oedd yn cynnwys AWEMA, Ymddiriedolaeth Scarman, Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig (MEWN) Cymru a Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Groenddu Cymru.

84 Ym mis Hydref 2010 a mis Mai 2011 yn y drefn honno, cyfarfu AWEMA â swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am Brosiect Dysgu a Chyflawni i Leiafrifoedd Ethnig (paragraff 2.104) a chynrychiolwyr o Gyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Sir Caerfyrddin i drafod y ddau brosiect. Deallwn fod cyfarfod hefyd wedi cael ei drefnu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ond na wnaeth Cyfarwyddwr AWEMA (Mr Naz Malik) fynd iddo. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi dweud wrthym i Mr Malik, cyn y cyfarfod a oedd wedi'i drefnu, gysylltu â swyddogion y cyngor gan ddynodi na fyddai'n gweithio gydag unrhyw awdurdod lleol a oedd wrthi'n ymgysylltu â sefydliadau megis Tîm Cymorth Pobl Ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn Abertawe.

85 Ym mis Gorffennaf 2010, roedd AWEMA wedi cyfarfod â Gyrfa Cymru gyda'r nod o gytuno ar ffyrdd o gydweithio. Dywedodd Mr Malik wrthym ei bod yn anodd ymgysylltu â Gyrfa Cymru ond dywedodd Gyrfa Cymru wrthym na wnaeth ymateb i ohebiaeth yn dilyn y cyfarfod hwnnw a oedd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r egwyddor o gydweithio o dan delerau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Cafwyd  cyfarfod arall rhwng AWEMA a Gyrfa Cymru ym mis Mai 2011, mae Gyrfa Cymru wedi dweud wrthym, yn dilyn y cyfarfod ym mis Mai 2011, fod gan ei swyddogion rai pryderon ynglŷn â dyblygu gwasanaethau Gyrfa Cymru o bosibl ond iddynt geisio'n aflwyddiannus gysylltu â Mr Malik eto. Fodd bynnag, nid yw Gyrfa Cymru wedi gallu darparu unrhyw dystiolaeth ddogfennol o e-bost y cred iddo gael ei anfon yn awgrymu cyfarfod pellach.

**2.127** Rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2002, heriodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau bartneriaid y Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i ddangos bod angen y gwasanaethau yr oedd yn cynnig eu darparu a sicrhau bod ei amcanion yn realistig. Ym mis Rhagfyr 2002, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn rhoi arian am 18 mis, gyda ffocws ar y bartneriaeth yn sefydlu ei hun ac ymgysylltu â chymunedau i ddeall yr anghenion cymorth yn well (Atodiad 2).

**2.128** Roedd penderfyniad y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i fynnu bod amcanion y prosiect yn llai uchelgeisiol na'r hyn a gynigiwyd ar y cychwyn yn gadarn ar y cyfan. Fodd bynnag, golygai'r pwyslais newydd nad oedd amcanion na gweithgareddau datblygu cymunedol y Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn gwbl eglur pan gymeradwywyd y cynnig cychwynnol. Nododd y cynnig diwygiedig y byddai penderfyniadau ar dargedu gweithgarwch yn dilyn unwaith bod aelodau o staff wedi cael eu penodi a'u bod wedi casglu tystiolaeth o angen. Roedd yr amcanion cychwynnol yn canolbwyntio'n fwy ar weithgarwch ac allbynnau na'r canlyniadau a fwriadwyd, sy'n adlewyrchu tuedd fwy cyffredinol a nodwyd yn ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2009, Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, dros amser ac ar ôl trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru, ail-luniodd y bartneriaeth ei hamcanion er mwyn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau.

*Mae gennym rai pryderon ynglŷn â'r ffordd yr oedd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn monitro cyllid partneriaeth y Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig*

**2.129** Dengys cofnodion a ddychwelwyd gan AWEMA i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012 i Ymddiriedolaeth Scarman hysbysu'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau ym mis Rhagfyr 2002 y byddai AWEMA yn arwain y gwaith o reoli cyllid a gweinyddiaeth gyffredinol y prosiect. Ni welsom gopi o'r llythyr hwn ar ffeiliau Llywodraeth Cymru a adolygwyd gennym ac ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau wedi ystyried a oedd yn fodlon i AWEMA dderbyn arian ar ran y bartneriaeth, a hynny er i benderfyniadau'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau i ddyfarnu arian gael eu gwneud, ac er iddi gael ei hysbysu mai AWEMA fyddai'n ymdrin â'r cyllid, ar adeg pan oedd Adran Gyllid Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o faterion a oedd yn ymwneud ag atebolrwydd ariannol a llywodraethu corfforaethol yn AWEMA (paragraffau 2.9 i 2.10 ac Atodiad 3, Astudiaeth Achos 2).

**2.130** Roedd yn ofynnol i'r rhai a oedd yn derbyn arian Cymunedau yn Gyntaf gyflwyno tystysgrifau archwilio blynyddol. Fel arfer byddai'r tystysgrifau hyn yn cael eu llofnodi gan archwilydd allanol. Fodd bynnag, rydym wedi nodi sawl pryder ynglŷn â phroses ardystio'r Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Ein prif bryder yw na chafodd tystysgrifau archwilio AWEMA a welwyd gennym eu llofnodi na'u profi gan archwilydd allanol. Yn hytrach na hynny, fe'i gwnaed yn glir ar y tystysgrifau mai Trysorydd AWEMA a oedd wedi'u llofnodi. Nid ymddengys bod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau wedi herio hyn ac roedd o bosibl wedi dibynnu gormod ar y tystysgrifau fel tystiolaeth bod yr arian yn cael ei

ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd. Mae Mr Malik wedi haeru iddo godi'r angen am gael y tystysgrifau wedi'u llofnodi gan archwilydd allanol gyda'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau oherwydd y costau ychwanegol dan sylw.

**2.131** Mae gennym bryderon penodol am y tystysgrifau ar gyfer 2002-03 a 2003-04. Cyflwynodd AWEMA y dystysgrif archwilio gyntaf, ar gyfer 2002-03, ar ran y bartneriaeth, yn hwyr iawn. Mewn nodiadau a gyflwynwyd ar y cyd â'r dystysgrif dyddiedig Gorffennaf 2004, hysbysodd AWEMA Lywodraeth Cymru ei bod wedi rhoi £11,500 o danwariant yn 2002-03 mewn cronfa wrth gefn. Ym mis Ionawr 2005 gofynnodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i AWEMA roi eglurhad ynglŷn â'r gronfa wrth gefn ac, ym mis Mawrth 2005, ataliodd unrhyw daliadau pellach nes bod y bartneriaeth yn gallu dangos bod yr holl arian a ddyrannwyd hyd hynny wedi cael ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd. Gofynnodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i bob partner ddarparu cyfrifon rheoli a chyflwynodd ofyniad hefyd fod yn rhaid i bob un o'r partneriaid gyflwyno ei dystysgrif archwilio ei hun bob blwyddyn. Nododd y cyfrifon rheoli a'r tystysgrifau archwilio ar gyfer 2003-04 fod y bartneriaeth wedi gorwario yn erbyn yr arian a roddwyd iddi ar gyfer 2003-04, a oedd yn dileu'r tanwariant yn 2002-03. Dengys cofnodion o gyfarfodydd y bartneriaeth fod y partneriaid yn trafod tanwariant ychydig cyn diwedd blwyddyn ariannol 2003-04.

**2.132** Gofynnodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau am gyngor gan Adran Gyllid Llywodraeth Cymru cyn ailddechrau'r taliadau ar ddiwedd 2005. Nododd cyngor yr Adran Gyllid: 'the financial information supplied [management accounts] has not been independently verified but given that it corresponds with the audit certificates I am content with its accuracy'.

**2.133** Ni fu'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn gadarn o ran ei gwaith monitro ariannol dilynol. Cyflwynodd y tystysgrifau archwilio ar gyfer 2004-05 ym mis Mehefin 2006, tua blwyddyn yn hwyr. Ni welsom unrhyw dystysgrifau ar ffeil ar gyfer 2005-06 ac nid oedd unrhyw dystiolaeth yn awgrymu bod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau wedi gofyn amdanynt. Roedd y tystysgrifau ar gyfer 2006-07 yn hwyr unwaith eto, er mai un o bartneriaid AWEMA oedd yn gyfrifol yn rhannol am yr oedi.

*Roedd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarparwyd gan y Tîm Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, ond cafwyd rhai bylchau yn ei threfniadau monitro perfformiad a oedd fel arall yn ddigonol*

**2.134** Roedd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn fodlon ar y cyfan ar y gwasanaethau a ddarparwyd gan y Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a pharhaodd ei arian tan ddiwedd 2006-07. Fodd bynnag, yn sgil adolygiad ehangach o wasanaethau cymorth cenedlaethol, daeth y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i'r casgliad y byddai'n fwy effeithiol i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf gomisiynu gwasanaethau cymorth yn uniongyrchol i ddiwall eu hanghenion. Felly rhoddodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau y gorau i ariannu'r Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Rhwydwaith Cymorth Cymunedau yn Gyntaf.

**2.135** Cyflwynodd AWEMA wybodaeth am berfformiad bob chwarter i'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau ar ran y partneriaid ac ochr yn ochr â hawliadau am arian. Adolygodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau y wybodaeth am berfformiad ac rydym wedi gweld tystiolaeth iddi ofyn am ragor o fanylion yn ôl yr angen a herio mewn meysydd lle'r oedd am weld mwy o gynnydd. Ystyriodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau y wybodaeth hon am berfformiad wrth wneud ei phenderfyniadau i ymestyn arian y tu hwnt i'r ymrwymiad cychwynnol o 18 mis.

**2.136** Fodd bynnag, wrth fonitro tueddodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i ganolbwyntio ar y gweithgarwch a gyflawnwyd gan weithwyr datblygu a oedd yn cael eu cyflogi gan bob un o'r partneriaid, gan adael bwlch o ran monitro gweithgarwch ymchwil y bartneriaeth. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei harian o fis Medi 2004 ymlaen i gefnogi gweithgarwch ymchwil. Ar wahân i ychydig o waith ymchwil cynnar ar gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig yn y gogledd, nid oedd ffeiliau Llywodraeth Cymru a adolygwyd gennym yn cynnwys unrhyw adroddiadau ymchwil gan AWEMA. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod swyddogion wedi ystyried canfyddiadau'r gwaith ymchwil ac wedi ymateb iddo nac wedi herio gwerth am arian yr elfen hon o'i harian.

**2.137** Dengys cofnodion o gyfarfodydd partneriaeth y Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig fod gan bartneriaid rai pryderon ynglŷn â'r defnydd o'r arian hwn a roddwyd ar gyfer ymchwil. Roedd AWEMA yn rheoli'r gwaith hwn ar ran y partneriaid o'i dyraniad o gyfanswm yr arian. Nid ymddengys i Lywodraeth Cymru dderbyn nodiadau o'r cyfarfodydd hyn ar y pryd a gwelsom ni hwy mewn cofnodion a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru gan AWEMA ym mis Mawrth 2012. Mae'r cofnodion yn nodi pryder ynglŷn â diffyg tryloywder ynglŷn â'r prosesau caffael, yn arbennig o ran peth gwaith yn ymwneud â Chadeirydd AWEMA ar y pryd (Dr Rita Austin)[86], a mab Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik). Mynegodd partneriaid bryder hefyd ynglŷn â bwriad AWEMA i ddefnyddio'r swm hwn o arian i helpu i sefydlu ei phwyllgorau rhanbarthol ei hun, yn hytrach na gweithgarwch y Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

## Cyflawnodd AWEMA un o'i phrif amcanion drwy ddechrau'r broses o sicrhau arian Ewropeaidd, ond nododd Llywodraeth Cymru fod ei gwaith monitro ei hun o'r arian a ddefnyddiwyd i gyflogi swyddog datblygu economaidd wedi bod yn ddiffygiol a'i bod yn anodd felly ddangos gwerth am arian

**2.138** Darparodd Llywodraeth Cymru £144,000 i AWEMA rhwng 2001-02 a 2004-05 i gefnogi gwaith Pwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA, yn benodol drwy gyflogi swyddog datblygu economaidd. Fel y disgrifiwyd yn Atodiad 2, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei chynnig o grant ym mis Tachwedd 2000 ond ni chafodd y cytundeb ariannol ffurfiol ag AWEMA ei gadarnhau tan fis Rhagfyr 2001. Yn y cyfamser, bu oedi o ran recriwtio'r swyddog datblygu economaidd a hollt chwerw ymhlith aelodau Pwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 1).

86 Mae datganiadau ariannol cyhoeddedig AWEMA ar gyfer 2005-06 yn datgan dau daliad i Dr Austin yn 2004-05 (cyfanswm o £5,450) a dau daliad arall yn 2005-06 (cyfanswm o £14,100). Nid yw'r datganiadau ariannol yn nodi mai taliadau'n ymwneud ag arian y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf oedd y rhain ac rydym yn ymwybodol, yn 2005-06, i rai o'r allbynnau a roddwyd i'r uned cydraddoldebau gael eu drafftio gan Dr Austin hefyd. Mae Dr Austin wedi dweud wrthym mai ar gyfer gwaith gweithredol ar ymgynghoriad polisi wyneb yn wyneb, ymchwil a llunio adroddiadau ar ran AWEMA yr oedd y taliadau hyn, o bosibl ac nad oeddent yn ymwneud â'i dyletswyddau fel Cadeirydd. Dywedodd Dr Austin wrthym mai ar ôl i AWEMA gael statws elusennol ym mis Mawrth 2005, ac yn union ar ôl i sesiwn hyfforddi ymddiriedolwyr gael ei chynnal gan gyfreithiwr AWEMA, y gwnaeth Fwrdd AWEMA, fel y'i cynghorwyd gan y cyfreithiwr, y taliadau hyn yn rhai rheolaidd at ddibenion eu datgan yng nghyfrifon AWEMA. Mae Dr Austin wedi cadarnhau na chafodd unrhyw daliadau pellach. Roedd mater y taliadau i Dr Austin yn rhan o adroddiad ymchwiliad a gafodd ei baratoi ar ran ymddiriedolwyr AWEMA gan Dr Paul Dunn ym mis Rhagfyr 2011 mewn ymateb i honiadau yn erbyn Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) a Chyfarwyddwr Gweithrediadau AWEMA (Ms Tegwen Malik – merch Mr Malik) Cyfeiriodd yr adroddiad hwnnw yn benodol at daliad o £12,000 i Dr Austin.

**2.139** Ym mis Medi 2003, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am reoli'r arian grant hwn o Is-adran Datblygu Economaidd Llywodraeth Cymru i'w Chyfarwyddiaeth Cymunedau. Wedyn bu rhywfaint o ddryswch ynglŷn â thelerau'r cytundeb ag AWEMA. Yn benodol, roedd y gyllideb ar gyfer yr arian hwn hyd at ddiwedd 2003-04 wedi cael ei throsglwyddo i'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau ond nid oedd yn ymwybodol bod y cytundeb ariannol ag AWEMA yn ymestyn i 2004-05. Gofynnodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau am gyngor cyfreithiol i gadarnhau ei rhwymedigaethau ariannol ar ôl 2003-04.

**2.140** Ym mis Tachwedd 2003, cododd y cyn-Aelod Cynulliad, David Davies, bryderon ynglŷn â'r arian hwn, er bod canfyddiad anghywir ar y pryd bod arian Llywodraeth Cymru ond yn cyfrif am gostau cyflog swyddog datblygu economaidd AWEMA. Roedd yr arian hefyd yn cyfrannu at orbenion eraill fodd bynnag. Gan ymateb i'r pryderon a godwyd gan Mr Davies, pwysleisiodd AWEMA hefyd i Lywodraeth Cymru nad oedd y ffaith nad oedd wedi sicrhau arian Ewropeaidd, bryd hynny, yn anghyson â'i chytundeb ariannu. Y cyfan a nodwyd yn y cytundeb oedd bod yn arian yn cael ei roi i helpu AWEMA i ddechrau ar y broses o sicrhau arian o'r fath. Mae'n amlwg bod AWEMA wedi gwneud cynnydd yn hynny o beth.

**2.141** Ym mis Mai 2004, mynegodd un o swyddogion y Gyfarwyddiaeth Cymunedau nad oedd yr arian ar gyfer swyddog datblygu economaidd wedi bod yn llwyddiannus o bell ffordd, yn ei barn hi, ac nad oedd yn bwriadu argymell bod yr arian hwn yn cael ei ymestyn. Fodd bynnag, nododd hefyd fod yr arian hwn wedi cael ei fonitro'n wael dros gyfnod y grant[87]. Yn 2000-01, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd sefydlu trefniadau monitro a gwerthuso cadarn pan oedd yr arian yn cael ei drafod a'i gymeradwyo (Atodiad 2).

**2.142** Dengys cofnodion Llywodraeth Cymru fod AWEMA wedi bod yn cyflwyno adroddiadau cynnydd a gwariant ynglŷn â gwaith y swyddog datblygu economaidd, er yn afreolaidd. Yn wir, bu tri aelod gwahanol o staff yn dal y swydd yn ystod cyfnod y cytundeb ac, yn yr ychydig fisoedd olaf, hysbysodd AWEMA Lywodraeth Cymru y byddai'r costau cyflog a godwyd yn ymwneud yn bennaf â'r amser a dreuliwyd mewn perthynas â'r brîff datblygu economaidd gan Brif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik), yn sgil ymadawiad y trydydd swyddog datblygu economaidd ym mis Ebrill 2004[88].

**2.143** Ar ôl ysgwyddo'r cyfrifoldeb am yr arian hwn, gweithredodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn gadarn i adfachu tanwariant cofnodedig yn erbyn arian y prosiect. Ym mis Ionawr 2004, cadarnhaodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau fod Llywodraeth Cymru yn fodlon i AWEMA gadw cronfa wrth gefn o'r arian a ddarparwyd, ar yr amod y câi ei ddefnyddio i gyfateb arian Ewropeaidd o dan raglen EQUAL erbyn diwedd cyfnod y cytundeb ariannu (Medi 2004). Ym mis Awst 2004, cadarnhaodd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau y byddai'n gostwng y taliad terfynol i AWEMA – o £27,667 i £16,003 – er mwyn adfachu'r tanwariant, a hynny am nad oedd ffocws prosiect Curiad Calon Cymru AWEMA yn gyson â diben cyffredinol yr arian grant i gefnogi'r swyddog datblygu economaidd.

---

87 Ym mis Ionawr 2005, adlewyrchwyd y safbwyntiau hyn yn y cyflwyniad Gweinidogol a wnaeth ystyried arian yr uned cydraddoldebau i AWEMA yn y dyfodol mewn ymateb i ganfyddiadau adroddiad IMANI Consultancy Services (Ffigur 6).

88 Yn yr un modd, ym mis Ionawr 2004, roedd AWEMA wedi cadarnhau gyda Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu talu peth o gyflog Mr Malik allan o'r arian datblygu economaidd ar ôl i oriau gwaith y swyddog datblygu economaidd gael eu cwtogi.

## Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn fanwl â gwaith AWEMA ar faterion tai, gofalwyr a gofal plant ac yn fodlon arno

**2.144** Ac eithrio grant arian Cymorth i Wasanaethau Canolradd Gwirfoddol gwerth £25,000 yn 2000-01[89], nid yw'r elfennau hynny o arian Llywodraeth Cymru i AWEMA nad ydynt wedi cael eu hystyried eisoes yn y rhan hon o'n hadroddiad yn ymwneud â'r canlynol:

- **a** tai - £120,125 rhwng 2001-02 a 2003-04, er mwyn helpu i gyflogi 'Swyddog Strategaeth Tai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig';
- **b** polisi gofal cymdeithasol - £49,830 rhwng 2002-03 a 2003-04 er mwyn cyflogi gweithiwr cymdeithasol i wneud gwaith ymchwil a pharatoi gwybodaeth a chanllawiau arfer da a oedd yn berthnasol i ofalwyr o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig;
- **c** gofal plant – cyfraniad o £10,000 tuag at waith ymchwil a gomisiynwyd gan AWEMA fel rhan o'i phrosiect Curiad Calon Cymru o dan raglen EQUAL.

**2.145** Ym mhob un o'r tri achos hyn, dengys y cofnodion a adolygwyd gennym i swyddogion Llywodraeth Cymru weithio'n agos gydag AWEMA i oruchwylio'r gwaith a wnaed gyda chymorth yr arian o'u priod adrannau. Mae'n amlwg hefyd fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn fodlon ar yr hyn a gyflawnodd y gwaith hwnnw.

**2.146** Roedd cyswllt anorfod rhwng y gwaith a wnaed gan y Swyddog Strategaeth Tai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Tai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Llywodraeth Cymru er iddo hefyd gefnogi Pwyllgor Tai AWEMA ei hun. Bu'r swyddog a gyflogwyd gan AWEMA yn rhannu ei hamser rhwng swyddfeydd AWEMA a swyddfeydd Llywodraeth Cymru a chafodd eu gwaith ei oruchwylio'n fanwl gan swyddogion Llywodraeth Cymru ac ystyriwyd ei fod yn llwyddiannus.

**2.147** Bu un o swyddog Llywodraeth Cymru, gyda chymorth cyd-swyddog a oedd yn meddu ar arbenigedd ymchwil, yn gweithio'n agos gydag AWEMA wrth i AWEMA gomisiynu ymchwil i faterion ynglŷn â gofal plant grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig. Roedd y rhyngweithio hwn yn cynnwys gwneud sylwadau ar fanyleb y gwaith ymchwil, bod yn rhan o'r broses o ddewis y contractiwr ymchwil, a chyswllt uniongyrchol pellach â'r contractiwr wrth iddo ymgymryd â'r gwaith a gwneud sylwadau ar yr adroddiad terfynol. Dengys y cofnodion a welsom fod swyddog arweiniol Llywodraeth Cymru yn fodlon ar ganlyniad y gwaith. Fodd bynnag, mae'n llai eglur sut mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi defnyddio'r gwaith ymchwil i ategu unrhyw ddatblygiadau ehangach ar bolisi gofal plant.

**2.148** Bu swyddogion Llywodraeth Cymru o'r Uned Polisi Gofal Cymdeithasol yn gweithio'n agos gydag AWEMA i fireinio cwmpas y gwaith a ariannwyd gan AWEMA mewn perthynas â gofalwyr. Cyfathrebwyd hefyd â chydweithwyr o adrannau eraill Llywodraeth Cymru er mwyn deall eu cydberthnasau ariannu ag AWEMA. Roedd rhai o'r swyddogion yr ymgynghorwyd â hwy yn amau ai AWEMA oedd y cyfrwng mwyaf priodol i gyflawni'r gwaith yr oedd yr Uned Polisi Gofal Cymdeithasol yn ystyried ei ariannu ond cymeradwywyd y cynlluniau gan swyddogion o'r uned cydraddoldebau. Cafodd y cynlluniau eu hystyried a'u cefnogi hefyd gan Banel Adolygu Strategaeth Gofalwyr Llywodraeth Cymru. Yna, aeth swyddogion Llywodraeth Cymru ati i fonitro

89 Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o'r ffordd y gwnaeth Llywodraeth Cymru reoli ei harian grant o ran Cymorth i Wasanaethau Canolradd Gwirfoddol i AWEMA yn 2000-01 y tu hwnt i'r pwynt cymeradwyaeth (Atodiad 2). Ni chafodd yr arian hwn ei wario gan AWEMA ar y pryd, er ei bod yn ymddangos mai dim ond ym mis Chwefror 2005 y daeth Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o hyn (paragraffau 2.35 i 2.46).

cynnydd y gwaith a wnaed gan AWEMA er mwyn sicrhau bod y cynhyrchion terfynol (adroddiad ymchwil, cyfeirlyfr o wasanaethau a chanllawiau arfer da) yn bodloni eu gofynion.

**2.149** Lansiwyd allbynnau'r gwaith ar ofalwyr mewn digwyddiad y bu'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Jane Hutt) yn bresennol ynddo ar 10 Rhagfyr 2003. Cafodd y digwyddiad hwn ei gynnal ar ôl i bryderon ynglŷn ag AWEMA gael eu codi gan y Western Mail a rhaglen Dragon's Eye y BBC ym mis Tachwedd 2003 (paragraff 2.19 ac Atodiad 3, Astudiaeth Achos 3). Roedd hefyd yn dilyn y sylw yn y Western Mail o feirniadaeth AWEMA o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei Chynllun Cydraddoldeb Hiliol drafft. Wrth baratoi ar gyfer y lansiad, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrth y Gweinidog fod y gwaith ar ofalwyr wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus o'u safbwynt hwy.

**2.150** Ym mhob un o'r tair enghraifft hyn, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi ystyried ffyrdd eraill o gyflawni'r gwaith a gefnogwyd drwy ei harian i AWEMA. Eto i gyd, nid ydym wedi nodi unrhyw bryderon penodol ynglŷn â'r gwaith a gyflawnwyd yn y pen draw na'r ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn rheoli'r cydberthnasau ariannu. Fodd bynnag, mae gennym reswm dros amau a oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol i drafod pryderon perthnasol ynglŷn ag AWEMA ar yr adegau y cytunwyd ar y trefniadau ariannu hyn. Er enghraifft:

**a** Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod unrhyw ystyriaeth, wrth gymeradwyo'r ariannu am dai ar 4 Mawrth 2002, i'r pryderon a godwyd gyda Llywodraeth Cymru yn gynharach y flwyddyn honno. Roedd y pryderon hynny wedi arwain at awgrym gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd, dim ond wythnos yn ddiweddarach, y dylid ystyried adolygiad Archwilio Mewnol (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 2).

**b** Wrth drafod ariannu ag AWEMA a chytuno arno nid ymddengys bod yr Uned Polisi Gofal Cymdeithasol wedi cael ei hysbysu o'r pryderon a godwyd ynglŷn ag AWEMA yn gynharach yn 2002 ac unwaith eto ym mis Hydref 2002. Arweiniodd y pryderon hyn at adolygiad o AWEMA gan Adran Gyllid Llywodraeth Cymru (paragraff 2.10 ac Atodiad 3, Astudiaeth Achos 2).

**c** Deilliodd y gwaith ymchwil i ofal plant ar ôl i WEFO gysylltu â swyddogion yn yr Adran Addysg i ystyried y posibilrwydd o arian cyfatebol. Nid ymddengys bod y swyddogion yn yr Adran Addysg wedi cael gwybod bod WEFO, yn gynharach yn 2006, wedi nodi pryderon ynglŷn â threfniadau caffael Astudiaeth Achos (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 5). Yn ein barn ni, dylent fod wedi cael eu hysbysu am hyn. Nid ydym wedi nodi unrhyw bryderon penodol am y ffordd y cafodd y contract ar gyfer ymchwil i ofal plant ei gaffael.

### Pan oedd pryderon penodol ynglŷn ag AWEMA yn cael eu dwyn i sylw Llywodraeth Cymru, mae ei hymateb wedi bod yn rhy gul ei ffocws

**2.151** Rydym eisoes wedi cyfeirio at amrywiol enghreifftiau ar ffurf astudiaethau achos o ymateb Llywodraeth Cymru i bryderon penodol ynglŷn â llywodraethu a rheolaeth ariannol AWEMA neu gwestiynau ynglŷn ag ariannu AWEMA a'r ffordd yr oedd yn cyflawni ei gwaith. Mae'r casgliadau y daethpwyd iddynt ynglŷn â'r digwyddiadau hyn (Atodiad 3), sy'n rhagflaenu'r honiadau o ddiwedd 2011, yn ymwneud â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb iddynt. Nid ydym wedi nodi i ba raddau y gellid cyfiawnhau'r pryderon hyn.

2.152 Ym mhob achos, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd y pryderon a godwyd gyda hi o ddifrif. Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad bod ymateb Llywodraeth Cymru i'r pryderon hyn wedi bod yn rhy gul ei ffocws, ar y cyfan. O ran cul ei ffocws rydym yn golygu bod ymateb Llywodraeth Cymru:

a wedi cael ei lywio gan amharodrwydd swyddogion i ymhél â materion lle:

– roeddent yn credu bod y materion a godwyd y tu hwnt i gylch gwaith Llywodraeth Cymru;

– roeddent yn gochel rhag canfyddiad eu bod yn dangos ochr yn yr hyn a allai gael ei ystyried yn anghydfodau personol rhwng unigolion neu sefydliadau penodol; a lle

– byddai cymryd camau mwy pendant wedi ennyn beirniadaeth bersonol neu gyhoeddus o bosibl (dywedoddd sawl un o'r swyddogion y cyfarfuom â hwy eu bod yn gochel rhag cael eu cyhuddo o wahanaiethu yn erbyn AWEMA mewn unrhyw ffordd).

b wedi cael ei nodweddu gan ddiffyg cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng adrannau er mwyn helpu i lywio penderfyniadau ynglŷn â holl ariannu Llywodraeth Cymru i AWEMA (er na fu hynny'n wir ym mhob achos);

c wedi ymdrin â phryderon penodol yn unigol heb ystyried hanes llawn ei chydberthynas ariannu, ac unwaith eto bu ymgais wan i rannu gwybodaeth o fewn adrannau a rhwng adrannau yn gwaethygu hynny;

ch wedi bod yn annigonol, drwy gynllun, i amlygu neu fynd at wraidd rhai materion a fu'n achos pryder;

d wedi methu ag ymchwilio i'r materion hyn, naill ai ar yr adeg y codwyd y pryderon neu wedi hynny, yn ddigon trylwyr.

2.153 Mae'r materion a godwyd gennym ynglŷn â'r ymateb i'r pryderon hyn hefyd wedi'u hadlewyrchu mewn rhai agweddau ar broses gyffredinol Llywodraeth Cymru o arfarnu a monitro ei harian grant i AWEMA.



# Rhan 3 – Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarn i'r pryderon a gododd ynghylch AWEMA ym mis Rhagfyr 2011, ond bu'r gwaith o ymdrin â'r canlyniadau yn llafurus ac nid yw'r effaith ar arian cyhoeddus yn glir eto

**3.1** Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn edrych ar y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r honiadau ynghylch materion llywodraethu, rheoli ariannol, staffio ac adnoddau dynol a thor-cyfraith posibl yn AWEMA a ddaeth i'r golwg ar ddiwedd 2011. Yn benodol:

- **a** y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb uniongyrchol i'r honiadau hyn, gan arwain at y cyhoeddiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ar 9 Chwefror 2012 fod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i ariannu AWEMA;
- **b** goblygiadau ariannol diddymu AWEMA gan Lywodraeth Cymru, o ran arian Ewropeaidd;
- **c** y gwaith a wnaed gan WEFO i ddatblygu trefniadau olynol ar gyfer prosiectau Rhaglen Gydgyfeirio AWEMA;
- **ch** yr effaith weithredol gyffredinol a'r costau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru wrth reoli ei hymateb i'r sefyllfa yn AWEMA.

**Ar 29 Tachwedd 2011, cafodd un o swyddogion WEFO ei hysbysu am nifer o honiadau, gan gynnwys rhai materion ariannol, gan Brif Weithredwr AWEMA ond rhoddodd Prif Weithredwr AWEMA sicrwydd nad oedd unrhyw achosion o afreoleidd-dra ariannol mewn perthynas â phrosiectau a ariannwyd gan WEFO**

**3.2** Mae Dr Rita Austin wedi cadarnhau i ni iddi ond cytuno i dderbyn enwebiad i fod yn Gadeirydd AWEMA ym mis Rhagfyr 2011 ar yr amod y byddai Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) yn dwyn sylw WEFO at yr honiadau yn ei erbyn. Mae cofnodion cyfarfod Bwrdd AWEMA ar 16 Rhagfyr 2011 yn nodi dealltwriaeth Dr Austin fod WEFO wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau. Hefyd, mae nodiadau cyfarfod ar 21 Rhagfyr 2011 rhwng AWEMA a'i chyfreithwyr yn nodi i Mr Malik ddweud iddo roi gwybod i WEFO ar 29 Tachwedd 2011 fod 'honiadau' wedi cael eu gwneud yn ei erbyn, a'i fod wedi cyflwyno tystiolaeth i WEFO ynghylch ei ymateb i'r honiadau. Mae WEFO wedi cadarnhau i ni na chafodd unrhyw ddeunydd o'r fath gan Mr Malik.

3.3 Rydym wedi cadarnhau, ar ymylon cyfarfod rhwng WEFO ac amrywiaeth o noddwyr prosiect eraill gan gynnwys AWEMA ar 29 Tachwedd 2011, fod Mr Malik wedi dwyn sylw Pennaeth cangen Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop WEFO at y ffaith ei fod yn wynebu amryw honiadau. Nododd Mr Malik fod yr honiadau hyn yn cynnwys rhai materion ariannol, ond nid yw union fanylion ei sgwrs â phennaeth y gangen yn glir.

3.4 Mae pennaeth y gangen wedi dweud wrthym mai mater llywodraethu mewnol i AWEMA oedd yr honiadau hyn, yn ei farn ef, a bod Mr Malik wedi rhoi sicrwydd iddo nad oedd unrhyw achosion o afreoleidd-dra ariannol mewn perthynas â phrosiectau a ariannwyd gan WEFO. Roedd pennaeth y gangen wedi dweud wrth Mr Malik y byddai am weld copïau o bapurau yr eglurodd Mr Malik y byddent yn cael eu cyflwyno i gyfarfod bwrdd arfaethedig AWEMA ar 16 Rhagfyr 2011. Cyn y cyfarfod hwnnw comisiynodd ymddiriedolwyr AWEMA adroddiad ymchwiliad gan Dr Paul Dunn ar honiadau a wnaed yn erbyn Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) a Chyfarwyddwr Gweithrediadau AWEMA (Ms Tegwen Malik – merch Mr Malik).

## Ni roddwyd gwybod am y materion a godwyd gan Brif Weithredwr AWEMA ar 29 Tachwedd 2011 yn fwy cyffredinol o fewn Llywodraeth Cymru nes i Gyfarwyddwr Cyllid a Phrif Weithredwr AWEMA gysylltu â WEFO ac uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ar wahân ar 19 Rhagfyr 2011

3.5 Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i Bennaeth cangen Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop WEFO hysbysu unrhyw swyddogion eraill yn Llywodraeth Cymru am unrhyw rai o'r materion a godwyd gan Brif Weithredwr AWEMA gydag ef ar 29 Tachwedd 2011. Pe bai hynny wedi cael ei wneud, bydd Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO wedi cael cyfle i wneud ymholiadau pellach yn ystod ei ymweliad arolygu arfaethedig ag AWEMA ar ddechrau mis Rhagfyr 2011 (paragraff 2.114 ac Atodiad 3, Astudiaeth Achos 8). Nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu i'r materion hyn gael eu codi gan staff WEFO neu gynrychiolwyr AWEMA yn ystod yr ymweliad hwnnw.

3.6 Yn hwyr ar nos Sul 18 Rhagfyr 2011, anfonodd Cyfarwyddwr Cyllid AWEMA (Mr Saquib Zia) neges i fewnflwch gohebiaeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant) yn dweud wrtho am yr honiadau[90]. Trosglwyddwyd yr e-bost hwn at swyddog yn uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru yn gynnar brynhawn 19 Rhagfyr 2011. Erbyn hyn, roedd Pennaeth cangen Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop WEFO a phennaeth yr uned cydraddoldebau

90 Roedd y Gweinidog wedi bod yn gyfrifol am y portffolio cydraddoldebau yn union cyn, ond nid ers, etholiadau Cynulliad Cenedlaethol 2011 (Atodiad 5).

eisoes wedi cymryd camau mewn ymateb i'r e-bost a gawsant yn bersonol gan Gyfarwyddwr Cyllid AWEMA y bore hwnnw. Mae swyddogion uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau i ni nad oedd yn ymwybodol o unrhyw rai o'r honiadau yn erbyn Mr Malik cyn i bennaeth yr uned gael yr e-bost gan Mr Zia.

3.7 Gwnaeth Mr Malik hefyd e-bostio Pennaeth cangen Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop a phennaeth yr uned cydraddoldebau ar fore 19 Rhagfyr 2011, ar ôl yr e-byst a anfonwyd gan Mr Zia. Nid oedd e-bost Mr Malik yn cynnwys unrhyw fanylion am yr honiadau yn ei erbyn. Fodd bynnag, roedd yr e-bost yn cyfeirio at sgwrs ffôn a gynhaliwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw â Phennaeth cangen Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop yn gofyn am gyfarfod a nododd fod Mr Malik wedi tynnu sylw pennaeth y gangen yn flaenorol at honiadau roedd yn eu hwynebu, gan gynnwys rhai mewn perthynas â materion ariannol.

## Gweithredodd Llywodraeth Cymru yn gadarn drwy gadw taliadau i AWEMA yn ôl mewn ymateb i'r honiadau a gafodd ar 19 Rhagfyr 2011 a chomisiynu adolygiad gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, er nad oedd modd atal taliadau WEFO o £529,000

### Cymerodd Llywodraeth Cymru gamau cyflym i gadw taliadau AWEMA yn ôl ond roedd taliadau WEFO o £529,000 eisoes yn yr arfaeth ac nid oedd modd eu hatal

3.8 O ystyried y posibilrwydd y byddai staff ar wyliau yn yr wythnos cyn y Nadolig, gallai'r e-byst a'r galwadau ffôn a gafwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru oddi wrth Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid AWEMA ar fore 19 Rhagfyr 2011 fod wedi mynd heb eu hateb am gryn amser. Yn yr un modd yr ohebiaeth at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (er bod Llywodraeth Cymru wedi ein sicrhau bod gan swyddfeydd Gweinidogion drefniadau cyflenwi priodol ar gyfer ymdrin â gohebiaeth).

3.9 Fel yr oedd, a chan ystyried yn arbennig natur a ffynhonnell yr honiadau, ymatebodd yr uned cydraddoldebau a WEFO yn gyflym i gyfeirio'r mater yn uwch. Roedd hyn yn cynnwys dwyn yr honiadau at sylw cydweithwyr o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol a cheisio cyngor ganddynt. Cysylltodd Pennaeth Cyllid WEFO â Thîm Cyllid Canolog Llywodraeth Cymru am oddeutu 1.30pm yr un diwrnod.

Yna, cysylltodd y Tîm Cyllid Canolog â'r banc i geisio atal tri thaliad a gymeradwywyd ar 13 a 14 Rhagfyr. Roedd taliad o ychydig o dan £241,000 yn ddyledus ar 19 Rhagfyr 2011 ac roedd dau daliad, o ychydig dros £288,000, yn ddyledus ar 20 Rhagfyr 2011.

**3.10** Er mwyn atal taliadau a oedd wedi'u hawdurdodi eisoes, byddai Llywodraeth Cymru wedi gorfod hysbysu'r banc erbyn canol dydd fan bellaf y diwrnod cyn y taliad. Felly, nid oedd modd atal y tri thaliad hyn. Pe bai Llywodraeth Cymru wedi ymchwilio'n gynt i'r materion a godwyd gan Brif Weithredwr AWEMA ar 29 Tachwedd 2011, rydym o'r farn na fyddai'r taliadau hyn wedi cael eu hawdurdodi.

**3.11** Nodwn, pe bai Llywodraeth Cymru wedi gallu atal y taliadau a wnaed ar 20 Rhagfyr 2011 yna y byddai hyn wedi rhoi AWEMA, neu ei phartneriaid, mewn sefyllfa ariannol hyd yn oed yn fwy bregus. Roedd WEFO wedi disgwyl y byddai AWEMA yn rhannu ei blaendaliadau â phartneriaid er mwyn helpu gyda'u llifau arian parod hwythau ond nid ymddengys ei bod yn gwybod nad oedd hyn wedi bod yn digwydd. Roedd materion ynglŷn â dosbarthu blaendaliadau wedi bod yn rhan o'r pryderon a nodwyd gan WEFO yn 2006 ac yr ymchwiliwyd iddynt o ran prosiect Curiad Calon Cymru. Ar ôl cael y blaendaliadau ym mis Rhagfyr 2011, talodd AWEMA tua £268,000 i'w phartneriaid am hawliadau a gwmpasai weithgarwch ôl-weithredol tan ddiwedd mis Awst 2011 yn unig. Mae'r sefyllfa hon yn ategu casgliad Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO ym mis Mai 2012 fod AWEMA wedi bod yn defnyddio blaendaliadau WEFO i ariannu ei chostau gweithredu craidd (paragraff 2.117).

**3.12** Ni wnaeth Llywodraeth Cymru unrhyw daliadau pellach i AWEMA ar ôl 20 Rhagfyr 2011, gan hysbysu AWEMA yn ffurfiol ar 6 Ionawr 2012 ei bod yn atal pob arian nes i ymchwiliad Archwilio Mewnol gael ei gynnal.

## Er bod comisiynu adolygiad gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn rhesymol o dan yr amgylchiadau, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi rheoli disgwyliadau yn well o ran cwmpas ei gwaith

**3.13** Ar ôl cadarnhau gydag AWEMA ei bod yn bwriadu cynnal ymchwiliad Gwasanaethau Archwilio Mewnol[91], gweithredodd tîm ymchwilio Llywodraeth Cymru yn gyflym i gael gafael ar bapurau a chofnodion perthnasol a gadwyd gan AWEMA, gan gynnwys ymweliad deuddydd â'r safle a chyfweliadau ag ymddiriedolwyr a staff allweddol. Yn ystod y pedair wythnos ganlynol, cadwodd y tîm ymchwilio Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'i gynnydd a bu mewn cysylltiad hefyd â swyddogion o Heddlu De Cymru a'r Comisiwn Elusennau.

**3.14** Er i waith y Gwasanaethau Archwilio Mewnol gael ei wneud yn gyflym ac yn unol â'i gylch gorchwyl, cafwyd cryn sylwadau ar yr adroddiad a gyhoeddwyd gan wleidyddion, y cyfryngau ac aelodau o'r cyhoedd. Roedd rhai o'r sylwadau hynny, yn enwedig y rheini a oedd yn feirniadol o'r ffaith na wnaeth y tîm ymchwilio gysylltu â Dr Paul Dunn[92] yn ystod ei waith maes, yn seiliedig ar gamddealltwriaeth o gwmpas yr adolygiad. Ni chafodd y tîm ymchwilio y dasg benodol o adolygu gweithrediadau mewnol AWEMA (mater i'r Comisiwn Elusennau, yn hytrach nag arianwyr cyhoeddus), nac ychwaith ymchwilio i honiadau o dwyll yn erbyn unigolion o fewn yr elusen (mater i Heddlu De Cymru).

91 Cyhoeddodd y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid (ac Arweinydd y Tŷ) y penderfyniad hwn yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 10 Ionawr 2012, ar ôl i Lywodraeth Cymru roi gwybod i AWEMA ar 6 Ionawr 2012. Cafodd yr archwiliad ei gynnal ar y cyd ar ran Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr (paragraff crynodeb 3 a Ffigur 1).

92 Awdur adroddiad ymchwiliad a gwblhawyd ar ran ymddiriedolwyr AWEMA ym mis Rhagfyr 2011 (paragraff 3.4).

**3.15** Fodd bynnag, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi union gwmpas yr adolygiad hyd nes i adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol gael ei gyhoeddi. Arweiniodd hyn at ddisgwyliadau rhy uchel gan y cyhoedd ynghylch cwmpas yr adroddiad ac ehangder a dyfnder y gwaith oedd i'w wneud. Gwaethygwyd y sefyllfa hon gan gamganfyddiad y cyhoedd fod ymchwiliad yn mynd rhagddo gan Heddlu De Cymru ar y cyd â gwaith y Gwasanaethau Archwilio Mewnol. Mewn gwirionedd, roedd yr heddlu yn aros i weld adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol cyn dechrau ar ei waith ymchwilio manwl ei hun.

**3.16** Roedd y gwahaniaeth rhwng disgwyliadau'r cyhoedd ac union natur adolygiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn anffodus, yn enwedig o ystyried bod y gwaith a wnaed yn ddigonol o ran ei ehangder a'i ddyfnder i ategu casgliadau cyffredinol yr adroddiad terfynol. Rydym hefyd o'r farn bod y camau a gymerwyd wrth gomisiynu adolygiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn rhesymol o ystyried natur a ffynhonnell y pryderon a godwyd gyda Llywodraeth Cymru.

**3.17** Cawsom wybod gan Dr Rita Austin, er iddi gyfarfod â'r tîm ymchwilio, nad oedd wedi cael cyfle i roi sylwadau ar fersiwn drafft adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol. At hynny, yn ei barn hi, roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn cynnwys peth anghywirdeb ffeithiol a diffyg cydbwysedd. Er enghraifft, mae Dr Austin wedi mynegi pryder nad oedd yr adroddiad yn gwahaniaethu rhwng ymddygiad ymddiriedolwyr a oedd wedi ymddiswyddo a'r rhai a arhosodd yn eu swyddi a chynorthwyo gwaith y Gwasanaethau Archwilio Mewnol. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru wrthym nad oedd yr adroddiad wedi gwahaniaethu rhwng ymddiriedolwyr yn y ffordd hon yn fwriadol, oherwydd, yn ei farn ef, roedd rhai methiannau corfforaethol o ran llywodraethu AWEMA wedi parhau. Mae Dr Austin yn herio hyn. Nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd y byddai cynnwys cyfeiriadau at y materion hyn yn adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol o bosibl wedi peryglu ymchwiliadau eraill a oedd yn mynd rhagddynt. Mae Dr Austin wedi nodi, a hynny'n hollol gyfiawn, fod rhai o'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad, megis cyflogi aelodau o'r teulu, lefelau cyflog a datblygiad gyrfa, a rôl Mr Malik fel Prif Weithredwr AWEMA ac ymddiriedolwr, eisoes yn hysbys i Lywodraeth Cymru neu, o leiaf, dylid bod wedi eu nodi a'u herio'n flaenorol, drwy drefniadau arfarnu a monitro prosiect eraill.

**3.18** Yn ein barn ni, byddai wedi bod yn synhwyrol pe bai'r tîm ymchwilio wedi ceisio dod i gytundeb â Dr Austin, ynghylch cywirdeb ffeithiol o leiaf, cyn llunio fersiwn terfynol yr adroddiad. Mae hyn yn arbennig o wir, o ystyried pwysigrwydd canfyddiadau a chasgliadau'r adroddiad i benderfyniad dilynol y Gweinidog i roi diwedd ar holl arian Llywodraeth Cymru a WEFO i AWEMA. Dywedodd Pennaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru wrthym ei fod wedi pennu ei bod yn dra annhebygol y byddai ei dîm yn gallu cael cytundeb Dr Austin a Mr Malik i adroddiad drafft mor feirniadol, ac y byddai ceisio gwneud hynny wedi peri oedi mawr cyn cyhoeddi'r adroddiad. Yn seiliedig ar y dystiolaeth glir yr oedd y tîm ymchwilio o'r farn ei fod wedi'i chasglu i ategu ei ganfyddiadau, roedd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol felly wedi penderfynu llunio fersiwn terfynol o'i adroddiad heb gytundeb AWEMA, er mwyn rhoi cyngor brys i swyddogion ariannu yn Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr.

**3.19** Mae Dr Austin a Mr Malik hefyd wedi cwestiynu'r ffaith nad oedd adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cynnwys unrhyw ystyriaeth o'r camau gweithredu y gellid eu cymryd i drawsnewid y sefyllfa yn AWEMA. Yn ein barn ni, nid oedd angen i'r mater hwn ffurfio rhan o ymchwiliad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ond mae canfyddiad, ar ran Dr Austin a Mr Malik, fod y canlyniad - sef atal rhoi arian Llywodraeth Cymru i AWEMA - wedi'i benderfynu'n barod. Mae Dr Austin wedi codi pryder penodol gyda ni ynghylch sylwadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 29 Ionawr 2012 a oedd yn cyfeirio at AWEMA fel sefydliad 'risg uchel'. Dywedodd Dr Austin wrthym ei bod o'r farn bod y sylwadau hyn yn 'extremely prejudicial'.

**3.20** Pan godwyd y pryderon hyn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud ynghylch rhoi'r gorau i ariannu AWEMA cyn cwblhau adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol. Tan hynny, roedd yr holl opsiynau ynghylch ariannu AWEMA yn y dyfodol wedi bod ar gael. Cafodd y penderfyniad i roi'r gorau i ariannu AWEMA, yn seiliedig ar gasgliad cyffredinol adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, ei wneud a'i gyfleu i AWEMA ar 9 Chwefror 2012. Yn bendant, nid oedd gan AWEMA fawr o ddewis ond rhoi'r gorau i weithredu ar ôl i Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr roi'r gorau i'w ariannu. Ni chafodd Llywodraeth Cymru unrhyw ddeialog gydag AWEMA ynglŷn â'i hymateb i adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol cyn hysbysu AWEMA o'i phenderfyniad i roi'r gorau i'w hariannu.

## Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddwyn ynghyd swyddogion allweddol mewn ffordd effeithiol i reoli ei hymateb i'r sefyllfa yn AWEMA er ei bod, i raddau, yn ymdrin â sefyllfa nas gwelwyd o'r blaen a bu'n rhaid defnyddio adnoddau staffio a oedd wedi cael eu neilltuo at waith arall

**3.21** Fel y nodwyd ym mharagraff 3.9, gweithredodd Llywodraeth Cymru yn gyflym wrth gydgysylltu ymateb trawsadrannol i'r honiadau a gafwyd gan Gyfarwyddwr Cyllid AWEMA (Mr Saquib Zia) ar 19 Rhagfyr 2011. Parhaodd y camau trawsadrannol hyn drwy gydol mis Ionawr 2012 ond fe'u ffurfiolwyd ar ddechrau mis Chwefror 2012 pan wnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd Gyfarwyddwr Llywodraethu Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gydgysylltu camau gweithredu yn y dyfodol, gan gynnwys datblygu ac arwain Gweithgor Gorchwyl a Gorffen. Prif amcanion y grŵp, a wnaeth gyfarfod 13 o weithiau rhwng 10 Chwefror 2012 a diwedd mis Gorffennaf 2012, oedd diogelu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i gyfranogwyr ym mhrosiectau AWEMA a ariannwyd gan WEFO hyd y gellir a sicrhau bod y swm mwyaf o arian cyhoeddus yn cael ei ad-dalu gan AWEMA.

**3.22** Un o brif dasgau'r grŵp oedd sicrhau nad oedd rhagor o arian cyhoeddus yn cael ei ddyrannu o gyfrif banc AWEMA ac nad oedd asedau ansicredig yn cael eu cymryd (er enghraifft, offer cyfrifiadurol/allweddi adeiladau/llyfrau siec). Ceisiodd Llywodraeth Cymru sicrwydd gan Gadeirydd AWEMA (Dr Rita Austin) a wnaeth gadarnhau bod camau yn cael eu cymryd i ddiogelu asedau a chael gafael ar liniadur ac offer arall oddi wrth Mr Zia. Cadarnhaodd Dr Austin hefyd fod llyfrau siec ym meddiant llwyr un o reolwyr cyllid dros dro AWEMA ac nad oedd unrhyw sieciau ar goll neu heb eu cofnodi.

3.23 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cydnabod, er gwaethaf peth profiad blaenorol, eu bod hefyd, i raddau, yn ymdrin â sefyllfa nas gwelwyd o’r blaen. Er enghraifft, tra bod Llywodraeth Cymru wedi, yn flaenorol, gyflawni rôl credydwr mewn sefyllfaoedd ansolfedd, mae o’r farn bod yr achos hwn yn anghyffredin am fod Llywodraeth Cymru yn ceisio adennill peth arian grant domestig ac Ewropeaidd (lle talwyd arian grant Ewropeaidd ymlaen llaw) ac mai hi oedd y credydwr mwyaf o bell ffordd. Am y rheswm hwnnw, penododd Llywodraeth Cymru gyfreithiwr a oedd yn arbenigo mewn ymgyfreitha masnachol i ymuno â’i Gweithgor Gorchwyl a Gorffen. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, hyd at ddiwedd mis Mehefin 2012, iddi wario £13,170 ar y cyngor cyfreithiol allanol hwn (yn cynnwys TAW).

3.24 Gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru geisio nodi faint o amser staff a dreuliwyd mewn ymateb i’r sefyllfa yn AWEMA. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif i’r amser staff a dreuliwyd tan ddiwedd mis Mehefin 2012 gyfateb i tua 315 diwrnod gwaith (heb gynnwys WEFO). Mae’r amcangyfrif hwn yn cynnwys yr amser a dreuliwyd yn hwyluso ein gwaith ein hunain[93]. Mae’r ffigur a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â swyddogion o’i His-adran Cynllunio Strategol a Chydraddoldebau, Gwasanaethau Cyfreithiol, Gwasanaethau Archwilio Mewnol ac Is-adran yr Ysgrifennydd Parhaol. Mae WEFO wedi dynodi na all gyfrifo amcangyfrif digon dibynadwy. Fodd bynnag, mae’r adnoddau a ddefnyddiwyd, er enghraifft drwy ei gwaith Arolygu a Gwirio Prosiectau ychwanegol (paragraffau 2.114 i 2.119), yn ei gwaith i ddatblygu trefniadau olynol ar gyfer prosiectau AWEMA (paragraffau 3.40 i 3.48) ac i helpu ein gwaith archwilio ein hunain, wedi bod yn sylweddol yn amlwg. Pe na bai Cadeirydd AWEMA a rhai o’r ymddiriedolwyr eraill wedi parhau yn eu swyddi er mwyn goruchwylio’r broses o ddirwyn yr elusen i ben yn briodol, byddai gofynion posibl ar adnoddau Llywodraeth Cymru ei hun wedi bod yn fwy.

3.25 Bu effaith ar gyflawni gwaith arall Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod yn rhaid gohirio adolygiad arfaethedig o grantiau a oedd yn ymwneud â sgiliau polisi a pholisi a chyflenwi gan yr uned cydraddoldebau. Mae WEFO wedi nodi bod y gofynion ychwanegol ar ei Thîm Arolygu a Gwirio Prosiectau wedi peri oedi wrth gwblhau gwaith arall.

## Er nad yw canlyniad y broses ddiddymu yn hysbys eto, mae’n glir na fydd Llywodraeth Cymru yn adennill y rhan fwyaf o’r £545,966 y mae bellach yn credu sy’n ddyledus gan AWEMA

### Yn dilyn gwaith paratoi AWEMA ar gyfer ei hawliadau terfynol i WEFO, a gwaith pellach gan Dîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i’r casgliad bod £545,966 yn ddyledus iddi gan AWEMA, er bod AWEMA yn anghytuno â’r swm hwnnw

3.26 Wrth geisio diogelu arian cyhoeddus a sicrhau mai dim ond at y diben cywir y defnyddiwyd arian grant, ysgrifennodd Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Chydraddoldeb Llywodraeth Cymru at Gadeirydd AWEMA (Dr Rita Austin) ar 9 Chwefror 2012 yn nodi na ddylai arian grant gael ei ddefnyddio i wneud unrhyw daliadau pellach oni bai bod Llywodraeth Cymru yn awdurdodi hynny[94]. Mae Dr Austin wedi dweud wrthym, pan

93 Nid yw Llywodraeth Cymru yn gweithredu system cofnodi amser ac felly amcangyfrifon gorau yw unrhyw ffigurau sydd a wnelo ag amser staff.

94 Roedd y llythyr hwn, ynghyd â llythyr arall a anfonwyd yr un diwrnod gan Brif Weithredwr WEFO, hefyd yn cadarnhau’r penderfyniadau i roi diwedd ar yr arian.

gafodd y llythyr hwn, ar 10 Chwefror 2012, iddi geisio eglurhad ynghylch yr hyn a oedd yn wariant angenrheidiol yn nhyb Llywodraeth Cymru, yn enwedig gan fod angen prosesu'r gyflogres. Mewn llythyr arall, a anfonwyd ar 10 Chwefror 2012 ac a dderbyniwyd gan Gadeirydd AWEMA ar 13 Chwefror 2012, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Chydraddoldeb nad oedd yn fwriad i'r cyngor hwn gyfyngu ar allu AWEMA i dalu gweithgareddau costau rhedeg arferol.

**3.27** Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru gyngor cyfreithiol a chytunodd mai'r camau gweithredu gorau oedd sefydlu'r prif hawliad, a oedd yn ymwneud ag arian WEFO, cyn gynted â phosibl. Ysgrifennodd cynghorydd cyfreithiol allanol Llywodraeth Cymru at Dr Austin ar 22 Chwefror 2012 gan amlinellu, ar yr adeg honno, fod WEFO wedi nodi y gallai fod £564,985 yn ddyledus iddi o ran y tri phrosiect yr oedd yn eu hariannu.

**3.28** Fodd bynnag, nid oedd y disgrifiad o'r ddyled yn y llythyr yn glir ac roedd yn rhannol anghywir. Ni nododd y llythyr yn glir fod y symiau y dywedwyd eu bod yn ddyledus o hyd ar gyfer pob prosiect yn cynnwys y gwahaniaeth rhwng cyfanswm y grant a gafodd AWEMA a'r gwariant cymwys a hawliwyd dros oes lawn y prosiectau. Yn lle hynny, rhoddodd y llythyr yr argraff fod y ddyled yn ymwneud â thaliadau penodol ar gyfer y tri phrosiect ar 28 Hydref 2011, 19 Rhagfyr 2011 ac 20 Rhagfyr 2011 yn y drefn honno. Ni chafwyd taliad ym mis Hydref 2011 ac felly roedd y cyfeiriad at y fath daliad yn anghywir.

**3.29** Yn ôl y llythyr, roedd AWEMA wedi torri telerau ac amodau grant, ac roedd yr arian a ddaliwyd mewn perthynas ag arian grant WEFO yn cael ei ddal gan AWEMA ar ymddiriedolaeth ac y dylid ei gadw ar wahân i arian arall. Nid ymatebodd Dr Austin i'r llythyr hwn, er iddi ddweud wrthym nad oedd WEFO byth wedi nodi'n flaenorol ddynodi arian WEFO fel arian ymddiriedolaeth ac nid ydym wedi gweld unrhyw gofnodion sy'n awgrymu mai dyna'r achos. Mae hefyd wedi dynodi y byddai ceisio ad-dalu unrhyw arian i WEFO ar yr adeg honno wedi mynd yn groes i'r cyngor roedd yn ei gael ynghylch proses ddyledus a byddai wedi tanseilio gallu AWEMA i ddwyn ei gweithrediadau i derfyn trefnus.

**3.30** Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru gyngor cyfreithiol pellach ac anfonodd y cynghorydd cyfreithiol allanol lythyr arall at AWEMA ar 2 Mawrth 2012 a wnaeth:

- **a** fynnu bod y ddyled o £546,985, a nodwyd yn y llythyr dyddiedig 22 Chwefror 2012, yn cael ei had-dalu ar unwaith;
- **b** nodi bod WEFO o'r farn bod £140,000 ar ôl yng nghyfrif banc AWEMA a gofyn am iddo gael ei dalu i WEFO ar unwaith fel rhandaliad tuag at y ddyled gyfan;
- **c** ailadrodd na ddylai arian WEFO gael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben heblaw am yr hyn a nodwyd yn nhelerau ac amodau'r grant.

**3.31** Nid ad-dalwyd yr arian ac, ar 15 Mawrth 2012, anfonodd cynghorydd cyfreithiol Llywodraeth Cymru[95] ddadansoddiad at ymarferwyr ansolfedd AWEMA o'i phrawf o ddyled o ran arian yr uned cydraddoldebau a WEFO. Roedd y llythyr eglurhaol yn bygwth cymryd camau cyfreithiol pellach i sicrhau'r ad-daliad, fel sy'n arferol gan gredydwyr yn

95 Cadarnhaodd AWEMA benodiad ei hymarferwyr ansolfedd yng nghyfarfod y bwrdd ar 27 Chwefror 2012.

achos ansolfedd. Anfonwyd y llythyr hwn ar 15 Mawrth, cyn cynnal cyfarfod credydwyr arfaethedig ar 16 Mawrth 2012. Ar yr adeg honno nododd Llywodraeth Cymru fod y ddyled yn £907,340[96], yn cynnwys:

- **a** Y ffigur a nodwyd yn flaenorol sef £564,985.
- **b** Drwy waith cychwynnol ei Thîm Arolygu a Gwirio Prosiectau, amcangyfrifodd WEFO ar yr adeg honno y gallai fod £201,095 arall o wariant anghymwys nas nodwyd mewn hawliadau blaenorol.
- **c** £140,261 mewn perthynas ag arian gan yr uned cydraddoldebau. Mae'r swm hwn yn cynrychioli'r holl daliadau arian craidd a grantiau untro bach eraill a dalwyd gan yr uned cydraddoldebau i AWEMA ers mis Ebrill 2010. Dadleuodd Llywodraeth Cymru fod AWEMA wedi torri'r contract, am iddi fethu â chyflwyno cyfrifon ar gyfer 2010-11 erbyn diwedd 2011. Nid oedd telerau ac amodau grant WEFO ag AWEMA yn cefnogi'r un ddadl o ran ei harian Ewropeaidd.

**3.32** Mae AWEMA yn dadlau ynghylch hawliad Llywodraeth Cymru o ran arian yr uned cydraddoldebau ac mae wedi cyflwyno gwrth-hawliad am ei harian craidd ar gyfer ail a thrydydd chwarter 2011-12 a hyd at 29 Chwefror 2012. Mae'r hawliad hwn yn cyfateb i £69,065. Mae AWEMA hefyd yn honni bod £1,000 arall yn ddyledus iddi gan yr uned cydraddoldebau. Mae a wnelo hyn ag arolwg a gynhaliwyd gan yr uned cydraddoldebau ynghylch profiadau a rhwystrau'r rheini â 'nodweddion a ddiogelir' o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd AWEMA wedi cyflwyno anfoneb am £1,000 ar gyfer ei gwaith yn hyrwyddo'r holiadur a chael ymatebion, yn fuan cyn i Lywodraeth Cymru atal taliadau yn dilyn yr honiadau a gafwyd ym mis Rhagfyr 2011. Roedd yr uned cydraddoldebau wedi nodi y byddai swm bach o arian ar gael i dalu am gynnal rhai digwyddiadau penodol/grwpiau ffocws neu o bosibl i dalu am gostau yr aethpwyd iddynt wrth gael unigolion i ymateb i'r arolwg. Er i'r uned cydraddoldebau dderbyn tua 50 o ymatebion drwy law AWEMA, ni chafodd yr uned unrhyw dystiolaeth gan AWEMA o ran y costau a oedd ynghlwm wrth gael unigolion i ymateb. Ar y sail honno dywedodd yr uned cydraddoldebau wrthym nad oedd y swm o £1,000 yn gymwys am daliad, ym marn yr uned.

**3.33** Hefyd ar 15 Mawrth 2012, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Dr Austin, yr ymarferwyr ansolfedd, ac un o'r ddau gyfrifydd a gafodd eu penodi gan AWEMA i lunio a chysoni cofnodion ariannol AWEMA. O safbwynt Llywodraeth Cymru, diben y cyfarfod hwnnw oedd[97]:

- **a** pennu pwy oedd y credydwyr eraill a'r posibilrwydd o ddod i gytundeb â hwy;
- **b** ystyried sefyllfa'r ymarferydd ansolfedd o ran honiad Llywodraeth Cymru mai arian WEFO a ddaliwyd ar ymddiriedolaeth oedd yr arian yng nghyfrif banc AWEMA yn ei hanfod (paragraff 3.29);
- **c** cadarnhau gwerth y gwaith a wnaed gan yr ymarferwyr ansolfedd hyd y pwynt hwnnw.

**3.34** Yn y cyfarfod, amlinellodd yr ymarferwyr ansolfedd eu bwriad i neilltuo £30,000 o gronfeydd AWEMA i dalu eu ffioedd. Hefyd, dynododd yr ymarferwyr ansolfedd mai Llywodraeth Cymru oedd y credydwr mwyaf ac y byddai'n debygol o gael £84,000 o'r £142,136 a oedd yn dal i fod yng nghyfrif banc AWEMA ar yr adeg honno.

96 Mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys hawliad datganedig Llywodraeth Cymru am £180,575 y nodwyd ganddi fel y balans yng nghyfrif banc AWEMA ar 9 Chwefror 2012.

97 Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym mai ar 12 Mawrth 2012 y dylai'r cyfarfod hwn fod wedi cael ei gynnal ond bod AWEMA wedi ei ohirio. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym i'w llythyr i AWEMA ar 15 Mawrth 2012 gael ei grybwyll yn y cyfarfod ond nad dyma oedd prif ddiben y cyfarfod na ffocws y drafodaeth.

3.35 Er mwyn cael amser i ystyried cynigion Llywodraeth Cymru, gohiriodd yr ymarferwyr ansolfedd gyfarfod y credydwyr a gynlluniwyd ar gyfer 16 Mawrth 2012. Hefyd, cytunodd yr ymarferwyr ansolfedd na fyddai'r arian yng nghyfrif banc AWEMA yn cael ei ddefnyddio heblaw'r materion y cytunwyd arnynt yn flaenorol a'r costau a oedd yn gysylltiedig â chynnal a chadw swyddfeydd AWEMA. Roedd hynny nes i lys benderfynu ar berchenogaeth y cronfeydd hyn neu nes i AWEMA a Llywodraeth Cymru ddod i gytundeb ynghylch pwy oedd yn berchen ar yr arian, p'un bynnag oedd yn digwydd gyntaf. Yn y cyfamser, ceisiodd Llywodraeth Cymru gyngor gan ei chynghorydd cyfreithiol allanol a bargyfreithiwr arbenigol ynghylch p'un a ellid dweud bod arian WEFO wedi'i ddal ar ymddiriedolaeth. Awgrymodd y cyngor hwnnw ei bod yn fwy tebygol na pheidio y câi'r achos ei ennill. Fodd bynnag, roedd pryder amlwg y gallai costau achos llys ar y ddwy ochr fod yn fwy nag unrhyw arian a gâi ei adennill.

3.36 Yn seiliedig ar y dadansoddiad cost a budd a ddarparwyd gan y cynghorydd cyfreithiol allanol, ar 2 Mai 2012 penderfynodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru beidio â dadlau ymhellach ynghylch arian a ddaliwyd ar ymddiriedolaeth. Yn lle hynny, tybiodd Llywodraeth Cymru sefyllfa credydwr ansicredig. Mae Dr Austin wedi sôn wrthym am yr amser a gymerwyd i wneud y penderfyniad hwn, a'r effaith ddilynol o ran yr amser a dreuliwyd gan y diddymwyr ar y mater hwn a'r costau cyfreithiol cysylltiedig i Lywodraeth Cymru.

3.37 Galluogodd yr hawliadau terfynol a baratowyd gan AWEMA WEFO i bennu fod £301,614 yn ddyledus iddi o ran tri phrosiect y Rhaglen Gydgyfeirio. Roedd y ddyled hon yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng taliadau grant WEFO, gan gynnwys blaendaliadau, a gwariant hawliedig AWEMA tan 29 Chwefror 2012. Fodd bynnag, mae swm terfynol y gwariant anghymwys a nodwyd pan gwblhawyd adolygiad y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau o hawliadau AWEMA ar gyfer y cyfnod ers mis Ebrill 2010 (paragraffau 2.114 i 2.121 a Ffigur 7) wedi cynyddu'r ddyled £104,091 arall i £405,705.

3.38 Nid yw'r sefyllfa o ran arian yr uned cydraddoldebau wedi newid, o safbwynt Llywodraeth Cymru nac AWEMA (paragraffau 3.31 i 3.32). Gan ystyried bod y £140,261 o arian uned cydraddoldebau y mae'n credu ei fod yn ddyledus iddi yn cyfateb i gyfanswm y ddyled, o safbwynt Llywodraeth Cymru, o £545,966.

## Mae hawliadau Llywodraeth Cymru lawer yn uwch na'r symiau sydd ar gael i ad-dalu credydwyr AWEMA

3.39 Mae proses ddiddymu AWEMA yn dal i fynd rhagddi ac nid yw gwerth terfynol yr asedau sydd ar gael i dalu hawliadau credydwyr, na gwerth llawn yr hawliadau hynny, yn sicr o hyd. Beth bynnag fo'r canlyniad, mae'n amlwg y bydd gwerth terfynol yr asedau sydd ar gael i dalu hawliadau credydwyr yn llawer is na chyfanswm gwerth y ddyled a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Hyd yn oed wedyn, bydd credydwyr dewisol - heb gynnwys Llywodraeth Cymru - a fydd yn cael hawlio asedau AWEMA gyntaf a chredydwyr ansicredig eraill a fydd hefyd yn cael cyfran o'r asedau.



## Mae WEFO wedi sefydlu trefniadau olynol ar gyfer prosiectau Rhaglen Gydgyfeirio AWEMA ac er mwyn sicrhau y gallai partneriaid AWEMA barhau i'w cyflawni dewisodd WEFO eu diogelu rhag colledion sy'n deillio o ansolfedd AWEMA

**3.40** Wrth gyhoeddi, ar 9 Chwefror 2012, benderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i ariannu AWEMA, nododd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt) yn glir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyfranogwyr ym mhrosiectau'r Rhaglen Gydgyfeirio cyhyd â phosibl. Gan adlewyrchu'r ymrwymiad hwn, roedd WEFO eisoes wedi cysylltu â phartneriaid AWEMA ym mhrosiectau'r Rhaglen Gydgyfeirio i ystyried pa drefniadau amgen y gellid eu rhoi ar waith petai arian AWEMA yn dod i ben. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd cyfarfod â'r partneriaid ar 14 Chwefror 2012 ac mae WEFO, ers hynny, wedi gweithio'n agos gyda'r sefydliadau hynny i ddatblygu prosiectau olynol (Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru; Sova – a fu gynt yn gweithredu o dan yr enw Supporting Others through Volunteer Action hefyd: YMCA Cymru; YMCA Abertawe; Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd; a Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Abertawe).

**3.41** Sefydlodd WEFO linell gymorth ddynodedig i roi cymorth a chyngor i gyfranogwyr unigol. Mae WEFO wedi cadarnhau na chafodd, mewn gwirionedd, unrhyw alwadau i'r llinell gymorth gan gyfranogwyr prosiectau[98]. Mae WEFO wedi priodoli hyn i'r ffaith bod prosiectau yn dal i gael eu cyflawni drwy'r sefydliadau partner.

**3.42** Ar 12 Mawrth 2012, dywedodd WEFO wrth bartneriaid prosiectau AWEMA fod ganddynt y ddau opsiwn canlynol o ran hawliadau ar gyfer talu am eu gweithgareddau rhwng 1 Medi 2011 a mis Chwefror 2012:

- **a** parhau i gyflwyno'r hawliadau i AWEMA a'u bod yn destun y broses ddiddymu; neu
- **b** dynnu'r hawliadau yn ôl, gyda WEFO wedyn yn cynnig ymdrin â hwy fel hawliadau ôl-weithredol a bod prosiectau olynol yn cael eu cymeradwyo.

**3.43** Tynnodd yr holl bartneriaid eu hawliadau am daliadau gan AWEMA yn ôl. Roedd WEFO wedi pennu y byddai'r cynnig hwn yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddai'r partneriaid yn parhau'n hyfyw yn ariannol ac y byddent felly yn parhau i gyflawni'r prosiectau, er bod hynny ar eu menter eu hunain yn y byrdymor. Am nad yw'r partneriaid wedi cyflwyno hawliadau ar gyfer y cyfnod mis Medi 2011 i fis Chwefror 2012 drwy AWEMA, mae'r ddyled y mae WEFO wedi nodi ei bod yn ddyledus iddi gan AWEMA (y gwahaniaeth rhwng taliadau grant WEFO a swm yr hawliadau grant cymwys) yn uwch nag a fyddai wedi bod fel arall. Mae WEFO yn cydnabod na fydd yn adennill yr holl arian sy'n ddyledus iddi gan AWEMA i helpu i wrthbwyso hawliadau partneriaid prosiect ar gyfer y cyfnod hwnnw.

**3.44** Bydd cyfraniad grant WEFO tuag at gostau prosiect hawliedig y partneriaid hefyd yn uwch nag a fyddai wedi bod o dan y trefniadau blaenorol. Y rheswm dros hynny yw bod canran yr holl gostau prosiect i'w talu drwy arian grant - yn hytrach nag arian cyfatebol y partneriaid - yn uwch nag yr oedd yn flaenorol ar gyfer pob prosiect[99].

98 Roedd y llinell gymorth wedi cael ei hyrwyddo ar wefan WEFO a thrwy safle Trydar. Fel arall, roedd WEFO yn dibynnu ar y partneriaid prosiect i dynnu sylw cyfranogwyr at y llinell gymorth.

99 Oherwydd y gyfradd arian cyfatebol fwy ffafriol, nid yw WEFO wedi gorfod ystyried, ar ran y partneriaid prosiect, y posibilrwydd o arian cyfatebol arall gan Lywodraeth Cymru.

**3.45** Mae WEFO wedi asesu cynigion gan YMCA Abertawe, Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd a Sova i arwain y prosiectau olynol. Mae WEFO wedi cynnal gweithdai gyda'r nod o feithrin cydberthnasau gwaith effeithiol a dibynadwy rhwng y partneriaid; gwneud pob partner yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau; a helpu i egluro rhai o'r agweddau mwy technegol ar arian Ewropeaidd, megis cwblhau a chyflwyno hawliadau am daliadau. Mae'r tri phrosiect hyn wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol bellach (Ffigur 8) ac mae amcanion a modelau cyflawni'r prosiect yn aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth.

**Ffigur 8 - Trefniadau olynol ar gyfer prosiectau Rhaglen Gydgyfeirio UE AWEMA**

| | Cynyddu Cyflogaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, Ymdrin ag Anweithgarwch Economaidd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig[1] | Gwella Sgiliau a Chynyddu Dyheadau Pobl Ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig II[2] | Minorities are Wales' Resources (2) |
|---|---|---|---|
| Partner arweiniol | Sova | YMCA Abertawe | Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd |
| Cyfanswm y grant a gynigiwyd | £0.9 miliwn | £1.18 miliwn | £1.48 miliwn |
| Cyfanswm costau'r prosiect | £1.12 miliwn | £1.40 miliwn | £1.76 miliwn |
| Dyddiad cymeradwyo | 20 Gorffennaf 2012 | 5 Gorffennaf 2012 | 10 Awst 2012 |
| Hyd y prosiect | Medi 2011 i Fehefin 2013 | Medi 2011 i Fedi 2013 | Medi 2011 i Fehefin 2014 |

Nodiadau

1 Olynu prosiect 'Black and Minority Ethnic Employment for All' AWEMA.

2 Olynu prosiect 'Young Black and Minority Ethnic People Aiming High' AWEMA.

*Ffynhonnell: WEFO.*

**3.46** Mae Tîm Arfarnu Ariannol WEFO wedi cynnal arfarniadau ariannol o bob partner prosiect. Ystyriodd yr arfarniadau hyn y ffordd y cyfrifwyd costau prosiectau ac ymarferoldeb ariannol cyffredinol pob partner prosiect, o ran eu llifau arian parod a ragamcanwyd yn ystod oes y prosiectau. Er mwyn cyflymu'r broses arfarnu, ni wnaeth y Tîm Arfarnu Ariannol lunio adroddiad ffurfiol yn pennu canlyniadau ei arfarniad. Yn lle hynny, rhoddodd y Tîm Arfarnu Ariannol ei adborth i staff datblygu prosiectau mewn cyfres o e-byst. Daeth y Tîm Arfarnu Ariannol i'r casgliad, er mwyn i'r prosiectau fod yn hyfyw yn ariannol, y bydd angen i noddwyr y prosiectau (noddwyr arweiniol a noddwyr ar y cyd) gael blaendaliadau.

**3.47** Mae adroddiadau ar benderfyniadau ariannu WEFO ar gyfer y prosiectau olynol yn gwneud sylwadau ar risgiau penodol i'r prosiectau nad oeddent wedi ymddangos – ond gellid dadlau y dylent fod wedi ymddangos – yn y dogfennau cyfatebol ar gyfer y prosiectau gwreiddiol a arweiniwyd gan AWEMA. Er enghraifft, cydnabu'r adroddiadau ddibyniaeth y prosiectau ar amser gwirfoddolwyr fel arian cyfatebol, a'r angen i sicrhau bod prosiectau yn gallu sicrhau'r lefel arfaethedig o amser gwirfoddolwyr a chofnodi amser gwirfoddolwyr yn gywir. At hynny, mae'r adroddiadau ar benderfyniadau ariannu yn cydnabod bod rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â gallu'r sefydliadau partner i gyflawni'r prosiectau. Noda'r adroddiadau y bydd angen i WEFO fonitro'r prosiectau'n fanwl.

**3.48** Mae swyddogion WEFO wedi tanlinellu eu bod wedi gweithio'n fwy agos gyda'r partneriaid prosiect arfaethedig, wrth ddatblygu'r prosiectau olynol, nag y byddai wedi'i wneud fel arfer. Er ein bod wedi cael peth adborth cadarnhaol ynghylch y ffordd y mae WEFO wedi gweithio gyda'r partneriaid prosiect i sefydlu trefniadau olynol, mae rhai o'r partneriaid wedi sôn wrthym am faint o amser a gymerwyd i wneud hyn a faint o waith oedd dan sylw sydd wedi rhoi pwysau ar eu hadnoddau eu hunain.

## Mae WEFO ac uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru wedi cymryd amrywiaeth o gamau o ran diwydrwydd dyladwy eu harian i sefydliadau eraill

**3.49** Mewn ymateb i'r anawsterau a gafwyd gydag AWEMA, mae WEFO wedi cynnal adolygiad ehangach o'i defnydd o flaendaliadau i sefydliadau yn y trydydd sector. Dangosodd y gwaith hwnnw fod rhai sefydliadau yn cael eu talu ymlaen llaw er nad oedd unrhyw angen ariannol amlwg am flaendaliad[100]. Mae 'Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector' Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o flaendaliad, ond dim ond lle y caiff angen ariannol clir ei gadarnhau. Roedd WEFO wedi bod yn gweithio ar sail y dybiaeth y byddai angen blaendaliad ar sefydliadau yn y trydydd sector yn awtomatig. Yn dilyn ei hadolygiad, mae WEFO wedi gwneud nifer o newidiadau i'w phrosesau ar gyfer cymeradwyo blaendaliadau. Yn sgil gwaith ei 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwersi a Ddysgwyd', mae WEFO hefyd wedi cadarnhau rhai trefniadau diwygiedig i fonitro prosiectau a phrosesu hawliadau (Ffigur 9).

100 Mae WEFO wedi adolygu 16 o sefydliadau yn y trydydd sector sy'n derbyn blaendaliadau, er mwyn asesu a oes angen y blaendaliadau hyn arnynt. Nid oedd yr adolygiad hwn wedi cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), sy'n derbyn £8 miliwn o'r £11 miliwn o flaendaliadau a dalwyd gan WEFO i sefydliadau yn y trydydd sector. Dywedodd WEFO wrthym nad oedd wedi cynnwys CGGC yn y tymor byr gan fod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ehangach o'i harian i CGGC. Yn annibynnol ar y sefyllfa gydag AWEMA, mae Canolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r holl gynlluniau grant a reolir gan Lywodraeth Cymru. Tynnodd yr adolygiad hwn sylw at anghysondeb yn y modd y caiff blaendaliadau eu trin. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu templed y mae angen i sefydliadau yn y trydydd sector ei gwblhau er mwyn dangos yr angen am flaendaliadau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn trafod â'r Gronfa Loteri Fawr a'r Comisiwn Elusennau drefniadau am ymateb cydgysylltiedig i bryderon ynghylch materion a all godi mewn perthynas â chyrff eraill.

**Ffigur 9 - Camau gweithredu a nodwyd gan WEFO o ran blaendaliadau a diwydrwydd dyladwy cyffredinol wrth reoli'r broses o ariannu sefydliadau eraill**

Blaendaliadau:

- Mae WEFO wedi diwygio canllawiau sy'n nodi lle mae prosiect newydd am hawlio blaendaliadau rhaid iddo gael ei atgyfeirio am asesiad o angen at ei Thîm Arfarnu Ariannol. Mae WEFO hefyd yn creu swydd ychwanegol o fewn y Tîm Arfarnu Ariannol.
- Bydd WEFO bellach yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw benderfyniad cychwynnol ar yr egwyddor o dalu sefydliad ymlaen llaw gael ei gymeradwyo gan ei Dirprwy Gyfarwyddwr, Perfformiad a Chyllid Rhaglenni, gyda'r un gymeradwyaeth mewn egwyddor yn ofynnol lle mae sefydliadau eisoes yn cael blaendaliadau ac yn gallu dangos angen.
- Lle na all sefydliadau sy'n cael blaendaliadau ar hyn o bryd ddangos angen, mae WEFO yn bwriadu cytuno ar ostyngiad graddol yng ngwerth blaendaliadau, i lawr i ddim.
- Lle gall sefydliad ddangos yr angen am flaendaliadau, bydd yn destun rheolaethau llymach drwy'r llythyr cynnig ariannu. Er enghraifft, gofyn am i gronfeydd gael eu dal ar ymddiriedolaeth mewn cyfrif banc ar wahân efallai.
- Caiff cymal newydd ei gyflwyno yn llythyrau 'cynnig grant' WEFO, sy'n gosod rhwymedigaeth ar noddwr arweiniol i drosglwyddo cronfeydd a gafwyd gan WEFO i drydydd partïon heb unrhyw oedi diangen.

Monitro prosiectau a phrosesu hawliadau

- bydd yn rhaid i bob sefydliad yn y trydydd sector a'r sector preifat sy'n cael blaendaliadau bellach gyflwyno cyfrifon rheoli bob chwe mis;
- caiff cwmpas y gwaith a wneir gan Dîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO ei ehangu i ystyried y modd y gweithredir rheolaethau ariannol cyffredinol, yn ogystal â'r llwybrau archwilio sy'n ategu hawliadau;
- wrth brosesu hawliadau am daliadau, bydd tîm taliadau WEFO, ar sail sampl, yn cynnal gwiriadau pellach o ddogfennau ffynhonnell, er enghraifft, gofyn am gopïau o anfonebau ardystiedig a chyfriflenni banc er mwyn cadarnhau taliadau.

**3.50** Mae WEFO hefyd wedi nodi'r angen i wella ei systemau cyfathrebu ag adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru. Mae WEFO wedi dweud wrthym ei bod yn bwriadu diweddaru ei rhestr wirio ar gyfer arfarnu prosiectau er mwyn sicrhau, lle y bo'n berthnasol, fod ei swyddogion yn cysylltu â'r adran sy'n bennaf cyfrifol am reoli cydberthynas Llywodraeth Cymru â sefydliadau y mae'n ystyried eu hariannu. Nodwn, fodd bynnag, nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddull cyfredol o nodi pa adran ddylai fod yn gyfrifol am reoli cydberthnasau yn y fath fodd.

**3.51** Ar 29 Chwefror 2012, amlinellodd uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ei chynlluniau ar gyfer ymarfer diwydrwydd dyladwy ehangach o fewn yr holl sefydliadau yn y trydydd sector a ariennir o dan ei dau brif gynllun grant (y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb a'r Grant Cynhwysiant). Yna, ysgrifennodd y Gweinidog at gadeiryddion y sefydliadau perthnasol i geisio sicrwydd bod sefydliadau yn glynu wrth egwyddorion llywodraethu da sefydledig. Yn dilyn y llythyr hwnnw, gofynnodd Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Chydraddoldeb Llywodraeth Cymru am ddogfennaeth ategol.

**3.52** Yn ôl yr uned cydraddoldebau bu ymateb da i'r ymarfer, er i ni gael gwybod bod rhai sefydliadau yn amharod ar y dechrau i adael i Lywodraeth Cymru weld cofnodion cyfarfodydd mewnol perthnasol. Lle mae'r gwaith hwn wedi nodi materion y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach, gwnaed gwaith dilynol arno ar y cyd â Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru. Dywedwyd wrthym fod y gwaith hwn wedi cynnwys deialog ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r sefydliadau hyn.

**3.53** Datblygwyd dull gweithredu'r uned cydraddoldebau gyda chymorth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ac fe'i hadeiladwyd ar fodel a ddefnyddiwyd yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i faterion a godwyd yn ein hadroddiad ym mis Mawrth 2010, sef *Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc*. Fodd bynnag, mae uwch swyddogion sy'n gyfrifol am yr uned cydraddoldebau wedi pwysleisio bod y gwaith wedi gofyn am lawer o adnoddau. Ymhlith y materion a ystyriwyd gan yr ymarfer diwydrwydd dyladwy mae:

- **a** llywodraethu, arwain a rheoli;
- **b** gwrthdaro buddiannau;
- **c** cydberthnasau mewnol a recriwtio staff (ac ymddiriedolwyr/aelodau bwrdd);
- **ch** hyfywedd ariannol, atebolrwydd a rheolaeth, gan gynnwys ystyried cyfrifon archwiliedig;
- **d** cofnodion cyfarfodydd - gan ganolbwyntio'n arbennig ar dystiolaeth o brosesau craffu a gwneud penderfyniadau.

# Atodiad 1 – Dulliau archwilio

## Cwmpas ein gwaith

Mae ein hadolygiad wedi ystyried a yw Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), wedi rheoli ei chydberthynas ag AWEMA yn briodol i ddiogelu arian cyhoeddus a gwneud defnydd da ohono. Rydym wedi edrych ar hanes cyfan y gydberthynas honno o'r adeg y cafodd AWEMA ei chreu yn 1999 hyd at y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i phenderfyniad, ar 9 Chwefror 2012, i roi'r gorau i ariannu AWEMA.

Fel y nodwyd gennym pan ddechreuwyd ar ein gwaith, nid ydym wedi ystyried trefniadau mewnol AWEMA o ran llywodraethu, materion staffio neu reoli ariannol. Y Comisiwn Elusennau, sydd wedi bod yn cynnal ei ymchwiliad ei hun, sy'n gyfrifol am archwilio ymhellach drefniadau llywodraethu AWEMA, yn enwedig gweithredoedd a phenderfyniadau ymddiriedolwyr wrth reoli'r elusen. Ac nid ydym ychwaith wedi ceisio cynnal ein gwerthusiad ein hunain o'r gwaith a gyflawnwyd gan AWEMA gyda chymorth arian Llywodraeth Cymru. Yn hytrach, rydym wedi canolbwyntio ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei chyfrifoldeb o ran bodloni ei hun bod ei harian grant i AWEMA yn rhoi gwerth da am arian, gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i unrhyw bryderon penodol a ddygwyd i'w sylw.

Fel yn achos adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, rydym wedi gochel rhag trafod materion sy'n cael eu harchwilio gan Heddlu De Cymru. Nid ydym wedi ceisio dyblygu'r gwaith a fu'n sail i gyd-adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ym mis Chwefror 2012[101] nac ychwaith y gwaith sydd wedi cael ei wneud ers hynny gan Dîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO (paragraffau 2.114 i 2.121).

Ein prif ffocws oedd y berthynas ariannu rhwng uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru[102] ac AWEMA (sy'n cwmpasu cyfnod llawn ein dadansoddiad), a rhwng WEFO ac AWEMA (a oedd yn cynnwys y swm mwyaf o arian a roddwyd). Fodd bynnag, rydym wedi ystyried y ffordd y mae adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru wedi rheoli arian grant i AWEMA. Rydym hefyd wedi ystyried sut mae gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru wedi rhyngweithio â'i gilydd wrth reoli eu harian grant i AWEMA ac wrth ymateb i bryderon penodol.

## Dadansoddiad o daliadau Llywodraeth Cymru i AWEMA

Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru roi dadansoddiad llawn o'i thaliadau i AWEMA i ni. Drwy wirio'r wybodaeth hon yn erbyn cofnodion eraill Llywodraeth Cymru, rydym wedi llwyddo i greu darlun llawn o gronoleg y taliadau hyn, eu maint a'u diben cyffredinol. Hynny yw, ac eithrio rhai taliadau gwerth isel a wnaed rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2002 (Atodiad 2).

101 Cyd-adroddiad gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr, *A Review of the Effectiveness of Governance and Financial Management within the All Wales Ethnic Minority Association*, 9 Chwefror 2012.

102 Er cysondeb, drwy'r adroddiad hwn i gyd cyfeiriwn at uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r uned sy'n gyfrifol am bolisi cydraddoldeb wedi bodoli o dan enwau gwahanol ers mis Mai 1999 yn sgil amryw ymarferion ailstrwythuro. Mae'r uned wedi cael yr enwau canlynol: Uned Polisi Cydraddoldeb (mis Mai 1999 hyd at ddechrau mis Chwefror 2006); uned cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol (dechrau mis Chwefror 2006 hyd at tua diwedd mis Rhagfyr 2007); Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (mis Ionawr 2008 hyd at fis Ebrill 2009); a'r Is-adran Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant (ers mis Ebrill 2009).

## Adolygiad o gofnodion Llywodraeth Cymru

Rydym wedi adolygu ymhell dros 150 o ffeiliau cofnodedig Llywodraeth Cymru, ond fel mae'n digwydd, nid oedd rhai yn cynnwys unrhyw wybodaeth a oedd yn berthnasol i'n gwaith. Rydym hefyd wedi adolygu amrywiaeth eang o wybodaeth arall ar ffurf electronig a chopi caled a ddarparwyd gan adrannau unigol Llywodraeth Cymru a'r swyddogion y cysylltwyd â hwy'n uniongyrchol wrth i ni ymgymryd â'n gwaith neu wybodaeth a ddaliwyd ar systemau electronig Llywodraeth Cymru.

Ni allwn fod yn sicr i ni adolygu holl ffeiliau Llywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys cofnodion sy'n berthnasol i'w gydberthynas ag AWEMA. Er enghraifft, lle mae AWEMA wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru neu wedi cymryd rhan mewn gweithgorau penodol. Fodd bynnag, rydym yn ffyddiog ein bod wedi adolygu'r holl gofnodion allweddol sy'n bodoli sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli'r arian grant.

Bu ansawdd rhai cofnodion Llywodraeth Cymru yn wael, yn enwedig y ffeiliau sy'n ymwneud â'r gydberthynas rhwng uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ac AWEMA yn ystod y cyfnod rhwng 1999-00 a 2005-06. Er enghraifft, er bod cofnodion ffeiliau yn cyfeirio at gyfarfodydd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a/neu Weinidogion ac AWEMA, nid oeddent o reidrwydd yn cynnwys nodiadau o'r cyfarfodydd hynny. Yn yr un modd, ni lwyddwyd bob amser i ddod o hyd i gopïau o rai cyflwyniadau allweddol i Weinidogion na thystiolaeth, lle bo ei hangen, fod Gweinidogion wedi cymeradwyo eu hargymhellion.

## Adolygiad ehangach o ddeunydd darllen

Nid ydym wedi ymgymryd ag adolygiad ehangach systematig o ddeunydd darllen. Fodd bynnag, er mwyn llywio ein gwaith, rydym wedi adolygu amrywiol ddogfennau sydd ar gael yn gyhoeddus, lle y bo hynny'n berthnasol. Er enghraifft, adroddiadau blaenorol i Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol neu ymatebion gan AWEMA i ymgynghoriadau penodol gan Lywodraeth Cymru, ymchwiliadau gan bwyllgorau ac adolygiadau eraill, gan gynnwys adolygiad Comisiwn Richard, a gyflwynodd ei adroddiad yn ystod gwanwyn 2004, ar bwerau a threfniadau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol.

## Cyfweliadau a gohebiaeth

### Aelodau Cynulliad presennol a chyn-Aelodau Cynulliad

Rydym wedi cysylltu â phob un o'r Gweinidogion cyfredol a'r cyn-Weinidogion a fu'n gyfrifol, ar yr adegau perthnasol, am yr adrannau a roddodd arian Llywodraeth Cymru i AWEMA ac rydym wedi cyfarfod â'r rhan fwyaf ohonynt (Atodiad 5).

Rydym hefyd wedi cyfarfod â Peter Black AC a'r cyn-Aelod Cynulliad, Dr Dai Lloyd, o ystyried eu diddordeb blaenorol mewn materion a oedd yn ymwneud ag arian Llywodraeth Cymru i AWEMA (Atodiad 3, Astudiaethau Achos 4 a 7). Am yr un rheswm, gofynnwyd am adborth gan y cyn-Aelod Cynulliad, David Davies, sydd bellach yn Aelod Seneddol (Atodiad 3, Astudiaethau Achos 3 a 4).

Cyfarfuom â Vaughan Gething AC oherwydd ei ymwneud blaenorol ag AWEMA ar sail wirfoddol fel Cadeirydd ei Phwyllgor Hawl i Bleidleisio (rhwng diwedd 2001 a diwedd 2003). Cyfarfuom hefyd ag Aled Roberts AC a drosglwyddodd i ni bryderon a godwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN).

## Swyddogion presennol a chyn-swyddogion Llywodraeth Cymru

Rydym wedi cael adborth – drwy ohebiaeth, dros y ffôn neu drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb – gan dros 100 o swyddogion presennol neu gyn-swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd ymwneud uniongyrchol y swyddogion hyn ag AWEMA yn amrywio a, hefyd, lefel eu cyfrifoldeb. Dewiswyd yr unigolion roeddem am geisio cysylltu â hwy yn seiliedig ar ein hadolygiad o gofnodion ffeiliau Llywodraeth Cymru, drwy weithredu ar awgrymiadau gan eraill a gyfwelwyd ac o ystyried strwythur trefniadol Llywodraeth Cymru yn gyffredinol.

Nid ydym wedi llwyddo i gysylltu'n uniongyrchol â phob un o gyn-swyddogion Llywodraeth Cymru a nodwyd gennym yn ein hadolygiad o ffeiliau. Yn benodol, hoffem fod wedi trafod rhai o'r materion a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn â chyn-bennaeth yr uned cydraddoldebau (mis Chwefror 2003 i fis Awst 2005), pennaeth dros dro yr uned cydraddoldebau (o ddechrau i ganol 2005) ac un o gyn-benaethiaid cangen Cronfa Gymdeithasol Ewrop WEFO, a oedd, yn 2006, yn ymwneud ag ymatebion WEFO i bryderon am y ffordd roedd AWEMA yn rheoli prosiect Curiad Calon Cymru (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 5).

## Staff ac ymddiriedolwyr presennol a chyn-staff ac ymddiriedolwyr AWEMA

O ystyried ein ffocws ar y ffordd y bu Llywodraeth Cymru yn rheoli ei chydberthynas ag AWEMA, nid ydym wedi ceisio cysylltu â staff nac ymddiriedolwyr AWEMA mewn ffordd systematig. Fodd bynnag, rydym wedi trafod materion â'r Comisiwn Elusennau sydd wedi deillio o'i gyfweliadau ei hun ag ymddiriedolwyr a staff AWEMA ac rydym wedi cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â'r canlynol:

- tri chyn-gadeirydd AWEMA (Dr Rita Austin, yr Athro George Karani a Mr Ahmud Raouf Furreed);
- y cyn-Brif Weithredwr (Mr Naz Malik)[103];
- y cyn-Gyfarwyddwr Cyllid (Mr Saquib Zia);
- y cyn-Is-Gadeirydd (y Cynghorydd Dr Sibani Roy) a gysylltodd â ni yn uniongyrchol;
- y cyn-Drysorydd (Mr Steve Matthews); a
- Mr Ron Davies (cyn-Aelod Cynulliad) – a hefyd un o gyn-ymddiriedolwyr AWEMA a chyn-Gyfarwyddwr Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd.

Er mwyn deall yn well y gwaith a gefnogwyd gan symiau penodol o arian Llywodraeth Cymru neu arian cyhoeddus arall cysylltwyd hefyd â chyn-swyddog datblygu strategaeth tai AWEMA (Atodiad 2), un o gyn-Ysgrifenyddion Cwmni AWEMA ac un o ddau gynghorydd cydraddoldeb hiliol y GIG a gyflogwyd gan Awdurdod Iechyd Bro Taf ond a oedd wedi'u lleoli yn swyddfeydd AWEMA (Atodiad 4).

## Sefydliadau partner AWEMA

Gofynnwyd am adborth gan sefydliadau partner AWEMA, yn benodol, y sefydliadau hynny a weithiodd gydag AWEMA i gyflawni ei phrosiectau a ariannwyd gan WEFO ac ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Wrth gysylltu â'r amrywiol sefydliadau partner, ein prif nod oedd canfod a oedd unrhyw dystiolaeth bod partneriaid erioed wedi codi pryderon am AWEMA â Llywodraeth Cymru. Yn achos y partneriaid a fu'n rhan o brosiectau AWEMA o dan Raglen Gydgyfeirio'r UE, ceisiwyd eu barn hefyd ar y ffordd roedd WEFO wedi ymdrin ag effaith y digwyddiadau diweddar a'r trafodaethau ynglŷn â pharhau i ariannu a chyflawni'r prosiectau hyn. Cyfarfuom â chynrychiolwyr NWREN yn

103 Roedd merch Mr Malik, Ms Tegwen Malik, hefyd yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Roedd Ms Malik wedi'i chyflogi'n Gyfarwyddwr Gweithrediadau AWEMA. Ym mis Mehefin 2001, penodwyd Mr Malik yn ffurfiol gan AWEMA fel ei 'Chyfarwyddwr' ar ôl cyfnod byr fel y Cyfarwyddwr Dros Dro (o fis Ebrill 2001). Rydym ar ddeall i'r swydd hon gael ei chefnogi i ddechrau gan arian y Swyddfa Gartref i AWEMA (Atodiad xx). Yn seiliedig ar gofnodion Llywodraeth Cymru a adolygwyd gennym, newidiodd disgrifiad Mr Malik o'i rôl o Gyfarwyddwr i Brif Weithredwr tua'r adeg y daeth arian y Swyddfa Gartref i AWEMA i ben (30 Medi 2003). Er cysondeb, drwy ein hadroddiad i gyd cyfeiriwn at rôl 'Prif Weithredwr AWEMA'.

bersonol er mwyn ymchwilio i'r pryderon penodol roeddent wedi'u trafod â WEFO yn 2011 (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 8).

## Arianwyr cyhoeddus eraill AWEMA

Drwy adolygu datganiadau ariannol AWEMA, llwyddwyd i nodi amryw ffynonellau eraill o arian cyhoeddus i AWEMA. Lle y bo modd, gofynnwyd am gadarnhad gan yr arianwyr hyn ynglŷn â'r swm o arian dan sylw a'i ddiben. Gofynnwyd hefyd am gadarnhad bod yr arianwyr yn fodlon ar y gwaith a gyflawnwyd gan AWEMA gyda chymorth eu harian (Atodiad 4).

## Sefydliadau ac unigolion eraill

Gofynnwyd am adborth gan amrywiol sefydliadau eraill, er mwyn gweithredu ar faterion a godwyd gan ein hadolygiad o ffeiliau ac mewn cyfweliadau a gohebiaeth arall. Cadarnhaodd rhai o'r sefydliadau hyn yn syml nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth benodol na gwybodaeth ychwanegol i'w dwyn i'n sylw. Cawsom adborth, yn ysgrifenedig neu drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb, gan gynrychiolwyr Cyngor Dinas a Sir Abertawe; Cyngor Sir Caerfyrddin; Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Abertawe; Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe (y Cyngor Cydraddoldeb Hiliol gynt); Gyrfa Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru; Canolfan Cydweithredol Cymru.

Rydym hefyd wedi cyfarfod â'r canlynol:

- un o'r ddau ymarferydd ansolfedd a benodwyd gan AWEMA;
- dau swyddog a benodwyd gan AWEMA ym mis Ionawr 2012 er mwyn helpu i reoli cofnodion ariannol, roedd un ohonynt yn un o gyn-Drysoryddion AWEMA ac yn un o gyn-gyflogeion Llywodraeth Cymru;
- archwilydd allanol AWEMA (Hodge Bakshi Cyf).

# Atodiad 2 – Taliadau uniongyrchol Llywodraeth Cymru i AWEMA a'u diben[1]

| Ffrwd ariannu Llywodraeth Cymru[2] | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 |
|---|---|---|---|---|
| Yr uned cydraddoldebau – Nodi a Datblygu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 24,075 | | | |
| Yr uned cydraddoldebau – Hawl i Bleidleisio[3] | 44,432 | 51,804 | 50,000 | 50,000 |
| Yr uned cydraddoldebau – Hyrwyddo Cydraddoldeb/Meithrin Gallu | | 50,000 | 50,000 | 50,000 |
| Yr uned cydraddoldebau – Arian Craidd[4] | | | | |
| Yr uned cydraddoldebau – Grantiau Untro Bach | | | | |
| Y Sector Gwirfoddol – Cymorth i Wasanaethau Canolraddol Gwirfoddol | 25,000 | | | |
| Yr Is-adran Polisi Economaidd – Pwyllgor Datblygu Economaidd/Swyddog Datblygu Economaidd[5] | | 27,667 | 50,000 | 50,000 |
| Tai - Swyddog Datblygu Strategaeth Tai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | | 15,750 | 51,900 | 52,475 |
| Polisi Gofal Cymdeithasol – Gofalwyr o Grwpiau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig[6] | | | 34,881 | 14,949 |
| Cymunedau yn Gyntaf – Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | | | 54,295 | 217,177 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau – Ymchwil i Ofal Plant Grwpiau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig | | | | |
| WEFO – Rhaglen EQUAL: Curiad Calon Cymru | | | | |
| WEFO – Rhaglen Gydgyfeirio'r UE: Black and Minority Ethnic Employment for All | | | | |
| WEFO – Rhaglen Gydgyfeirio'r UE: Young Black and Minority Ethnic People Aiming High | | | | |
| WEFO – Rhaglen Gydgyfeirio'r UE: Minorities are Wales' Resources | | | | |
| Amrywiol[9] | 650 | 1,275 | 133 | |
| **Cyfanswm** | **94,157** | **146,496** | **291,209** | **434,601** |

**Nodiadau**

1 Gall datganiadau ariannol AWEMA ddangos cyfansymiau gwahanol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan fod y trafodion hyn wedi'u cofnodi, at ddibenion cyfrifyddu, ar sail incwm a gwariant. At hynny, nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys taliadau i AWEMA gan arianwyr cyhoeddus eraill a oedd yn rheoli trefniadau ariannu ar ran Llywodraeth Cymru o bosibl (Atodiad 4).

2 Roedd rhywfaint o'r arian a ddarparwyd gan yr uned cydraddoldebau a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi ategu cyfraniad arian cyfatebol AWEMA tuag at ei phrosiectau a ariannwyd gan WEFO. Darparwyd y swm o £10,000 yn 2007-08 ar gyfer ymchwil i ofal plant grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig hefyd fel arian cyfatebol ar gyfer gwaith a gomisiynwyd gan AWEMA fel rhan o brosiect Curiad Calon Cymru a ariannwyd gan WEFO. O ran ei phrosiectau a ariannwyd gan WEFO, a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, roedd AWEMA yn rheoli cyfanswm cyllid y prosiect ar ran ei phartneriaid. Rhoddwyd taliadau Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol i AWEMA, ond roedd llawer o'r arian hwn yn talu hawliadau a wnaed gan bartneriaid prosiect, gyda'r arian yn cael ei drosglwyddo wedyn gan AWEMA (paragraffau 1.12 i 1.14).

3 Rhoddwyd yr arian prosiect hwn i AWEMA i barhau â phrosiect a reolid gynt gan Cardiff Race Equality First. Cyfanswm yr arian prosiect a roddwyd i Cardiff Race Equality First hyd at fis Ebrill 2000 oedd £45,095.

4 Cronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb (2005-06 hyd at 2009-10) a Chronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb (2010-11 a 2011-12).

| 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | **Total** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | **24,075** |
| 50,000 | | | | | | | | **246,236** |
| 50,000 | | | | | | | | **200,000** |
| | 100,000 | 102,500 | 102,500 | 102,500 | 102,500 | 105,575 | 27,185 | **642,760** |
| | | | | 2,500[7] | 6,535 | 7,500 | | **16,535** |
| | | | | | | | | **25,000** |
| 16,003 | | | | | | | | **143,670** |
| | | | | | | | | **120,125** |
| | | | | | | | | **49,830** |
| 191,826 | 344,619 | 286,576 | | | | | | **1,094,493** |
| | | | 10,000 | | | | | **10,000** |
| | 323,213 | 855,216 | 1,038,451 | 109,525[8] | | | | **2,326,405** |
| | | | | | 909,515 | 100,788 | 394,756 | **1,405,059** |
| | | | | | | 237,788 | 221,361 | **459,149** |
| | | | | | | 206,908 | 182,042 | **388,950** |
| | 10 | | | | | | | **2,068** |
| **307,829** | **767,842** | **1,244,292** | **1,150,951** | **214,525** | **1,018,550** | **658,559** | **825,344** | **7,154,355** |

5 Ym mis Medi 2003, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am reoli'r arian grant hwn o Is-adran Datblygu Economaidd Llywodraeth Cymru i'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau.

6 Bu Uned Polisi Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am reoli'r arian mewn perthynas â gofalwyr ond gwnaed y taliadau o dan delerau ac amodau'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldebau (a reolwyd gan yr uned cydraddoldebau). Trosglwyddwyd yr arian yr oedd ei angen i gefnogi'r gwaith i'r uned cydraddoldebau gan yr Uned Polisi Gofal Cymdeithasol.

7 Gwnaeth yr uned cydraddoldebau ddau daliad ar wahân o £2,500 ym mis Rhagfyr 2008 a mis Ionawr 2009. Ym mis Mai 2009, rhoddodd AWEMA gadarnhad i'r uned cydraddoldebau fod taliad dwbl wedi cael ei wneud at yr un diben ac ad-dalodd AWEMA swm o £2,500 i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2009.

8 Gwnaeth WEFO bedwar taliad i AWEMA ym mis Mai a mis Mehefin 2008 gwerth £212,762 i gyd. Fodd bynnag, taliadau dwbl oedd dau o'r taliadau ym mis Mehefin 2008, am swm o £103,237, gan eu bod wedi'u prosesu'n wreiddiol gan WEFO ym mis Ionawr 2008. Hysbyswyd WEFO am y gordaliad hwn gan AWEMA ar 28 Gorffennaf 2008, ond, er i AWEMA godi'r mater eto, ni chadarnhaodd WEFO fod gordaliad tan 16 Chwefror 2009, pryd yr ad-dalodd AWEMA yr arian. Mae swyddogion WEFO wedi cydnabod eu methiant i weithredu'n amserol ar ôl i AWEMA eu hysbysu am y gordaliad hwn.

9 Credwn fod y taliad o £650 yn 2000-01 yn ymwneud â chyfraniad tuag at ddigwyddiad lansio ar gyfer Pwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA. Nid ydym wedi cadarnhau diben y taliadau eraill. Roedd y swm o £133 yn 2002-03 yn cynnwys dau daliad o £15 a £117.50.

# Arian Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

## Rhaglen EQUAL (2000-2006)

Ar gyfer y cyfnod 2000-2006, arweiniodd Llywodraeth y DU ymwneud Prydain Fawr â Rhaglen Menter Gymunedol EQUAL ledled Ewrop (Rhaglen EQUAL). Roedd Rhaglen EQUAL, a gefnogwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn ariannu gweithgareddau gan bartneriaethau strategol, a elwid yn 'bartneriaethau datblygu'.

Roedd prosiectau a gymeradwywyd o dan Raglen EQUAL wedi'u rhannu'n dri cham, a elwid yn Gam Gweithredu 1, 2 a 3. Fel arfer:

- Roedd Cam Gweithredu 1 yn ceisio cymorth i ddatblygu partneriaethau datblygu a'u cais am grant;
- Roedd Cam Gweithredu 2 yn ceisio cyflawni nodau a chanlyniadau prosiect, ac felly hwn oedd y maes lle roedd angen y cymorth ariannol mwyaf;
- Roedd Cam Gweithredu 3 yn ceisio arfarnu canlyniadau a chyflawniadau prosiect a'u lledaenu a'u 'prif ffrydio'.

O fewn fframwaith Cynllun Menter Gymunedol y DU, yng Nghymru roedd Rhaglen EQUAL yn cael ei goruchwylio gan Bwyllgor Rheoli EQUAL Cymru (WEMC), sef is-grŵp o Bwyllgor Monitro'r DU. O dan y trefniant hwn roedd WEMC yn ystyried ac yn cymeradwyo'n annibynnol brosiectau EQUAL a gyflwynwyd yng Nghymru. Roedd WEMC yn cael ei gadeirio gan un o uwch swyddogion WEFO a swyddogion WEFO oedd yn darparu ei ysgrifenyddiaeth. Roedd gan WEMC 13 o gynrychiolwyr, a oedd yn cynnwys y Cadeirydd a 12 o gynrychiolwyr o'r canlynol:

- TUC Cymru (dau gynrychiolydd)
- Busnes Cymru (dau gynrychiolydd)
- Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
- Comisiwn Hawliau Anabledd
- Comisiwn Cyfle Cyfartal
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Awdurdod Datblygu Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Dysgu ac Addysgu Cymru
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru

AWEMA a arweiniodd y gwaith o greu Partneriaeth Datblygu 'Curiad Calon Cymru', a oedd yn cynnwys ac yn cefnogi tua 20 o wahanol sefydliadau (gan gynnwys AWEMA)[104]. Roedd tri cham y prosiect yn ymestyn o fis Hydref 2004 hyd at fis Rhagfyr 2007 (Ffigur 10), er i daliadau WEFO gael eu gwneud rhwng mis Medi 2005 a mis Mehefin 2008. Mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu proses ymgeisio ac ariannu EQUAL a oedd yn gofyn am i waith arfarnu ariannol pellach gael ei wneud i gadarnhau'r cynnig o grant ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd gan WEMC. Dim ond ar ôl derbyn cadarnhad ynglŷn â grant y gallai noddwr prosiect o dan EQUAL baratoi a chyflwyno hawliad cyntaf. Roedd yr oedi cyn gwneud taliadau ar ôl i'r prosiect ddod i ben yn ffurfiol yn adlewyrchu'r terfynau amser angenrheidiol ar gyfer paratoi, cyflwyno a phrosesu'r hawliadau terfynol.

Nod cyffredinol Partneriaeth Curiad Calon Cymru oedd gwella rhagolygon cyflogaeth mudwyr a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig drwy wrthsefyll hiliaeth a senoffobia yng Nghymru. Roedd y bartneriaeth yn bwriadu cyflawni'r nod hwn drwy weithgareddau a oedd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r rhwystrau

104 Cyflwynodd AWEMA dri chais arall am symiau llai ar gyfer prosiectau o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn 2004 ond tynnwyd y ceisiadau hyn yn ôl ym mis Hydref 2005. Roedd pob un o'r tri chais yn rhai am arian Amcan 3, a ganolbwyntiodd ar Ddwyrain Cymru.

**Ffigur 10 - Llinell amser a ffeithiau allweddol mewn perthynas â chymeradwyo prosiect 'Curiad Calon Cymru' Rhaglen EQUAL AWEMA gan WEFO**

| | Cam Gweithredu 1 | Cam Gweithredu 2 | Cam Gweithredu 3 |
|---|---|---|---|
| Cyflwynwyd cais | 1 Gorffennaf 2004 | 3 Mehefin 2005 | Gweler y nodyn |
| Cyfanswm y grant y gwnaed cais amdano'n wreiddiol (a chyfanswm gwerth y prosiect gan gynnwys arian cyfatebol) | £58,000 (£117,000) | £2.1 miliwn (£4.1 miliwn) | £225,000 (£449,000) |
| Cymeradwywyd y prosiect gan Bwyllgor Rheoli EQUAL Cymru | 24 Medi 2004 | 17 Mehefin 2005 | Gweler y nodyn |
| Anfonwyd llythyr yn cynnig grant | 29 Gorffennaf 2005 | 12 Rhagfyr 2005 | 31 Gorffennaf 2007 |
| Cyfanswm y grant a gynigiwyd (a chyfanswm gwerth y prosiect gan gynnwys arian cyfatebol) | £58,000 (£117,000) | £2.1 miliwn (£4.1 miliwn) | £225,000 (£449,000) |
| Hyd y prosiect | 1 Hydref 2004 hyd at 30 Mehefin 2005 | 1 Gorffennaf 2005 hyd at 31 Rhagfyr 2007 | 1 Mai 2007 hyd at 31 Rhagfyr 2007 |

Noder

Ar gyfer Cam Gweithredu 3, roedd y 'cais' yn cynnwys cyflwyno 'cytundeb partneriaeth prif ffrydio' a dogfennaeth gysylltiedig. Darparwyd y rhain gan AWEMA ar 4 Ebrill 2007 ac fe'u gwiriwyd at ddibenion ansawdd gan swyddogion WEFO ar 24 Mai 2007. Mae swyddogion WEFO wedi esbonio i ni fod y broses o gymeradwyo Cam Gweithredu 2 gan WEMC yn gyfystyr â chymeradwyo mewn egwyddor Gam Gweithredu 3, o gofio i'r gyllideb ar gyfer Cam Gweithredu 3 gael ei nodi yng ngheisiadau Cam Gweithredu 2. Felly, nid aeth WEFO ati i gynnwys WEMC yn y gwaith o ystyried cynlluniau penodol ar gyfer Cam Gweithredu 3 a'u cymeradwyo'n ffurfiol.

*Ffynhonnell: WEFO.*

i gyflogaeth a wynebai pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig fel y gallent sicrhau cyflogaeth a datblygiad cynaliadwy ar hyd eu dewis lwybr gyrfaol.

Roedd i Raglen EQUAL y DU wyth thema, a elwir yn Themâu A i H. Cymeradwywyd prosiect Curiad Calon Cymru o dan 'Thema B' a oedd â'r nod o wella cyflogadwyedd a gwrthsefyll hiliaeth a gwahaniaethu ym myd gwaith. Yn fwy penodol, ceisiodd Thema B:

- gyflawni gweithgareddau â ffocws i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i'w grymuso i sicrhau a chadw cyflogaeth dros gyfnod a gwneud cyfraniad gwirioneddol i economi Cymru;
- grymuso sefydliadau cymunedol i oresgyn anghydraddoldebau;
- gwella cysylltiadau rhwng sefydliadau cymunedol, y sector gwirfoddol a darparwyr cyhoeddus/preifat prif ffrwd drwy hyrwyddo mwy o gydweithredu;

- llenwi'r bylchau yn y wybodaeth am farchnad lafur grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig i lywio a gwella darpariaeth.

Nodau strategol Partneriaeth Curiad Calon Cymru oedd:

- gwella sefyllfa menywod o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu;
- cefnogi cynhwysiant mudwyr economaidd Ewropeaidd ar wasgar, ffoaduriaid a gweithwyr contract;
- mynd i'r afael â phroblemau ynysu aelwydydd ac unigolion a oedd wedi'u hynysu;
- galluogi pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i sicrhau cyflogaeth a datblygu yn y gwaith;
- meithrin gallu grwpiau cymunedol o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

## Rhaglen Gydgyfeirio'r UE (2007-2013)

Ar gyfer y cyfnod rhaglennu 2007-2013, mae Cymru yn gymwys i gael cymorth Cronfa Strwythurol Ewrop o dair ffynhonnell o arian:

- Cydgyfeirio
- Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol
- Cydweithredu Tiriogaethol

Cyflawnodd AWEMA o dan Raglen Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (Ffigur 11). Hefyd gwnaeth AWEMA ddau gais aflwyddiannus yn y pen draw o dan Raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol Dwyrain Cymru. Cyflwynwyd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer y ceisiadau aflwyddiannus yn 2008 ac roeddent yn seiliedig ar gyflawni drwy bartneriaid.

Mae WEFO wedi dweud wrthym nad oedd y naill gais na'r llall wedi cyrraedd y cam datblygu manwl, a hynny oherwydd diffyg arian cyfatebol a'r ffaith eu bod yn dyblygu gweithgarwch a oedd eisoes yn mynd rhagddo neu a oedd ar y gweill yn y rhanbarth. Ar y cam mynegi diddordeb, roedd AWEMA wedi nodi cyfanswm costau prosiect o £4.5 miliwn a £3.8 miliwn. Roedd yn ceisio arian grant gwerth £1.8 miliwn a £1.5 miliwn yn y drefn honno.

Mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Rhaglenni Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cwmpasu 15 o awdurdodau lleol yn y Cymoedd ac yng Ngogledd a Gorllewin Cymru. Nod y rhaglenni yw hyrwyddo datblygiad economaidd y rhanbarthau hynny o'r Undeb Ewropeaidd lle mae Cynnyrch Mewnwladol Gros y pen islaw 75 y cant o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd.

Nod Rhaglen Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop yw cynyddu cyflogaeth a lefel sgiliau drwy'r rhanbarth drwy:

- helpu pobl i ddechrau gweithio, yn enwedig y rhai sy'n wynebu'r anfantais fwyaf yn y farchnad lafur;
- helpu cyflogwyr a chyflogeion i addasu at ofynion economaidd sy'n newid drwy annog arloesi yn y gweithle a chefnogi datblygiad cyflogeion drwy wella sgiliau seiliedig ar waith;
- mynd i'r afael â gwahaniaethu yn y farchnad waith a'r gweithle drwy helpu'r rhai a fu o dan anfantais yn draddodiadol (er enghraifft, menywod a mudwyr) i gyflawni eu potensial llawn.



**Ffigur 11 - Llinell amser a ffeithiau allweddol mewn perthynas â chymeradwyo prosiectau AWEMA o dan Raglen Gydgyfeirio'r UE**

| | Black and Minority Ethnic Employment for All | Minorities are Wales' Resources | Young Black And Minority Ethnic People Aiming High |
|---|---|---|---|
| Cyflwynwyd datganiadau o ddiddordeb | 6 Chwefror 2008 | 13 Chwefror 2008 | 3 Mawrth 2008 |
| Cyfanswm y grant y gwnaed cais amdano yn y datganiad cychwynnol o ddiddordeb (*a chyfanswm gwerth y prosiect gan gynnwys arian cyfatebol*) | £9.6 miliwn (*£16.5 miliwn*) | £5.4 miliwn (*£9.8 miliwn*) | £5.4 miliwn (*£11.9 miliwn*) |
| Cymeradwywyd y datganiad o ddiddordeb | 7 Gorffennaf 2008 | 14 Medi 2009 | 8 Gorffennaf 2008 |
| Cytunwyd ar y grant mewn egwyddor ar y cam mynegi diddordeb (*a chyfanswm gwerth y prosiect gan gynnwys arian cyfatebol*) | £4.6 miliwn (*£8.3 miliwn*) | £4.0 miliwn (*£6.1 miliwn*) | £4.8 miliwn (*£8.8 miliwn*) |
| Cyflwynwyd y cynllun busnes gwreiddiol | 16 Tachwedd 2008 | 21 Rhagfyr 2009 | 8 Medi 2008 |
| Cyfanswm y grant y gwnaed cais amdano yn y cynllun busnes gwreiddiol (*a chyfanswm gwerth y prosiect gan gynnwys arian cyfatebol*) | £4.5 miliwn (*£8.2 miliwn*) | £4.2 miliwn (*£6.4 miliwn*) | £4.8 miliwn (*£8.8 miliwn*) |
| Cymeradwywyd y prosiect | 16 Ionawr 2009 | 20 Medi 2010 | 20 Medi 2010 |
| Anfonwyd llythyr yn cynnig grant | 28 Ionawr 2009 | 20 Medi 2010 | 20 Medi 2010 |
| Cyfanswm y grant a gynigiwyd (*a chyfanswm gwerth y prosiect gan gynnwys arian cyfatebol*)[1] | £2.2 miliwn (*£3.9 miliwn*)[2] | £1.5 miliwn (*£2.3 miliwn*) | £1.5 miliwn (*£2.2 miliwn*) |
| Hyd y prosiect | Mis Medi 2008 hyd at fis Rhagfyr 2012 | Mis Ebrill 2010 hyd at fis Mehefin 2014 | Mis Ebrill 2010 hyd at fis Mehefin 2013 |

Nodiadau

1 Lleihaodd graddfa ariannol y tri phrosiect hyn, yn rhannol, yn sgil lleihau hyd pob prosiect. Ar y dechrau, roedd AWEMA wedi cynnig y byddai pob prosiect yn para chwe blynedd.

2 Mae'r ffigurau ar gyfer prosiect Black and Minority Ethnic Employment for All yn dynodi'r grant a gynigiwyd a chyfanswm gwerth y prosiect ar adeg y llythyr cynnig grant gwreiddiol. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2011, cadarnhaodd WEFO gyfanswm gwerth prosiect wedi'i ddiwygio, sef £3.8 miliwn, a chynnig grant cyfatebol o £2.1 miliwn ag AWEMA. Fodd bynnag, parhaodd canlyniadau disgwyliedig y prosiect yn ddigyfnewid. Roedd yr ymarfer ailbroffilio hwn wedi dilyn gwaith gan Dîm Arfarnu Ariannol WEFO a oedd wedi ystyried dyraniad rhai costau gorbenion ar gyfer y tri phrosiect (paragraff 2.102).

*Ffynhonnell: WEFO.*

**Ffigur 12 - Cytunwyd ar amcanion a gweithgareddau prosiectau gan WEFO ar gyfer prosiectau AWEMA o dan Raglen Gydgyfeirio'r UE**

| | Amcanion y prosiect | Gweithgareddau'r prosiect |
|---|---|---|
| Black and Minority Ethnic Employment for All | Nod y prosiect oedd gwella rhagolygon cyflogaeth pobl o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig a'u helpu i gael swyddi.<br>Cytunodd WEFO ac AWEMA ar y targedau canlynol dros oes y prosiect:<br>• cael 1,050 o bobl i gymryd rhan;<br>• helpu 263 o bobl i ddechrau gweithio;<br>• helpu 215 o bobl i ymgymryd â dysgu pellach;<br>• helpu 743 o bobl i sicrhau canlyniad cadarnhaol;<br>• helpu 225 o bobl i ennill cymhwyster. | AWEMA oedd y noddwr arweiniol, ond roedd partneriaid y prosiect yn cynnwys: Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd (VALREC); Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc (YMCA) Abertawe; Sova (a fu gynt yn gweithredu o dan yr enw Supporting Others through Volunteer Action); Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig (MEWN) Abertawe.<br><br>O dan y cynllun busnes y cytunwyd arno gan WEFO ac AWEMA roedd partneriaid y prosiect yn ymrwymo i bedwar prif faes o weithgarwch:<br>• Allgymorth: defnyddio rhwydweithiau a oedd yn bodoli eisoes i godi ymwybyddiaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig am gyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys cydgysylltu â chyrff statudol, megis y Ganolfan Byd Gwaith, a hwyluso cymorthfeydd a gwasanaethau galw i mewn lleoliadau gwahanol. Byddai partneriaid y prosiect hefyd yn rhoi cyngor, cwnsela sylfaenol a chymorth i gofrestru ar gyfer cyrsiau hyfforddi a byddent yn cyfeirio pobl at raglenni eraill, megis y Fargen Newydd a Llwybrau at Waith, lle y bo'n briodol.<br>• Mesurau gweithredol yn y farchnad lafur: byddai pobl a oedd yn cymryd rhan yn cael swyddog datblygu/mentor i'w tywys a'u helpu i nodi a datblygu sgiliau i symud yn nes at gyflogaeth a sicrhau cyflogaeth. Er enghraifft, cymorth i chwilio am swydd, llenwi ffurflenni cais a datblygu sgiliau cyfweld a chael profiad drwy wirfoddoli.<br>• Datblygu sgiliau (o sgiliau sylfaenol ymlaen): cyfeirio pobl at asiantaethau prif ffrwd sy'n darparu hyfforddiant priodol; darparu hyfforddiant yn uniongyrchol a thendro am ddarpariaeth newydd lle ceir bylchau yn y ddarpariaeth bresennol, gan gynnwys hyfforddiant arbenigol ar TGCh; llythrennedd; rhifedd; profiad gwaith yn y DU; Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill; grymuso a meithrin hyder.<br>• Strategaethau ymgysylltu â chyflogwyr a chymorth: helpu cyflogwyr i drefnu lleoliadau i wirfoddolwyr a chreu cysylltiadau rhwng cyflogwyr a phobl ddi-waith o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig sy'n meddu ar sgiliau priodol. |

| | Amcanion y prosiect | Gweithgareddau'r prosiect |
|---|---|---|
| Minorities are Wales' Resources | Nod y prosiect oedd darparu hyfforddiant a chymorth i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a mudwyr economaidd Ewropeaidd mewn cyflogaeth, gwella lefelau sgiliau, cadw swyddi a helpu o ran datblygiad gyrfaol.<br>Cytunodd WEFO ac AWEMA ar y targedau canlynol dros oes y prosiect:<br>• cael 2,950 o bobl i gymryd rhan;<br>• helpu 825 o bobl i ymgymryd â dysgu pellach;<br>• helpu 550 o bobl i ennill cymwysterau;<br>• cynorthwyo 60 o gyflogwyr;<br>• helpu 30 o gyflogwyr i fabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro. | AWEMA oedd y noddwr arweiniol, ond roedd partneriaid y prosiect yn cynnwys: VALREC; YMCA Cymru; Sova; a Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN).<br><br>O dan y cynllun busnes y cytunwyd arno gan WEFO ac AWEMA roedd partneriaid y prosiect yn ymrwymo i dri phrif faes o weithgarwch:<br>• Cysylltu â chyflogwyr a chyflogeion ar y dechrau i recriwtio pobl. Byddai gan bob un a oedd yn cymryd rhan gynllun gweithredu unigol, a byddai'r cyflogwr yn cael ei gynnwys hyd yr eithaf.<br>• Darparu hyfforddiant mewn perthynas â sgiliau gwaith cyffredinol a sylfaenol. Er enghraifft, rhifedd, llythrennedd, Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill a hyfforddiant TGCh.<br>• Hyfforddiant galwedigaethol yn sector-benodol – lle y bo modd drwy gyfeirio pobl at ddarparwyr a oedd yn bodoli eisoes, ond fel arall contractio hyfforddiant. Byddai'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn cael dewis: cofrestru ar gyfer cwrs a ddarparwyd yn lleol a chael cymorth tra byddai ar y cwrs hwnnw; hyfforddiant ar safle'r cyflogwr gyda chymorth y cyflogwr ac yn amodol ar alw am dendrau; neu hyfforddiant a ddarparwyd i grŵp o bobl wedi'i reoli drwy'r prosiect ond hefyd yn amodol ar alw am dendrau.<br><br>O dan y cynllun busnes roedd y partneriaid hefyd yn ymrwymo i'r canlynol:<br>• Gweithio gyda chyflogwyr er mwyn: rhoi cyfle i gyflogeion gael hyfforddiant; codi ymwybyddiaeth o arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth; a'u helpu i ddatblygu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth.<br>• Darparu sgiliau hirdymor a chymorth i ddatblygu gyrfa, y tu hwnt i gyfnod hyfforddiant ffurfiol y rhai sy'n cymryd rhan. Er enghraifft, drwy hwyluso sesiynau grŵp i wella sgiliau iaith a hyder; galluogi rhwydweithio a rhoi cyfle i gael cyngor un-i-un.<br>• Cynnal prosiectau ymchwil. Er enghraifft, ystyried anghenion pobl sy'n cyrraedd yng Nghymru neu ystyried defnyddio gwasanaethau cymorth busnes a hyfforddiant gan fusnesau sy'n cael eu rhedeg gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. |

**Ffigur 12 - Parhad**

| | Amcanion y prosiect | Gweithgareddau'r prosiect |
|---|---|---|
| Young Black and Minority Ethnic People Aiming High | Nod y prosiect oedd helpu pobl ifanc o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig a mudwyr economaidd Ewropeaidd i wella eu dysgu ac ennill cymwysterau.<br>Cytunodd WEFO ac AWEMA ar y targedau canlynol dros oes y prosiect:<br>• cael 1,600 o bobl i gymryd rhan;<br>• helpu 900 o bobl i sicrhau canlyniadau cadarnhaol;<br>• helpu 300 o bobl i ymgymryd â dysgu pellach;<br>• helpu 60 o gyflogwyr i gydweithredu â darparwyr dysgu;<br>• helpu un prosiect i fabwysiadu systemau mesur canlyniadau meddal. | AWEMA oedd y noddwr arweiniol, ond roedd partneriaid y prosiect yn cynnwys: VALREC; YMCA Abertawe; Sova; YMCA Cymru; a NWREN.<br>O dan y cynllun busnes y cytunwyd arno gan WEFO ac AWEMA roedd partneriaid y prosiect yn ymrwymo i'r canlynol: cymorth a mentora; hyfforddi; meithrin hyder; lleoliadau gwaith; hyfforddiant cyn cyflogaeth (megis cymorth gyda curriculum vitae, technegau cyfweld a cheisiadau ar-lein); cymorth ieithyddol; cymorth ar ôl yr ysgol; gwirfoddoli; ymweliadau â chyflogwyr a chysgodi swydd.<br>Bwriadwyd i'r pecyn cymorth fod yn unigol i bob un a oedd yn cymryd rhan, wedi'i ategu gan gynllun gweithredu personol. Nod y prosiect oedd recriwtio pobl drwy Gyrfa Cymru a thrwy gydgysylltu rhwng swyddogion prosiect ac ysgolion, colegau, grwpiau ieuenctid a chymunedol a'r gwasanaeth ieuenctid. |

**Ffigur 13 - Cymharu gwariant a pherfformiad prosiect gwirioneddol a disgwyliedig ar gyfer prosiectau AWEMA o dan Raglen Gydgyfeirio'r UE â pherfformiad a ragwelwyd, hyd at fis Rhagfyr 2011[1]**

| Dangosydd | Rhagamcan | Gwirioneddol | Amrywiant o'i gymharu â'r rhagamcan (y cant)[2] |
|---|---|---|---|
| Black and Minority Ethnic Employment for All | | | |
| Cyfanswm costau'r prosiect (yn cynnwys arian cyfatebol) | £2,798,995 | £2,278,628 | -19 |
| Cyfranogwyr | 919 | 1,008 | +10 |
| Cyfranogwyr sy'n dechrau gweithio | 221 | 265 | +20 |
| Cyfranogwyr sy'n ymgymryd â dysgu pellach | 165 | 168 | +2 |
| Cyfranogwyr sy'n cael canlyniad cadarnhaol | 553 | 392 | -29 |
| Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster | 120 | 47 | -61 |
| Young Black and Minority Ethnic People Aiming High | | | |
| Cyfanswm costau'r prosiect (yn cynnwys arian cyfatebol) | £885,711 | £569,699 | -36 |
| Cyfranogwyr | 671 | 475 | -29 |
| Cyfranogwyr sy'n cael canlyniadau cadarnhaol | 246 | 33 | -87 |
| Cyfranogwyr sy'n ymgymryd â dysgu pellach | 82 | 1 | -99 |
| Cyfranogwyr sy'n cydweithredu â darparwyr dysgu | 28 | 0 | -100 |
| Prosiectau sy'n mabwysiadu systemau mesur canlyniadau meddal | 1 | 0 | -100 |

**Ffigur 13 - Parhad**

| Dangosydd | Rhagamcan | Gwirioneddol | Amrywiant o'i gymharu â'r rhagamcan (y cant)[2] |
|---|---|---|---|
| Minorities are Wales' Resources | | | |
| Cyfanswm costau'r prosiect (yn cynnwys arian cyfatebol) | £710,533 | £484,942 | -32 |
| Cyfranogwyr | 891 | 438 | -51 |
| Cyfranogwyr sy'n ymgymryd â dysgu pellach | 228 | 1 | -100 |
| Cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau | 144 | 0 | -100 |
| Cyflogwyr sy'n cael cymorth | 16 | 0 | -100 |

Noder

1 Mae'r ffigurau gwariant a nodwyd yn seiliedig ar wariant cymwys a hawliwyd ac nid blaendaliadau. Fodd bynnag, maent yn cynnwys gwariant prosiect anghymwys a nodwyd gan Dîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO ym mis Mai 2012 (paragraffau 2.114 i 2.121 a Ffigur 7). Mae'r swm nas caniatawyd yn gyfwerth â £169,782 o gyfanswm gwariant y prosiect ar gyfer y tri phrosiect a lleihad o £104,901 yn y grant cymwys a hawliwyd. At hynny, nid yw'r data 'gwirioneddol' a nodwyd gan AWEMA ar gyfer y tri phrosiect yn ystyried gwariant a hawliwyd ac unrhyw wybodaeth am berfformiad wedi'i diweddaru a ddarparwyd gan bartneriaid prosiect AWEMA ers canol mis Medi 2011. Mae'r hawliadau hyn bellach yn rhan o'r trefniadau olynol ar gyfer y tri phrosiect (paragraffau 3.40 i 3.48).

2 Mae WEFO wedi esbonio i ni fod y cynnydd o'i gymharu â'r dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt a'r gwariant disgwyliedig ar gyfer prosiectau Young Black and Minority Ethnic People Aiming High a Minorities are Wales' Resources yn adlewyrchu'r cyfraddau cyflawni arafach yn gyffredinol na'r hyn a ragwelwyd yn ystod camau cynnar gweithredu'r prosiect. Cymeradwyodd WEFO y ddau brosiect ym mis Medi 2010 ac mae wedi pwysleisio bod y ddau brosiect, o fewn y 16 mis cyntaf, wedi dangos eu bod yn llwyddo i gael cyfranogwyr, ond yn arafach na'r proffil. O gymharu â phrosiectau eraill ar draws rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru, nid oedd sefyllfa prosiectau AWEMA yn unigryw o bell ffordd.

*Ffynhonnell: WEFO (yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd/hawliadau a wnaed gan AWEMA).*

## Arian yr uned cydraddoldebau

### Nodi a Datblygu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Cyflwynodd AWEMA ei chais am brosiect i uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2000, ar gyfer prosiect blwyddyn. Prif nod y prosiect hwn oedd nodi a datblygu cronfa ddata o sgiliau, profiadau a swyddogaethau unigolion o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig a sefydliadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru. Roedd y cais, a awdurdodwyd ar ran AWEMA gan Gyfarwyddwr y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (Cymru) ar y pryd, yn ceisio swm o £24,075 tuag at gyfanswm costau prosiect amcangyfrifedig o £48,150. Nododd y cais y byddai'n helpu i gyflogi ymchwilydd ac y byddai'r gwaith yn cyflawni'r nodau ehangach canlynol:

- nodi pobl o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig a sefydliadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru;
- datblygu cronfa ddata o sgiliau, profiadau a swyddogaethau unigolion o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig a sefydliadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- nodi pobloedd sy'n meddu ar gymwysterau priodol i ymgynghori â hwy ar holl bolisïau'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n effeithio ar gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig;
- galluogi rhyngweithio rhwng sefydliadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a sicrhau cytundeb ar y ffordd ymlaen;
- drwy well dealltwriaeth ymhlith llunwyr polisïau o faterion sy'n effeithio ar bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gwella ansawdd bywyd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru.

Cymeradwyodd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Edwina Hart) yr arian a ddyfarnwyd i AWEMA ym mis Gorffennaf 2000, sef ar yr un adeg ag y cymeradwyodd y Gweinidog grantiau cyffelyb (rhwng £20,000 a £25,000) ar gyfer prosiectau a ddatblygwyd gan Anabledd Cymru, Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru a Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru. Roedd yr uned cydraddoldebau wedi gwahodd ceisiadau am brosiectau a fyddai, yn gyffredinol, yn gwella ei deialog â grwpiau dan anfantais gyda'r nod o gyfrannu tuag at ddatblygu polisi ac yn gyffredinol godi proffil grwpiau y nodwyd ar y pryd eu bod yn cael eu tangynrychioli. Darparwyd yr arian o 'Gronfa Datblygu Prosiectau' Hyrwyddo Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru.

Roedd yr uned cydraddoldebau yn disgwyl i sefydliadau nodi eu harian cyfatebol eu hunain ar gyfer y prosiectau hyn, yn hytrach na thalu'r gost lawn. Dywedwyd bod y cyfraniadau o arian cyfatebol a nodwyd yng nghais AWEMA yn gyfraniadau o grantiau o ffynonellau eraill, megis y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Cyngor Cydraddoldeb Hiliol, ochr yn ochr â chyfraniad o gostau gorbenion craidd yn deillio o'r ffaith y byddai'r prosiect yn cael ei leoli yn swyddfa'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.

## Hyrwyddo Cydraddoldeb/Meithrin Gallu

Fel rhan o'i chylch cynllunio cyllidebol yn 2000, nododd uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru y byddai'n darparu cronfa o £250,000 ar gyfer mentrau i hyrwyddo cydraddoldeb yn 2001-02. Roedd yr arian hwn yn parhau â darpariaeth y Gronfa Datblygu Prosiectau ar gyfer 2000-01 a gefnogodd brosiect Nodi a Datblygu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac yn ehangu arni. Nododd yr uned cydraddoldebau hefyd y byddai'r ymrwymiad ariannu hwn yn para hyd at ddiwedd 2003-04.

Ym mis Mai 2001, gwnaeth AWEMA gais am £50,000 y flwyddyn dros dair blynedd (er i ddadansoddiad manwl o gostau prosiect yn ei dogfen gais wneud cyfanswm o £153,500). Nid oedd llawer o fanylion yn y ddogfen gais er bod y prif gostau yn ymwneud â chyflogi swyddog cyhoeddusrwydd a chyfathrebu a swyddog meithrin gallu, ochr yn ochr â chyfraniad at orbenion. Nid oedd y ddogfen gais yn cynnwys amcanion penodol. Cais ydoedd am gymorth i barhau â'r gwaith yr oedd AWEMA eisoes wedi dechrau arno i geisio datblygu a grymuso rhwydweithiau cymunedol i ymgysylltu'n effeithiol â'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei feysydd polisi amrywiol a'i bwyllgorau pwnc cysylltiedig.

Cymeradwywyd cais AWEMA gan y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Edwina Hart) ym mis Gorffennaf 2001. Dengys cofnodion ffeil Llywodraeth Cymru i'r cais gael ei gymeradwyo yn sgil cyfarfod rhwng y Gweinidog, swyddog o'r uned cydraddoldebau a Phrif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik). Nid ydym wedi gweld unrhyw nodyn o'r cyfarfod hwnnw. Cytunodd y Gweinidog ar yr un lefel o arian i Anabledd Cymru, Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru a Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru dros dair blynedd. Cytunodd y Gweinidog hefyd ar grant o £25,000 ar gyfer 2001-02 i gefnogi'r Fforwm Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol, gyda'r bwriad o roi arian pellach os tybid bod y prosiect yn llwyddiannus. Ar gyfer 2002-03 a 2003-04, cynyddodd yr uned cydraddoldebau ei harian i'r Fforwm Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol i £50,000 y flwyddyn.

Roedd yr uned cydraddoldebau yn disgwyl i sefydliadau ddangos yr un ymrwymiad ar ffurf arian parod neu arian cyfatebol mewn da. Roedd cais AWEMA yn llai penodol yn hyn o beth na cheisiadau'r sefydliadau eraill a gafodd arian. Fodd bynnag, nododd y byddai'r prif gostau gorbenion yn cael eu talu drwy arian craidd AWEMA gan y Swyddfa Gartref. Cyfeiriodd hefyd at gyfraniadau mewn da gwerth dros £30,000 ond ni roddwyd manylion. Nododd y ddogfen gais fod arian y Swyddfa Gartref (Atodiad 4) ond wedi cael ei neilltuo hyd at ddiwedd 2002-03.

Ym mis Chwefror 2002, rhoddodd yr uned cydraddoldebau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Gweinidog am y cynnydd a wnaed gan bob un o'r pedwar sefydliad cydraddoldeb a oedd yn derbyn arian, gyda'r argymhelliad, a dderbyniwyd, y dylai'r arian barhau, wedi'i ategu gan adroddiadau cynnydd blynyddol ac adroddiad terfynol ym mis Ebrill 2004. Mae paragraff 2.22 yn esbonio estyniad yr arian hwn yn ystod 2004-05.

## Prosiect Hawl i Bleidleisio

Roedd y prosiect Hawl i Bleidleisio yn ymwneud â'r canlynol:

- lleihau nifer y bobl o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig nad oedd wedi'u cofrestru i bleidleisio;
- cynyddu nifer y bobl o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig sy'n pleidleisio;
- cynyddu nifer y bobl o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig sy'n sefyll etholiad mewn llywodraeth leol;
- cynyddu nifer y bobl o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig sy'n ymuno â phleidiau gwleidyddol neu sy'n weithgar ynddynt;
- gweithio tuag at sicrhau Aelod Cynulliad o'r boblogaeth ddu a lleiafrifoedd ethnig.

Cafodd y prosiect ei oruchwylio gan y Cyngor Cydraddoldeb Hiliol yn wreiddiol a'i leoli gyda Cardiff Race Equality First. Roedd Uned Ddatganoli Llywodraeth Cymru wedi darparu £50,000 o arian ar gyfer mis Mawrth i fis Rhagfyr 1999. Daeth yr uned cydraddoldebau yn gyfrifol am oruchwylio'r prosiect ar ran Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 1999, ar ôl i'r Uned Ddatganoli gael ei diddymu. Ym mis Mawrth 2000, cyflwynodd Cadeirydd Cardiff Race Equality First ar y pryd, gais am arian i Lywodraeth Cymru am dair blynedd arall o fis Ebrill 2000, gwerth cyfanswm amcangyfrifiedig o £166,000. Nid ydym wedi gweld copi o'r cais hwnnw.

Gofynnodd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Edwina Hart) i uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru pam nad oedd y cais am arian estynedig wedi cael ei wneud fel rhan o'r broses gyllidebol flaenorol. Dywedodd yr uned cydraddoldebau wrth y Gweinidog nad oedd yr angen am ragor o arian yn gwbl amlwg ar y pryd, bod y prosiect Hawl i Bleidleisio yn un buddiol ac y byddai penderfyniad i beidio â pharhau â'r arian yn tanseilio'r hyn a gyflawnwyd gan y gwaith hyd hynny. Rydym hefyd wedi gweld gohebiaeth rhwng swyddogion yng nghanol mis Chwefror 2000 lle nododd pennaeth yr uned cydraddoldebau fod y cyn-Brif Ysgrifennydd (Alun Michael) wedi cydnabod yn gyhoeddus yn flaenorol fod angen i barhau i roi cymorth. Nododd pennaeth yr uned cydraddoldebau 'there were therefore some real downside risks in ruling out further support'.

Cymeradwyodd y Gweinidog yr arian ym mis Ebrill 2000 ac anfonodd yr uned cydraddoldebau lythyr cadarnhau ffurfiol i AWEMA ym mis Mehefin 2000. Rywbryd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2000, trosglwyddodd y prosiect o Cardiff Race Equality First i AWEMA (yr oedd Cyfarwyddwr Race Equaity First ar y pryd hefyd yn Gadeirydd AWEMA bryd hynny) Cyfanswm yr arian prosiect a roddwyd i Cardiff Race Equality First hyd at fis Ebrill 2000 oedd £45,095.

Wrth neilltuo hyd at £55,000 ar gyfer 2000-01 – dim ond £44,432 a hawliwyd gan AWEMA – pwysleisiodd yr uned cydraddoldebau fod arian ar gyfer 2001-02 a 2002-03 yn amodol ar berfformiad boddhaol. Cysylltodd yr uned cydraddoldebau ag AWEMA ym mis Mai 2001 i nodi y byddai angen cyflwyno adroddiad cynnydd a chyllideb ar gyfer 2001-02 er mwyn cael y rhandaliad cyntaf ar gyfer 2001-02. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i berfformiad y prosiect gael ei asesu'n ffurfiol yn 2000-01, er yr ymddengys bod yr uned cydraddoldebau wedi ymwneud yn fanwl â'r prosiect yn ystod y cyfnod. Ac nid ydym ychwaith wedi gweld unrhyw asesiad ffurfiol nag argymhellion gan y Gweinidog i gadarnhau y dylai'r arian blynyddol o £50,000 barhau ar gyfer 2002-03 a 2003-04. Mae paragraff 2.22 yn esbonio estyniad yr arian hwn yn ystod 2004-05.

Ym mis Rhagfyr 2001, yn sgil ymadawiad swyddog prosiect Hawl i Bleidleisio gwreiddiol AWEMA, sefydlodd bwyllgor prosiect newydd. Tan ddiwedd 2003, cafodd y pwyllgor hwn ei gadeirio ar sail wirfoddol gan Vaughan Gething (Aelod Cynulliad Llafur ers mis Mai 2011). Mae Mr Gething wedi pwysleisio i ni ei fod pwyllgor y prosiect yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pedair prif blaid yng Nghymru.

## Arian Craidd – Cronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb, 2005-06 hyd at 2009-10

Mae paragraffau 2.26 i 2.64 yn ystyried y ffordd y rheolai uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru arian i AWEMA ar ôl diwedd 2004-05. Nid yw cefndir llawn penderfyniad yr uned cydraddoldebau i barhau i ariannu AWEMA ar ôl 2004-05 yn eglur. Fodd bynnag, roedd yr arian a ddarparwyd ar gyfer 2005-06 (£100,000) – a barhaodd ar lefel debyg yn y blynyddoedd dilynol – yn llai na'r hyn yr oedd AWEMA yn gobeithio ei dderbyn. Ym mis Rhagfyr 2004, ysgrifennodd Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) a Chadeirydd AWEMA ar y pryd (Dr Rita Austin) at Gyfarwyddwr Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cymru ar y pryd (a oedd yn gyfrifol bryd hynny am yr uned cydraddoldebau) yn nodi eu dymuniad i sicrhau arian yn y dyfodol i barhau â'r prosiect Hawl i Bleidleisio a'r prosiect Meithrin Gallu. Awgrymodd y llythyr gan Mr Malik a Dr Austin eu bod am gael cytundeb lefel gwasanaeth gwerth £130,000 y flwyddyn i dalu am gostau gweithredu craidd.

Yn ystod y cyfnod ariannu hwn, cytunodd AWEMA ar raglen waith â'r uned cydraddoldebau ar sail flynyddol. Fodd bynnag, cydnabu'r uned cydraddoldebau hefyd y câi rhywfaint o'i harian ei ddefnyddio i dalu am gostau gweithredu craidd yn ogystal â darparu arian cyfatebol, ar wahanol adegau, i helpu AWEMA i gyflawni prosiectau a ariannwyd gan WEFO. Roedd ymrwymiad mewn egwyddor cychwynnol yr uned cydraddoldebau i roi arian wedi bod am y tair blwyddyn ariannol gyntaf o'r cyfnod hwn. O ran y sefydliadau cydraddoldebau eraill a oedd yn derbyn arian craidd o'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb, parhaodd yr uned cydraddoldebau i roi arian ar sail drosiannol drwy 2008-09 a 2009-10 tra roedd yn gwneud trefniadau i gyflwyno'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb newydd.

## Arian Craidd – Cronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb, 2010-11 a 2011-12

Mae paragraffau 2.65 i 2.76 yn ystyried yn fanylach sut y cafodd yr arian hwn ei reoli. Yn 2009, gwahoddodd uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru sefydliadau i wneud ceisiadau cystadleuol am arian ar gyfer blwyddyn, dwy flynedd neu dair blynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2010-11 a 2012-13 o gronfa gwerth £1 filiwn y flwyddyn i gyd. Roedd AWEMA wedi gwneud cais am £417,272 dros y tair blynedd, ond dyfarnwyd £326,321, mewn egwyddor, gan yr uned cydraddoldebau. Er hynny, y swm hwn oedd y grant mwyaf a ddyfarnwyd i unrhyw un o'r 12 sefydliad a fu'n llwyddiannus yn y cylch ymgeisio hwn, a hynny o £30,000 y flwyddyn o leiaf.

Roedd arian yr uned cydraddoldebau yn cyfrif am arian craidd costau staff a gorbenion cysylltiedig ond roedd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer arian cyfatebol AWEMA ar gyfer prosiectau a ariannwyd gan WEFO. Cyflwynodd AWEMA gais o dan y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb ym mis Tachwedd 2009. Bryd hynny, dim ond un o dri phrosiect AWEMA o dan Raglen Gydgyfeirio'r UE a oedd wedi cael ei gymeradwyo gan WEFO (Black and Minority Ethnic Employment for All). Fodd bynnag, mae'n glir bod ymrwymiad yr uned cydraddoldebau i roi'r arian hwn hefyd yn ffactor allweddol a alluogodd AWEMA i ddangos bod gan AWEMA arian cyfatebol ar gyfer y prosiect hwn ac ar gyfer y ddau brosiect arall a gymeradwywyd gan WEFO ym mis Medi 2010 (Ffigur 11).

Er i'r uned cydraddoldebau gytuno ar ddangosyddion perfformiad penodol a oedd yn gysylltiedig â'i harian, roedd y rhain, a'r amcanion yr oeddent yn ymwneud â hwy, yn gysylltiedig yn uniongyrchol â phrosiectau AWEMA a ariannwyd gan WEFO. Yn wahanol i'r trefniadau blaenorol o dan y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb, ni wnaeth yr uned cydraddoldebau bennu unrhyw ddisgwyliadau penodol ac ar wahân ei hun. Yr amcanion a nodwyd gan yr uned cydraddoldebau oedd y dylai AWEMA:

- helpu pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i wella eu rhagolygon cyflogaeth a sicrhau swyddi;
- cynyddu cyfraddau gweithgarwch economaidd ymhlith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- gwella rhagolygon cyflogaeth drwy allgymorth, mesurau gweithredol yn y farchnad lafur, hyfforddiant sgiliau, chwilio am waith a chyflogaeth ac ymgysylltu â chyflogwyr;
- ategu'r ddarpariaeth statudol ac ychwanegu gwerth ati ac ymestyn gwasanaethau i grwpiau nad ydynt yn gallu, neu nad ydynt wedi'u grymuso ar hyn o bryd, i fanteisio ar y ddarpariaeth hon;
- mynd i'r afael â thangyflawniad ymhlith pobl ifanc sydd hefyd yn wynebu'r risg o fod yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant);
- cefnogi pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a mudwyr economaidd Ewropeaidd sydd mewn cyflogaeth lefel isel ond sy'n meddu ar sgiliau lefel uchel.

## Grantiau Untro Bach

### Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mawrth 2009 (*£2,500*)

Trefnodd AWEMA un o nifer o ddigwyddiadau i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (roedd uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru wedi bod yn cefnogi digwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod bob blwyddyn ers 2004). Thema'r digwyddiad, a gynhaliwyd mewn gwesty yn Abertawe oedd 'Bridging the Generation Gap'. Cyflwynodd AWEMA adroddiad i'r uned cydraddoldebau ar gynnwys y digwyddiad a'r fwydlen. Cafodd ceisiadau am arian eu graddio a'u canlyniadau eu cymeradwyo gan y Dirprwy Weinidog dros Adfywio ar y pryd (Leighton Andrews). Dirprwywyd y penderfyniad i gymeradwyo gan y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Dr Brian Gibbons) am fod rhai o'r sefydliadau a oedd wedi gwneud cais am arian yn dod o'i etholaeth.

### Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mawrth 2011 (*£2,500*)

Trefnodd AWEMA un o nifer o ddigwyddiadau i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Cafodd ceisiadau am arian (o gronfa gwerth £30,000 i gyd) eu sgorio gan banel asesu a chymeradwywyd y canlyniadau gan y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Carl Sargeant). Nododd AWEMA y byddai ei digwyddiad yn dathlu menywod o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig ledled y byd sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol, gyda'r cinio yn y nos yn ymgorffori pytiau o ffilm a sesiynau microffon agored. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod yr uned cydraddoldebau wedi derbyn adroddiad ar ganlyniadau'r digwyddiad gan AWEMA yn unol â'r gofynion a nodwyd yn ei llythyr cynnig grant. Ac nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth ychwaith bod yr uned cydraddoldebau wedi gofyn i AWEMA gydymffurfio â'r gofyniad i gyflwyno adroddiad.

### Cronfa Meithrin Gallu Llywodraeth Cymru/y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar y cyd (*£5000*)

Ym mis Chwefror 2011, rhoddodd uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru gadarnhad i AWEMA fod ei chais am £5,000 o'r gronfa hon wedi bod yn llwyddiannus. Amlinellodd cais AWEMA gynlluniau ar gyfer gweithdai ar y cyd â naw sefydliad partner arall i godi ymwybyddiaeth o'r agenda cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, ochr yn ochr â digwyddiad terfynol i Gymru gyfan. Cyfeiriodd cais AWEMA hefyd at ddarparu tudalen benodol ar wefan AWEMA a rhoi hyfforddiant i bobl i'w hannog i gymryd rhan mewn pwyllgorau rheoli. Cafodd y ceisiadau am arian eu sgorio gan banel asesu a chymeradwywyd y canlyniadau gan y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Carl Sargeant). Er bod y ddogfen gais yn disgrifio'r allbynnau/canlyniadau a ddisgwylir gan yr arian grant hwn, a dalwyd ym mis Chwefror 2011 yn fuan ar ôl i'r uned cydraddoldebau anfon ei llythyr cynnig grant i AWEMA, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod yr uned cydraddoldebau wedi derbyn adroddiad dilynol, yn unol â'r gofyniad pan gynigiodd ei grant.

### Digwyddiadau Untro 2009-10 (*£2,625 a £3,610*)

Yn 2009-10, gofynnodd uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru am geisiadau untro ar gyfer prosiectau/ digwyddiadau bach er mwyn: diwallu anghenion pobl sy'n wynebu gwahaniaethu lluosog yn eu bywydau bob dydd; galluogi pawb i gyflawni ei botensial drwy leihau a/neu ddileu rhwystrau; a, thrwy gymryd rhan mewn gwaith llunio polisïau, eu galluogi i gael gafael ar wasanaethau y byddent yn ei chael hi'n anodd eu cael fel arall. Ar ddiwedd mis Hydref 2009, gwrthododd yr uned cydraddoldebau ddau gais ar wahân gan AWEMA, ar ôl iddi hefyd wrthod cais gan AWEMA y mis hwnnw ar gyfer digwyddiad i ddathlu

Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2010. Cysylltodd Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) â'r uned cydraddoldebau i holi ynghylch y meini prawf ar gyfer asesu pob un o'r tri chais, gan awgrymu hefyd y byddai, o bosibl, yn ysgrifennu at y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Dr Brian Gibbons) ynglŷn â'r mater. Roedd Mr Malik yn pryderu am y cynsail y gallai hyn ei gosod o ran cais arfaethedig AWEMA o dan y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb ar gyfer 2010-11 i 2012-13 ac y gallai effeithio ar allu AWEMA i sicrhau arian gan WEFO.

Ar ddechrau mis Tachwedd 2009, hysbysodd yr uned cydraddoldebau AWEMA ei bod yn ystyried ymhellach y ceisiadau a oedd ond wedi methu â bodloni'r meini prawf o drwch blewyn. Cyflwynodd AWEMA geisiadau diwygiedig ar gyfer digwyddiadau yn y Gogledd ac yn Abertawe. Gwnaeth gais am £2,925 a £3,610 am y naill ddigwyddiad a'r llall ac anfonodd yr uned cydraddoldebau lythyr cynnig grant i AWEMA ar 23 Tachwedd 2009, a gwnaed y taliadau ganol mis Rhagfyr 2009. Nid ydym wedi gweld unrhyw gofnodion pellach ar ffeil sy'n ymwneud â'r defnydd o'r grantiau, er enghraifft unrhyw adroddiadau prosiect penodol a gyflwynwyd gan AWEMA. Fodd bynnag, mae adroddiad ymddiriedolwyr AWEMA ar gyfer 2009-10 yn nodi i'r arian hwn gefnogi digwyddiadau codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â chynigion AWEMA ar gyfer canolfan gymunedol amlddiwylliannol yn Abertawe a'i phrosiectau o dan Raglen Gydgyfeirio'r UE.

## Arian arall gan Lywodraeth Cymru

### Is-adran y Sector Gwirfoddol – grant Cymorth i Wasanaethau Canolraddol Gwirfoddol

Dengys cofnodion Llywodraeth Cymru iddi wneud ei thaliad uniongyrchol cyntaf i AWEMA ar 25 Gorffennaf 2000. Y taliad hwnnw, sef £8,333, oedd y taliad cyntaf o dri rhandaliad am yr un swm rhwng mis Gorffennaf 2000 a mis Ionawr 2001 o grant 'Cymorth i Wasanaethau Canolraddol Gwirfoddol' Llywodraeth Cymru. Dim ond ychydig o dystiolaeth ddogfennol a welsom mewn perthynas â'r arian grant hwn. Yn ôl pob golwg, bwriadwyd iddo dalu am rai costau sefydlu cychwynnol ac i barhau ag ychydig o'r gwaith cynnar a wnaed o dan faner AWEMA yn gyffredinol. Digwyddodd hyn yn ystod y cyfnod pan oedd AWEMA yn cael ei sefydlu fel cwmni yn ei rhinwedd ei hun.

Nod y rhaglen grant hon oedd cefnogi sefydliadau gwirfoddol o natur gyffredinol neu ganolraddol, ac a oedd yn cwmpasu Cymru gyfan, yn darparu ystod eang o wasanaethau i'r sector gwirfoddol yn gyffredinol neu ran helaeth ohono. Bwriadwyd i'r grant ariannu sefydliadau a fyddai wedyn yn cyfrannu at feithrin gallu yn fwy cyffredinol ymhlith cyrff eraill yn y sector gwirfoddol.

Nid ydym wedi gweld dogfen gais AWEMA, ond nododd cyflwyniad i'r Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd (Jane Hutt) ym mis Mawrth 2000 fod AWEMA wedi gwneud cais am £50,000 o gymorth, ond bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnig hanner y swm hwn oherwydd pe bai wedi cynnig mwy ni fyddai ymgeisydd newydd arall wedi cael arian o dan y rhaglen neu ni fyddai'r rhai a oedd eisoes yn derbyn grant wedi cael unrhyw gynnydd yn y swm a roddwyd iddynt.

Ym mis Mai 2000, mewn cyflwyniad i'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Edwina Hart) nodwyd nad oedd yr Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn fodlon bod y rhaglen grant hon yn addas ar gyfer AWEMA a'i bod am i ffynonellau eraill o arian gael eu hystyried. Nododd y cyflwyniad fod Mrs Hart yn rhannu'r pryder hwnnw. Yn y cyflwyniad disgrifiwyd aelodaeth AWEMA a nodwyd ychydig o wybodaeth am ei gwaith cynnar. Nododd hefyd yr ymgynghorwyd ag Adran Gyllid a Swyddfa Gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru a'u bod yn fodlon. Ar ddechrau mis Mehefin 2000, cadarnhaodd Mrs Hart ei bod yn fodlon cynnig arian.

## Yr Is-adran Polisi Economaidd – Cymorth i Bwyllgor Datblygu Economaidd/Swyddog Datblygu Economaidd AWEMA

Ar 5 Hydref 2000, ysgrifennodd Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA i Lywodraeth Cymru yn gofyn am £340,169 fel cyllideb ddatblygu i gefnogi gwaith y pwyllgor hwnnw. Roedd hynny yng nghyswllt nod y pwyllgor i chwarae rhan ystyrlon yn y ddadl ar bolisïau economaidd Llywodraeth Cymru a oedd yn cael eu datblygu ac i hyrwyddo buddiannau economaidd cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig. Roedd y cais am arian yn nodi manylion costau a oedd yn gysylltiedig â chyflogi tri swyddog, ynghyd â chyfraniadau at orbenion eraill, am gyfnod o dair blynedd hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2003. Ni roddodd unrhyw fanylion penodol am y gwaith y byddai'r swyddogion hyn yn ei wneud.

Ar 13 Hydref 2000, anfonodd Is-adran Polisi Economaidd Llywodraeth Cymru gyflwyniad i'r Prif Weinidog ar y pryd (Rhodri Morgan) a'r Gweinidog Cyllid ar y pryd (Edwina Hart) a oedd hefyd yn gyfrifol am gydraddoldebau. Argymhellodd y cyflwyniad y dylai'r Gweinidog Cyllid, mewn digwyddiad lansio y diwrnod canlynol lle y byddai'n siarad, gyhoeddi y byddai'r pwyllgor yn cael cymorth. Fodd bynnag, nododd y cyflwyniad hefyd, oherwydd yr awdurdod y bwriadwyd i'r taliadau gael eu gwneud oddi tano, y byddai angen i'r Prif Weinidog gymeradwyo'r cynnig (mewn perthynas â'i gyfrifoldeb ar y pryd am y portffolio datblygu economaidd).

Nododd y cyflwyniad fod swyddogion wedi nodi cynlluniau ar gyfer lefel is o gymorth ariannol, gwerth £166,000 dros dair blynedd. Ymddengys bod y cynnig diwygiedig hwnnw, heb gyfeirio'n ôl at AWEMA, yn seiliedig ar yr hyn y gellid ei ddarparu o fewn cyllidebau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd y cynnig diwygiedig hefyd yn ystyried barn y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol nad oedd AWEMA mewn sefyllfa eto i fanteisio'n llawn ar gyflogaeth tri aelod o staff at y diben a fwriadwyd.

Ddechrau mis Tachwedd 2000, cododd swyddogion o fewn Is-adran Cyllid ac Is-adran Polisi Economaidd Llywodraeth Cymru nifer o bryderon ynglŷn â'r cynnig i roi arian i AWEMA. Ymhlith pryderon y swyddogion roedd:

- diffyg eglurder ynglŷn â diben AWEMA ac, yn benodol, ai grŵp lobïo ynteu grŵp ymgynghori ydoedd;
- a fyddai AWEMA yn cynrychioli pob lleiafrif ethnig a pham y dylai AWEMA gael arian yn hytrach na grwpiau eraill;
- sut y câi perfformiad a llwyddiant AWEMA eu mesur;
- ai ariannu swyddog datblygu economaidd oedd y ffordd fwyaf cost-effeithiol o roi cymorth i Bwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA.

Yn sgil trafodaethau pellach, gan gynnwys cyfraniad gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ar y pryd, ymddengys bod y pryderon hyn wedi'u datrys. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg o'r cofnodion a adolygwyd gennym i ba raddau y cafodd y Prif Weinidog wybod am y pryderon a fynegwyd gan rai swyddogion pan gymeradwyodd yr arian ar 12 Tachwedd 2000. Ar 16 Hydref 2000, roedd y Prif Weinidog wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb Gweinidogol dros ddatblygu economaidd i'r Dirprwy Brif Weinidog newydd a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Mike German). Fodd bynnag, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrth Swyddfa Breifat y Prif Weinidog bod yr awdurdod statudol perthnasol y dyfarnwyd y grant yn

unol ag ef wedi newid ers cyflwyniad 13 Hydref 2000 ac o ganlyniad felly bod angen cymeradwyaeth y Prif Weinidog o hyd. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth y gofynnwyd i Mr German gymeradwyo'r arian.

Roedd swyddogion wedi nodi bod angen paratoi datganiad Sail Resymegol, Amcanion, Arfarnu, Monitro, Gwerthuso (ROAME) ar gyfer y prosiect a sicrhau proses werthuso briodol. Er i'r cofnodion a welsom yn nodi bod datganiad ROAME wedi'i baratoi, nid ydym wedi gweld fersiwn terfynol, na thystiolaeth o gynlluniau ar gyfer gwerthuso.

Ar 20 Tachwedd 2000, ysgrifennodd yr Is-adran Polisi Economaidd at Gadeirydd Pwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA yn cadarnhau ymrwymiad mewn egwyddor o £32,000 ar gyfer 2000-01, £50,000 ar gyfer 2001-02, £50,000 ar gyfer 2002-03 a £34,000 ar gyfer 2003-04. Wedyn aeth Llywodraeth Cymru yn ei blaen i baratoi 'Cytundeb Cymorth Ariannol' ffurfiol i gyflogi swyddog datblygu economaidd. Mynegodd cyngor cyfreithiol ar baratoi'r cytundeb hwnnw bryder ynglŷn â'r diffyg manylder yn y disgrifiad o'r prosiect a'r ffaith nad oedd allbynnau mesuradwy. Mewn ymateb, cadarnhaodd swyddog o'r Is-adran Polisi Economaidd ei fod yn fodlon ar y disgrifiad yn y cytundeb ac nad oedd unrhyw dargedau gwirioneddol yn yr achos hwn.

Ar 19 Ionawr 2001, ysgrifennodd yr Is-adran Polisi Economaidd at Gyfarwyddwr Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru ar y pryd (a oedd hefyd yn Ysgrifennydd AWEMA ar y pryd) yn amgáu Cytundeb Cymorth Ariannol i'w lofnodi. Fodd bynnag, mae'r cytundeb llofnodedig yn ffeil Llywodraeth Cymru yn ddyddiedig 17 Rhagfyr 2001. Bu oedi gweinyddol i ddechrau cyn bod AWEMA yn gallu rhoi trefniadau ar waith i recriwtio swyddog datblygu economaidd. Yna ym mis Ebrill/Mai 2001 cafwyd hollt chwerw ym Mhwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA a allai hefyd fod wedi cyfrannu at yr oedi cyn llofnodi'r cytundeb, er yr ymddengys i'r mater hwn gael ei ddatrys ym mis Medi 2001 (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 1).

Yn ôl cofnodion Llywodraeth Cymru penododd AWEMA swyddog datblygu economaidd ym mis Mai 2001, a ddechreuodd yn ei swydd rywbryd rhwng mis Mai a dechrau mis Medi 2001. Cyn i'r swyddog datblygu economaidd gael ei benodi, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru un o'i swyddogion i AWEMA ar sail byrdymor a rhan-amser i helpu AWEMA i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei strategaeth datblygu economaidd ddrafft 'Cymru'n Ennill'.

Roedd y cytundeb llofnodedig yn nodi uchafswm cyfraniad o £166,000 o hyd ond datganwyd mai 3 Medi 2001 i 3 Medi 2004 oedd y cyfnod yr oedd yr arian yn ymwneud ag ef. Sut bynnag, ni wnaeth Llywodraeth Cymru ei thaliad cyntaf o £26,667 tan 18 Ionawr 2002.

Mae paragraffau 2.138 i 2.143 yn trafod y trefniadau ar gyfer monitro'r arian grant hwn gan gynnwys, ym mis Medi 2003, y newid mewn cyfrifoldeb o'r Is-adran Polisi Economaidd i Gyfarwyddiaeth Gymunedau Llywodraeth Cymru.

## Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf – Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Fel rhan o'i rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ariannwyd prosiect Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BEST) gan Gyfarwyddiaeth Gymunedau Llywodraeth Cymru. Roedd prosiect BEST yn cynnwys partneriaeth rhwng pedwar sefydliad: AWEMA; y Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Groenddu Cymru; Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig (MEWN) Cymru; ac Ymddiriedolaeth Scarman. Arweiniwyd y cais am arian gan y Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Groenddu Cymru i ddechrau ac wedyn gan Ymddiriedolaeth Scarman. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2002, hysbyswyd y Gyfarwyddiaeth Gymunedau gan Ymddiriedolaeth Scarman bod y partneriaid wedi cytuno mai AWEMA fyddai'n ymgymryd â gwaith rheoli a gweinyddu ariannol cyffredinol y prosiect, gan gyflwyno hawliadau a derbyn taliadau ar ran y partneriaid eraill.

Roedd y cymorth a roddwyd gan brosiect BEST, yn gweithio gyda chymunedau a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig lleol, yn cynnwys:

- ysgrifennu cyfansoddiadau;
- datblygu cynlluniau busnes;
- paratoi ceisiadau am arian;
- cynnig hyfforddiant mewn Sgiliau Pwyllgor Rheoli;
- cyngor ar ddatblygu grwpiau cymunedol newydd.

Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys:

- mapio sut roedd cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynnwys eisoes ac ymchwil;
- datblygu gwefan – i geisio barn a rhoi gwybodaeth;
- annog cysylltiadau â llunwyr polisïau a sefydliadau prif ffrwd;
- datblygu gallu cydgysylltwyr Cymunedau yn Gyntaf a gweithio gyda byrddau partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ar faterion a oedd yn ymwneud â phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Roedd y cais cychwynnol am arian, a gyflwynwyd i'r Gyfarwyddiaeth Gymunedau gan y Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Groenddu Cymru ym mis Chwefror 2002, yn gofyn am £1,449,158 dros dair blynedd. Fodd bynnag, gofynnodd y Gyfarwyddiaeth Gymunedau am fwy o fanylion, ac, ym mis Mehefin 2002, gwnaeth gyflwyniad i'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar y pryd (Edwina Hart) yn argymell y dylid cymeradwyo'r cais mewn egwyddor ond y dylid lleihau nifer y swyddi i'w hariannu yn sylweddol (o 11 i ddwy neu dair). Argymhellodd cyflwyniad arall i'r Gweinidog ym mis Medi 2002 yn sgil cais diwygiedig, a gyflwynwyd y tro hwn gan AWEMA, y dylid rhoi £1,025,610 o arian dros dair blynedd ond cydnabuwyd bod y prosiect yn uchelgeisiol iawn o hyd ac y byddai angen ei fonitro. Mynegodd y Gweinidog bryder ynghylch yr adnoddau a oedd ar gael i'r Gyfarwyddiaeth Gymunedau fonitro'r prosiect ac roedd am gael mwy o sicrwydd ynghylch yr hyn a fyddai'n deillio o'r prosiect.

Yna derbyniodd y Gyfarwyddiaeth Gymunedau gais llai am £305,768 ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr 2003 hyd at fis Mehefin 2004, a fyddai'n ariannu pedair swydd, a chynigiodd £20,000 arall hefyd i ariannu swydd yn y Gogledd. Cymeradwyodd y Gweinidog yr arian hwn ym mis Tachwedd 2002, ac wedi hynny:

- ym mis Mehefin 2004, cymeradwyodd y Gweinidog 'arian pontio' ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2004, gan arwain at daliad o £64,807 ym mis Awst 2004;
- ym mis Medi 2004, cymeradwyodd y Gweinidog £347,787 arall dros 15 mis, gan gynnwys cynnydd i ariannu gweithiwr datblygu ychwanegol yn Abertawe a chynnal gwaith ymchwil ychwanegol;
- ym mis Tachwedd 2005, cymeradwyodd y Gweinidog ragor o 'arian pontio' hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan arwain at daliad o £71,300 ar 26 Ionawr 2005;
- ym mis Chwefror 2006, cymeradwyodd y Gweinidog ymrwymiad terfynol o £286,576 ar gyfer 2006-07.

Ar 13 Hydref 2006, ysgrifennodd y Gweinidog at bob corff cymorth Cymunedau yn Gyntaf yn nodi na fyddai rhagor o arian ar gyfer trefniadau Cymru gyfan ac y byddai partneriaethau lleol, yn y dyfodol, yn caffael eu cyngor a'u cymorth eu hunain.

## Polisi Gofal Cymdeithasol – Gofalwyr o Grwpiau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig

Deilliodd yr arian hwn o drafodaethau rhwng cynrychiolwyr AWEMA (y Prif Weithredwr a Chadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol AWEMA) a swyddogion o Uned Polisi Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Diben y trafodaethau hynny oedd ystyried ymwneud posibl AWEMA yn y gwaith o gyflawni 'Strategaeth ar gyfer Gofalwyr' Llywodraeth Cymru. Yn sgil cyfarfod ag AWEMA ym mis Ebrill 2002, paratôdd yr Uned Polisi Gofal Cymdeithasol fanyleb amlinellol ar gyfer prosiect i benodi gweithiwr prosiect/datblygu, wedi'i leoli yn swyddfeydd AWEMA, i roi cyngor ar faterion a oedd yn ymwneud â phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig o ran y polisi ynglŷn â gofalwyr. Roedd secondiad uniongyrchol i mewn i Lywodraeth Cymru wedi cael ei wrthod a cheisiodd yr Uned Polisi Gofal Cymdeithasol gyngor gan gydweithwyr ar y posibilrwydd o lunio cytundeb tendr sengl ag AWEMA yn hytrach na mynd drwy broses caffael cystadleuol.

Wrth geisio cael AWEMA i fod yn rhan o'r gwaith hwn, a mireinio cwmpas y prosiect, gweithiodd yr Uned Polisi Gofal Cymdeithasol â swyddogion o uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru. Yn ystod y trafodaethau hynny, cytunodd yr uned cydraddoldebau â'r Uned Polisi Gofal Cymdeithasol y gallai'r prosiect gael ei gefnogi o dan y Grant Hyrwyddo Cydraddoldeb. Trosglwyddwyd yr arian yr oedd ei angen i gefnogi'r gwaith i'r uned cydraddoldebau gan yr Uned Polisi Gofal Cymdeithasol. Parhaodd yr Uned Polisi Gofal Cymdeithasol i fod yn gyfrifol am reoli'r prosiect. Yn ôl cofnodion Llywodraeth Cymru, roedd ei 'Banel Adolygu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr' yn cefnogi'r cynnig terfynol a chadarnhaodd yr uned cydraddoldebau y cynnig o grant i AWEMA ym mis Hydref 2002.

Roedd y secondai a ymunodd ag AWEMA yn weithiwr cymdeithasol proffesiynol o Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Roedd yn Gadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol AWEMA ac, yn 2009, daeth yn un o ymddiriedolwyr AWEMA. Y gwaith craidd i'w gyflawni oedd adroddiad ymchwil, cyfeiriadur o sefydliadau statudol, gwirfoddol a sefydliadau eraill a oedd yn darparu gwasanaethau cymunedol i ofalwyr o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig a chanllawiau arfer da. Lansiwyd hyn mewn digwyddiad a fynychwyd gan y Gweinidog Iechyd ar y pryd (Jane Hutt) ym mis Rhagfyr 2003.

## Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau – Ymchwil i Ofal Plant Grwpiau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig

Ym mis Hydref 2006, cysylltodd swyddogion WEFO ag Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cymru i ystyried y posibilrwydd o arian cyfatebol ar ran AWEMA i gefnogi ychydig o ymchwil i ofal plant fel rhan o brosiect Curiad Calon Cymru a oedd yn cael ei ariannu gan WEFO. Cafodd y cynnig hwn dderbyniad ffafriol gan yr adran am ei fod yn rhoi cyfle i weithio mewn partneriaeth i gyflawni ymrwymiad i ymchwilio i faterion gofal plant grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig yn strategaeth gofal plant Llywodraeth Cymru, 'Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant', ym mis Tachwedd 2005.

Ar y cychwyn, rhagwelodd WEFO y byddai angen neilltuo £5,000 o'i harian ei hun a £5,000 mewn arian cyfatebol ond nododd swyddogion o'r adran y byddent yn fodlon ehangu'r gwaith, gan gynnig £10,000 o arian cyfatebol tuag at gostau arfaethedig y prosiect sef £20,000. Talodd yr arian am ymchwil a gomisiynwyd gan AWEMA i gwmni ymgynghoriaeth preifat yn dilyn tendr cystadleuol a chadarnhaodd yr adran ei chynnig o arian grant ym mis Ebrill 2007. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y cynnig grant hwn wedi'i gymeradwyo gan Weinidog, na bod angen cymeradwyaeth Gweinidog. Rhoddwyd cadarnhad o'r cynnig grant i AWEMA yn ystod y cyfnod diddymu cyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2007.

## Tai – Swyddog Datblygu Strategaeth Tai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Nid ydym wedi gallu ystyried yn fanwl y sail dros gytuno i'r arian hwn na'r gwaith a gefnogwyd ganddo am fod nifer o ffeiliau a oedd yn gysylltiedig ag ef yn ôl pob golwg wedi cael eu dinistrio ym mis Tachwedd 2011 yn unol â pholisi cadw a gwaredu ffeiliau Llywodraeth Cymru. Teitlau'r ffeiliau hyn oedd: cynllun gweithredu tai pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig cenedlaethol; grant swyddog datblygu strategaeth tai pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig; a grŵp adolygu tai pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Fodd bynnag, dengys cofnodion a welsom ar ffeiliau eraill Llywodraeth Cymru i Adran Dai Llywodraeth Cymru gadarnhau cynnig o grant o £114,125 i AWEMA ar 4 Mawrth 2002 hyd at ddiwedd 2003-04 (er i ni nodi taliadau gwerth £120,125 i gyd). Diben craidd y swydd oedd helpu i gyflogi swyddog datblygu strategaeth tai pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a chefnogi ei waith (gan gynnwys costau cyflogaeth uniongyrchol a chyfraniadau tuag at gostau gorbenion).

Rydym ar ddeall bod Llywodraeth Cymru wedi edrych ar AWEMA i gyflogi'r swyddog tai hwn am ei bod yn awyddus i gysylltu â gwaith yr oedd AWEMA eisoes yn ei wneud ac yn awyddus hefyd i ariannu'r swydd yn allanol drwy arian rhaglen yn hytrach na phenodi unigolyn i ymgymryd â'r rôl hon ei hun, a hynny oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar y pryd i gyfyngu ar gostau rhedeg adrannol. Eto i gyd, mae'n amlwg bod deiliad y swydd wedi rhannu ei hamser rhwng gwaith a oedd wedi'i leoli yn swyddfa AWEMA, a gwaith a gafodd ei gyfarwyddo a'i reoli'n benodol gan swyddogion eraill Llywodraeth Cymru, gan ei bod wedi cael ei secondio'n ôl i Lywodraeth Cymru i bob diben. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- Cefnogi gwaith Pwyllgor Tai AWEMA.
- Cymryd rhan mewn prosiect dichonoldeb a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2001 i ystyried sefydlu cymdeithas dai benodol o dan arweiniad pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Cyflwynodd y prosiect hwn adroddiad ar ei ganfyddiadau ym mis Mawrth 2003 ac arweiniodd hynny at greu Tai Pawb, a ddaeth yn gwbl weithredol ym mis Ebrill 2005. Rydym ar ddeall bod Prif Weithredwr AWEMA wedi bod yn awyddus i'r sefydliad newydd fod yn rhan o AWEMA ond bod swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr eraill o'r sector tai, o blaid creu sefydliad ar wahân.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun gweithredu tai pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig Llywodraeth Cymru. Ym mis Ebrill 2001, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ei strategaeth dai gyntaf ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Yna gweithredwyd ar y strategaeth hon drwy lansio 'Cynllun Gweithredu Cymru ar Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig' Llywodraeth Cymru yn ffurfiol ym mis Medi 2002. Roedd y gwaith a ddeilliodd o'r cynllun gweithredu hwnnw yn cynnwys cymorth a chanllawiau i landlordiaid cymdeithasol ar ddatblygu eu strategaethau tai eu hunain ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

# Atodiad 3 – Astudiaethau achos yn crynhoi ymateb Llywodraeth Cymru i bryderon penodol a godwyd gan bartïon allanol ynghylch AWEMA cyn mis Rhagfyr 2011

Ers i AWEMA gael ei chreu yn 1999, mae pryderon penodol ynghylch trefn lywodraethu a rheolaeth ariannol AWEMA neu gwestiynau am ariannu AWEMA a'r gwaith a gyflawnwyd ganddi wedi cael eu codi sawl gwaith gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r wyth astudiaeth achos a ganlyn yn disgrifio'r digwyddiadau allweddol a adolygwyd gennym ac ymateb Llywodraeth Cymru iddynt. Nid ydym yn llunio barn ar y graddau yr oedd y pryderon a godwyd yn rhai teg ond rydym yn nodi ein barn ar ddigonolrwydd ymateb Llywodraeth Cymru ym mhob achos. Mae sawl un o'r materion a ddisgrifir yma eisoes wedi cael sylw yn y cyfryngau[105].

Mae paragraffau 2.151 i 2.153 yn crynhoi ein barn gyffredinol ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r pryderon hyn dros amser, ochr yn ochr â'n casgliadau ynglŷn â'i stiwardiaeth gyffredinol o'i harian grant i AWEMA. Mae paragraffau 3.2 i 3.35 yn trafod ymateb Llywodraeth Cymru i'r honiadau newydd ynghylch y drefn lywodraethu, rheolaeth ariannol, staffio a materion adnoddau dynol a gweithgareddau troseddol o bosibl a ddaeth i'r golwg yn niwedd 2011.

Mae'r wyth astudiaeth achos yn ymwneud â'r canlynol:

- Astudiaeth Achos 1 – honiadau ynghylch hollt chwerw ym Mhwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA yn 2001 a sefydlu cwmni arall, EDC-AWEMA Ltd.
- Astudiaeth Achos 2 – pryderon ynghylch atebolrwydd ariannol a llywodraethu a godwyd gan gynrychiolwyr o'r gymuned Asiaidd a rhai aelodau o Fwrdd AWEMA yn ystod 2002.
- Astudiaeth Achos 3 – pryderon ynghylch rheolaeth ariannol a llywodraethu a ymddangosodd yn y cyfryngau ym mis Tachwedd 2003 a phryderon a godwyd gyda Llywodraeth Cymru gan aelod arall o Fwrdd AWEMA ar ddechrau 2004.
- Astudiaeth Achos 4 – ymateb anghywir ac anghyflawn, ym mis Mawrth 2006, i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad i'r Gweinidog gan y cyn-Aelod Cynulliad, Dr Dai Lloyd, o ran ariannu blaenorol gan Lywodraeth Cymru i AWEMA.
- Astudiaeth Achos 5 – pryderon a ystyriwyd gan WEFO yn 2006 ynghylch prosesau caffael, taliadau i sefydliadau partner, gwariant anghymwys, arian cyfatebol yn y dyfodol a'r ffordd yr oedd prosiect Curiad Calon Cymru AWEMA yn cael ei reoli'n gyffredinol.
- Astudiaeth Achos 6 – honiadau ynghylch methiannau llywodraethu a wnaed gan gyn-Gadeirydd Dros Dro a chyn-Is-Gadeirydd Dros Dro AWEMA ym mis Gorffennaf 2007.
- Astudiaeth Achos 7 – pryderon a godwyd, yng nghanol 2010, gan y cyn-Aelod Cynulliad, Dr Dai Lloyd, ynghylch y ffordd roedd AWEMA yn cyflawni ei gwaith ar lawr gwlad yn ardal Abertawe.

105 Nid yw'r astudiaethau achos hyn yn cynnwys cyfeiriadau at gwestiynau a godwyd gydag uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru, yn 2009, gan y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Dr Brian Gibbons) ynglŷn ag amlder cyfarfodydd Bwrdd AWEMA a phresenoldeb aelodau (paragraffau 2.57 i 2.61). At hynny, er bod Astudiaeth Achos 3 yn cyfeirio at benderfyniad uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru i gomisiynu 'IMANI Consultancy Services' i gynnal gwerthusiad o brosiectau AWEMA a ariannwyd gan yr uned cydraddoldebau, nid yw'n ystyried canfyddiadau'r gwaith hwnnw na phenderfyniadau dilynol yr uned cydraddoldebau ynglŷn ag ariannu AWEMA. Mae paragraffau 2.16 i 2.34 a Ffigurau 5 a 6 yn ystyried y materion hynny'n fanwl.

- Astudiaeth Achos 8 – pryderon a godwyd gyda WEFO, yn 2011 gan Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru ynghylch rheolaeth dau o brosiectau AWEMA o dan Raglen Gydgyfeirio'r UE yr oedd yn ymwneud â hwy.

**Astudiaeth Achos 1 - Yn ystod 2001, bu hollt chwerw ym Mhwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA ynglŷn â sefydlu cwmni arall, EDC-AWEMA. Gwnaed amryw honiadau a gwrth-honiadau gan y ddau grŵp i Lywodraeth Cymru. Nid yw'n amlwg beth a wnaeth Llywodraeth Cymru i fodloni ei hun, yng ngoleuni'r honiadau hyn, fod AWEMA yn sefydliad addas i dderbyn arian cyhoeddus.**

Ym mis Mawrth 2001, sefydlodd Cadeirydd AWEMA a rhai o aelodau ei Phwyllgor Datblygu Economaidd gwmni ar wahân, EDC-AWEMA, er mwyn cymryd rhan fel partner mewn prosiect a ariannwyd gan arian Ewropeaidd Amcan Un (Rhaglenni Cymorth i Grwpiau Heb Gynrychiolaeth Ddigonol). Roedd y prosiect hwn yn cael ei arwain gan Awdurdod Datblygu Cymru (WDA). Cyflwynwyd manylion y prosiect a'r cynnig i sefydlu'r cwmni newydd i Bwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA mewn cyfarfod ar ddiwedd mis Ebrill 2001.

Achosodd camau gweithredu aelodau o Bwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA anghydfod mawr o fewn AWEMA. Mynegodd y Cadeirydd ar y pryd (a oedd hefyd yn Gadeirydd ar Cardiff Race Equality First) a'r Prif Weithredwr Dros Dro ar y pryd (Mr Naz Malik) eu pryderon yn groyw ynglŷn â chamau gweithredu aelodau o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Roedd Mr Malik wedi bod yn Brif Weithredwr Dros Dro AWEMA ers mis Ebrill 2001. Roedd hyn yn dilyn trefniant dros dro arall ar ôl i Gyfarwyddwr Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru ar y pryd ymddiswyddo fel Ysgrifennydd AWEMA ym mis Chwefror 2001.

Cafwyd hollt chwerw rhwng AWEMA a'r rhai a oedd yn ymwneud ag EDC-AWEMA ac, yn ystod yr ychydig fisoedd dilynol, cyflwynodd y naill ochr a'r llall gwynion i Lywodraeth Cymru ynghylch trefn lywodraethu, ymddygiad, cynrychiolaeth a dilysrwydd ei gilydd. Roedd y WDA eisoes wedi talu £40,000 ar ddechrau mis Ebrill 2001 i EDC-AWEMA tuag at gostau sefydlu, er i'r swm hwn gael ei ad-dalu i'r WDA ym mis Mehefin 2001. Ym mis Mai 2001, sefydlwyd cwmni newydd – EBSO Ltd – i fwrw ymlaen â'r gwaith prosiect arfaethedig ar y cyd â'r WDA. Ym mis Hydref 2001, gwnaeth EDC-AWEMA gais i Dŷ'r Cwmnïau am ddiddymu gwirfoddol.

Dengys cofnodion Llywodraeth Cymru i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart), ar 2 Mai 2001, ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd gael mwy o wybodaeth am yr amgylchiadau a arweiniodd at greu EDC-AWEMA. Wrth ymdrin â'r materion hyn, dengys cofnodion Llywodraeth Cymru hefyd fod gwahaniaeth barn rhwng rhai o swyddogion Llywodraeth Cymru a'r WDA ynglŷn â dilysrwydd EDC-AWEMA, er bod y ddau sefydliad yn ceisio datrys materion.

Yn gynharach yn 2001, ond yn gorgyffwrdd â'r pryderon a ddaeth i'r golwg ynghylch creu EDC- AWEMA, roedd Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo un o'i swyddogion i AWEMA ar sail fyrdymor a rhan-amser i helpu AWEMA i ymateb i strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth Cymru, 'Cymru'n Ennill (Atodiad 2).

Ar 15 Mai 2001, cyfarfu'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Gweinidog â Chyfarwyddwr Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru a fynegodd gefnogaeth y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'i gefnogaeth yntau i greu EDC-AWEMA ac EBSP. Mewn cyfarfod dilynol ar 24 Mai 2001, nad oedd yn cynnwys y Gweinidog, cwynodd Cyfarwyddwr Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru fod y WDA wedi dweud wrtho fod Pennaeth Is-adran Polisi Economaidd Llywodraeth Cymru ar y pryd wedi atal taliadau. Ar 29 Mehefin 2001, ymatebodd yr Ysgrifennydd Parhaol i gadarnhau ei fod yn fodlon, ar ôl ymchwilio i'r mater hwn, fod Pennaeth yr Is-adran Polisi Economaidd wedi gweithredu'n briodol ac yn unol â chyfarwyddyd y Gweinidog a'i gyfarwyddyd yntau. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol: 'we must both now hope that the project will get underway successfully and achieve all its objectives'.

Cyfarfu'r Ysgrifennydd Parhaol hefyd â dau o gomisiynwyr Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru ar 11 Mehefin 2001 i drafod agwedd Llywodraeth Cymru tuag at faterion cydraddoldeb ac i drafod AWEMA. Mae'r nodyn o'r cyfarfod hwnnw yn cofnodi: 'the Commission for Racial Equality had originally received good reports of AWEMA but now alarm bells were ringing ……… The Permanent Secretary said his impression, which did not come from direct involvement, and so might be inaccurate, was that AWEMA had become dysfunctional. It seemed to have divided on ethnic lines on key issues, and it was unclear from where its authority derived. There were apparently only two board members, one of whom had been abroad for some time.'

## Astudiaeth Achos 1 - parhad

Ar 21 Mehefin 2001, ysgrifennodd Mr Malik at y Gweinidog i'w hysbysu ei fod wedi cael ei benodi'n ffurfiol yn Brif Weithredwr AWEMA yn weithredol o 1 Mehefin 2001. Roedd llythyr Mr Malik at y Gweinidog yn dilyn cyfarfod â'r Ysgrifennydd Parhaol y diwrnod blaenorol. Mae nodyn Llywodraeth Cymru o'r cyfarfod hwnnw – y bu'r uwch swyddog a oedd yn gyfrifol am uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ar y pryd yn bresennol ynddo hefyd – yn cofnodi i Mr Malik fynegi pryderon ynglŷn â ffurfio EDC-AWEMA a'i ddiffyg ymddiriedaeth ynglŷn â chymhelliant Cyfarwyddwr Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru. Dywed y nodyn i'r Ysgrifennydd Parhaol nodi bod ei swyddogion eisoes wedi cynnal prosesau diwydrwydd dyladwy yn sgil y pryderon a godwyd ynghylch creu EDC-AWEMA ac, o ystyried bod AWEMA yn cael ei hariannu gan y Swyddfa Gartref, ac mai'r bwriad oedd y byddai'n gorff cynrychioliadol na fyddai'n cael ei oruchwylio na'i noddi gan Lywodraeth Cymru, fod cyfyngiad ar y graddau y gallai Llywodraeth Cymru ymwneud â'r mater. Mae'r nodyn yn cofnodi hefyd i'r Ysgrifennydd Parhaol awgrymu, os oedd anawsterau wedi codi rhwng AWEMA a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, ei bod yn bwysig bod y ddwy ochr yn ymdrin â'r rhain ar y cyd.

Ymddengys fod y cyfeiriad at arian y Swyddfa Gartref yn anghywir o ystyried bod AWEMA eisoes wedi cael taliadau gwerth ychydig o dan £100,000 gan Lywodraeth Cymru erbyn hyn, a bod ariannu pellach yn cael ei drafod (Atodiad 2). At hynny, roedd arian cychwynnol Llywodraeth Cymru i AWEMA yn rhagddyddio arian y Swyddfa Gartref. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y digwyddiadau hyn wedi cael unrhyw ddylanwad ar y cyngor a gynigiwyd i'r Gweinidog, na phenderfyniad y Gweinidog i gytuno i roi arian dros dair blynedd ar gyfer y prosiect Hyrwyddo Cydraddoldeb/Meithrin Gallu ym mis Gorffennaf 2001. Fodd bynnag, ni allwn gadarnhau'r sail dros gyfarfod rhwng y Gweinidog, swyddog o'r uned cydraddoldebau, a Mr Malik, cyn i'r arian hwn gael ei ddyfarnu (Atodiad 2). At hynny, ym mis Gorffennaf 2001, ysgrifennodd Mr Malik at yr Ysgrifennydd Parhaol i ofyn am secondio swyddog gweinyddol a swyddog cymorth gweinyddol am 12 mis, er mwyn helpu i sefydlu systemau a gweithdrefnau swyddfa AWEMA. Dengys cofnodion ffeiliau Llywodraeth Cymru y cytunwyd i gefnogi un swydd (ar fenthyg yn hytrach na secondiad) ond, pan hysbysebwyd y swydd i'r staff, na fynegwyd unrhyw ddiddordeb.

Fel mae'n digwydd, parhaodd Llywodraeth Cymru i roi cymorth ariannol i AWEMA a lluniodd y WDA bartneriaeth ag EBSP. Fodd bynnag, drwy gydol mis Gorffennaf, mis Awst a dechrau mis Medi 2001 bu rhagor o ohebu a chyfathrebu rhwng yr Ysgrifennydd Parhaol, swyddogion eraill Llywodraeth Cymru a'r WDA, Cyfarwyddwr Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru, a chynrychiolwyr AWEMA a rhai o'r unigolion a oedd wedi ymwneud â chreu EDC-AWEMA ac EBSP.

Mewn ymateb i'r rhan o'r ohebiaeth hon, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol unwaith eto ei ddymuniad bod Llywodraeth Cymru yn osgoi cael ei thynnu i mewn i faterion a ystyrid yn faterion mewnol AWEMA. Er hynny, ar 7 Medi 2001, gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol am sicrwydd gan gydweithwyr a oedd yn gyfrifol am reoli'r uned cydraddoldebau bod AWEMA yn gweithredu yn unol â pha berthynas bynnag o ran atebolrwydd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i llunio gyda hi, gan ofyn am gael gweld unrhyw beth a oedd: 'of sufficient concern to the Assembly (and especially me as Accounting Officer) which needs to be pursued formally with them'.

Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n gyfystyr ag ymateb uniongyrchol i ymholiad yr Ysgrifennydd Parhaol. Fodd bynnag, wrth gyfeirio at ymholiad yr Ysgrifennydd Parhaol, ar 12 Medi 2001 dywedodd Pennaeth yr Is-adran Polisi Economaidd wrth gydweithwyr yn yr uned cydraddoldebau nad oedd ganddo unrhyw bryderon bryd hynny ynghylch y gwaith yr oedd EBSP yn ymgymryd ag ef, nac o ran cynnig Llywodraeth Cymru i ariannu swyddog datblygu economaidd. Nododd hefyd y byddai'r sefyllfa yn parhau i gael ei monitro'n fanwl.

Nid ymddengys bod y digwyddiadau yn ystod yr ychydig fisoedd blaenorol wedi peri i'r Is-adran Polisi Economaidd ystyried ymhellach ei hymrwymiad i ariannu swyddog datblygu economaidd i gefnogi gwaith Pwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg a fu rhywfaint o'r oedi cyn cael y cytundeb cymorth ariannol dan sylw (Atodiad 2) ar ei ffurf derfynol yn gysylltiedig â'r digwyddiadau hyn.

## Astudiaeth Achos 1 - parhad

**Nodyn Atodol**

Rydym wedi cyfyngu ein gwaith i adolygu cydberthynas Llywodraeth Cymru ag AWEMA. Fodd bynnag, oherwydd y ffordd y daeth EBSP i fodolaeth, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth am ei pherthynas ariannol ag ef a hefyd am berthynas ariannol y WDA. Cadarnhawyd gyda Llywodraeth Cymru i'r WDA wneud taliadau gwerth £2.99 miliwn i gyd i EBSP rhwng mis Mehefin 2001 a mis Mawrth 2006. Daeth y WDA i ben ar 1 Ebrill 2006 pan gafodd ei uno â Llywodraeth Cymru. Yna gwnaeth Llywodraeth Cymru daliadau gwerth £1.2 miliwn i gyd i EBSP rhwng mis Mehefin 2006 a mis Mai 2009.

Wrth adolygu cofnodion hanesyddol y WDA, gwelsom hefyd, dros amser, fod pryderon eraill wedi cael eu mynegi a honiadau wedi cael eu gwneud yn erbyn EBSP mewn perthynas â'r canlynol:

- llywodraethu mewnol;
- uniondeb rhai o'r cyfarwyddwyr;
- cyflwyno cyfrifon yn hwyr;
- cynrychiolaeth ethnig;
- perfformiad prosiectau;
- cywirdeb yr adroddiadau ar ganlyniadau.

Cafodd hanes creu EBSP sylw anffafriol yn y cyfryngau ar ddechrau 2004, pan ddaeth i'r amlwg nad oedd Cyfarwyddwr Reolwr EBSP wedi datgan i'r WDA ei fod wedi bod yn fethdalwr. Ym mis Medi 2004 neu tua'r adeg honno, comisiynwyd adolygiad archwilio mewnol gan y WDA. Cyflwynwyd adroddiad ar yr archwiliad ym mis Medi 2005 a wnaeth sawl argymhelliad mewn perthynas â llywodraethu EBSP, gan gynnwys:

- mwy o dryloywder ynglŷn â phenodiadau i'r bwrdd;
- dangos cystadleurwydd wrth gaffael;
- yr angen am wahanu dyletswyddau'n ddigonol o ran ardystio hawliadau am gostau teithio a chynhaliaeth;
- pennu prosesau dirprwyo clir rhwng y bwrdd a swyddogion.

Astudiaeth Achos 2 - Yn ystod 2002, codwyd nifer o bryderon gyda Llywodraeth Cymru o ran llywodraethu yn AWEMA. Mewn ymateb i'r pryderon hynny cynhaliwyd adolygiad o AWEMA gan swyddogion o Adran Gyllid Llywodraeth Cymru, er na chafodd AWEMA wybod am ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw tan fis Ebrill 2003. Ystyriodd yr adolygiad faterion ynglŷn ag atebolrwydd ariannol a llywodraethu corfforaethol AWEMA. Er i'r adolygiad amlinellu trefniadau llywodraethu AWEMA, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod yr adolygiad wedi rhoi prawf ar y trefniadau hynny i weld a oeddent yn gweithio'n ymarferol. Ac ni wnaeth Llywodraeth Cymru unrhyw waith dilynol ychwaith i'w bodloni ei hun fod y camau a gymerwyd gan AWEMA i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad yn ddigonol.

Ar 28 Ionawr 2002, cyfarfu'r Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd â nifer o gynrychiolwyr o'r gymuned Asiaidd ar eu cais hwy i drafod pryderon o ran y ffordd yr oedd AWEMA yn gweithredu. Roedd yr unigolion hyn yn cynnwys rhai o'r bobl a fu'n rhan o greu EDC-AWEMA ac EBSP Ltd yn 2001 (Astudiaeth Achos 1). Roedd y pryderon a godwyd yn ymwneud â'r canlynol:

- y graddau yr oedd AWEMA yn cynrychioli pob lleiafrif ethnig a chrefyddol;
- tryloywder ac atebolrwydd AWEMA, a oedd yn cynnwys sut y cafodd aelodau Bwrdd AWEMA a'i staff eu penodi;
- rôl pennaeth yr uned cydraddoldebau ar y pryd o ran penodi Mr Naz Malik yn Brif Weithredwr AWEMA.

Ar 19 Chwefror 2002, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol at yr uwch swyddog yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am yr uned cydraddoldebau ar y pryd gan ddatgan: 'I shall need advice on how I should best address the criticisms of the corporate governance arrangements at AWEMA and the threat that any deficiencies might present to public funds'.

Ar 14 Mawrth 2002, cyfarfu'r Ysgrifennydd Parhaol â phennaeth yr uned cydraddoldebau ar y pryd i drafod yr honiadau a wnaed yn ei erbyn. O ran y pryderon a godwyd ynghylch llywodraethu AWEMA, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol ei fod yn ystyried gofyn i: 'the [Welsh Government's] Internal Audit unit to review the corporate governance arrangements at AWEMA, since [the Welsh Government] part-funded them and therefore had a responsibility to assure [itself] that the resources were being properly handled'. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod yr adolygiad a awgrymwyd wedi cael ei sefydlu bryd hynny.

Mae nodiadau'r cyfarfod ar 14 Mawrth 2002 yn cofnodi nad oedd pennaeth yr uned cydraddoldebau yn derbyn yr honiadau a'i fod yn amau cymhellion y rhai a'u gwnaeth. Mewn ymateb, fe'i gwnaed yn glir gan yr Ysgrifennydd Parhaol ei fod yn derbyn nad oedd unrhyw sail i'r honiadau. Fodd bynnag, dengys cofnodion o fis Gorffennaf 2003 fod yr Ysgrifennydd Parhaol o'r farn, bryd hynny, fod y berthynas rhwng pennaeth yr uned cydraddoldebau, a oedd yn gyn-bennaeth erbyn hynny, a'r rhai a oedd yn arwain AWEMA wedi dod yn rhy agos.

Rhwng mis Awst 2002 a mis Hydref 2002, derbyniodd swyddogion Llywodraeth Cymru gopïau o sawl llythyr o un o aelodau Bwrdd AWEMA a wnaeth honiadau pellach ynglŷn â llywodraethu corfforaethol AWEMA. Roedd yr honiadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- nid oes gan AWEMA strwythur democrataidd;
- nid oedd cyfrifon wedi'u harchwilio na'u cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau;
- arfer gwael o ran recriwtio a phenodi staff;
- diffyg prosesau atebolrwydd, bod yn agored a thryloywder;
- camarfer mewn swydd.

Mewn ymateb, daeth uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ynghyd i drafod pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd. Ar 21 Hydref 2002, ysgrifennodd Pennaeth yr Is-adran Atebolrwydd Cyllid at y Prif Swyddog Cyllid yn nodi y byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru arfer ei hawl i weld llyfrau cyfrifon AWEMA o dan amodau arian grant. Diben yr ymarfer arfaethedig oedd cael sicrwydd bod llyfrau cyfrifon priodol yn cael eu cadw a bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio'n briodol. Mewn memorandwm pellach, nododd Pennaeth yr Is-adran Atebolrwydd Ariannol y byddai'r adolygiad, i'w gynnal gan ei dîm, yn gwneud y canlynol: 'look at whether the structure and corporate governance arrangements within AWEMA are adequate to properly utilise and safeguard the public funds that have been and are due to be paid to AWEMA'.

Ar 26 Tachwedd 2002, cyfarfu swyddogion ag AWEMA i drafod yr adolygiad a chodi'r honiadau ynglŷn â llywodraethu corfforaethol gyda hwy. Gwadwyd yr honiadau.

## Astudiaeth Achos 2 - parhad

Cwblhawyd yr adroddiad a chyhoeddwyd adroddiad i AWEMA ym mis Ebrill 2003. Er i'r adroddiad ddisgrifio trefniadau llywodraethu corfforaethol wedi'u dogfennu AWEMA, yn ein barn ni, nid aethpwyd i'r afael â'r cwestiwn sylfaenol p'un a oedd y trefniadau yn gweithio'n ymarferol. Nid yw'r adroddiad yn rhoi unrhyw dystiolaeth y rhoddwyd prawf ar gydymffurfiaeth â'r trefniadau. Felly ni chredwn i'r honiadau gael eu harchwilio'n briodol. Prif ffocws yr adroddiad oedd systemau a rheolaethau ariannol. O ystyried y pryderon a fynegwyd ynghylch llywodraethu corfforaethol AWEMA ers iddi gael ei sefydlu'n gwmni cyfyngedig, credwn i Lywodraeth Cymru fethu â bachu ar y cyfle a roddwyd i'w bodloni ei hun bod AWEMA yn sefydliad priodol i gael arian cyhoeddus. Ni wnaeth yr adolygiad archwilio honiadau ynglŷn â swyddogion ac aelodau penodol o AWEMA ar y sail nad oedd hwn, ym marn y rhai a oedd yn arwain y gwaith, yn faes yr oedd Llywodraeth Cymru, yng nghyd-destun ei chyfrifoldebau, yn gymwys i wneud sylwadau yn ei gylch.

Er hynny, nododd yr adroddiad nifer o ddiffygion mewn perthynas â systemau a rheolaethau ariannol a gwnaeth nifer o argymhellion ar gyfer gwella. Hysbyswyd yr Ysgrifennydd Parhaol, ym mis Mawrth 2003, er bod yr adroddiad yn nodi'r hyn a allai ymddangos yn wendidau sylweddol, fod y materion a nodwyd yn nodweddiadol o sefydliad bach ac y dylent fod wedi'u hunioni'n hawdd.

Ymatebodd Mr Malik i'r adroddiad yn nodi'r camau y byddai AWEMA yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed, ond nid tan 10 Hydref 2003. Ar 28 Mai 2004, ysgrifennodd Mr Malik at Lywodraeth Cymru unwaith eto gan amgáu atodlen yn nodi bod bron bob un o'r camau yr oedd eu hangen i fynd i'r afael â'r argymhellion wedi'u cymryd. Mae archwilwyr AWEMA wedi rhoi cadarnhad i ni eu bod yn fodlon bod AWEMA wedi gweithredu ar yr argymhellion.

Mewn ymateb i'r diweddariad hwn gan AWEMA, ysgrifennodd Cyfarwyddwr Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cymru ar y pryd (a oedd yn gyfrifol ar y pryd am yr uned cydraddoldebau) at Bennaeth yr Is-adran Atebolrwydd Ariannol yn nodi, er mwyn dilysu asesiad AWEMA o'i gynnydd, y byddai angen 'ymweliad safle'. Credid bod hyn yn arbennig o bwysig am fod AWEMA wedi cyflwyno cais am arian EQUAL (Atodiad 2) ac y byddai'n ceisio arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Nid ymddengys bod unrhyw ystyriaeth bryd hynny p'un a fyddai gwaith dilynol yn berthnasol o bosibl yng ngoleuni'r honiadau newydd a wnaed ar ddiwedd 2003 a dechrau 2004 a ph'un a oedd cyfle i gysylltu unrhyw waith ag adolygiad IMANI Consultancy Services o brosiectau AWEMA a ariannwyd gan yr uned cydraddoldebau a oedd yn mynd rhagddo ar y pryd (Astudiaeth Achos 3).

Gwrthodwyd cais cychwynnol AWEMA am arian cyfatebol gan y Gweinidog a oedd yn gyfrifol yn gydraddoldebau ar y pryd (Edwina Hart) ym mis Mehefin 2004. Gwnaed y penderfyniad hwn am resymau nad oeddent yn gysylltiedig â chanfyddiadau'r adolygiad blaenorol gan yr Adran Gyllid ac nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i adolygiad dilynol gael ei wneud cyn neu ar ôl y penderfyniad hwn. Yna ymddengys i'r gwaith dilynol gael ei ohirio am gyfnod amhenodol.

**Astudiaeth Achos 3 - Ddiwedd 2003 a dechrau 2004, cododd rhagor o bryderon a honiadau o ran llywodraethu a phriodoldeb AWEMA. Nododd Llywodraeth Cymru y byddai'n ymdrin â'r materion hyn fel rhan o adolygiad ymgynghoriaeth a gomisiynwyd ganddi ym mis Rhagfyr 2003 ond nas cwblhawyd tan fis Ionawr 2005. Roedd cylch gorchwyl yr adolygiad yn gul ei gwmpas ac nid ystyriodd yr adolygiad drefn llywodraethu na phriodoldeb AWEMA. Felly nid ymdriniwyd â'r pryderon na'r honiadau.**

Ar 12 Tachwedd 2003, cyhoeddodd y Western Mail erthygl a gododd bryderon am werth am arian a chyflogau staff yn AWEMA, yn sgil ymholiadau gan y cyn-Aelod Cynulliad, David Davies. Dilynwyd hyn, ar 20 Tachwedd 2003, gan raglen Dragon's Eye y BBC. Roedd y pryderon a'r honiadau a godwyd yn cynnwys:

- gwerth cyfraniad AWEMA o ystyried faint o arian cyhoeddus yr oedd yn ei gael;
- tryloywder o ran cyflog staff;
- AWEMA yn ymgymryd â gweithgarwch gwleidyddol ond yn derbyn arian cyhoeddus;
- y symiau o arian a hawliwyd gan AWEMA mewn anfonebau at Lywodraeth Cymru a'u hamseriad;
- honiadau o hiliaeth yn erbyn Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik).

Yn gynharach yn ystod y mis hwnnw, mewn ymateb i 'Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad' gan y cyn-Aelod Cynulliad David Davies, roedd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Edwina Hart) wedi datgan y byddai adolygiad ac asesiad o'r cyfraniad a wnaed gan AWEMA yng ngoleuni'r arian cyhoeddus a roddwyd iddi. Mewn ymateb i gwestiwn arall gan Mr Davies ynglŷn â gallu uwch reolwyr AWEMA i gyflawni'r amcanion a bennwyd ar eu cyfer gan Lywodraeth Cymru, nododd y Gweinidog y câi rôl uwch reolwyr AWEMA ei hasesu fel rhan o'r adolygiad ehangach. Yn ôl memo a anfonwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd at gydweithiwr ar 2 Gorffennaf 2003, roedd y Gweinidog eisoes wedi dweud wrth yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd mewn cyfarfod y diwrnod cynt ei bod yn pryderu'n fawr am gamreoli o fewn AWEMA a'i bod am i adolygiad gael ei gynnal.

Ar 13 Tachwedd 2003, anfonodd uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru gylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad arfaethedig at y Gweinidog. Cyfeiriodd y cyflwyniad a anfonwyd gydag ef rai o'r pryderon a godwyd a chyfeiriodd hefyd at ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei ail gynllun cydraddoldeb hiliol. Dywedodd fod yr ymatebion wedi: 'highlighted resentment of AWEMA's role and the need for a more pluralistic approach to funding, developing and engaging diverse minority ethnic communities'.

Ym mis Mawrth 2004, cyfarfu'r Ysgrifennydd Parhaol â chyn-aelod o Fwrdd AWEMA a oedd wedi codi amrywiol bryderon ag un o swyddogion Cyfarwyddiaeth Gymunedau Llywodraeth Cymru o ran llywodraethu corfforaethol AWEMA ar ddiwedd mis Ionawr 2004. Roedd yr aelod bwrdd hwnnw wedi bod yn rhan o anghydfod yng nghyfarfod Bwrdd AWEMA ym mis Rhagfyr 2003, a welwyd gan uwch swyddog a oedd yn gyfrifol am uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru. Roedd y pryderon a godwyd gan y cyn-aelod bwrdd hwn yn cynnwys materion a oedd yn ymwneud â'r canlynol:

- gallu Bwrdd AWEMA i weithredu;
- eglurder o ran pwy oedd yn aelod o'r bwrdd;
- cynnydd yng nghyflogau staff.

Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod yn rhaid iddo ochel rhag ymyrryd â llywodraethu mewnol AWEMA, ond bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad annibynnol o weithrediadau AWEMA.

Comisiynodd yr uned cydraddoldebau ei hadolygiad o AWEMA ym mis Rhagfyr 2003, a phenodwyd IMANI Consultancy Services i ymgymryd ag ef. Mae paragraffau 2.16 i 2.25 a Ffigur 5 yn ystyried yn fanylach amgylchiadau a chanfyddiadau'r adolygiad hwn, a'i argymhellion o ran arian yn y dyfodol.

Er gwaetha'r amser a gymerwyd i gyhoeddi adroddiad terfynol yr adolygiad (hyd at fis Ionawr 2005), roedd yr adolygiad yn gul iawn ei gwmpas ac nid aeth i'r afael â'r math o bryderon a godwyd o ran llywodraethu corfforaethol, rheolaeth ariannol ac uniondeb. Nid oedd yr adolygiad ychwaith yn ystyried rôl uwch reolwyr AWEMA. Canolbwyntiodd yr adolygiad hefyd ar dystiolaeth mewn perthynas ag allbynnau a chanlyniadau'r arian a dderbyniodd AWEMA gan yr uned cydraddoldebau yn unig, heb gyfeirio at arian hanesyddol na chyfredol Llywodraeth Cymru i AWEMA (Atodiad 2).

Gwnaeth AWEMA sylwadau ar gwmpas y gwaith o'r cychwyn. Yn benodol, holodd AWEMA ynglŷn â'r ffocws cul ar arian gan yr uned cydraddoldebau. Cododd AWEMA y pryder hwn eto pan wnaeth sylwadau ar yr adroddiad drafft ym mis Tachwedd 2004. Ym mis Medi 2004, roedd Mr Malik hefyd wedi nodi mewn gohebiaeth â Chyfarwyddwr Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cymru ar y pryd fod barn ar led yn fwy cyffredinol bod yr adolygiad yn ymwneud â gwaith AWEMA yn ei gyfanrwydd a'i sefyllfa gyffredinol fel sefydliad.

**Astudiaeth Achos 4 - Ym mis Mawrth 2006, roedd yr ymateb a roddwyd gan y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Jane Hutt) i 'Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad' ynglŷn â chyfanswm yr arian yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i roi i AWEMA, fel y'i paratowyd gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru, yn anghywir ac yn anghyflawn. Credwn fod yr ymateb anghywir hwn yn nodweddiadol o fethiant mwy cyffredinol gan adrannau i gydgysylltu a chyfathrebu â'i gilydd a rheoli'n effeithiol berthynas ariannu gyffredinol Llywodraeth Cymru ag AWEMA dros y blynyddoedd blaenorol.**

Ym mis Mawrth 2006, cyflwynodd dau Aelod Cynulliad, Dr Dai Lloyd a Mr Peter Black Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Jane Hutt). Roedd y cwestiynau hyn yn ymwneud ag ariannu AWEMA. Dywedodd yr Aelodau Cynulliad wrthym na allant gofio beth yn union a ysgogodd eu cwestiynau. Mae Dr Lloyd wedi dweud wrthym fod pryderon ynglŷn ag AWEMA wedi cael eu lleisio gan gynrychiolwyr cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig yn ei etholaeth ers rhai blynyddoedd. Mae'n debygol bod ei gwestiwn yn gysylltiedig â'r pryderon hyn, yn ei farn ef. Nododd Mr Black ei fod o bosibl wedi gofyn ei gwestiwn fel cwestiwn dilynol i gwestiwn Dr Lloyd, gan adlewyrchu hefyd ei rôl o ran y portffolio cydraddoldebau fel aelod o un o'r gwrthbleidiau.

Gofynnodd Dr Lloyd i'r Gweinidog fanylu ar yr arian a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i AWEMA bob blwyddyn ers 1999. Ar 16 Mawrth 2006, ymatebodd y Gweinidog i'r cwestiwn, gan roi dadansoddiad o'r arian yn ôl blwyddyn ariannol. Datgelwyd cyfanswm o £792,245, gan gynnwys:

- 2000-01: £24,075
- 2001-02: £148,417
- 2002-03: £206,900
- 2003-04: £234,972
- 2004-05: £38,333
- 2005-06: £139,548

Dengys ein dadansoddiad, ar adeg cyflwyno'r cwestiwn (6 Mawrth 2006), fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud taliadau gwerth £1.75 miliwn i AWEMA. Ar 10 Mawrth 2006, gwnaeth WEFO daliad arall o £265,161 ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru ac, ar 21 Mawrth 2006, gwnaeth yr uned cydraddoldebau daliad arall o £25,000 mewn perthynas ag arian craidd AWEMA. Gyda'r ddau daliad hyn cafwyd cyfanswm terfynol o £2.04 miliwn hyd at ddiwedd 2005-06 (Atodiad 2).

Nid oedd yr ymateb a roddwyd yn cynnwys yr holl arian a roddwyd i AWEMA gan WEFO, fel y disgrifir uchod, na chan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (£807,917 ar gyfer y cyfnod 2002-03 i 2005-06). Nid oedd yr ymateb ychwaith yn cynnwys taliadau mân gwerth £2,068 a ddangosir yn Atodiad 2. Nid yw'n glir pam na cafodd arian WEFO na Cymunedau yn Gyntaf ei gynnwys, er ei bod yn bosibl nad oedd swyddogion yn ystyried bod yr arian hwn yn benodol ar gyfer AWEMA am fod AWEMA yn cael yr arian hwn ar ran AWEMA ei hun a nifer o bartneriaid prosiect eraill (Atodiad 2 a pharagraffau 1.12 i 1.14).

Rydym wedi cysoni rhai o'r ffigurau a nodwyd ar gyfer blynyddoedd ariannol unigol â rhai taliadau gan Lywodraeth Cymru, ond nid oedd y ffigurau a nodwyd yn ystyried yn llawn arian a roddwyd gan adrannau eraill Llywodraeth Cymru. At hynny, roedd rhai o'r symiau a nodwyd ar gyfer blynyddoedd ariannol unigol yn cynnwys taliadau a dalwyd mewn cyfnod gwahanol. Er i'r ymateb gael ei baratoi gan yr uned cydraddoldebau, nid oedd y ffigur a nodwyd ar gyfer 2004-05 yn cynnwys ei thaliadau ei hun i AWEMA y flwyddyn honno. At hynny, Ni chafodd arian yr uned cydraddoldebau ar gyfer y prosiect Hawl i Bleidleisio ei gynnwys yn y cyfrifiad ar gyfer 2000-01 ond cafodd swm, o £55,000 ei gynnwys ar gyfer 2001-02, 2002-03 a 2003-04 (y symiau a dalwyd mewn gwirioneddol yn ystod y blynyddoedd hynny oedd £51,804, £50,000 a £50,000 yn y drefn honno). Ar gyfer 2005-06, ymddengys i'r ymateb gynnwys swm o £39,458 yr oedd yr uned cydraddoldebau wedi nodi y gallai AWEMA ei gadw fel arian cyfatebol ar gyfer ei waith prosiect a ariannwyd gan WEFO. Ni thalodd Llywodraeth Cymru yr arian hwn i AWEMA yn 2005-06. Roedd ond wedi caniatáu i AWEMA gadw'r arian hwn ar ôl i AWEMA, ym mis Chwefror 2005, dynnu sylw'r uned cydraddoldebau at yr arian nas gwariwyd o 2000-01 (paragraffau 2.35 i 2.46). Mae'n anodd esbonio'r gwallau yn adroddiadau'r uned cydraddoldebau ar ei harian o gofio, ar yr un pryd ag yr oedd yn paratoi'r ymateb, ei bod yn ystyried y tanwariant a ddatganwyd gan AWEMA o 2000-01 yn ogystal â thanwariant ar wahân yn erbyn ei arian yn 2004-05.

Roedd yr ymateb a roddwyd gan y Gweinidog yn gyson â'r wybodaeth a ddarparwyd gan ei swyddogion ac nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ymgais fwriadol i gamarwain. Yn ein barn ni, roedd methiant swyddogion Llywodraeth Cymru i nodi'n gywir gyfanswm yr arian a roddwyd i AWEMA yn nodweddiadol o fethiant mwy cyffredinol gan adrannau Llywodraeth Cymru i gydgysylltu a chyfathrebu â'i gilydd a rheoli'n effeithiol berthynas gyffredinol Llywodraeth Cymru ag AWEMA dros y blynyddoedd blaenorol.

Ym mis Tachwedd 2003 mewn ymateb i 'Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad' gan y cyn-aelod Cynulliad David Davies nododd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Edwina Hart) fod AWEMA wedi cael tua £759,303 gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ffigur a ddyfynnwyd ar yr achlysur hwn yn gyson â'n dadansoddiad o daliadau Llywodraeth Cymru i AWEMA erbyn hynny, gan gynnwys taliadau gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac unrhyw daliadau amrywiol.

Astudiaeth Achos 5 - Yn 2006, daeth WEFO yn ymwybodol o bryderon ynglŷn â phrosesau caffael, taliadau i sefydliadau partner, gwariant anghymwys, arian cyfatebol yn y dyfodol a'r ffordd yr oedd prosiect Curiad Calon Cymru AWEMA yn cael ei reoli'n gyffredinol ac ymchwiliodd i'r pryderon hynny. Ymatebodd WEFO i'r pryderon hyn yn ddi-oed a chytunodd ar nifer o gamau gwella ag AWEMA, gan ystyried ymateb AWEMA ei hun i rai o'r materion hyn. Fodd bynnag, bu rhywfaint o ddiffyg eglurder ynglŷn â chyfrifoldebau o fewn WEFO, ac ni allem ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod WEFO wedi monitro cydymffurfiaeth â'r camau gwella y cytunwyd arnynt mewn ffordd systematig.

Yn ystod gwanwyn a haf 2006, daeth WEFO yn ymwybodol o amryw bryderon am gyllid prosiect Curiad Calon Cymru a'r ffordd yr oedd yn cael ei reoli ac ymchwiliodd iddynt. Roedd y pryderon hyn wedi deillio o gyfuniad o drefniadau monitro ac arolygu WEFO ei hun a materion a godwyd gan bartneriaid prosiect. I grynhoi, roedd y prif bryderon yn ymwneud â'r canlynol:

- **Prosesau caffael.** Yn benodol lle nododd WEFO fod AWEMA wedi methu â dilyn arferion caffael cywir a digonol wrth dendro am werthuswyr allanol ac am arbenigwr ar y cyfryngau i roi cyhoeddusrwydd i'r prosiect a chodi ymwybyddiaeth ohono.
- **Methiant i dalu sefydliadau partner.** Roedd pryderon bod AWEMA wedi gwrthod cais gan bartneriaid y prosiect i dderbyn cyfran o flaendaliad o £265,161 a wnaed gan WEFO ym mis Chwefror 2006. Roedd pryderon bod sefydliadau partner yn mynd i wariant ac wedyn yn aros rhwng dau a chwe mis i gael taliadau gan AWEMA, a oedd, o gofio mai sefydliadau bach oeddent, yn achos problemau llif arian parod. Er i WEFO gadarnhau bod partneriaid wedi cael eu cyfran o'r blaendaliad o £116,909 i AWEMA ym mis Mai 2006.
- **Gwariant anghymwys.** Gan gynnwys alcohol a hawliadau am dreuliau sefydliadau ac unigolion yn ystod ymweliad rhyngwladol nad oeddent yn rhan o Bartneriaeth Curiad Calon Cymru. Ceisiodd WEFO sicrwydd hefyd gan AWEMA na fyddai eitemau eraill o wariant anghymwys o bosibl a nodwyd gan WEFO yn cael eu hawlio o arian Ewropeaidd AWEMA.
- **Arian cyfatebol.** Roedd AWEMA wedi methu â rhoi tystiolaeth, erbyn y terfyn amser penodedig, ei bod wedi sicrhau'r arian cyfatebol a oedd ar gael ar gyfer ail flwyddyn 'Cam Gweithredu 2' y prosiect ac roedd pryderon ynglŷn â'r goblygiadau posibl pe bai'n rhaid lleihau maint y prosiect os nad oedd yr arian cyfatebol wedi'i gadarnhau.
- **Rheoli prosiect.** Nifer o bryderon gan gynnwys: proses recriwtio annigonol i benodi rheolwr prosiect newydd; mater a oedd yn ymwneud ag ymddygiad Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik); a'r graddau yr oedd sefydliadau partner AWEMA yn rhan o broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'r prosiect.

Ym mis Mai 2006, cynhaliwyd arolygiad o'r prosiect gan Dîm 'Erthygl 4' WEFO (a elwir yn Dîm Arolygu a Gwirio Prosiectau erbyn hyn). Ataliodd WEFO ei thaliadau i AWEMA dros dro tra roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud a hyd nes bod AWEMA yn gallu rhoi tystiolaeth bod ganddi ddigon o arian cyfatebol i gefnogi'r prosiect. Diben yr arolygiad oedd cadarnhau bod y prosiect yn cydymffurfio â nifer o feini prawf, gan gynnwys rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd, amodau grant a'r rheolau ynglŷn â gwariant cymwys. Fodd bynnag, nid oedd y cylch gwaith hwn yn ymestyn i ystyried materion a oedd yn ymwneud â thalu sefydliadau partner na threfniadau rheoli prosiect. Ac ni wnaeth y gwaith hwn ychwaith ateb y cwestiwn ynglŷn ag arian cyfatebol yn y dyfodol.

Ar 19 Mehefin 2006, nododd y Tîm Erthygl 4 ei fod, ym mhob un o'r meysydd a archwiliwyd ganddo, yn 'fodlon', ond yn gyson â'r trefniadau adrodd ar y pryd gallai hyn ond golygu bod materion wedi cael eu cyfeirio at aelodau eraill o staff WEFO i'w datrys ar y cyd ag AWEMA (paragraffau 2.112 i 2.113). Er enghraifft, bu rhywfaint o ansicrwydd o fewn WEFO ynglŷn â'r cyfrifoldebau am ymchwilio i drefniadau caffael AWEMA. Roedd Pennaeth cangen Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar y pryd wedi gofyn i'r Tîm Erthygl 4 ymchwilio i drefniadau caffael AWEMA fel rhan o'i waith. Fodd bynnag, ymatebodd y Tîm Erthygl 4 drwy nodi bod hyn y tu allan i'w gylch gwaith a bod yr argymhellion ynglŷn â chaffael yn ei adroddiad terfynol ond yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y materion hyn yn ôl i aelodau eraill o staff WEFO i'w trafod ag AWEMA. Ni wyddom pam nad oedd y Tîm Erthygl 4 yn ystyried hyn yn rhan o'i waith i ymchwilio i arferion caffael AWEMA.

Ar 12 Mehefin 2006, cyfarfu swyddogion WEFO â chydweithwyr o Swyddfa Gydymffurfiaeth a Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru i drafod yr amrywiol bryderon a nodwyd. Nid oedd y cyfarfod hwn yn cynnwys uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ond tynnwyd sylw'r uned cydraddoldebau at y pryderon y diwrnod canlynol a rhoddwyd gwybod i'r uned cydraddoldebau am y datblygiadau ar ôl hynny. Roedd yr uned cydraddoldebau, bryd hynny, wedi nodi ei phryderon ei hun ynglŷn ag ansawdd rhywfaint o waith AWEMA a'r tanwariant yn erbyn ei arian grant blaenorol (paragraffau 2.35 i 2.47). Roedd yr uned cydraddoldebau yn aros am sicrwydd gan WEFO cyn cytuno y gallai ei harian gael ei gyfrif gan AWEMA, yn rhannol, fel arian cyfatebol ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru.

## Astudiaeth Achos 5 - parhad

O ganlyniad i'r cyfarfod, ymddengys bod WEFO wedi penderfynu y byddai'n ysgrifennu at AWEMA i ofyn am ymateb ffurfiol i'r gwahanol bryderon a nodwyd gan WEFO. Amlinellwyd y bwriad hwn mewn cyflwyniad i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ar y pryd (Andrew Davies) ar 10 Gorffennaf 2006. Anfonwyd y cyflwyniad at y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Jane Hutt).

Er nad oes sôn am hyn yn y cyflwyniad i'r Gweinidog, awgryma cofnodion a welwyd gennym fod y swyddog prosiect yn WEFO a oedd yn gyfrifol am brosiect Curiad Calon Cymru eisoes erbyn hyn wedi bod yn paratoi nodyn briffio i'w anfon at Bennaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru ar y pryd yn gofyn am i 'ymarfer arbennig' gael ei gynnal. Roedd y cais wedi cael ei drafod â'r uned cydraddoldebau, a Swyddfa Gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru, ac wedi cael eu cefnogaeth mewn egwyddor. Anfonwyd y cais at y Pennaeth Archwilio Mewnol ar 18 Gorffennaf 2006. Ymatebodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod angen i WEFO fod yn gyfrifol am reoli perthynas a monitro, yn ei farn ef, cyn ystyried gofyn i staff Archwilio Mewnol edrych ar y mater. Yn benodol, nid ymddangosai bryd hynny fod y pryderon a nodwyd wedi cael eu codi'n ffurfiol â rheolwyr AWEMA. Nododd hefyd y gallai adolygiad Archwilio Mewnol gael effaith andwyol ar enw da heb gyfiawnhad o bosibl. Cytunodd Prif Weithredwr WEFO ar y pryd ag asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol ac, ar 24 Gorffennaf 2006, ysgrifennodd WEFO at Mr Malik yn amlinellu'r amrywiol bryderon ac yn gofyn am ymateb.

Ar 2 Awst 2006, ymatebodd Mr Malik yn ysgrifenedig i bob un o'r pryderon. Roedd yr ymateb hwnnw yn cynnwys cyfeiriadau at gamau a oedd eisoes wedi'u cymryd i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon, er enghraifft, o ran ymgysylltu â phartneriaid, a nododd fod y mater o ran taliadau i bartneriaid wedi codi o ddiffyg eglurder yng nghanllawiau WEFO a bod AWEMA wedi gweithredu yn unol â chyngor ei archwilydd allanol. Cyn anfon yr ymateb ffurfiol hwn, roedd AWEMA hefyd wedi bod yn rhoi rhagor o wybodaeth am arian cyfatebol i WEFO.

Ar 8 Awst 2006, cynhaliwyd cyfarfod rhwng swyddogion WEFO, cynrychiolwyr AWEMA (gan gynnwys Mr Malik a'r Cadeirydd ar y pryd, Dr Rita Austin) ac archwilydd allanol AWEMA. Drwy'r cyfarfod hwn datryswyd y materion a fu'n achos pryder i WEFO i raddau helaeth ond, ym mis Medi 2006, cytunodd AWEMA ar nifer o gamau gwella cysylltiedig â WEFO ynglŷn â rheoli'r prosiect yn y dyfodol.

Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod WEFO wedi monitro cynnydd AWEMA mewn perthynas â'r pwyntiau gweithredu hyn mewn ffordd systematig. Fodd bynnag, mewn archwiliad o'r prosiect gan Dîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2009 edrychwyd eto ar y materion o ran caffael a daeth yr archwiliad i'r casgliad bod yr holl gostau yr aed iddynt yn y contractau gwreiddiol wedi'u datgan i fod yn anghymwys ac wedi'u dileu o hawliadau AWEMA, gyda'r contractau yn cael eu hailosod drwy broses dendro briodol a ffurfiol. Edrychodd yr archwiliad hwn yn benodol ar wariant ar ymweliadau rhyngwladol a daeth i'r casgliad bod yr holl gostau a hawliwyd yn y pen draw yn gymwys.

Ar sail y cyfarfod ar 8 Awst 2006, rhoddodd Pennaeth cangen Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar y pryd sicrwydd hefyd i adrannau eraill Llywodraeth Cymru (yr uned cydraddoldebau a'r Gyfarwyddiaeth Gymunedau) ynglŷn â bwriad AWEMA i ddyrannu rhywfaint o'r arian a oedd yn cael ei roi gan yr adrannau hynny fel arian cyfatebol ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru.

Ar 25 Medi 2006, derbyniodd Pennaeth cangen Cronfa Gymdeithasol Ewrop lythyr dienw yn honni'r canlynol:

- roedd Mr Malik yn camddefnyddio arian cyhoeddus, gan ei fod yn dyfarnu arian Llywodraeth Cymru i sefydliadau ac yn gyfnewid am hynny roedd yn gofyn i sefydliad gefnogi hawliad ceisiwr lloches aflwyddiannus.
- roedd un o'r sefydliadau partner wedi tynnu'n ôl o'r prosiect pan wrthododd Mr Malik newid ei ymddygiad o ran y ceisiwr lloches aflwyddiannus;
- roedd treuliau wedi'u hawlio ar daith dramor i Frwsel am bobl nad aethant yno mewn gwirionedd ac, ar yr un daith, bod arian cyhoeddus wedi'i ddefnyddio i brynu esgidiau a bagiau llaw.

Ystyriodd WEFO yr honiadau yn y llythyr di-enw gan rannu ei chasgliadau â Swyddfa Gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru a phennaeth yr uned cydraddoldebau. Cafodd WEFO sicrwydd gan y camau yr oedd eisoes wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pryderon a nodwyd yn gynharach yn 2006 a'r ffaith bod un o'i swyddogion prosiect ei hun yn bresennol ar y daith i Frwsel ac y gallai ddangos bod llawer mwy o gynrychiolwyr o bartneriaeth Curiad Calon Cymru yn bresennol na'r hyn a awgrymwyd gan y gohebydd. Nododd WEFO hefyd nad oedd y gohebydd wedi rhoi unrhyw dystiolaeth ategol a'i fod wedi nodi nad oedd erioed wedi siarad â Mr Malik ei hun. Ar 29 Medi 2006, nododd Prif Weithredwr WEFO, ar sail ymwneud diweddar WEFO â'r trefniadau monitro parhaus, nad oedd cyfiawnhad dros gymryd camau penodol eraill ynglŷn â'r honiadau ar y pryd. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth yn awgrymu bod y Gweinidogion wedi cael gwybod am y mater penodol hwn, nac ychwaith eu bod wedi cael gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad ymchwiliadau blaenorol WEFO.

## Astudiaeth Achos 5 - parhad

Wrth wneud sylwadau ar drefniadau monitro parhaus WEFO, nododd Prif Weithredwr WEFO fod tîm archwilio ‘Erthygl 10’ WEFO ar y pryd, y cyflawnir ei swyddogaethau gan Dîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru erbyn hyn, yn bwriadu cynnal ymweliad. Yr unig dystiolaeth a welsom o waith o’r fath oedd yr archwiliad a gwblhawyd gan y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2009, 18 mis ar ôl taliadau terfynol WEFO i AWEMA ar gyfer prosiect Curiad Calon Cymru. Rydym ar ddeall i’r gwaith archwilio yn 2009 ddeillio o’r ffaith bod angen i’r Tîm Archwilio Cronfeydd Strwythurol gynyddu ei waith archwilio hanesyddol. Roedd Prif Weithredwr WEFO wedi nodi, yn 2006, fod y bwriad i gynnal ymweliad Erthygl 10 yn seiliedig ar asesiad risg WEFO o brosiect AWEMA.

**Nodyn Atodol**

Ymatebodd WEFO i broblemau ynglŷn â gwariant anghymwys gwirioneddol neu bosibl drwy ofyn i AWEMA dynnu’r costau hyn o’i hawliadau neu sicrhau nad oeddent wedi’u cynnwys mewn hawliadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, ymddengys nad oedd uned cydraddoldebau na Chyfarwyddiaeth Gymunedau Llywodraeth Cymru – yr oedd y naill a’r llall yn ariannu AWEMA ar y pryd – wedi holi sut yr oedd AWEMA yn talu’r costau anghymwys hyn, os nad oeddent yn cael eu talu o arian WEFO. Roedd y cais gan swyddog prosiect WEFO i’r Pennaeth Archwilio Mewnol am ‘ymarfer arbennig’ wedi nodi’r risg na allai AWEMA ddychwelyd arian a dalwyd eisoes neu na fyddai gan AWEMA ddigon o arian yn ei chronfeydd wrth gefn ar gyfer eitemau yr oedd wedi talu amdanynt ond nad oedd wedi hawlio yn eu cylch eto.

Astudiaeth Achos 6 - Ym mis Gorffennaf 2007, derbyniodd Llywodraeth Cymru ohebiaeth gan Gadeirydd Dros Dro ac Is-Gadeirydd Dros Dro AWEMA yn gwneud honiadau difrifol am fethiannau llywodraethu yn AWEMA. Roedd y pryderon hyn, yn ein barn ni, o bwys hanfodol i'r cwestiwn a oedd AWEMA yn sefydliad addas i gael arian cyhoeddus, a hynny pan oedd gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ei phryderon ei hun ynglŷn â datblygiad cynllun gweithredu 2007-08 AWEMA mewn perthynas â'i arian craidd. Yn ein barn ni, methodd Llywodraeth Cymru â rhoi digon o ystyriaeth i'r honiadau hyn, yr oedd yn eu hystyried yn faterion mewnol i AWEMA yn y bôn ond hefyd yn faterion i'w hystyried gan y Comisiwn Elusennau o bosibl. Dibynnodd ymateb Llywodraeth Cymru ar sicrwydd ysgrifenedig gan AWEMA ac nid ymddengys iddi ystyried rhai materion ymhellach.

Ar 2 Gorffennaf 2007, ysgrifennodd Cadeirydd Dros Dro AWEMA i'r uned cydraddoldebau yn codi sawl pryder sylweddol am lywodraethu AWEMA. Nododd y Cadeirydd Dros Dro fod yr Is-Gadeirydd Dros Dro, aelod arall o'r bwrdd ac yntau yn bwriadu ymddiswyddo oherwydd y materion hyn, a oedd yn cynnwys honiadau ynghylch y canlynol:

- cynnydd yng nghyflog a phensiwn Prif Weithredwr AWEMA (Mr Naz Malik) heb gymeradwyaeth Bwrdd AWEMA;
- diffyg goruchwyliaeth dros Mr Malik;
- Mr Malik yn dewis ffrindiau personol i fod yn aelodau o'r bwrdd er mwyn rheoli'r bwrdd.

Ysgrifennodd Is-Gadeirydd Dros Dro AWEMA ar y pryd i'r uned cydraddoldebau ar 6 Gorffennaf 2007 yn ailddatgan pryderon y Cadeirydd Dros Dro. Yn y llythyr hwnnw mynegwyd pryderon hefyd fod is-grŵp o'r bwrdd (y Pwyllgor Personél) wedi cael ei ffurfio o aelodau a ddewiswyd yn arbennig i sicrhau y câi cynigion ar gyfer cynyddu cyflog ei gymeradwyo ac y câi cynllun bonws i'r staff ei gyflwyno.

Ar 13 Gorffennaf 2007, ymatebodd yr uned cydraddoldebau gan nodi bod y materion a godwyd yn rhai mewnol i AWEMA i bob golwg a chyfeirio hefyd at rôl y Comisiwn Elusennau yn y gwaith o reoleiddio elusennau. Fodd bynnag, nododd y llythyr hefyd y byddai'r uned cydraddoldebau yn ystyried pa gamau pellach yr oedd angen eu cymryd i sicrhau bod telerau ac amodau arian grant yn cael eu bodloni. Yn briodol ddigon, aeth yr uned cydraddoldebau yn ei blaen i geisio cyngor gan Swyddfa Gydymffurfiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru tra ystyriodd yr uned cydraddoldebau yr honiadau hyn. Rhannwyd y pryderon â swyddogion WEFO hefyd, gan gydnabod gwerth cymharol arian WEFO i AWEMA ac yng ngoleuni'r pryderon yr ymchwiliodd WEFO iddynt yn 2006 (Astudiaeth Achos 5).

Ar 19 Gorffennaf 2007, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb Gweinidogol am y portffolio cydraddoldebau o Jane Hutt i Brian Gibbons. Rhoddodd Ms Hutt gadarnhad i ni nad oedd wedi cael ei briffio ar y materion hyn ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu fel arall.

Ar wahân i'r materion a godwyd gan Gadeirydd Dros Dro ac Is-Gadeirydd Dros Dro AWEMA, roedd gan yr uned cydraddoldebau bryderon ynglŷn â chynllun gweithredu arfaethedig AWEMA ar gyfer 2007-08 o ran ei harian craidd o'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb (Atodiad 2). Cyfarfu swyddogion o'r uned cydraddoldebau â chynrychiolwyr AWEMA ar 19 Gorffennaf 2007 i drafod y cynllun gweithredu. Awgryma'r nodyn o'r cyfarfod hwnnw na chafodd y pryderon a godwyd gan y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-Gadeirydd Dros Dro eu trafod bryd hynny. Cyflwynodd AWEMA gynllun gweithredu drafft diwygiedig ar 26 Gorffennaf 2007.

Hefyd ar 26 Gorffennaf 2007, ysgrifennodd yr uned cydraddoldebau at Mr Malik yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-Gadeirydd Dros Dro. Ceisiodd y llythyr hwn sicrwydd bod AWEMA yn cael arian cyhoeddus, ei bod wedi'i sefydlu'n briodol a'i bod yn cael ei rheoli'n effeithiol. Gofynnodd y llythyr hwn am adborth ar y materion a'r pryderon ehangach ynglŷn â llywodraethu a nodwyd yn yr honiadau a nododd fod yr honiadau ynglŷn â chynnydd mewn cyflogau a thaliadau bonws yn achos pryder arbennig. Nododd y llythyr na fyddai unrhyw wariant ar daliadau bonws yn gymwys i'w hawlio o arian WEFO AWEMA. Ni fyddai'n bosibl ychwaith i gostau o'r fath gael eu cyfrif mewn unrhyw arian cyfatebol a ddatganwyd. Gofynnodd y llythyr am esboniad o'r ffordd yr oedd unrhyw daliadau bonws perfformiad wedi'u cyfrifo, wedi'u cymeradwyo ac wedi'u dyfarnu i staff, gan gynnwys y Prif Weithredwr.

## Astudiaeth Achos 6 - parhad

Ar 1 Awst 2007, ymatebodd Mr Malik i'r uned cydraddoldebau, gan wadu'r pryderon a godwyd gan y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-Gadeirydd Dros Dro. Ar 8 Awst 2007, ysgrifennodd y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-Gadeirydd Dros Dro unwaith eto i'r uned cydraddoldebau yn gwrthod yr esboniadau a roddwyd gan Mr Malik ac yn codi eu pryderon unwaith eto. Yn benodol, pwysleisiwyd eu pryderon ynglŷn â'r ffordd yr oedd cyflog Mr Malik wedi cael ei godi.

Ar 9 Awst 2007, cafodd yr uned cydraddoldebau gyngor gan Swyddfa Gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys y datganiadau canlynol:

- 'One of the concerns ….was whether or not the issues were having a negative impact on delivery of [AWEMA's] business plan. It's clear this may be the case and in the light of that and the continuing concerns over corporate governance within the organisation, we are of the view that you would be perfectly justified in withholding further payments until these matters have been before the board and addressed to our satisfaction.'
- 'We also feel that it is time to brief your Minister about these ongoing concerns. There is likely to be political fallout if payments have to be suspended and it would be wise to give your Minister a heads-up.' Mewn ymateb, nododd yr uned cydraddoldebau fod uwch reolwyr a'r Gweinidog eisoes wedi cael gwybod am y mater ac y byddai'r Gweinidog yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf (ac felly y digwyddodd dros yr ychydig wythnosau dilynol).

Hefyd ar 9 Awst 2007, ysgrifennodd yr uned cydraddoldebau at Mr Malik yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynglŷn â chynllun gweithredu arfaethedig AWEMA ar gyfer 2007-08. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys cost digwyddiadau ymgynghori arfaethedig, dosbarthiad daearyddol y gweithgarwch a bwriad datganedig AWEMA i godi tâl ar adrannau Llywodraeth Cymru am waith ymgynghori a ddylai gael ei gwmpasu gan ei harian ei hun, ym marn yr uned cydraddoldebau.

Ar 13 Awst 2007, ysgrifennodd yr uned cydraddoldebau at Mr Malik unwaith eto yn mynegi pryder ynglŷn â'r diffyg cytundeb o hyd rhwng yr ymddiriedolwyr ar y materion a godwyd o'r blaen a'r effaith negyddol o bosibl ar gyflawni cynllun gwaith AWEMA. Gofynnodd y llythyr hwnnw i'r mater gael ei ystyried gan Fwrdd llawn AWEMA a nodwyd nad oedd yr uned cydraddoldebau yn teimlo y gallai gymeradwyo unrhyw daliadau pellach nes bod y mater wedi'i ddatrys yn foddhaol. Erbyn hyn, roedd Mr Malik wedi honni bod y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-Gadeirydd Dros Dro wedi ymddiswyddo o'r bwrdd, i bob diben, drwy beidio â bod yn bresennol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol AWEMA ym mis Gorffennaf 2007 ac am nad oedd y naill na'r llall wedi ceisio cael eu henwebu i gael eu hailethol. Heriwyd yr honiad hwn wedyn gan y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-Gadeirydd Dros Dro.

Ar 17 Awst 2007, rhoddodd yr uned cydraddoldebau nodyn briffio i'r Gweinidog yn amlinellu'r honiadau a wnaed ond hefyd yn nodi mai materion mewnol AWEMA oeddent yn y bôn. Nodwyd y byddai'r uned cydraddoldebau yn ysgrifennu at AWEMA yn ailddatgan y pryderon ac yn ceisio sicrwydd gan AWEMA yn seiliedig ar dystiolaeth. Anfonwyd y nodyn briffio at swyddfeydd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd (Ieuan Wyn Jones) a'r Gweinidog Cyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd (Andrew Davies) a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd (Edwina Hart). Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bellach o gysylltiadau â swyddfeydd y tri Gweinidog hynny ynglŷn â'r mater hwn.

Ar 20 Awst 2007, ysgrifennodd yr uned cydraddoldebau unwaith eto at Mr Malik yn gofyn am ymateb corfforaethol gan Fwrdd AWEMA i'r honiadau a godwyd. Anfonwyd ymateb gan AWEMA ar 22 Awst 2007, yn dilyn cyfarfod o Fwrdd AWEMA y diwrnod hwnnw y dywedwyd bod saith o'r 11 o aelodau yn bresennol ynddo. Roedd yr uned cydraddoldebau wedi gwrthod gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod ar y sail na fyddai'n briodol o ystyried mai materion mewnol AWEMA yn y bôn a oedd yn cael eu trafod yn y cyfarfod. Llofnodwyd ymateb AWEMA gan Gadeirydd newydd AWEMA a oedd newydd gael ei benodi'n ymddiriedolwr hefyd (yr Athro George Karani), cyn-Gadeirydd (Dr Rita Austin) a'r Trysorydd (Mr Stephen Matthews). Nododd yr ymateb fod Bwrdd AWEMA wedi cytuno y byddai'r rhai a lofnododd yn anfon yr ymateb ar ei ran.

Mynegodd ymateb AWEMA bryder mawr bod yr uned cydraddoldebau, yn ôl y sôn, wedi atal arian grant AWEMA ar sail pryderon di-sail y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-Gadeirydd Dros Dro. Mewn gwirionedd, nid oedd yr uned cydraddoldebau wedi atal unrhyw arian bryd hynny. Roedd AWEMA eisoes wedi cael ei harian craidd gan yr uned cydraddoldebau am ddau chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. At hynny, noda'r ohebiaeth e-bost rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru mai'r prif bryder o ran yr arian oedd diffyg cynllun gweithredu boddhaol y cytunwyd arno.

## Astudiaeth Achos 6 - parhad

Mynegodd ymateb AWEMA bryder hefyd fod yr uned cydraddoldebau wedi cysylltu â WEFO ynglŷn â'r honiadau. Yn ein barn ni, roedd yn gwbl briodol rhoi gwybod i WEFO, yn bennaf am fod rhan o ohebiaeth y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-Gadeirydd Dros Dro yn cynnwys cyfeiriad penodol at bryderon am brosiect Curiad Calon Cymru AWEMA a oedd yn cael ei ariannu gan WEFO. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod WEFO wedi cymryd camau ei hun mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-Gadeirydd Dros Dro. Er nad ydym wedi gweld unrhyw ddogfennau i gadarnhau hyn, mae aelod o staff a fu'n gweithio yn yr uned cydraddoldebau yn ystod 2007-08 wedi dweud wrthym fod swyddogion WEFO yn fodlon ar y cyfan ar y trefniadau mewn perthynas â'i harian i AWEMA. Dywedodd y swyddog wrthym, o ystyried y symiau mwy o arian WEFO dan sylw, ymddengys bod y pryderon a nodwyd gan yr uned cydraddoldebau ynglŷn â llywodraethu AWEMA a'i chynllun gweithredu ar gyfer 2007-08 yn llai pwysig.

Ar 3 Medi 2007, rhoddodd yr uned cydraddoldebau nodyn briffio arall i'r Gweinidog. Ynddo nodwyd: 'Following receipt of a further letter provided by the Director of AWEMA, a meeting of senior officers took place where it was agreed that this letter does appear to address our concerns, subject to the Promoting Equality Fund grant monitoring meeting in October. To pursue the concerns of the former Acting Chair and Acting Vice-Chair further may be regarded as overly heavy-handed scrutiny on our part. The issues about the board are for the board to resolve. It would be for the Charity Commission to pursue further if they felt this necessary.'

Nid ydym wedi gweld nodyn o'r cyfarfod rhwng uwch swyddogion a ddaeth i'r casgliad a nodwyd yn y nodyn briffio dyddiedig 3 Medi 2007 i'r Gweinidog. Fodd bynnag, nododd e-bost gan ei rheolwr llinell at bennaeth yr uned cydraddoldebau ar y pryd dyddiedig 29 Awst 2007: 'for the record, we have discussed this today and agreed that we should accept the information given, and move on'. Hefyd ar 3 Medi 2007 ysgrifennodd yr uned cydraddoldebau at archwilwyr allanol AWEMA yn gofyn am fanylion am unrhyw fonysau neu daliadau ar sail perfformiad a wnaed gan AWEMA. Nid ydym yn siŵr pam nad oedd y llythyr hwn wedi gofyn am fanylion am godiad cyflog Mr Malik o ystyried mai hwn oedd un o'r prif bryderon a godwyd gan Gadeirydd Dros Dro ac Is-Gadeirydd Dros Dro AWEMA. Cadarnhaodd archwilwyr AWEMA nad oedd AWEMA wedi gwneud unrhyw daliadau bonws na thaliadau ar sail perfformiad.

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cadarnhau iddo gael ei hysbysu am yr honiadau drwy ohebiaeth uniongyrchol gan y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-Gadeirydd Dros Dro. Roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r cyfeiriad uniongyrchol hwn a cheir tystiolaeth bod yr uned cydraddoldebau, yn ystod mis Awst 2007, wedi siarad â swyddogion y Comisiwn Elusennau ynglŷn â'r pryderon a godwyd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnod bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cadarnhad i'r Comisiwn Elusennau ynghylch pa gamau yr oedd yn bwriadu eu cymryd na chanlyniad unrhyw ymchwiliadau. Rydym ar ddeall gan y Comisiwn Elusennau iddo ymateb a rhoi cyngor i'r ddau gyn-ymddiriedolwr ond na chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Ar 5 Medi 2007, nododd swyddog yn Swyddfa Gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru fod rhai problemau o hyd a allai fod yn achos pryder o bosibl yn deillio o gofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Personél AWEMA ar 9 Gorffennaf 2007. Awgrymodd y swyddog cydymffurfiaeth efallai y byddai'r uned cydraddoldebau am geisio sicrwydd ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer rheoli achosion o wrthdaro buddiannau o gofio bod Mr Malik yn un o aelodau Pwyllgor Personél AWEMA. Awgrymwyd hefyd y dylai'r uned cydraddoldebau ofyn am ragor o wybodaeth am gynigion AWEMA i weithredu strwythur cyflogau newydd (gan gynnwys yr awgrym y gallai strwythur newydd gael ei gyflwyno ar sail ôl-weithredol yn mynd yn ôl 18 mis). Ar 10 Medi 2007, dywedodd yr uned cydraddoldebau wrth y swyddog cydymffurfiaeth fod uwch reolwyr yn fodlon ar y sefyllfa fel yr oedd a bod yr uned wedi gofyn am ragor o ddogfennaeth ategol cyn anfon ymateb ffurfiol i AWEMA.

Roedd yr ymateb a roddwyd gan AWEMA ar 22 Awst 2007 wedi nodi y byddai dogfennau ynglŷn ag arfarniadau perfformiad Mr Malik ar gael i'w gweld yn swyddfeydd AWEMA os oedd angen. Nododd yr ymateb hefyd y câi rhagor o dystiolaeth ategol ei darparu pan oedd ar gael, gan gynnwys adroddiad blynyddol o gyflogau a dalwyd ar gyfer 2006-07. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod yr uned cydraddoldebau wedi mynd ar drywydd y materion hyn. Yn yr un modd, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth benodol mewn perthynas â'r cais a wnaed am ddogfennaeth ategol y cyfeiriodd yr uned cydraddoldebau ato mewn e-bost at y Swyddfa Gydymffurfiaeth ar 10 Medi 2007. Nid yw'n amlwg o'r ohebiaeth dros yr e-bost p'un a oedd y cais hwnnw yn ymwneud â'r ddogfennaeth ategol a addawyd gan AWEMA ar 22 Awst 2007 neu'r materion a gododd yr uned cydraddoldebau gyda'r Swyddfa Gydymffurfiaeth ar 5 Medi 2007. Nid ydym wedi gweld copi o unrhyw lythyr gan yr uned cydraddoldebau yn gofyn am ragor o ddogfennaeth ategol ac eithrio'r llythyr a anfonwyd ar 3 Medi 2007 at archwilwyr allanol AWEMA.

## Astudiaeth Achos 6 - parhad

Roedd y nodyn briffio dyddiedig 3 Medi 2007 wedi cyfeirio at gyfarfod monitro ag AWEMA ym mis Hydref 2007. Nid ydym wedi gweld cofnod o unrhyw gyfarfod o'r fath, naill ai ym mis Hydref 2007 neu'n fuan wedi hynny, boed hynny mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r honiadau a godwyd gan Gadeirydd Dros Dro ac Is-Gadeirydd Dros Dro AWEMA neu bryderon yr uned cydraddoldebau ynglŷn â chynllun gwaith AWEMA.

Ar 1 Tachwedd 2007, anfonodd Mr Malik gynllun gweithredu diwygiedig ar gyfer 2007-08 i'r uned cydraddoldebau gan ddisgrifio yn ei lythyr nifer o'r gweithgareddau yr oedd AWEMA yn ymwneud â hwy, gan gynnwys amryw ymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ymchwiliadau pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymryd rhan mewn cynhadledd a drefnwyd gan adran addysg Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag roedd swyddogion yn anfodlon o hyd nad oedd AWEMA wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan yr uned cydraddoldebau dros yr ychydig fisoedd blaenorol mewn ffordd ddigonol. Cyn ac ar ôl derbyn y cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru, cafodd yr uned cydraddoldebau drafodaeth â Swyddfa Gydymffurfiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru am nodyn briffio i'r Gweinidog yn amlinellu bwriad i atal arian AWEMA nes bod y pryderon ynglŷn â'r cynllun gweithredu dros y flwyddyn wedi'u datrys.

Ar 9 Tachwedd 2007, ac unwaith eto ar 26 Tachwedd 2007, anfonodd yr uned cydraddoldebau y nodyn briffio at y Gweinidog, ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ateb ac nid yw'n amlwg sut yn union y cafodd y pryderon hyn eu datrys. Ar 25 Chwefror 2008, nododd e-bost gan yr uned cydraddoldebau i Swyddfa Breifat y Gweinidog ddiffyg ymateb ffurfiol i'r cyflwyniad ym mis Tachwedd 2007. Roedd swyddfa breifat y Gweinidog, ar 11 Chwefror 2008, wedi cwestiynau'r ffaith bod AWEMA wedi'i chynnwys mewn rhestr o sefydliadau yr oedd yr uned cydraddoldebau yn bwriadu eu hariannu ar gyfer 2008-09. Nododd yr uned cydraddoldebau fod y Gweinidog wedi cael, ym mis Gorffennaf 2007, y cyflwyniad yn nodi bod ei hymchwiliadau i'r honiadau a ddaeth i law ym mis Gorffennaf 2007 wedi cael eu datrys yn foddhaol. Fodd bynnag, nododd yr e-bost fod angen o hyd i'r uned cydraddoldebau gyfarfod ag AWEMA i 'iron out the issues regarding their reporting arrangements and compliance with the Promoting Equality Fund requirements for funding'. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i'r cyfarfod hwnnw gael ei gynnal. Fodd bynnag, ar 26 Chwefror 2008, anfonodd Mr Malik adroddiad cynnydd 'cyn diwedd y flwyddyn' i'r uned cydraddoldebau, ac wrth wneud hynny, mynegodd bryder nad oedd AWEMA wedi cael ei harian gan yr uned cydraddoldebau ar gyfer trydydd a phedwerydd chwarter y flwyddyn ariannol. Derbyniodd AWEMA yr arian hwn mewn un taliad gan Lywodraeth Cymru ar 19 Mawrth 2008.

Ar 16 Tachwedd 2007, hysbyswyd Mr Malik gan yr uned cydraddoldebau, ar ôl ystyried yr honiadau a godwyd ym mis Gorffennaf 2007 gan y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-Gadeirydd Dros Dro na allai weld unrhyw sail dros gefnogi'r hyn a honnwyd. Cafodd y neges hon ei chyfleu gan Mr Malik i Fwrdd AWEMA yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2008. Nid ydym wedi gweld unrhyw gofnodion yn dangos p'un a wnaeth Llywodraeth Cymru hysbysu'r Cadeirydd Dros Dro a'r Is-Gadeirydd Dros Dro a gododd y pryderon yn y lle cyntaf yn uniongyrchol am y canlyniad hwn ac, os felly, sut y gwnaeth hynny.

**Astudiaeth Achos 7 - Ym mis Medi 2010, cyfarfu'r cyn-Aelod Cynulliad (Dr Dai Lloyd) â'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Carl Sargeant) i drosglwyddo pryderon ynglŷn â gweithgareddau AWEMA a godwyd gan gynrychiolwyr Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe (y Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol erbyn hyn). Nid ymddengys i uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru weithredu ar y camau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod hwnnw.**

Fel y nodwyd yn Achos Astudiaeth 4, roedd y cyn-Aelod Cynulliad, Dr Dai Lloyd, wedi dweud wrthym fod pryderon ynglŷn ag AWEMA wedi cael eu lleisio gan gynrychiolwyr cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig yn ei etholaeth, yn enwedig gan SBREC, ers rhai blynyddoedd. Yn benodol, yn ystod 2010, cysylltodd Cyfarwyddwr SBREC â Dr Lloyd i godi nifer o bryderon ynglŷn ag AWEMA. Yn benodol, roedd Cyfarwyddwr SBREC yn pryderu bod AWEMA yn cael arian cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau ledled Cymru ond ymddangosai nad oedd yn ymgymryd â'r gweithgareddau hyn yn ardal Abertawe (gweler y testun atodol isod).

O ystyried y pryderon hyn, gofynnodd Dr Lloyd am gyfarfod â Carl Sargeant, y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd. Cyfarfu Dr Lloyd â Carl Sargeant ar 28 Medi 2010 ym mhresenoldeb staff o'r uned cydraddoldebau hefyd (ond heb gynnwys pennaeth yr uned cydraddoldebau ar y pryd, nad oedd ar gael, na'r aelod o staff a oedd wedi bod yn arwain y gwaith o oruchwylio arian grant AWEMA ond a oedd yn absennol o'r gwaith ar y pryd). Dywedodd Dr Lloyd iddo gael yr argraff yn y cyfarfod bod y Gweinidog eisoes yn ymwybodol iawn o'r pryderon ynglŷn ag AWEMA. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd yn beth anarferol i bryderon am sefydliadau ym maes cydraddoldebau gael eu codi gydag ef.

Mae nodiadau'r cyfarfod ar 28 Medi 2010 yn cofnodi tri cham gweithredu:

- dylai swyddogion goladu gwybodaeth o adroddiadau chwarterol AWEMA i'w chyflwyno i'r Gweinidog;
- dylai'r Gweinidog ysgrifennu at Dr Lloyd i rannu manylion yr hyn a gyflawnwyd gan AWEMA;
- dylai swyddogion gynnal ymweliad monitro ag AWEMA yn y dyfodol agos er mwyn cadarnhau camau gweithredu AWEMA yn erbyn eu hymrwymiadau.

Mae Dr Lloyd wedi dweud wrthym iddo gael yr argraff yn y cyfarfod y câi'r pryderon eu harchwilio a'i fod yn fodlon y byddai hynny'n digwydd. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth yn awgrymu bod y camau gweithredu hyn wedi'u cymryd wedyn o fewn Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai wedi disgwyl i'w swyddogion gymryd unrhyw gamau gweithredu heb gyfeirio'n ôl ato, er mai un o'r camau gweithredu datganedig oedd eu bod yn rhoi rhagor o wybodaeth iddo.

O ran yr ymweliad monitro arfaethedig, ceir tystiolaeth yn dangos i egwyddor ymweliad gael ei drafod ag AWEMA ym mis Hydref 2010. Mae'n amlwg hefyd, bryd hynny, fod swyddogion o'r uned cydraddoldebau yn pryderu o hyd am y ffordd yr oedd AWEMA yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyflawniadau, a hynny ar ôl i rai pryderon ynglŷn â gorgyfrif defnyddwyr gwasanaethau yn y ffordd roedd AWEMA wedi nodi cynnydd gael eu nodi'n gynharach yn ystod y flwyddyn ariannol. Ymddengys i'r materion hyn gael eu datrys er boddhad Llywodraeth Cymru erbyn mis Ionawr 2011, ond roedd y swyddog a adolygodd adroddiad cynnydd AWEMA ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2010-11 yn dal i argymell cyfarfod monitro yn y dyfodol. Dywedwyd bod cyfyngiadau amser yn ei gwneud yn amhosibl i'w gyflawni yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn ariannol. Mae'r unig dystiolaeth wedi'i dogfennu o unrhyw gyfarfod monitro arall ag AWEMA gan staff yr uned cydraddoldebau yn dyddio o fis Mehefin 2011. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn sgil newid o ran personél a rolau/cyfrifoldebau o fewn yr uned cydraddoldebau ac ymddengys mai prif ddiben y cyfarfod oedd trafod y cynllun gwaith ar gyfer 2011-12 a'r trefniadau diwygiedig ar gyfer adroddiadau chwarterol.

**Nodyn Atodol**

Mae Cyfarwyddwr SBREC wedi dweud wrthym unwaith eto am y pryderon a godwyd gyda Dr Lloyd ac wedi sôn am bryderon hanesyddol yr oedd wedi'u codi â gwahanol Aelodau Cynulliad yn ystod trafodaethau eraill. Ymddangosodd yn rhaglen Dragon's Eye ar AWEMA ym mis Tachwedd 2003 (Astudiaeth Achos 3), ar ôl bod yn un o gyfarwyddwyr AWEMA ar ôl iddi gael ei chofrestru'n gwmni ym mis Tachwedd 2000 a hyd at ganol 2001. Dywedodd Cyfarwyddwr SBREC wrthym iddo ddod yn rhan o weithgarwch AWEMA yn awtomatig, fel estyniad o'r rôl yr oedd wedi ymgymryd â hi ym mis Tachwedd 2000 (Cadeirydd SBREC ar y pryd oedd Mr Naz Malik). Dywedodd Cyfarwyddwr SBREC wrthym iddo ymadael ei rôl ag AWEMA ar ôl i Mr Malik ddod yn Brif Weithredwr llawn amser ym mis Mehefin 2001 a'i fod wedi dod yn anghysurus ynglŷn â diwylliant y sefydliad.

Astudiaeth Achos 7 - parhad

Nodwyd y cysylltiadau drwy SBREC yn y nodyn briffio a baratowyd gan swyddogion i'r Gweinidog ar gyfer ei gyfarfod â Dr Lloyd. Nododd swyddogion hefyd eu bod yn: '...aware that there are tensions between some of the race equality organisations and they have found it difficult to work with each other and AWEMA. However, AWEMA have delivered successful projects in partnership with other race equality organisations in the past...'. Cyfeiriodd y nodyn brifio at gŵyn a anfonwyd at y cyn-Weinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau (Dr Brian Gibbons) ynglŷn â'r ffaith bod yn rhaid i SBREC gystadlu i sicrhau arian grant gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Nodwyd hefyd fod cais SBREC ei hun am arian am dair blynedd o'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb ar gyfer 2010-11 i 2012-13 gwerth £229,685 wedi bod yn aflwyddiannus.

Astudiaeth Achos 8 - Ym mis Awst 2011, cysylltodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) â WEFO i godi pryderon am y ddau brosiect gan AWEMA o dan Raglen Gydgyfeirio'r UE yr oedd yn ymwneud â hwy. Ymatebodd WEFO i'r pryderon hyn yn ddi-oed gan arwain, dros amser, at adolygiad o'r prosiect Minorities are Wales' Resources gan y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau ar ddechrau mis Rhagfyr 2011. Fodd bynnag, o safbwynt NWREN, roedd sawl un o'r materion a fu'n achos pryder yn dal heb ei ddatrys pan gadarnhaodd Llywodraeth Cymru, ar 9 Chwefror 2012, ei bod yn rhoi terfyn ar ei holl arian i AWEMA. At hynny, ni nododd ymateb WEFO i'r pryderon hyn, ac yn enwedig yr ymweliad arolygu ym mis Rhagfyr 2011, yr amrywiol faterion a nodwyd gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2012 ac mewn adroddiad ar waith arall gan y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau ym mis Mai 2012.

NWREN oedd cyd-noddwr dau o dri phrosiect AWEMA o dan Raglen Gydgyfeirio'r UE: Minorities are Wales' Resources; a Young Black and Minority Ethnic People Aiming High. Ym mis Mehefin 2010, cyn i'r prosiectau hyn gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan WEFO, dywedodd AWEMA wrth NWREN ei bod wedi penderfynu dod yn gyfrifol am reoli'r broses o gyflawni'r ddau brosiect yn y Gogledd, er y byddai'n gwneud hynny o swyddfa NWREN. Dywedodd NWREN wrthym ei fod ers hynny wedi cael anawsterau parhaus ag AWEMA, yn enwedig o ran gallu NWREN i neilltuo arian cyfatebol ar gyfer y prosiect. Cred NWREN mai dim ond ar ôl iddo ddechrau gofyn cwestiynau anodd am gyllid y prosiect y dwysaodd AWEMA bryderon am gyfraniad NWREN. Mae NWREN wedi dweud wrthym iddo gael sicrwydd gan AWEMA y gallai ddod yn gyfrifol am gyflawni'r prosiectau yn y Gogledd unwaith eto os gallai nodi digon o arian cyfatebol. Yn y cyfamser, roedd gan NWREN rôl i'w chwarae o hyd i hyrwyddo'r prosiect, er enghraifft drwy gyfeirio darpar fuddiolwyr.

AWEMA yn hytrach na NWREN a ddygodd yr anawsterau rhwng y ddau sefydliad at sylw WEFO. Ffoniodd Cyfarwyddwr Cyllid AWEMA WEFO ar 8 Gorffennaf 2011 i'w hysbysu y câi rôl NWREN yn y ddau brosiect ei therfynu o bosibl. Cysylltodd yn sgil cyfarfod rhwng AWEMA a NWREN y diwrnod blaenorol. Ni fu Cyfarwyddwr Cyllid AWEMA yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Nid ydym wedi gallu cadarnhau pa gamau, os o gwbl, a gymerodd WEFO o ganlyniad i'r alwad ffôn hon. Ar 1 Awst 2011, ysgrifennodd AWEMA at NWREN yn nodi na fyddai NWREN yn bartner yn y ddau brosiect mwyach.

Ar 9 Awst 2011, cysylltodd NWREN â WEFO ynglŷn â llythyr AWEMA dyddiedig 1 Awst, yn anfon copi o'r llythyr at WEFO y diwrnod wedyn ac yn gofyn i WEFO egluro ei safbwynt ynglŷn ag ymwneud NWREN â'r ddau brosiect. Dywedodd cynghorydd cydraddoldebau WEFO wrth gydweithwyr y byddai rhoi terfyn ar ymwneud NWREN â'r prosiectau yn: 'very worrying as NWREN are a key organisation working in North Wales with black and minority ethnic individuals and groups and have a degree of respect in the field', gan ychwanegu 'I am not sure how the project sponsor [AWEMA] could deliver in the north without NWREN'.

Ar 16 Awst 2011, cyfarfu swyddogion WEFO â NWREN. Yn y cyfarfod hwn, soniodd NWREN yn fanwl am ei bryderon ynglŷn â'r canlynol: y ffordd yr oedd AWEMA wedi defnyddio gwybodaeth ariannol a ddarparwyd gan NWREN; trefniadau llywodraethu'r prosiectau; a rôl NWREN yn y prosiectau ac ymgais AWEMA i roi terfyn ar ymwneud NWREN â'r prosiectau. Honnodd NWREN hefyd, ar 12 Gorffennaf 2011, i AWEMA ofyn iddo lofnodi dwy daflen amser wedi'u diwygio i ddau aelod o staff NWREN, er mwyn dangos prosiect gwahanol, mwy o oriau a chynnwys amser nas treuliwyd ar y prosiect. Rhoddodd NWREN gopïau caled o'r taflenni amser gwreiddiol a gyflwynwyd gan NWREN i AWEMA a'r daflen amser a ddiwygiwyd yn ôl yr honiad i WEFO. Yn ôl NWREN, yn y cyfarfod hwnnw, roedd swyddogion WEFO am drafod yn bennaf sut y câi'r prosiectau eu cyflawni yn erbyn gweithgareddau prosiect y cytunwyd arnynt yn y gogledd ac ymddangosai nad oedd ganddynt ryw lawer o ddiddordeb yn nhrefniadau llywodraethu'r prosiect. Mae WEFO o'r farn mai rôl AWEMA, fel y noddwr arweiniol, oedd rheoli sut y câi'r prosiect ei gyflawni drwy'r partneriaid eraill ac nad rôl WEFO oedd micro-reoli'r trefniadau hyn.

Wrth baratoi ar gyfer ei chyfarfod â NWREN, roedd WEFO wedi nodi nad oedd y naill brosiect na'r llall wedi nodi unrhyw gyfranogwyr yn y Gogledd tan hynny. Dywedodd NWREN wrth WEFO, hyd y gwyddai, nad oedd fawr ddim wedi'i gyflawni yn y Gogledd hyd hynny ar gyfer y naill brosiect na'r llall. Yn dilyn y cyfarfod a NWREN, gwnaeth WEFO y canlynol:

- adolygu'r ddogfennaeth ategol ar gyfer y prosiectau;
- cytuno i gyfarfod ag AWEMA (ar 9 Medi) i drafod y pryderon a godwyd;
- anfon copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno rhwng AWEMA a NWREN at NWREN gan ofyn i NWREN ystyried y ddogfen, ac yn benodol, yr amodau a oedd yn ymwneud â llywodraethu'r prosiectau;
- cynnal adolygiad cychwynnol o'r honiadau a wnaed mewn perthynas â chyllid, yn enwedig o ran taflenni amser.

## Astudiaeth Achos 8 - parhad

Yn ôl yr adolygiad cychwynnol o'r wybodaeth ariannol roedd AWEMA wedi hawlio am yr oriau yr honnwyd eu bod yn anghywir. Wedi hynny tynnodd AWEMA bob hawliad yn ôl mewn perthynas â gweithgarwch gan NWREN ar gyfer y cyfnod o fis Mehefin i fis Awst 2011. Adolygodd WEFO adroddiad gan archwilydd AWEMA o ran costau NWREN a'r rhesymau pam y cawsant eu tynnu'n ôl. Y rheswm a roddwyd oedd cyfrif dwbl. Fodd bynnag, roedd Tîm Taliadau WEFO o'r farn na allai hyn fod yn wir am yr holl gostau. Felly ffoniodd WEFO Gyfarwyddwr Cyllid AWEMA (ar 26 Awst 2011) i gael rhagor o fanylion ynglŷn â pham roedd costau NWREN wedi cael eu dileu. Yn ôl cofnod WEFO o'r sgwrs hon, dywedodd wrth WEFO nad oedd digon o lwybr archwilio ar gyfer y costau a bod 'some delivery and finance issues with NWREN' yr oedd AWEMA yn ceisio eu datrys.

Ar 6 Medi 2011, yng ngoleuni'r pryderon o hyd ynglŷn â'r wybodaeth ariannol, penderfynodd WEFO drefnu ymweliad arolygu. Trefnwyd i'r ymweliad hwn gael ei gynnal ar 6 a 7 Rhagfyr 2011 a dim ond ar y prosiect Minorities are Wales' Resources y bu'n canolbwyntio. Mae WEFO wedi dweud wrthym bod dyddiadau'r ymweliad yn adlewyrchu'r ffaith iddi ystyried ei fod yn ymweliad 'arferol' ac felly nad oedd yn cael blaenoriaeth dros waith arfaethedig arall. Mae WEFO hefyd wedi dweud wrthym iddi ganolbwyntio ar y prosiect Minorities are Wales' Resources gan fod yr honiad ynglŷn â'r daflen waith ddiwygiedig yn ymwneud â'r prosiect hwnnw yn unig. Yn ein barn ni, roedd digon o sail i WEFO ymestyn cwmpas yr ymweliad i'r ddau brosiect yr oedd NWREN yn rhan ohonynt.

Yn y cyfarfod ar 9 Medi 2011, cafodd AWEMA ei gyfarwyddo gan WEFO na ellid tynnu NWREN o'r prosiect ac y byddai'n ofynnol i AWEMA roi cadarnhad ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw i NWREN. Fodd bynnag, ni chafodd NWREN wybod am hyn nes iddo gael e-bost gan bennaeth cangen Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar 7 Hydref 2011. Dim ond ar 1 Tachwedd 2011 y derbyniodd NWREN lythyr gan AWEMA i'r perwyl hwn. Yn y cyfamser, ar ôl ystyried y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a anfonwyd gan WEFO ar 17 Awst 2011, cododd NWREN nifer o bryderon eraill gyda WEFO ar 27 Medi 2011. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys y canlynol:

- roedd AWEMA wedi newid y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ôl iddo gael ei lofnodi gan NWREN;
- roedd diffyg eglurder p'un a oedd yr holl gyd-noddwyr wedi llofnodi'r un Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth;
- y ffaith nad oedd AWEMA wedi sefydlu pwyllgor llywio, fel y'i nodwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (neu os cafodd ei sefydlu, mae'n rhaid felly bod AWEMA wedi methu â chynnwys NWREN mewn unrhyw gyfarfodydd yn fwriadol);
- nid oedd y seiliau a roddwyd gan AWEMA am dynnu NWREN o'r bartneriaeth yn adlewyrchu'r amodau terfynu, fel y'u nodwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Yn ei e-bost ar 7 Hydref 2011, dywedodd Pennaeth cangen Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd WEFO wrth NWREN y byddai'n ei helpu i sicrhau bod cyfarfodydd o'r pwyllgor llywio yn cael eu cynnal, ond bod angen hefyd i'r cyd-noddwyr gytuno pwy oedd yn gyfrifol am gyflawni gwahanol agweddau ar y prosiectau mewn ymgynghoriad â'r prif noddwr a'r cyd-noddwyr eraill.

Ar 24 Hydref 2011, ysgrifennodd NWREN at WEFO yn nodi bod problemau o hyd, ym marn NWREN. Roedd y rhain yn ymwneud yn benodol â'r canlynol: y taflenni amser; y newidiadau honedig i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth; trefniadau llywodraethu cyffredinol y prosiect a olygai mai'r unig lwybr adrodd at Fwrdd AWEMA oedd drwy Brif Weithredwr AWEMA; a mynediad cyfyngedig ymddangosiadol y partneriaid at wybodaeth sylfaenol am y prosiect, megis cynlluniau busnes. Ni dderbyniodd NWREN ymateb gan WEFO i'r llythyr hwnnw.

Cynhaliodd Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO ei arolygiad o'r prosiect Minorities are Wales' Resources ar 6 a 7 Rhagfyr. Nid yw'r adroddiad hwn ar y gwaith hwnnw yn gwneud unrhyw gyfeiriad penodol at honiadau NWREN, a fu'n sbardun i'r arolygiad. Fodd bynnag, dywedodd Pennaeth y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau wrthym fod aelodau o'r tîm wedi siarad ag AWEMA am y materion a gododd NWREN gyda WEFO. Mae'r adroddiad drafft ar y gwaith hwn hefyd yn dangos i'r Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau weithredu ar rai o'r materion a fu'n achos pryder. Er enghraifft gwnaeth y tîm:

- ofyn i AWEMA roi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yr oedd wedi'i lofnodi â phob un o bartneriaid y prosiect iddo;
- trafod a gofyn am dystiolaeth ychwanegol mewn perthynas â strwythur adrodd y prosiect;
- profi samplau o daflenni amser a'r costau a ddyrannwyd i'r prosiect;
- edrych ar dystiolaeth o'r arian cyfatebol gan Gyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd, sef un o bartneriaid eraill y prosiect (roedd hyn yn cynnwys ymweliad â Chyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd).

## Astudiaeth Achos 8 - parhad

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod prosesau AWEMA ar gyfer rheoli'r prosiect a monitro a rheoli cyllid y prosiect mewn trefn i raddau helaeth. Roedd y camau unioni a gynigiwyd yn rhai bach. Nododd y tîm un eitem o wariant anghymwys gwerth £113, mewn perthynas â chyfraniad pensiwn, a symiau bach o wariant anghymwys ar dŵr, llaeth, coffi a phapurau newydd i'r swyddfa. Nododd yr adroddiad hefyd fod angen i AWEMA ddiweddaru ei pholisi cadw dogfennau yn unol â gofynion WEFO a gwneud rhai newidiadau i eiriad y llythyrau i gadarnhau arian cyfatebol a ddefnyddir gan ei phartneriaid.

Cyfyd rhai pryderon amlwg ynglŷn â chadernid y gwaith a wnaed ym mis Rhagfyr 2011 gan y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau. Yn gyson â'i gylch gwaith arferol, nid ystyriodd gwaith y tîm hyfywedd ariannol cyffredinol AWEMA. Fodd bynnag o fewn cwmpas gwaith y tîm, oherwydd gwendidau yn y broses adolygu, methodd WEFO â nodi problemau o ran cofnodion ariannol, gwariant anghymwys a choladu data ar fuddiolwyr sydd wedi dod i'r amlwg ers hynny drwy waith Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru (paragraff crynodeb 3) a gwaith pellach gan y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau ei hun (paragraffau 2.114 i 2.121). Erys yr adroddiad ar yr arolygiad ym mis Rhagfyr 2011 ar ffurf drafft. O dan ei gweithdrefnau mae'n rhaid i WEFO gyflwyno'r adroddiad i noddwr y prosiect (ac mae AWEMA wedi peidio â gweithredu ers hynny). At hynny, dywedodd Pennaeth y Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau wrthym i'r adroddiad gael ei ddisodli gan waith mwy diweddar y tîm.

# Atodiad 4 – Arian cyhoeddus arall i AWEMA

Lle rydym wedi llwyddo i gadarnhau'r swm o arian a roddwyd gan gyrff ariannu cyhoeddus eraill a/neu'i ddiben, nid yw'r adborth a gawsom, ac eithrio £5,000 o arian Awards for All gan y Gronfa Loteri Fawr, wedi codi unrhyw bryderon penodol am werth am arian. Ac nid yw ychwaith wedi dod i hyd i unrhyw enghreifftiau o bryderon penodol yn cael eu codi gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r symiau o arian a nodwyd yn seiliedig ar wybodaeth a ddaw o ddatganiadau ariannol AWEMA ac, mewn rhai achosion ond nid pob un, maent wedi'u cadarnhau gan y cyrff ariannu dan sylw. Nodwn hefyd enghreifftiau o geisiadau am arian arall a wrthodwyd gan yr arianwyr hyn, neu geisiadau am brosiectau tebyg a wrthodwyd gan arianwyr eraill.

**Y Swyddfa Gartref**

**Cyfnod - 2000-01 i 2003-04**

**£345,735**

**Diben**

Ym mis Mai 2000, lansiodd y Swyddfa Gartref ei chynllun Connecting Communities. Lansiwyd y cynllun hwn yn sgil Adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence (Adroddiad MacPherson) yn 1999 a bu'n rhan o ymdrech ehangach i ddangos ymrwymiad Llywodraeth y DU i'r agenda cydraddoldeb hiliol. Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ym mis Hydref 2000 fod AWEMA yn un o nifer o sefydliadau yng Nghymru a oedd wedi cyflwyno ceisiadau llwyddiannus am arian a'i bod yn cynnig arian grant gwerth £283,654 (ar gyfer gweddill 2000-01, 2001-02 a 2002-03).

Yn ei chais am arian nododd mai nodau ei phrosiect oedd: datblygu cronfa ddata o anghenion sefydliadol; galluogi grwpiau sy'n aelodau i baratoi ceisiadau am arian; sicrhau bod mwy o arian ar gael ar gyfer sefydliadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig; gwella gallu sefydliadau i ymgymryd â gwaith cynllunio ariannol strategol rhagweithiol; datblygu'r dull o ymgynghori, llunio strategaeth gyfathrebu i hysbysu rhanddeiliaid allweddol; cynnal archwiliadau rheoli ac archwiliadau o systemau sefydliadau sy'n aelodau; datblygu a chyflawni rhaglen hyfforddiant rheolwyr gweithredol i feithrin effeithiolrwydd rheoli aelodau. Roedd cais AWEMA yn awgrymu y byddai'r arian yn helpu i gyflogi swyddog datblygu cronfa, swyddog cyfathrebu a swyddog meithrin gallu. Credwn, ar ôl i'r cais gwreiddiol gael ei gyflwyno, fod trafodaethau pellach â'r Swyddfa Gartref a chaniatawyd i AWEMA newid y defnydd o'i arian, yn benodol i helpu i gyflogi Cyfarwyddwr (ymgymerodd Mr Naz Malik â'r swydd honno ar sail dros dro ym mis Ebrill 2001 ac ar sail barhaol ym mis Mehefin 2001). Yno cafodd cyflogau ar gyfer swyddog meithrin gallu a swyddog cyfathrebu eu cynnwys ar wahân yn yr arian prosiect Meithrin Gallu a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2001 (Atodiad 2).

Nid ydym wedi llwyddo i gael unrhyw gofnodion mewn perthynas ag arian y Swyddfa Gartref gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, dengys gwybodaeth yn natganiadau ariannol AWEMA fod y Swyddfa Gartref wedi rhoi incwm o £345,735 i gyd. Yn ôl cofnodion a roddwyd i ni gan aelod o staff yr uned cydraddoldebau (nas gwelwyd ar ffeiliau cofnodedig), ym mis Chwefror 2003, ysgrifennodd y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Carwyn Jones) at Ysgrifennydd Gwladol y DU ar y pryd i gefnogi parhad y cyllid mewn egwyddor. Nododd y Gweinidog fod AWEMA wedi cael arian craidd am gostau swyddfeydd a staff a bod y sefydliad wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ymgynghori, cyfranogi a chyfathrebu rhwng cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Rhoddodd y Swyddfa Gartref gadarnhad i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2003 y byddai'n ymestyn y cyllid tan 30 Medi 2003. Ar ôl hynny gallai AWEMA wneud cais arall am y cylch nesaf o'r arian hwn. Rydym ar ddeall i AWEMA wneud cais arall am tua £960,000. Yn ôl y cofnodion a roddwyd i ni, ym mis Medi 2003, roedd y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Edwina Hart) wedi gofyn am gyngor ynglŷn ag ymwneud swyddogion o uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru â'r broses gwneud penderfyniadau. Ymddengys bod hyn wedi dilyn gohebiaeth gan y Swyddfa Gartref a gyfeiriodd at ymwneud Llywodraeth Cymru â'r broses. Awgryma'r cofnodion hyn hefyd fod Mr Malik wedi mynegi pryder i'r Swyddfa Gartref ar ôl i'r Swyddfa Gartref benderfynu peidio â chefnogi cais AWEMA, yr oedd cyfanswm gwerth y cais hwnnw yn fwy na chyfanswm gwerth y grantiau a oedd yn cael eu cynnig i sefydliadau yng Nghymru yn y cylch cyntaf o Connecting Communities. Ymddengys bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi hysbysu'r Gweinidog, er iddynt gael gwahoddiad i roi adborth ar y ceisiadau, nad oedd eu sylwadau wedi cymeradwyo cais AWEMA. Hefyd roeddent wedi hysbysu'r Swyddfa Gartref bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o weithdrefnau ariannol AWEMA, a bod y gwaith hwn, er iddo awgrymu gwelliannau, wedi rhoi sêl bendith i AWEMA (Atodiad 3, Astudiaeth Achos 2). Mewn ymateb i gwestiynau gan y Swyddfa Gartref, ymddengys hefyd i swyddogion Llywodraeth Cymru nodi y byddai AWEMA yn debygol o herio'r penderfyniad yn chwyrn pe bai'n aflwyddiannus.

### Awdurdod Iechyd Bro Taf

**Cyfnod - 2000-01 i 2002-03**

**£44,748**

**Diben**

Rydym wedi seilio'r ffigur o £44,748 ar wybodaeth yn natganiadau ariannol AWEMA. Credwn fod yr arian hwn yn gysylltiedig â gwaith dau gynghorydd cydraddoldeb hiliol y GIG a oedd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru ac wedi'u lleoli yn swyddfeydd AWEMA. Rydym wedi siarad ag un o'r ddau gynghorydd GIG ar gydraddoldeb hiliol a ddywedodd wrthym fod ganddynt gontract cyflogaeth ag Awdurdod Iechyd Bro Taf ac nid AWEMA. Fodd bynnag, awgryma anfonebau a welsom ar ffeiliau Llywodraeth Cymru mai cyfraniadau tuag at orbenion cyffredinol AWEMA a'r costau ychwanegol yr aeth AWEMA iddynt er mwyn parhau â gwaith y cynghorydd cydraddoldeb hiliol ym maes gofal eilaidd a adawodd ei swydd cyn amser oedd y taliadau hyn i AWEMA. Credwn fod Awdurdod Iechyd Bro Taf yn gweithredu fel tâl-feistr am yr hyn a oedd, mewn gwirionedd, yn fenter a noddwyd gan Lywodraeth Cymru, gan adlewyrchu'r ffaith bod yr awdurdod iechyd yn cynnal Canolfan y GIG dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol.

### Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd

**Cyfnod - 2001-02**

**£5,565**

**Diben**

Credwn fod y taliad hwn yn ymwneud â rhan AWEMA mewn prosiect a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried dichonoldeb sefydlu cymdeithas dai ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd a arweiniodd y prosiect ond roedd AWEMA yn un o nifer o bartneriaid yn y prosiect. Y prosiect hwn a osododd y sylfeini ar gyfer creu 'Tai Pawb' (Atodiad 2).

### [Hen] Fwrdd Prawf De Cymru

**Cyfnod - 2002-03**

**£4,750**

**Diben**

Rydym wedi cael cadarnhad gan Ymddiriedolaeth Brawf Cymru i AWEMA dderbyn yr incwm hwn o hen Fwrdd Prawf De Cymru. O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio a'r ffaith i'r pedwar hen fwrdd prawf gael eu had-drefnu yng Nghymru i greu Ymddiriedolaeth Brawf Cymru nid ydym wedi gallu cadarnhau unrhyw fanylion ynglŷn â'r gwaith a gefnogwyd gan yr arian hwn.

**Learndirect Cymru**

**Cyfnod - 2002-03 i 2004-05**

**£29,356**

**Diben**

Rhoddodd Learndirect Cymru gymorth i gyflogi dau gydgysylltydd rhan amser ar gyfer sgiliau sylfaenol a 'Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill' wedi'u lleoli yn swyddfeydd AWEMA.

Roedd y cydgysylltwyr yn rheoli gweithgareddau sgiliau sylfaenol yn ardal Caerdydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Learndirect ymhlith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ardal Caerdydd a helpu i'w darparu. Roedd y cydgysylltwyr hefyd yn cefnogi gwaith UFI Cymru o ran hyrwyddo sgiliau sylfaenol yn Abertawe, sir Benfro a thrwy weithio gyda Gyrfa Cymru. Hefyd, datblygodd y cydgysylltwyr gysylltiadau â phrosiectau cymorth cenedlaethol a oedd yn cael eu rhedeg gan Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru.

Ymddengys bod Learndirect Cymru yn fodlon ar yr hyn a ddeilliodd o'i arian a'i fod wedi ystyried cyfleoedd ar gyfer gwaith prosiect arall ar y cyd ag AWEMA. Parhawyd i gyflawni gwaith a oedd yn debyg i agweddau ar y gweithgarwch drwy'r arian hwn fel rhan o brosiect Curiad Calon Cymru AWEMA a ariannwyd gan WEFO.

**Connections for Development**

**Cyfnod - 2004-05**

**£15,814**

**Diben**

Ffurfiwyd Connections for Development yn 2003 fel rhwydwaith aelodau o gymdeithas sifil pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Cafodd y rhwydwaith gymorth ariannol drwy 'Gytundeb Grant Strategol' gan Adran Datblygu Rhyngwladol Llywodraeth y DU. Bu AWEMA yn aelod o'r rhwydwaith ac, rhwng mis Rhagfyr 2003 a mis Mai 2005, roedd Mr Malik wedi'i gofrestru'n un o gyfarwyddwyr cwmni Connections for Development. Nid ydym wedi gallu cael cadarnhad gan Connections for Development beth oedd union ddiben yr arian hwn i AWEMA ond rydym yn ymwybodol i Connections for Development gynnal cynhadledd yng Nghaerdydd, ym mis Tachwedd 2004, gyda chymorth AWEMA.

**Cronfa Dreftadaeth y Loteri**

**Cyfnod - 2007-08 i 2009-10**

**£24,900**

**Diben**

Cefnogodd yr arian hwn brosiect 'Mwana Watu Kwa Abertawe' AWEMA. Nod y prosiect oedd rhoi cyfle i bobl ifanc yn Abertawe ddysgu mwy am eu treftadaeth ddiwylliannol a dathlu amrywiaeth amlddiwylliannol yn y ddinas.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi dweud wrthym ei bod yn fodlon i'r arian gael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd a bod allbynnau a chanlyniadau'r prosiect yn dderbyniol. Roedd angen ychydig o gymorth ar AWEMA i nodi gwariant yn gywir, credid mai mân faterion oedd y rhain, a gafodd eu datrys yn foddhaol. Am eu bod wedi symud i swyddfa dros dro, nid oedd staff Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn gallu cael gafael ar eu cofnodion archif copi caled i gadarnhau unrhyw fanylion eraill, er enghraifft ar sail adroddiadau prosiect.

**Y Gronfa Loteri Fawr**[1]

**Cyfnod - 2007-08**

**£5,000**

**Diben**

Yn gysylltiedig â phrosiect Curiad Calon Cymru AWEMA a ariannwyd gan WEFO, roedd yr arian hwn a roddwyd o dan 'Awards for All' yn cefnogi'r broses o gyhoeddi gwaith a luniwyd gan bobl ifanc mewn gweithdai barddoni a chynnal digwyddiad i arddangos y gwaith. Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi nodi i'r prosiect fynd rhagddo yn ôl y bwriad ac i 200 o gopïau o'r llyfr gael eu cyhoeddi. Er bod costau cyhoeddi'r llyfr a chynnal y digwyddiad lledaenu yn uwch na'r disgwyl, roedd cyfraniad y Gronfa Loteri Fawr fel y'i rhagwelwyd yn wreiddiol. Rydym ar ddeall i gopi o'r llyfr gael ei anfon at bob Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol yng Nghymru[2].

**Cyfnod - 2010-11**

**£3,980**

**Diben**

Rhoddwyd yr arian hwn o dan 'Awards for All' ar gyfer prosiect o'r enw 'Giving Black and Minority Ethnic Elders a Voice' a oedd yn cynnwys cyfres o weithdai ymgynghori i helpu AWEMA i ddatblygu gwasanaethau oedd yn diwallu anghenion pobl hŷn o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig ar y pryd ac yn y dyfodol. Roedd AWEMA wedi gofyn am £5,000 ond dyfarnwyd £3,980 ar ôl i gostau lluniaeth y gweithdai hyn gael eu lleihau. Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cadarnhau i'r prosiect fynd rhagddo yn ôl y bwriad, ac i AWEMA gyflwyno dadansoddiad llawn o wariant, wedi'i ategu gan anfonebau.

**Cyfnod - 2011-12**

**£5,000**

**Diben**

Rhoddwyd yr arian hwn o dan 'Awards for All' ar gyfer prosiect gyda'r nod o ymgymryd â gwaith ymchwil ar sail Cymru gyfan i ddatblygu strategaeth yn nodi anghenion pobl ifanc yn ystod cyfnod pontio a meithrin gallu i sicrhau ymgysylltu â'r gwaith o gynllunio a rhedeg gwasanaethau. Roedd y swm llawn eisoes wedi'i dalu, ond nid oedd y Gronfa Loteri Fawr wedi derbyn adroddiad diwedd y prosiect pan ddaeth pryderon ynglŷn ag AWEMA i'r golwg ym mis Rhagfyr 2011. Er bod y Gronfa Loteri Fawr wedi cael rhywfaint o dystiolaeth o wariant cysylltiedig, mae wedi dod i'r casgliad bod y dystiolaeth yma yn anghyflawn. O ganlyniad i hynny, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi gwneud cais am ad-daliad fel rhan o broses ddiddymu AWEMA.

**Cyfnod - 2011-12 i 2014-15**

**£517,647 *(neilltuwyd)* £4,000 *(talwyd)***

**Diben**

Rhoddwyd yr arian hwn o dan raglen 'AdvantAGE' ar gyfer prosiect pedair blynedd i helpu pobl hŷn o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig i gael gafael ar wasanaethau yn eu hardal leol yn haws drwy ddarparu gwasanaeth eirioli i'w ddarparu gan eiriolwyr gwirfoddol hyfforddedig. Cymeradwywyd y prosiect ym mis Mawrth 2011. Cyn penderfynu terfynu ei arian ym mis Chwefror 2012, dim ond £4,000 o'r arian hwn a oedd wedi'i dalu gan y Gronfa Loteri Fawr i AWEMA. Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cadarnhau ei bod yn fodlon bod y swm hwn o £4,000 wedi'i wario'n briodol ac nad yw'n gofyn am ad-daliad fel rhan o broses ddiddymu AWEMA.

**Y Brifysgol Agored**

**Cyfnod - 2008-09**

**£6,030**

**Diben**

Mae'r Brifysgol Agored (Cymru) wedi rhoi cadarnhad i ni fod y taliad hwn yn ymwneud â pharatoi adroddiad ar ymgysylltu pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig â'r Brifysgol Agored a'r rhwystrau a wynebwyd o ran dilyn cyrsiau dysgu gydol oes.

**Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

**Cyfnod - 2008-09 i 2009-10**

**£35,000**

**Diben**

Darparwyd yr arian hwn fel rhan o Raglen Ariannu Interim y comisiwn. Y canlyniadau a fwriadwyd oedd: sicrhau bod gwasanaethau a chyfleoedd i gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig yn deg, diwallu eu hanghenion, parchu eu hunaniaeth ddiwylliannol a chynnig dewis; a sicrhau bod sefydliadau perthnasol yn amlwg yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol er budd cyflogeion sy'n fudwyr Ewropeaidd a bod sefydliadau yn sylweddoli buddiannau economaidd gweithredu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn effeithiol.

Roedd y gweithgareddau a gynhaliwyd drwy brosiect AWEMA, y '10/60 Human Rights Partnership', yn cynnwys: creu partneriaeth/grŵp llywio ar hawliau dynol; adolygiadau o lenyddiaeth; ymarfer dadansoddi anghenion; cynhyrchu poster ar gyfer y canllaw i arfer da a DVD rhagweithiol; gweithdy cynllunio gwasanaethau yn y Gogledd; datblygu system o gyfeirio pobl at ddarparwyr gwasanaeth priodol; hyfforddiant a gweithdai codi ymwybyddiaeth; adroddiad gwerthuso'r prosiect; a digwyddiad ymgynghori ar ddiwedd y prosiect i lansio'r canllaw i arfer da. Nododd AWEMA fod y prosiect wedi ymgysylltu â thua 140 o bobl, yr oedd 110 ohonynt wedi cymryd rhan weithredol ynddo.

Mae'r comisiwn wedi nodi, ar ôl iddo ystyried adroddiad diwedd proisect AWEMA a dogfennaeth ategol berthnasol, ei fod yn fodlon a'i fod wedi rhyddhau'r rhandaliad terfynol o 10 y cant o gyfanswm yr arian a neilltuwyd ganddo.

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

**Cyfnod - 2008-09**

**£5,000**

**Diben**

Fel rhan o'i ymwneud â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, roedd CGGC yn rheoli'r broses o ddosbarthu Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf[3] ar ran Llywodraeth Cymru. Mae CGGC wedi esbonio i'r taliad hwn o'r gronfa gefnogi'r gwaith o ddatblygu Cymdeithas Menywod De Asiaidd (SAWA) yng Nghaerdydd ond bod yr arian wedi'i ddarparu drwy AWEMA gan nad oedd SAWA wedi'i sefydlu'n ffurfiol ar y pryd. Rhoddodd CGGC lefel debyg o gymorth o'r gronfa yn uniongyrchol i SAWA yn 2009-10 a 2011-12. Mae CGGC wedi dweud nad oes ganddo unrhyw reswm dros gredu nad oedd yr arian wedi'i ddefnyddio at y diben a fwriadwyd.

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru - parhad**

**Cyfnod - 2010-11 i 2011-12**

**£86,468**

**Diben**

Gweithredai Cronfa Swyddi'r Dyfodol, o dan arweiniad Adran Gwaith a Phensiynau'r DU rhwng mis Hydref 2009 a mis Mawrth 2011. Y nod oedd helpu i greu swyddi, a oedd yn para hyd at chwe mis, i geiswyr swydd ifanc a cheiswyr swydd hŷn o dan anfantais. Roedd yr arian yn cael ei ddosbarthu drwy 'gyrff atebol arweiniol', a oedd wedyn yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â sut i wario'r arian hwnnw. Roedd yr arian a ddarparwyd drwy CGGC yn cefnogi tua 2,500 o swyddi ledled Cymru gan gynnwys cymorth i 16 o swyddi yn AWEMA.

Hysbysebwyd y swyddi drwy'r Ganolfan Byd Gwaith yn Abertawe. Roedd pedair o'r swyddi, a ddechreuodd ym mis Chwefror 2011, yn swyddi rhan amser (25 awr yr wythnos) ar gyfer cynorthwywyr cynnal a chadw eiddo. Hysbysebwyd mai prif ddyletswyddau'r rolau hyn oedd peintio ac addurno, gwaith cynnal a chadw cyffredinol, glanhau'r swyddfa, hylendid y gegin a thoiledau a gofalu am amgylchedd y swyddfa. Roedd y 12 o swyddi eraill ar gyfer cynorthwywyr swyddfa a oedd yn cael eu cyflogi am 25 neu 30 awr yr wythnos. Nid oedd yr hysbysebion swydd yn nodi'r tasgau penodol i'w gwneud ond cyfeiriwyd at: 'Must have reasonable reading and writing abilities, some knowledge of computers and word processing advantageous. Full training and supervision provided in improving computer and office skills.' Llenwodd AWEMA y swyddi hyn ar sail darwahanu rhwng mis Hydref 2010 a mis Chwefror 2011.

Mae CGGC wedi dweud wrthym nad oedd yn ymwybodol o unrhyw broblemau penodol o ran y deiliaid swydd hyn ar y pryd. Ers mis Rhagfyr 2011, mae rhai o'r deiliaid swydd wedi nodi'n gyhoeddus bryderon am y ffordd y cawsant eu trin tra roeddent yn gweithio i AWEMA.

Nodiadau

1 Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi rhoi gwybodaeth am sawl cais arall am gymorth ariannol gan AWEMA a wrthodwyd, neu nad aeth yn ei flaen i gael ei arfarnu'n ffurfiol. Roedd y rhain yn cynnwys:


- cais am £468,627, a wrthodwyd ym mis Ebrill 2011, ar gyfer prosiect pum mlynedd i wella lles corfforol a meddyliol mewnfudwyr;
- cais am £999,860, a wrthodwyd ym mis Mawrth 2011, ar gyfer prosiect pedair blynedd i alluogi pobl o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru i fod yn llai unig a llai ynysig yn gymdeithasol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau yn eu cymunedau lleol a thu hwnt;
- cais am £450,000, ym mis Ebrill 2010, i adnewyddu safle'r YMCA yn Abertawe i'w ddefnyddio fel swyddfa a chanolfan gymunedol amlddiwylliannol. Ni chyflwynodd AWEMA y cais ar y cam cais llawn (paragraffau 1.25 i 1.26);
- cais am £305,000, dros dair blynedd, i gyflogi Cydgysylltydd Gwirfoddol, Swyddog Cyhoeddusrwydd a Chyfathrebu, a Chynorthwyydd Cyllid a hefyd i gyfrannu tuag at gostau rheoli a gorbenion eraill (nid aeth y cais hwn yn ei flaen i'r cam cais llawn gan fod y Gronfa Loteri Fawr wedi cadarnhau ym mis Mai 2010 fod y telerau y tu allan i'w pholisi ariannu)
- cais am £5,000, a wrthodwyd ym mis Medi 2009, i ariannu'n rhannol gyhoeddiad i ddathlu deng mlwyddiant;
- cais am £981,596, a wrthodwyd ym mis Mehefin 2009, i sefydlu canolfan gymunedol a menter amlddiwylliannol yng Nghaerdydd (paragraff 1.24);
- cais am £4,985, a wrthodwyd ym mis Tachwedd 2008, i gefnog cwrs hyfforddi staff PRINCE2;
- cais am £4,947 tuag at gostau a oedd yn gysylltiedig â chynnal stondin yn yr Eisteddfod i hyrwyddo treftadaeth amlddiwylliannol Abertawe, a wrthodwyd ym mis Mehefin 2006 am fod yr Eisteddfod eisoes wedi'i chynnal.


2 Ym mis Gorffennaf 2008, gwrthododd Cyngor Celfyddydau Cymru gais am £24,769 gan AWEMA i helpu i drefnu cyfres o weithdai barddoni mewn pedair ysgol yng Nghaerdydd a phedair ysgol yn Abertawe. Gwrthodwyd y cais gan Gyngor y Celfyddydau am y rhesymau canlynol: nid oedd y wybodaeth ariannol a gyflwynwyd yn bodloni ei ofynion o ran dangos hyfywedd ariannol y sefydliad (roedd y dystiolaeth bod incwm AWEMA yn crebachu yn 2008-09 yn achos pryder i Gyngor y Celfyddydau); nid oedd yn argyhoeddedig ynglŷn â'r dystiolaeth am y galw am y prosiect fel y'i cyflwynwyd gan AWEMA; roedd cyllideb arfaethedig y prosiect yn cynnwys rhai costau anghymwys.

3 Dengys datganiadau ariannol AWEMA i AWEMA dderbyn £6,100 yn 2004-05 gan Gymdeithas Menywod ac Ieuenctid Somaliaid Caerdydd. Dywedwyd bod yr incwm hwn yn ymwneud ag arian a dderbyniodd Cymdeithas Menywod ac Ieuenctid Somaliaid Caerdydd o Gronfa Ymddiriedaeth Cymunedau yn Gyntaf. Dengys datganiadau ariannol AWEMA fod yr incwm hwn yn ymwneud â chymorth i ddatblygu clwb gwaith cartref.

*Ffynhonnell: Tystiolaeth a roddwyd gan sefydliadau ariannu, cyfweliadau â staff cyfredol/cyn-staff AWEMA a swyddogion Llywodraeth Cymru, cofnodion ffeiliau Llywodraeth Cymru a datganiadau ariannol AWEMA.*

# Atodiad 5 – Llinell amser o gyfrifoldebau Gweinidogol perthnasol Llywodraeth Cymru






Mae'r diagram yma yn nodi cyfrifoldebau Gweinidogol perthnasol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r portffolios polisi sydd wedi rhoi cymorth ariannol i AWEMA ers creu'r Cynulliad Cenedlaethol. Rydym hefyd yn cynnwys yma gyfrifoldebau'r Prif Ysgrifennydd/Prif Weinidog a'r Gweinidogion a oedd yn gyfrifol am gyllid, er nad oedd y Gweinidogion hyn wedi ymwneud yn uniongyrchol â phenderfyniadau ariannu penodol o reidrwydd.

Noder

Nid ydym wedi llwyddo i gadarnhau pryd yn union y trosglwyddodd Llywodraeth Cymru y cyfrifoldeb am y portffolio cydraddoldebau rhwng Jane Hutt AC ac Edwina Hart AC yn 1999-00. Credwn i'r cyfrifoldeb gael ei drosglwyddo rywbryd rhwng 9 Chwefror 2000 a 8 Mawrth 2000.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.*